

Cofnod y Trafodion

The Record of Proceedings

08/07/2014

Cynnwys Contents

[Cwestiwn Brys: Cabinet Llywodraeth Cymru](#)
[Urgent Question: The Welsh Government Cabinet](#)

[Cwestiynau i'r Prif Weinidog](#)
[Questions to the First Minister](#)

[Datganiad a Chyhoeddiad Busnes](#)
[Business Statement and Announcement](#)

[Datganiad: Cyflwyno Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\)](#)
[Statement: Introduction of the Well-being of Future Generations \(Wales\) Bill](#)

[Datganiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Comisiwn Williams](#)
[Statement: The Welsh Government Response to the Williams Commission Report](#)

[Datganiad: Y Papur Gwyn Llywodraeth Leol](#)
[Statement: The Local Government White Paper](#)

[Datganiad: Y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020](#)
[Statement: The Rural Development Programme 2014-2020](#)

[Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ynghylch y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd](#)
[Legislative Consent Motion on the Criminal Justice and Courts Bill](#)

[Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus \(Diddymu Bwyd o Brydain\) 2014](#)
[The Public Bodies \(Abolition of Food from Britain\) Order 2014](#)

[Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i Gymeradwyo'r Bil Tai \(Cymru\)](#)
[Stage 4 Standing Order 26.47 Motion to Approve the Housing \(Wales\) Bill](#)

[Cyfnod Pleidleisio](#)
[Voting Time](#)

Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (Y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.

The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.

- | | | | |
|-------|---|---|---|
| 13:30 | Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography
Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session. | Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru. | Senedd.tv
Fideo Video |
| 13:30 | Cwestiwn Brys: Cabinet Llywodraeth Cymru
Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography
I have accepted an urgent question under Standing Order 12.66. I call on Andrew R.T. Davies to ask the question. | Urgent Question: The Welsh Government Cabinet
Rwyf wedi derbyn cwestiwn brys dan Reol Sefydlog 12.66. Galwaf ar Andrew R.T. Davies i ofyn y cwestiwn. | Y Senedd.tv
Fideo Video |
| 13:30 | Andrew R.T. Davies Bywgraffiad Biography
<i>A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ymadawiad y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd o'r Cabinet? EAQ(4)1795(FM)</i> | <i>Will the First Minister make a statement on the exit of the Minister for Natural Resources and Food from the Cabinet? EAQ(4)1795(FM)</i> | Senedd.tv
Fideo Video |
| 13:30 | Carwyn Jones Bywgraffiad Biography
<i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i>
Such a statement was provided some hours ago, Llywydd. | Darparwyd datganiad o'r fath rai oriau yn ôl, Lywydd. | Senedd.tv
Fideo Video |

13:30

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

That was a very short answer indeed, First Minister. I think that it is worth while recapping on this particular Minister. This time last week, he was confirmed as breaking the ministerial code. The First Minister said that himself but chose not to sack him. Then, not even a day later, the Minister was seeking to break it again by asking for personal details of five members of this Chamber, including me. He was warned by his private secretary that it was wrong, and yet he verbally asked again for that information. Is this not the sort of practice that Damian McBride would be very proud of, First Minister? Can you confirm this afternoon that this is not normal practice within the Welsh Government by other Ministers, and, ultimately, can you confirm, First Minister, to give the public confidence that such practices do not exist across the rest of your Government, that you will instigate an independent inquiry so that we can have the confidence that there is not widespread malpractice and that these are the actions of an individual Minister who has been removed from your Government?

Roedd hwnna'n ateb byr iawn yn wir, Brif Weinidog. Rwy'n meddwl ei bod yn werth chweil ail-atgoffa ein hunain am y Gweinidog penodol hwn. Yr adeg hon yr wythnos diwethaf, cadarnhawyd iddo dorri'r cod gweinidogol. Dywedodd y Prif Weinidog hynny ei hun ond dewisodd beidio â'i ddiswyddo. Yna, lai na diwrnod yn ddiweddarach, roedd y Gweinidog yn ceisio ei dorri eto trwy ofyn am fanylion personol pum aelod o'r Siambr hon, gan fy nghynnwys i. Cafodd ei rybuddio gan ei ysgrifennydd preifat nad oedd hynny'n iawn, ond er hynny, gofynnodd eto, ar lafar, am y wybodaeth honno. Onid dyma'r math o arfer y byddai Damian McBride yn falch iawn ohono, Brif Weinidog? A allwch chi gadarnhau y prynhawn yma nad yw hyn yn arfer arferol o fewn Llywodraeth Cymru gan Weinidogion eraill, ac, yn y pen draw, a allwch chi gadarnhau, Brif Weinidog, er mwyn rhoi ffydd i'r cyhoedd nad yw arferion o'r fath yn bodoli ar draws gweddill eich Llywodraeth, y byddwch yn sefydlu ymchwiliad annibynnol fel y gallwn fod yn hyderus nad oes camymddwyn eang yn digwydd ac mai gweithredoedd Gweinidog unigol sydd wedi ei symud o'ch Llywodraeth yw'r rhain?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:31

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

May I remind the leader of the opposition that it was the Minister's own private office who took steps to prevent this moving forward? I took action on this as quickly as I could. We published the correspondence, including the e-mail, proactively indeed. It is probably likely that Members would not have known about the existence of that e-mail if it had not been published. It is a sign that we are an open Government that we will publish e-mails, where they are difficult, even for us, and that action is then taken where I feel that Ministers are no longer able to continue in their jobs. The system has worked exactly as it should.

A gaf fi atgoffa arweinydd yr wrthblaid mai swyddfa breifat y Gweinidog ei hun a gymerodd gamau i atal hyn rhag symud yn ei flaen? Cymerais innau gamau ar hyn cyn gynted ag y gallwn. Cyhoeddwyd yr ohebiaeth gennym, gan gynnwys yr e-bost, yn gwbl ragweithiol. Mae'n debygol na fyddai'r Aelodau wedi dod i wybod am fodolaeth yr e-bost hwnnw pe na byddai wedi cael ei gyhoeddi. Mae'n arwydd ein bod yn Llywodraeth agored, pan ein bod yn cyhoeddi e-byst, lle maent yn anodd, hyd yn oed i ni, ac y cymerir camau wedyn pan fy mod yn teimlo na all Gweinidogion barhau yn eu swyddi mwyach. Mae'r system wedi gweithio yn union fel y dylai.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:32

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I just remind Members that these are questions to the First Minister and that this is not a statement? I call on Kirsty Williams.

A gaf fi atgoffa'r Aelodau mai cwestiynau i'r Prif Weinidog yw'r rhain ac mai nad datganiad yw hwn? Galwaf ar Kirsty Williams.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:32

Kirsty Williams [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats

First Minister, today's revelations about the behaviour of the former Minister for Natural Resources and Food are shocking and inexcusable. Do you now regret not sacking Alun Davies last week, and does that not speak volumes about a severe lapse in judgment on your part?

Brif Weinidog, mae datgeliadau heddiw am ymddygiad y cyn-Weinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yn syfrdanol ac yn anfaddeuol. A ydych chi'n difaru bellach peidio â diswyddo Alun Davies yr wythnos diwethaf, ac onid yw hynny'n dweud llawer iawn am fethiant difrifol o ran eich doethineb chi?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

13:32

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The leader of the Liberal Democrats fundamentally misunderstands the situation, namely that the fact that the Minister lost his position today has nothing to do with the Circuit of Wales. It is to do with something that occurred on 2 July. So, it is not possible to sack somebody before they have done something that causes them to lose their job. Unless she is crediting me with some kind of second sight, then I certainly cannot answer that question. What I can say, of course, is that when this came to my attention, I decided that action should be taken and that the e-mail should be published proactively. Nobody can suggest that, in some way, the Government was put in this situation. I decided that Members should be aware of what had happened and what action I had taken because I believe that that is the right way of conducting Government.

Mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn camddeall y sefyllfa'n sylfaenol, sef nad oes gan y ffaith fod y Gweinidog wedi colli ei swydd heddiw unrhyw beth i'w wneud â Chylchffordd Cymru. Mae'n ymwneud â rhywbeth a ddigwyddodd ar 2 Gorffennaf. Felly, nid yw'n bosibl diswyddo rhywun cyn ei fod wedi gwneud rhywbeth sy'n achosi iddo golli ei swydd. Oni bai ei bod yn dweud fy mod yn gallu rhagweld y dyfodol, yna mae'n amlwg na allaf ateb y cwestiwn hwnnw. Yr hyn y gallaf ei ddweud, wrth gwrs, yw pan ddaeth hyn at fy sylw, penderfynais i ydylid cymryd camau ac y dylai'r e-bost gael ei gyhoeddi'n rhagweithiol. Ni all unrhyw un awgrymu, mewn rhyw ffordd, y rhoddwyd y Llywodraeth yn y sefyllfa hon. Penderfynais i y dylai'r Aelodau fod yn ymwybodol o'r hyn a oedd wedi digwydd a'r camau yr oeddwn i wedi eu cymryd gan fy mod i'n credu mai dyna'r ffordd iawn o weithredu mewn Llywodraeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:33

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru

First Minister, this fiasco not only brings your judgment into question, but it risks reflecting poorly on this institution. Do you now accept that it is wrong in terms of breaches of the ministerial code that you act as judge and jury, and will you now support calls for those functions to be passed on to an independent adjudicator?

Brif Weinidog, nid yn unig y mae'r llanast hwn yn codi cwestiynau am eich doethineb, ond ceir perygl y bydd yn adlewyrchu'n wael ar y sefydliad hwn. A ydych chi'n derbyn bellach ei bod yn anghywir o ran achosion o dorri'r cod gweinidogol eich bod yn gweithredu fel barnwr a rheithgor, ac a wnewch chi gefnogi galwadau nawr i'r swyddogaethau hynny gael eu trosglwyddo i ddyfarnwr annibynnol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:34

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I would never accept a situation where somebody other than the First Minister can appoint or remove Cabinet Ministers. That is fundamentally undemocratic. Her party did not accept that, and would never have accepted it, in the previous Government. It is not something that exists anywhere else in the UK. It does not exist in Westminster and it does not exist in Scotland. I think that it is fundamentally wrong. For better or for worse, it is my role to police the ministerial code and not that of somebody who is unelected, telling me whom I can and cannot appoint. That would be a fundamental breach of democracy.

Ni fyddwn fyth yn derbyn sefyllfa lle y gall rhywun heblaw'r Prif Weinidog benodi neu gwared ar Weinidogion y Cabinet. Mae hynny'n sylfaenol annemocrataidd. Nid dderbyniodd ei phlaid hi hynny, ac ni fyddai fyth wedi ei dderbyn, yn y Llywodraeth flaenorol. Nid yw'n rhywbeth sy'n bodoli mewn unrhyw le arall yn y DU. Nid yw'n bodoli yn San Steffan ac nid yw'n bodoli yn yr Alban. Rwy'n credu ei fod yn sylfaenol anghywir. Er gwell neu er gwaeth, fy swyddogaeth i yw plismona'r cod gweinidogol ac nid rhywun nad yw wedi ei ethol yn dweud wrthyf i pwy y caf a phwy na chaf ei benodi. Byddai hynny'n achos sylfaenol o fynd yn groes i ddemocratiaeth.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

What I will say to the leader of Plaid Cymru is—I come back to this point once again—that I took this decision proactively, and the correspondence was published proactively. It may well have been the case that this correspondence may never have come to light. I took the view that that was wrong; it was important then that the correspondence was published and that action was taken, and it shows that the system has worked. That is why I believe it is important that, where I become aware of instances such as this, that action is taken as quickly as possible, which is exactly what has happened.

Beth y gwnaf fi ei ddweud wrth arweinydd Plaid Cymru—rwy'n dod yn ôl at y pwynt hwn unwaith eto—yw fy mod i wedi gwneud y penderfyniad hwn yn rhagweithiol, ac y cyhoeddwyd yr ohebiaeth yn rhagweithiol. Efallai'n wir na fyddai'r ohebiaeth hon fyth wedi dod i'r amlwg. Roeddwn i o'r farn bod hynny'n anghywir; roedd yn bwysig felly bod yr ohebiaeth yn cael ei chyhoeddi a bod camau'n cael eu cymryd, ac mae hynny'n dangos bod y system wedi gweithio. Dyna pam rwy'n credu ei bod yn bwysig, pan rwyf yn dod yn ymwybodol o achosion fel hyn, bod camau'n cael eu cymryd cyn gynted â phosibl, sef yr union beth sydd wedi digwydd.

- 13:35 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, I would like to put on record my thanks for the actions of the civil servants who bravely brought this to your attention, because, of course, what they were being asked to do was in breach of the Data Protection Act 1998, an Act which protects every citizen of the United Kingdom against disclosures of this sort. In Plenary last week, I asked you to proactively publish correspondence that I had requested in my email of 13 June. I followed that up with a request on 2 July for further information to be proactively published by you relating to the investigation and, in particular, details of any correspondence between the Minister and the Minister for planning and the Minister for the economy in respect of finance or planning in relation to the Circuit of Wales. I asked also for confirmation—
- Brif Weinidog, hoffwn gofnodi fy niolch am weithredoedd y gweision sifil a oedd yn ddigon dewr i dynnu eich sylw at hyn, oherwydd, wrth gwrs, roedd yr hyn y gofynnwyd iddynt ei wneud yn mynd yn groes i Ddeddf Diogelu Data 1998, Deddf sy'n diogelu holl ddinasyddion y Deyrnas Unedig rhag datgeliadau o'r math hwn. Yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos diwethaf, gofynnais i chi gyhoeddi'n rhagweithiol yr ohebiaeth yr oeddwn wedi gofyn amdani yn fy e-bost ar 13 Mehefin. Dilynais hynny gyda chais ar 2 Gorffennaf i ragor o wybodaeth gael ei chyhoeddi'n rhagweithiol gennych chi yn ymwneud â'r ymchwiliad ac, yn arbennig, manylion unrhyw ohebiaeth rhwng y Gweinidog a'r Gweinidog cynllunio a Gweinidog yr economi o ran cyllid neu gynllunio yn ymwneud â Chylchfordd Cymru. Gofynnais hefyd am gadarnhad—
- 13:36 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Are you coming to the question? A ydych chi'n dod at y cwestiwn?
- 13:36 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Yes. Will you give an assurance that no additional correspondence, other than that published in Annexe 3, exists, and that you will now place in the library, as you said that you would on 1 July, the correspondence and details that were requested in my email of 2 July? I would welcome an apology, First Minister.
- Ydw. A wneuch chi roi sicrwydd nad oes unrhyw ohebiaeth ychwanegol, heblaw yr hyn a gyhoeddwyd yn Atodiad 3, yn bodoli, ac y byddwch yn rhoi'r ohebiaeth a'r manylion y gofynnwyd amdanynt yn fy e-bost ar 2 Gorffennaf yn y llyfrgell nawr, fel y dywedasochoch y byddech yn ei wneud ar 1 Gorffennaf? Byddwn yn croesawu ymddiheuriad, Brif Weinidog.
- 13:36 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- The Member seems to have suggested that, on 30 June, she wanted to see an e-mail that did not exist until three days later. What she has just suggested is confused. There is no question about that. There is no doubt that the private office took the right steps and that is why, of course, the information was never released. That shows that the system is working. I became aware of the situation on Friday. I looked at length at the situation yesterday and, of course, the decision was taken this morning. It shows that private offices are not afraid to challenge Ministers where they feel that a potential breach of the ministerial code may occur. That is why, of course, we are where we are today, where proactive action has been taken and the private offices did their job.
- Mae'n ymddangos bod yr Aelod wedi awgrymu, ar 30 Mehefin, ei bod hi eisiau gweld e-bost nad oedd yn bodoli tan dri diwrnod yn ddiweddarach. Mae'r hyn y mae newydd ei awgrymu yn ddryslyd. Nid oes unrhyw amheuaeth am hynny. Nid oes unrhyw amheuaeth bod y swyddfa breifat wedi cymryd y camau cywir a dyna pam, wrth gwrs, na chyhoeddwyd y wybodaeth. Mae hynny'n dangos bod y system yn gweithio. Deuthum yn ymwybodol o'r sefyllfa ddydd Gwener. Edrychais yn fanwl ar y sefyllfa ddoe ac, wrth gwrs, gwnaed y penderfyniad y bore yma. Mae'n dangos nad yw'r swyddfeydd preifat yn ofni herio Gweinidogion pan eu bod yn teimlo y gallai fod achos posibl o dorri'r cod gweinidogol. Dyna pam, wrth gwrs, yr ydym ni yn y sefyllfa yr ydym ni ynddi heddiw, oherwydd bod camau rhagweithiol wedi eu cymryd a bod y swyddfeydd preifat wedi gwneud eu gwaith.
- 13:37 **Llyr Gruffydd** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- O gofio difrifoldeb y mater hwn, Brif Weinidog, a fyddech chi'n disgwyl i'r cyn-Weinidog ddod i wneud datganiad yn y fan hon inni yn y Siambr, ac a fyddech yn disgwyl iddo wneud datganiad i'r unigolion sydd wedi cael eu targedu yn y modd a weithredwyd ganddo?
- Bearing in mind the gravity of this issue, First Minister, would you expect the former Minister to make a statement to the Chamber, and would you expect him to make a statement to the individuals who were targeted in the actions that he took?

13:37 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Nid oes modd i gyn-Weinidog wneud datganiad fel petai'n Weinidog. Mae hynny'n amlwg. Nid wyf yn gweld beth, felly, yw'r system. Mae system o wneud datganiadau personol, ond nid oes modd gofyn cwestiynau am y rheini. Felly, nid wyf yn gweld bod unrhyw fecanwaith ar gael i sicrhau bod hynny'n digwydd.
It is not possible for a former Minister to make a statement as if he or she were a Minister. That is obvious, and I do not see, therefore, what procedure would be followed. There is the procedure of making personal statements, but it is not possible to ask questions about those. Therefore, I do not see that there is a mechanism in place to ensure that that happens.

13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you very much. I have no more speakers on that question.
Diolch yn fawr iawn i chi. Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr eraill ar y cwestiwn yna.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Questions to the First Minister

Y Sector Gweithgynhyrchu

The Manufacturing Sector

13:38 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
1. Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gryfhau'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru?
OAQ(4)1792(FM)
1. What actions is the Welsh Government taking to strengthen the manufacturing sector in Wales?
OAQ(4)1792(FM)

13:38 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Manufacturing is key to the Welsh economy and our priority remains to develop and strengthen the manufacturing base in Wales. We now have the highest contribution by manufacturing to the economy of any of the UK nations and regions.
Mae gweithgynhyrchu yn allweddol i economi Cymru a'n blaenoriaeth o hyd yw datblygu a chryfhau'r sail weithgynhyrchu yng Nghymru. Mae gweithgynhyrchu yn gwneud mwy o gyfraniad i'n heconomi ni nag y mae'n ei wneud mewn unrhyw un o wledydd a rhanbarthau'r DU erbyn hyn.

13:38 **David Rees** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you for that answer, First Minister, although I hardly heard it with some of the talking going on. Last week, we saw Tata announce 400 job losses at the Port Talbot Works, citing the difficult global markets in which it competes and the higher energy costs and business rates in the UK compared with their European competitors. To the people of my town, it is clear that Cameron and Osborne's focus is on helping the friends in the energy companies and not steelworkers and their families. However, these industries are critical to the local economy of my town and to the wider region and they need to be tackled now. What action is the Welsh Government taking to support our manufacturing industries to compete in the global markets and what discussions is it having with the UK Government to quickly reduce the costs faced by such businesses here in the UK, which are higher than those faced by their competitors elsewhere across Europe?
Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog, er mai prin roeddwn i'n gallu ei glywed gyda'r holl siarad sy'n mynd ymlaen. Yr wythnos diwethaf, gwelsom Tata yn cyhoeddi bod 400 o swyddi yn cael eu colli yng Ngweithfeydd Port Talbot, gan nodi'r marchnadoedd byd-eang anodd y mae'n cystadlu ynddynt a'r costau ynni a'r ardrethi busnes uwch yn y DU o'u cymharu â'u cystadleuwyr Ewropeaidd fel rheswm. I bobl fy nhref i, mae'n eglur bod Cameron ac Osborne yn canolbwyntio ar helpu'r ffrindiau yn y cwmnïau ynni, ac nid gweithwyr dur a'u teuluoedd. Fodd bynnag, mae'r diwydiannau hyn yn hanfodol i economi leol fy nhref i ac i'r rhanbarth ehangach ac mae angen mynd i'r afael â hyn nawr. Pa gamau mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i gefnogi ein diwydiannau gweithgynhyrchu i gystadlu yn y marchnadoedd byd-eang a pha drafodaethau y mae'n eu cael gyda Llywodraeth y DU i leihau'r costau a wynebir gan fusnesau o'r math hwn yn y DU, sy'n uwch na'r rhai a wynebir gan eu cystadleuwyr mewn mannau eraill ledled Ewrop?

13:39

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The UK Government needs to put its money where its mouth is in my view. We have seen £400 million invested in Tata since I went to India. Without that investment, the situation would be far, far worse. I very much welcome that, and our relationship with Tata is a good one. Nevertheless, the Chancellor of the Exchequer went to Tata, said that there would be help for energy-intensive industries and has done precisely nothing since. There will be more job losses in energy-intensive industries in Wales because of the inaction of the Conservatives on this issue. They do not care about manufacturing in Wales or elsewhere in the UK for that matter.

Mae angen i Lywodraeth y DU weithredu yn unol â'i gair yn fy marn i. Rydym ni wedi gweld £400 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn Tata ers i mi fynd i India. Heb y buddsoddiad hwnnw, byddai'r sefyllfa'n llawer iawn gwaeth. Rwy'n croesawu hynny'n fawr, ac mae ein perthynas gyda Tata yn un dda. Serch hynny, aeth Canghellor y Trysorlys at Tata, gan ddweud y byddai cymorth ar gael i ddiwydiannau ynni-ddwys ac nid yw wedi gwneud unrhyw beth o gwbl ers hynny. Bydd mwy o swyddi'n cael eu colli mewn diwydiannau ynni-ddwys yng Nghymru oherwydd y diffyg gweithredu gan y Ceidwadwyr ar y mater hwn. Nid oes ots ganddyn nhw am weithgynhyrchu yng Nghymru nac mewn unrhyw le arall yn y DU o ran hynny.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:40

William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

If we could return to your responsibilities, First Minister, you will know that, in evidence to the Enterprise and Business Committee, many people have said that one of the problems with industry is that we do not have the employees who have the necessary literacy or numeracy skills. That is entirely within your purview. What will you do about that?

Pe gallem ni ddychwelyd at eich cyfrifoldebau chi, Brif Weinidog, byddwch yn gwybod bod llawer o bobl wedi dweud, mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes, mai un o'r problemau gyda diwydiant yw nad yw'r gweithwyr gennym sydd â'r sgiliau llythrennedd neu rifedd angenrheidiol. Mae hynny'n rhan o'ch cylch gorchwyl chi yn llwyr. Beth ydych chi'n bwriadu ei wneud am hynny?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:40

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

That is the reason we have Jobs Growth Wales and the apprenticeships schemes, where we are far ahead of England. However, it is one thing to have the skills, which is important, and I recognise the Member's point in that regard, but if the UK Government is prepared to do absolutely nothing to help energy-intensive industries, we will see more job losses and it will be at its door that the blame lies.

Dyna'r rheswm pam mae gennym ni Twf Swyddi Cymru a'r cynlluniau prentisiaethau, lle'r ydym ni ymhell ar y blaen i Loegr. Fodd bynnag, mae meddu ar y sgiliau, sy'n bwysig, yn un peth, ac rwy'n cydnabod pwynt yr Aelod yn hynny o beth, ond os yw Llywodraeth y DU yn barod i wneud dim byd o gwbl i helpu diwydiannau ynni-ddwys, byddwn yn gweld mwy o swyddi'n cael eu colli ac arni hi fydd y bai.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:40

Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Fe wnes i gwrdd â chynrychiolwyr Tata ddoe yn fy swyddfa i ac fe wnaethon nhw ddweud ei fod yn benderfyniad strategol o ran y swyddfa a oedd yn mynd i gael eu torri, ac y byddai'r rhyw o'r swyddfa hynny yn dod o dorri swyddfa yn wirfoddol. Yn amlwg, 'dydym ni ddim am weld swyddfa o unrhyw fath yn mynd, ond pa drafodaethau yr ydych chi wedi eu cael ar lefel fyd-eang gyda'r rhai sy'n rheoli Tata yn India i wneud yn siŵr bod Cymru yn dal i fod ar flaen y gad o ran yr hyn sydd yn digwydd ac o ran sicrhau bod y rhai sydd mewn swyddfa ar hyn o bryd yn eu cadw yn y dyfodol?

I met Tata representatives yesterday in my office and they told me that it was a strategic decision in terms of the jobs to be lost and that the majority of job cuts would come from voluntary redundancies. Clearly, we do not want to see any jobs lost, but what discussions have you had on a global level with those who manage Tata in India in order to ensure that Wales remains in the vanguard in terms of what is happening and to ensure that those in post at present retain those jobs for the future?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:41

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Roeddwn i yn India yn siarad â Tata tua dwy flynedd yn ôl. Byddaf yn India eto ym mis Hydref i gwrdd â Tata unwaith eto. Hefyd, rwyf wedi bod yn cwrdd yn aml â rheolwyr Tata yn Ewrop, sydd hefyd yn bwysig.

I had talks with Tata in India about two years ago, and I will be in India again in October to meet Tata again. Also, I have been meeting regularly with Tata management in Europe, which is also important.

Ni allaf groesawu'r ffaith bod cymaint o swyddfa yn mynd, ond mae'n rhywbeth fod y swyddfa yn mynd yn wirfoddol. Mae'n amlwg i mi, pe na chafwyd buddsoddiad, y byddai'r sefyllfa llawer yn waeth yn Tata. Yr hyn y mae Tata yn ceisio ei wneud yw sicrhau bod Port Talbot yn enwedig, ond nid dim ond Port Talbot, yn gallu cystadlu yn y dyfodol, gan ei bod hi wedi bod yn anodd dros y blynyddoedd diwethaf.

I cannot welcome the fact that so many jobs will be lost, but it is something that the jobs will go through voluntary redundancies. It is clear to me that, had investment not been made, the situation in Tata would be much worse. What Tata is trying to do is to ensure that Port Talbot in particular, but not only Port Talbot, can compete in the future, as the situation has been difficult over the past few years.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:42 **Peter Black** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

You will know that the Chancellor announced some help for energy-intensive industries, but, unfortunately, it will come too late to save these particular jobs. Therefore, what has your Government done in terms of trying to mitigate the impact of these job losses, and have you had any discussions with the UK Government on whether these measures to help energy-intensive industries can be brought forward to prevent further job losses?

Byddwch yn gwybod bod y Canghellor wedi cyhoeddi rhywfaint o gymorth i ddiwydiannau ynni-ddwys, ond, yn anffodus, bydd yn dod yn rhy hwyr i achub y swyddi penodol hyn. Felly, beth mae eich Llywodraeth wedi ei wneud o ran ceisio lliniaru effaith y colledion hyn o ran swyddi, ac a ydych chi wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ynghylch a all y mesurau hyn i helpu diwydiannau ynni-ddwys gael eu cyflwyno'n gynharach i atal mwy o golledion o ran swyddi?

13:42 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

It is not good enough to say 'unfortunately, nothing has happened', because the Member's own party has been involved in this. They say that it will be two years before any help is given to energy-intensive industries. We cannot help energy-intensive industries with their energy costs because that is entirely within the control of the UK Government, and it must take action in a way it has not done so far. We have worked with Tata in terms of being able to provide it with help with investment in years gone by, but what we cannot do is provide it with a revenue subsidy because of its energy costs, or any other industry either. We need the UK Government to take action before 2016 or we will see more jobs being lost in the Welsh economy.

Nid yw'n ddigon da dweud 'yn anffodus, nid oes unrhyw beth wedi digwydd', gan fod plaid yr Aelod ei hun wedi bod yn rhan o hyn. Maen nhw'n dweud y bydd yn ddwy flynedd cyn y rhoddir unrhyw gymorth i ddiwydiannau ynni-ddwys. Ni allwn helpu diwydiannau ynni-ddwys gyda'u costau ynni gan fod hynny dan reolaeth Llywodraeth y DU yn gyfan gwbl, ac mae'n rhaid iddi gymryd camau mewn modd nad yw wedi ei wneud hyd yn hyn. Rydym ni wedi gweithio gyda Tata o ran gallu darparu help iddo gyda buddsoddiad yn y blynyddoedd a fu, ond rydym ni na allwn ei wneud yw rhoi cymhorthdal refereniw iddo oherwydd ei gostau ynni, nac unrhyw ddiwydiant arall ychwaith. Rydym ni angen i Lywodraeth y DU gymryd camau cyn 2016 neu byddwn yn gweld mwy o swyddi'n cael eu colli yn economi Cymru.

Ynni Adnewyddadwy

Renewable Energy

13:43 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

2. A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad ar weithredoedd Llywodraeth Cymru mewn perthynas ag ynni adnewyddadwy? OAQ(4)1794(FM)

2. Will the First Minister provide an update on the Welsh Government's actions in relation to renewable energy? OAQ(4)1794(FM)

13:43 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Cyhoeddwyd cynllun cyflawni Ynni Cymru ym mis Mawrth. Mae'n dangos y cynnydd yr ydym wedi'i wneud i ganiatáu buddsoddi a sicrhau buddion ar gyfer busnesau a chymunedau Cymru. Mae hefyd yn dangos yr hyn y byddwn yn ei wneud dros y blynyddoedd i ddod i gyflawni'n huchelgais.

The Energy Wales delivery plan was published in March. It describes the progress we have made in enabling investment and driving benefits for Welsh businesses and communities. It also outlines what we will be doing in the coming years to achieve our ambition.

13:43 **Keith Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Roeddwn yn falch clywed heddiw fod tri safle yng Nghymru wedi cael yr hawl i ddatblygu cynlluniau ynni'r môr gan Ystâd y Goron. Pa drafodaethau y mae'r Llywodraeth wedi eu cael â Llywodraeth San Steffan am y cynllun lagŵn llanw a thonnau yn Abertawe, oherwydd rwy'n credu bod hynny yn ffordd ymlaen?

I was pleased to hear today that three sites in Wales have been given permission by the Crown Estate to develop marine energy schemes. What negotiations has the Government had with the Westminster Government on the tidal lagoon scheme in Swansea, because I think that that is a way forward?

- 13:43 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Ni sydd yn gyfrifol am ganiatâd morol, a hi sy'n gyfrifol am y system gynllunio. O ran gwely'r môr, mae hynny yn rhywbeth i Ystâd y Goron. Fodd bynnag, byddai'r sefyllfa llawer yn rhywddach pe baem ni yn yr un sefyllfa â'r Alban, lle byddai popeth yn cael ei wneud gan yr un corff, ond nid felly y mae ar hyn o bryd ac rydym yn gwybod bod Cymru yn colli mas o achos hynny.
- We are responsible for marine consents, and it is responsible for the planning system. As regards the sea bed, that is a matter for the Crown Estate. However, the situation would be far easier if we were in the same position as Scotland, where everything would be done by the same body, but that is not how things are at present and we know that Wales is losing out as a result.
- 13:44 **Russell George** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I recently received an e-mail from a former constituent, a professional engineer by trade, who was looking to relocate to Wales to establish a small renewable energy project centred around hydropower. He, like others who have contacted me in this regard, told me how difficult it has been to get a relevant licence from Natural Resources Wales. What is the Government doing to remove the barriers that are preventing and discouraging businesses from establishing themselves in this regard?
- Derbyniais e-bost yn ddiweddar gan gyn-etholwr, peiriannydd proffesiynol wrth ei alwedigaeth, a oedd yn ystyried adleoli i Gymru i sefydlu prosiect ynni adnewyddadwy bach yn canolbwyntio ar ynni dŵr. Dywedodd ef wrthyf, fel eraill sydd wedi cysylltu â mi ynglŷn â hyn, pa mor anodd yw hi wedi bod i gael trwydded berthnasol gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud i gael gwared ar y rhwystrau sy'n atal busnesau rhag sefydlu eu hunain yn y cyswllt hwn?
- 13:44 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I am not aware of any barriers, but, in fairness to the Member, if he provides me with more information, I will investigate that for him.
- Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw rwystrau, ond, a bod yn deg i'r Aelod, os gwnaiff roi mwy o wybodaeth i mi, byddaf yn ymchwilio i hynny drosto.
- 13:45 **Alun Ffred Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Mae'r Llywodraeth wedi methu yn llwyr â chyrraedd ei thargedau o ran cynhyrchu ynni gwyrdd. Un o'r rhwystrau sy'n atal datblygu cynlluniau lleol a chymunedol, wrth gwrs, yw'r rhwydwaith dosbarthu yng Nghymru—yn lleol a'r rhai mwy, ond yn arbennig yn lleol. Maent yn methu â derbyn, neu maent mewn cyflwr mor wael na fedrwyd gysylltu, i mewn iddynt. Pa drafodaethau mae'r Llywodraeth wedi eu cael gyda'r cwmnïau ynni i sicrhau bod rhwydwaith cryf yng nghefn gwlad Cymru yn arbennig, ac yn ardaloedd y Cymoedd hefyd, lle mae posibiladau i gynhyrchu ynni ar raddfa leol a chymunedol?
- The Government has completely failed to meet its green energy production targets. One of the barriers to the development of local and community schemes, of course, is the distribution network in Wales—locally and on a larger scale, but particularly at the local level. They are unable to receive, or are in such poor condition that you cannot connect, in to them. What discussions has the Government had with the energy companies to ensure a robust network, particularly in rural Wales, but also in the Valley areas, where there are possibilities for energy generation on a local and community scale?
- 13:45 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Ynglŷn â'r rhwydwaith, nid rhywbeth i'r cwmnïau ynni yw hynny, wrth gwrs, ond rhywbeth i National Grid. Nid wyf yn siŵr a yw'r Aelod yn siarad am y rhwydwaith trydan, sef y grid, ynteu'r rhwydwaith safleoedd creu ynni. Rydym am annog safleoedd sy'n creu ynni ar lefel isel ac, wrth gwrs, mae cynlluniau fel Ynni'r Fro wedi sicrhau bod hynny'n digwydd. Ynglŷn â'r rhwydwaith trydan, neu'r rhwydwaith ynni, mae'n wir dweud nad yw rhai rhannau o Gymru mewn sefyllfa i ddenu buddsoddiad mawr fel ffatrioedd oherwydd bod y grid yn rhy ysgafn. Fodd bynnag, mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei ystyried gyda chwmnïau fel National Grid.
- On the network, that is not something for the energy companies, of course, but something for National Grid. I am not sure if the Member is talking about the electricity network—the grid—or the network of energy generation sites. We want to encourage sites that generate energy at a low level and, of course, schemes such as Ynni'r Fro ensure that that happens. On the electricity network, or the energy network, it is true to say that some parts of Wales are not in a position to attract big investment such as factories because the network is too light. However, that is something that we are considering with companies such as National Grid.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

Questions Without Notice from the Party Leaders

13:46	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography First this afternoon is the leader of the Plaid Cymru, Leanne Wood.	Arweinydd Plaid Cymru, Leanne Wood, sydd gyntaf y prynhawn yma.	Senedd.tv Fideo Video
13:46	Leanne Wood Bywgraffiad Biography <i>Arweinydd Plaid Cymru / The Leader of Plaid Cymru</i> Last week, the First Minister issued a written statement regarding an investigation into the behaviour of one of his Ministers. In that statement, the First Minister said ‘Having carefully considered the matter it is clear to me that the Ministerial Code was breached.’ The First Minister ended his statement by saying: ‘I will be taking no further action on this occasion.’ Can the First Minister please share with us his criteria for which breaches of the ministerial code are sackable offences and which are not?	Yr wythnos diwethaf, cyhoeddodd y Prif Weinidog ddatganiad ysgrifenedig ar ymchwiliad i ymddygiad un o'i Weinidogion. Yn y datganiad hwnnw, dywedodd y Prif Weinidog ‘Rwyf wedi ystyried y mater yn fanwl ac mae'n amlwg i mi fod y Cod Gweinidogol wedi ei dorri.’ A daeth y Prif Weinidog â'i ddatganiad i ben trwy ddweud: 'ni fyddaf yn gweithredu ymhellach ar yr achlysur hwn.' A all y Prif Weinidog rannu gyda ni os gwelwch yn dda ei feini prawf ar gyfer pa achosion o dorri'r cod gweinidogol sy'n arwain at ddiswyddo a'r rhai nad ydynt?	Senedd.tv Fideo Video
13:47	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Yes; the one today was.	Gallaf; roedd yr un heddiw yn achos sy'n arwain at ddiswyddo.	Senedd.tv Fideo Video
13:47	Leanne Wood Bywgraffiad Biography First Minister, had you demonstrated, last week, better judgment, you would not find yourself in this humiliating position today. It cannot be right for different breaches of different parts of the ministerial code to incur, at different times, different sanctions. Does the First Minister now concede that he was wrong to try to cling on to the former Minister for Natural Resources and Food last week for his own political reasons?	Brif Weinidog, pe byddech chi wedi dangos mwy o ddoethineb yr wythnos diwethaf, ni fyddech chi'n canfod eich hun yn y sefyllfa llawn cywilydd hon heddiw. Ni all fod yn iawn i wahanol achosion o dorri gwahanol rannau o'r cod gweinidogol arwain, ar wahanol adegau, at wahanol gosbau. A yw'r Prif Weinidog yn cyfaddef bellach ei fod yn anghywir ceisio dal ei afael ar y cyn-Weinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd yr wythnos diwethaf am ei resymau gwleidyddol ei hun?	Senedd.tv Fideo Video
13:48	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> No. [Interruption.]	Nac ydw. [Torri ar draws.]	Senedd.tv Fideo Video
13:48	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography This is Leanne Wood's question time, not that of other Members.	Amser cwestiynau Leanne Wood yw hwn, nid yr Aelodau eraill.	Senedd.tv Fideo Video
13:48	Leanne Wood Bywgraffiad Biography This is meant to be a forum for the scrutiny of the First Minister. Paragraph 68 of the investigative report states that the Minister asked his Private Secretary to make the First Minister's office aware ‘that I have sought advice on the Ministerial Code on two occasions with reference to this issue’.	Fforwm i graffu ar y Prif Weinidog yw hwn i fod. Mae paragraff 68 yr adroddiad ymchwiliol yn datgan bod y Gweinidog wedi gofyn i'w Ysgrifennydd Preifat sicrhau bod swyddfa'r Prif Weinidog yn ymwybodol fy mod i wedi gofyn am gyngor ar y Cod Gweinidogol ar ddau achlysur ynglŷn â'r mater hwn.	Senedd.tv Fideo Video

What he did not say was that he had been advised not to comment on the matter, even in his AM capacity. How many times do you think you were misled by your former Minister, and are there any other instances that you are aware of that are not currently in the public domain?

Yr hyn na ddywedodd oedd ei fod wedi ei gynghori i beidio â gwneud sylwadau ar y mater hwn, hyd yn oed yn rhinwedd ei swydd fel AC. Sawl gwaith ydych chi'n meddwl i chi gael eich camarwain gan eich cyn-Weinidog, ac a oes unrhyw achosion eraill yr ydych chi'n ymwybodol ohonynt nad ydynt ar gael yn gyhoeddus ar hyn o bryd?

13:49 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

'No' is the answer to the second question that she asked. With regard to the first point she made, it is correct to say that the Minister did not follow the advice. However, as I said last week, the advice was, in my view, not correct and was overly cautious. [Interruption.] He did not lie to me, but it is not being suggested that he did lie to me. He received advice; that advice was overly cautious, as I have said. He did not follow it, that is true, but given the nature of the advice, I took the view that the advice should not have been given to him in that way. That was my judgment at the time. This is a wholly separate issue, and my judgment on this occasion has been that the Minister could not continue in his role.

'Nac oes' yw'r ateb i'r ail gwestiwn a ofynnodd hi. O ran y pwynt cyntaf iddi ei wneud, mae'n gywir dweud na ddilynodd y Gweinidog y cyngor. Fodd bynnag, fel y dywedais yr wythnos diwethaf, yn fy marn i, nid oedd y cyngor yn gywir ac roedd yn rhy ofalus. [Torri ar draws.] Ni ddywedodd gelwydd wrthyf i, ond nid yw'n cael ei awgrymu ei fod wedi dweud celwydd wrthyf fi. Derbyniodd gyngor; roedd y cyngor hwnnw'n rhy ofalus, fel y dywedais. Ni wnaeth ei ddilyn, mae hynny'n wir, ond o ystyried natur y cyngor, roeddwn i o'r farn na ddylai'r cyngor fod cael ei roi iddo yn y ffordd honno. Dyna oedd fy marn ar y pryd. Mae hwn yn fater cwbl ar wahân, a fy marn ar yr achlysur hwn fu na allai'r Gweinidog barhau yn ei swydd.

13:49 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

We now move on to questions from the Leader of the Opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at gwestiynau gan Arweinydd yr Wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:49 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

First Minister, you have taken eight questions on this subject today, but not one word of regret has passed your lips. You have not passed on an apology to any of the five members of this Chamber on whom information was sought by your Minister. You are responsible for the actions of your Minister; you very often stand there and tell us this. Would you use this opportunity to extend an apology to the five members of this Chamber on whom information was sought by your Minister when he was in your Government?

Brif Weinidog, rydych chi wedi derbyn wyth cwestiwn ar y pwnc hwn heddiw, ond nid oes yr un gair o edifeirwch wedi dod o'ch gwefusau. Nid ydych chi wedi ymddiheuro i unrhyw un o bum aelod o'r Siambr hon y gofynnodd eich Gweinidog am wybodaeth amdanynt. Chi sy'n gyfrifol am weithredoedd eich Gweinidog; rydych chi'n sefyll yna'n aml iawn a dweud hynny wrthym. A wnewch chi ddefnyddio'r cyfle hwn i ymddiheuro i'r pum aelod o'r Siambr hon y gofynnodd eich Gweinidog am wybodaeth amdanynt pan roedd yn eich Llywodraeth?

13:50 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Yes, because I think that it is wrong that Ministers should ask for confidential information, not with regard to every one of the people involved—for one of them, the information was in the public domain. For the others, it is quite wrong that the Minister should have made that request. I am glad that the information was not forthcoming, and it is wrong that these Members should have been mentioned in this way.

Gwnaf, oherwydd rwy'n meddwl ei bod yn anghywir y dylai Gweinidogion ofyn am wybodaeth gyfrinachol, nid o ran pob un o'r bobl dan sylw—roedd y wybodaeth am un ohonynt yn gyhoeddus. O ran y lleill, mae'n gwbl anghywir bod y Gweinidog wedi gwneud y cais hwnnw. Rwy'n falch na rannwyd y wybodaeth, ac mae'n anghywir y dylai'r Aelodau hyn fod wedi cael eu crybwyll yn y modd hwn.

13:50

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am glad that, on the ninth question, you were able to offer that apology to the members of this Chamber, but it took nine questions to get there, First Minister. I think that that says a lot about you as a First Minister, to be honest with you. I am one of those named Members. Ultimately, how can you now have confidence in this individual, given the way that he has acted in a ministerial role, being able to carry on undertaking his role as an elected Member for the Labour Party as an Assembly Member? Do you not think that there is a complete conflict of interest in the ability of that individual to stay here as an elected Member, given his abuse of office when he was in your Cabinet?

Rwy'n falch, ar y nawfed cwestiwn, eich bod wedi gallu gwneud yr ymddiheuriad yna i aelodau'r Siambr hon, ond cymerodd naw cwestiwn i gyrraedd yno, Brif Weinidog. Rwy'n credu ei fod yn dweud llawer amdanoch chi fel Prif Weinidog, i fod yn onest gyda chi. Rwyf i'n un o'r Aelodau hynny a enwyd. Yn y pen draw, sut allwch chi fod â hyder bellach y bydd yr unigolyn hwn, o ystyried y ffordd y mae wedi ymddwyn mewn swydd weinidogol, yn gallu parhau i gyflawni ei swyddogaeth fel Aelod etholedig dros y Blaid Lafur fel Aelod o'r Cynulliad? Onid ydych chi'n credu bod gwrthdaro buddiannau llwyr o ran gallu'r unigolyn hwnnw i aros yma fel Aelod etholedig, o ystyried ei gamddefnydd o'i swydd pan roedd yn eich Cabinet?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

No, I think that that is nonsense. It is a breach of the ministerial code. The Minister has lost his job as a result of it. It does not mean that he is unable to carry on as an Assembly Member; there have been several in the past who would have been in the same situation.

Na, rwy'n credu mai lol yw hynny. Torri'r cod gweinidogol oedd hyn. Mae'r Gweinidog wedi colli ei swydd o ganlyniad iddo. Nid yw'n golygu nad yw'n gallu parhau fel Aelod o'r Cynulliad; bu sawl un yn y gorffennol a fyddai wedi bod yn yr un sefyllfa.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:51

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I find that answer deeply offensive, because your Minister was seeking information to cause political damage to individuals in this Chamber. That is the only explanation for why he sought that information. If he undertook that exercise as a Minister, what would prevent him having the same principles in conducting his role as an Assembly Member? As I said earlier, this goes back to the worst excesses of the old Gordon Brown regime and Damian McBride at Westminster. We are supposed to have a different way of doing politics in Wales. [Interruption.]

Rwy'n meddwl bod yr ateb yna'n hynod o sarhaus, gan fod eich Gweinidog yn gofyn am wybodaeth i achosi niwed gwleidyddol i unigolion yn y Siambr hon. Dyna'r unig esboniad dros iddo ofyn am y wybodaeth honno. Os yw'n gwneud hynny fel Gweinidog, beth fyddai'n ei atal rhag bod â'r un egwyddorion wrth gyflawni ei swyddogaeth fel Aelod o'r Cynulliad? Fel y dywedais yn gynharach, mae hyn yn mynd yn ôl i eithafion gwaethaf hen drefn Gordon Brown a Damian McBride yn San Steffan. Rydym ni i fod i gael ffordd wahanol o gyflawni gwleidyddiaeth yng Nghymru. [Torri ar draws.]

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Order.

Trefn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

13:52

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

With the greatest respect to you, you are the same First Minister who exercised judgment in keeping him in his post last week, and now you are expecting us to take the assurances that you have given this week as being correct. Can we have an independent inquiry to look at the workings of Government so that the people of Wales, and, importantly, organisations, individuals and politicians, can be assured that this type of thing is not common practice in the Welsh Government that you lead?

Gyda'r parch mwyaf i chi, chi yw'r un Prif Weinidog a wnaeth y penderfyniad i'w gadw yn ei swydd yr wythnos diwethaf, a nawr rydych chi'n disgwyl i ni dderbyn bod y sicrwydd yr ydych chi wedi ei roi yr wythnos diwethaf yn gywir. A allwn ni gael ymchwiliad annibynnol i edrych ar waith y Llywodraeth fel y gall pobl Cymru, ac, yn bwysig, sefydliadau, unigolion a gwleidyddion, fod yn sicr nad yw'r math yma o beth yn arfer cyffredin yn y Llywodraeth Cymru yr ydych chi'n ei harwain?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 13:52 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
It is not common practice, given the fact that the private office did its job and I took the action that I did and proactively published the e-mail, which I think was the right thing to do. It is important, where events like this happen, that Members are aware of what is going on and the action that has been taken as a result of it. I see no complaint in that regard. He is on dodgy ground—I mean, look at Andy Coulson. No-one is in jail, unlike those who are associated with his party. That is something that he should reflect on. He is starting to shout; let me put something to him. [Interruption.]
Nid yw'n arfer cyffredin, o ystyried y ffaith fod y swyddfa breifat wedi gwneud ei gwaith a fy mod i wedi cymryd y camau a gymerais a chyhoeddi'r e-bost yn rhagweithiol, yr wyf yn credu oedd y peth iawn i'w wneud. Mae'n bwysig, pan geir digwyddiadau fel hyn, bod yr Aelodau yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd a'r camau a gymerwyd o ganlyniad i hynny. Ni welaf unrhyw gŵyn yn hynny o beth. Mae ar dir sigledig—edrychwch ar Andy Coulson. Nid oes unrhyw un yn y carchar, yn wahanol i'r rhai sy'n gysylltiedig â'i blaid ef. Mae hynny'n rhywbeth y dylai fyfyrio arno. Mae'n dechrau gweiddi; gadewch i mi ddweud rhywbeth wrtho. [Torri ar draws.]
- 13:53 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Order. Trefn.
- 13:53 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Let me put something to him. He talks of an apology. He has had an apology, and I think that that apology was due. Where was he last week when we all waited to meet the Prince of Wales? He was due, he did not turn up and he did not give an explanation. I think that that is something that he needs to explain to the people of Wales. [Interruption.]
Gadewch i mi ddweud rhywbeth wrtho. Mae'n sôn am ymddiheuriad. Mae wedi cael ei ymddiheuriad, ac rwy'n meddwl bod yr ymddiheuriad hwnnw'n ddyledus. Ble'r oedd ef yr wythnos diwethaf pan roeddem ni i gyd yn aros i gyfarfod â Thywysog Cymru? Roedd i fod i gyrraedd, ni ddaeth ac ni roddodd esboniad. Rwy'n meddwl bod hynny'n rhywbeth y mae angen iddo esbonio i bobl Cymru. [Torri ar draws.]
- 13:53 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
My apology was extended to the organisers; I was ill on Thursday. I was also dealing with a stroke that my mother in law had had the night before, First Minister. You might want to consider your position. You once before accused me at Ysgol Gyfun Plasmawr when my father had died at Princess of Wales Hospital. You have now accused me a second time. I will not stand for it for a third time.
Ymddiheurais i'r trefnwyr; roeddwn i'n sâl ddydd Iau. Roeddwn i hefyd yn ymdrin â strôc yr oedd fy mam yng nghyfraith wedi ei dioddef y noson cynt, Brif Weinidog. Efallai yr hoffech chi ystyried eich safbwynt. Fe'm cyhuddwyd gennych chi unwaith o'r blaen yn Ysgol Gyfun Plasmawr pan fu farw fy nhad yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Rydych chi wedi fy nghyhuddo i am yr eildro nawr. Ni fyddaf yn ei dderbyn y trydydd tro.
- 13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
I have no idea what he is talking about in terms of the first occasion. [Interruption.]
Nid oes gennyf unrhyw syniad am yr hyn mae'n sôn amdano o ran y tro cyntaf. [Torri ar draws.]
- 13:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Order. Trefn.
- 13:54 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
What I can say to him is—[Interruption.]
Yr hyn y gallaf ei ddweud wrtho yw—[Torri ar draws.]
- 13:54 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Order. I cannot hear what you are saying, First Minister. I think that this is a very serious discussion. I want no more barracking from the sides so I can hear what the First Minister is saying. First Minister, carry on.
Trefn. Ni allaf glywed yr hyn yr ydych chi'n ei ddweud, Brif Weinidog. Rwy'n meddwl bod hon yn drafodaeth ddifrifol iawn. Nid wyf eisiau dim mwy o heclo o'r ochrau fel y gallaf glywed yr hyn y mae'r Prif Weinidog yn ei ddweud. Brif Weinidog, ewch ymlaen.

13:54	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I was not told; if I had been, I would not have raised it. Therefore, I withdraw my comment. However, it would have been easier if we had known. I apologise for it. If I had known, I would have not raised it, but no explanation was given. However, I understand the situation now. I extend my condolences to the leader of the opposition, and I understand now why that was the case.</p>	<p>Ni chefais fy hysbysu; pe byddwn i, ni fyddwn i wedi codi'r mater. Felly, rwy'n tynnu fy sylw yn ôl. Fodd bynnag, byddai wedi bod yn haws pe byddem ni'n gwybod. Ymddiheuraf am hynny. Pe byddwn i'n gwybod, ni fyddwn i wedi ei godi, ond ni roddwyd unrhyw esboniad. Fodd bynnag, rwy'n deall y sefyllfa nawr. Estynnaf fy nghydymdeimlad i arweinydd yr wrthblaid, ac rwy'n deall nawr pam y digwyddodd hynny.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:54	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call the leader of the Welsh Liberal; Democrats, Kirsty Williams.</p>	<p>Galwaf ar arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:55	<p>Kirsty Williams Bywgraffiad Biography <i>Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats</i></p> <p>First Minister, apart from the situation that we have become aware of over the last two weeks, is this the first time that you have had cause to deal with inappropriate behaviour by Alun Davies? Have you previously had complaints from civil servants or others about the behaviour of that Member brought to your attention? If so, what did you do about it?</p>	<p>Brif Weinidog, ac eithrio'r sefyllfa yr ydym ni wedi clywed amdani dros y pythefnos diwethaf, ai dyma'r tro cyntaf y bu achos i chi ymdrin ag ymddygiad amhriodol gan Alun Davies? A dynnwyd eich sylw at unrhyw gwynion gan weision sifil neu eraill am ymddygiad yr Aelod hwnnw o'r blaen? Os felly, beth wnaethoch chi am y peth?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:55	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I do not recall complaints made by civil servants about the Minister, no. I do not know what the Member means by inappropriate behaviour.</p>	<p>Nid wyf yn cofio cwynion a wnaed gan weision sifil am y Gweinidog, nac ydw. Nid wyf yn gwybod beth mae'r Aelod yn ei olygu wrth ymddygiad amhriodol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:55	<p>Kirsty Williams Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, you have deemed the behaviour of Alun Davies as unbecoming of a Minister in your Government. I agree with you and I thank you for your apology. Surely if his behaviour is unbecoming of a Minister it is also unbecoming of a member of Welsh Labour. Will you be withdrawing the whip?</p>	<p>Brif Weinidog, rydych chi wedi dyfarnu bod ymddygiad Alun Davies yn amhriodol ar gyfer Gweinidog yn eich Llywodraeth. Rwy'n cytuno â chi a diolchaf i chi am eich ymddiheuriad. Does bosib os yw ei ymddygiad yn amhriodol i Weinidog ei fod hefyd yn amhriodol i aelod o Lafur Cymru. A fyddwch chi'n dileu'r chwip?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:56	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>No.</p>	<p>Na fyddaf.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
13:56	<p>Kirsty Williams Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, since your judgment on these issues has been so very flawed, surely now is the time to accept that we need independent policing of the ministerial code. For the sake of this Chamber, for the sake of this Government and for the sake of the reputation of Welsh politics, will you think again?</p>	<p>Brif Weinidog, gan fod eich dyfarniad ar y materion hyn wedi bod mor arbennig o wallus, does bosib ei bod yn bryd derbyn bellach bod angen plismona'r cod gweinidogol yn annibynnol. Er lles y Siambr hon, er lles y Llywodraeth hon ac er lles enw da gwleidyddiaeth Cymru, a wnewch chi ailystyried?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

13:56	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>No, because, in my view, the system worked. If the system had not worked, the point that the leader of the Liberal Democrats makes would be a valid one, but the private office did what it should do. I was made aware, I took the action that I did and took the action of publishing the correspondence so that Members were aware of what had happened. I think that that shows that the system works.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Na wnaf, oherwydd, yn fy marn i, fe weithiodd y system. Pe na byddai'r system wedi gweithio, byddai'r pwynt y mae arweinydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ei wneud yn un dilys, ond gwnaeth y swyddfa breifat yr hyn y dylai ei wneud. Rhoddwyd gwybod i mi, cymerais y camau a wneuthum a chymerais y cam o gyhoeddi'r ohebiaeth fel bod yr Aelodau'n ymwybodol o'r hyn a oedd wedi digwydd. Rwy'n credu bod hynny'n dangos bod y system yn gweithio.</p>
13:57	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I have had apologies from Rhun ap Iorwerth. He is delayed so his question has been withdrawn this afternoon, so we move to question 4 from Paul Davies.</p> <p><i>Ni ofynnwyd cwestiwn 3, OAQ(4)1785(FM).</i></p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Rwyf wedi derbyn ymddiheuriad gan Rhun ap Iorwerth. Mae wedi ei oedi felly tynnwyd ei gwestiwn yn ôl y prynhawn yma, felly symudwn at gwestiwn 4 gan Paul Davies.</p> <p><i>Question 3, OAQ(4)1785(FM), not asked.</i></p>
<p>Gwasanaethau Canser</p>		<p>Cancer Services</p>
13:57	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>4. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella gwasanaethau cancer yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1774(FM)</i></p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p><i>4. Will the First Minister make a statement on what the Welsh Government is doing to improve cancer services in west Wales? OAQ(4)1774(FM)</i></p>
13:57	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Mae'n cynlluniau i wella gwasanaethau cancer ledled Cymru i'w gweld yn y cynllun cyflawni ar gyfer cancer. Mae'r ail adroddiad blynyddol yn dangos ein bod yn gwneud cynnydd da, gan dynnu sylw at arfer da fel datblygu clinigau un man galw gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i gyflymu amseroedd aros cancer.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>Our plans to improve cancer services across Wales are set out in the cancer delivery plan. The second annual report demonstrates the good progress that we are making, highlighting good practice like the development of one-stop clinics by Hywel Dda Local Health Board to speed up cancer waiting times.</p>
13:57	<p>Paul Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Brif Weinidog, yn ddiweddar, cwrddais â changen lleol Prostate Cymru yn sir Benfro. Mae'n ganolog i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r clefyd hwn. Rwy'n deall mai cancer y prostad yw'r cancer mwyaf cyffredin mewn dynion yng Nghymru ac nid yw sgrinio ar gyfer y cancer hwn yn digwydd fel mater o gwrs, fel sgrinio ar gyfer cancer y coluddyn i bobl sy'n cyrraedd 60 mlwydd oed. O ystyried mai cancer y prostad yw'r cancer mwyaf cyffredin ymhlith dynion yng Nghymru, a all y Prif Weinidog ddweud a fyddai Llywodraeth Cymru yn fodlon edrych ar y mater pwysig hwn, gan ystyried cyflwyno canllawiau i sicrhau sgrinio gorfodol a fyddai, rwy'n siŵr, yn arbed bywydau yn y tymor hir?</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>First Minister, I recently met with the local branch of Prostate Cymru in Pembrokeshire. It is central to raising awareness among the public of this condition. I understand that prostate cancer is the most prevalent cancer among men in Wales and screening for prostate cancer does not happen as a matter of course, as it does for colon cancer for people who reach the age of 60. Bearing in mind that prostate cancer is the most prevalent cancer among men in Wales, can the First Minister tell us whether the Welsh Government would be willing to look at this important issue and to consider introducing guidance in order to ensure compulsory screening, which I am sure would save lives in the longer term?</p>
13:58	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Mae pwyllgor sgrinio cenedlaethol yn y DU sy'n rhoi canllawiau i wledydd y Deyrnas Unedig ar ganser y prostad. Nid yw'r pwyllgor hwnnw'n argymhell sgrinio ar hyn o bryd, ond os daw mwy o dystiolaeth ynglŷn â sgrinio ar gyfer cancer y prostad, byddwn yn aillystyried y mater.</p>	<p style="text-align: right;">Senedd.tv Fideo Video</p> <p>There is a UK national screening committee that produces guidance for United Kingdom countries on prostate cancer. It does not recommend mandatory screening at present, but if more evidence comes to the fore we will reconsider the issue.</p>

13:58	Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography I call the birthday boy, Mike Hedges.	Galwaf ar y bachgen sy'n cael ei ben-blwydd, Mike Hedges.	Senedd.tv Fideo Video
13:58	Mike Hedges Bywgraffiad Biography Thank you, Presiding Officer. May I stress the importance of cancer services throughout Wales and the importance of vertical integration of cancer services? Does the First Minister agree that it is important for cancer services to work throughout Wales on the hub-and-spoke model to use the expertise of the key centres?	Diolch i chi, Lywydd. A gaf fi bwysleisio pwysigrwydd gwasanaethau cancer ledled Cymru a phwysigrwydd integreiddio fertigol o wasanaethau cancer? A yw'r Prif Weinidog yn cytuno ei bod yn bwysig i wasanaethau cancer weithio ledled Cymru ar sail y model prif ganolfan a lloerennau i ddefnyddio arbenigedd y canolfannau allweddol?	Senedd.tv Fideo Video
13:59	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> It is inevitable that, where there are major centres—tertiary centres—other hospitals and providers of care will look to work with those tertiary centres in order to ensure that the service is as strong as it can possibly be. That does not mean, of course, that all these services should be provided in the tertiary centre but, clearly, the more serious ones will be.	Mae'n anochel, pan geir prif ganolfannau—canolfannau trydyddol—y bydd ysbytai a darparwyr gofal eraill eisiau gweithio gyda'r canolfannau trydyddol hynny er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth mor gryf ag y gall fod. Nid yw hynny'n golygu, wrth gwrs, y dylai'r holl wasanaethau hyn gael eu darparu yn y ganolfan drydyddol ond, yn amlwg, bydd hynny'n wir am y rhai mwy difrifol.	Senedd.tv Fideo Video
13:59	Elin Jones Bywgraffiad Biography Brif Weinidog, daeth etholwr i'm gweld i ddoe ac roedd y gŵr yn dioddef o ganser. Mae'i ymgynghorydd wedi awgrymu triniaeth gyda chyffuriau Cetuximab ac Avastin, ond mae'r driniaeth hon wedi'i throï lawr gan Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Mae eich Llywodraeth chi ar hyn o bryd yn ymgynghori ar gadw paneli penodol i bob bwrdd iechyd i wneud penderfyniadau ar gyffuriau. Sut y gallwch gyfiawnhau parhad cyfundrefn a fydd yn caniatáu i baneli gwahanol mewn byrddau iechyd gwahanol i gymryd penderfyniadau gwahanol ar gyffuriau cancer a chyffuriau eraill?	First Minister, a constituent came to see me yesterday and the gentleman was suffering with cancer. A consultant has suggested treatment with Cetuximab and Avastin for that constituent, but this has been turned down by Hywel Dda Local Health Board. Your Government at present is consulting on retaining specific panels for every health board to take decisions on drugs. How can you justify continuing with a regime that would allow different panels in different health boards to take different decisions on cancer drugs and other drugs?	Senedd.tv Fideo Video
14:00	Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i> Mae hwn yn rhywbeth rydym yn ei ystyried ar hyn o bryd. Nid wyf wedi cael fy mherswadio ynglŷn â chael cronfa cyffuriau cancer, ond rwy'n gwybod bod y Gweinidog yn ystyried, ar hyn o bryd, ffyrdd i sicrhau bod mwy o gysondeb dros Gymru'n gyfan gwbl.	This is something that we are considering at present. We are not persuaded about having a cancer drugs fund, but I know that the Minister is currently looking at how we can have more consistency across the whole of Wales.	Senedd.tv Fideo Video
14:00	Joyce Watson Bywgraffiad Biography First Minister, are you as sick as I am with David Cameron misleadingly talking down our health services? The facts are these: thanks to Welsh Labour Government investment, more cancer patients get treatment inside the target times in Wales than do so in England, survival rates are up, patient satisfaction is up and we have the only fully digital breast screening service in Britain.	Brif Weinidog, a ydych chi wedi cael cymaint o lond bol â minnau gyda David Cameron yn sarhau ein gwasanaethau iechyd? Dyma'r ffeithiau: diolch i fuddsoddiad Llywodraeth Lafur Cymru, mae mwy o gleifion cancer yn cael triniaeth yn unol â'r amseroedd targed yng Nghymru na'r nifer yn Lloegr, mae cyfraddau goroesi wedi codi, mae bodlonrwydd cleifion wedi cynyddu ac ni sydd â'r unig wasanaeth sgrinio'r fron cwbl ddigidol ym Mhrydain.	Senedd.tv Fideo Video
	In west Wales, cancer day services at Withybush hospital are to be maintained and the health board is looking at recruiting an extra oncologist and delivering a new mobile cancer service. So, First Minister, will you discuss with the Minister for health what help the Welsh Government can offer to Hywel Dda Local Health Board to help to deliver those improvements?	Yn y gorllewin, bydd gwasanaethau dydd cancer yn Ysbyty Llwynhelyg yn cael eu cynnal ac mae'r bwrdd iechyd yn ystyried recriwtio oncolegydd ychwanegol a darparu gwasanaeth cancer symudol newydd. Felly, Brif Weinidog, a wnewch chi drafod gyda'r Gweinidog iechyd pa gymorth y gall Llywodraeth Cymru ei gynnig i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda i helpu i ddarparu'r gwelliannau hynny?	

14:01	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>There is much to be proud of in the Welsh NHS. What I can say in terms of Hywel Dda and Wityhush particularly, which is in the constituency of the Member who originally asked the question, is that work is ongoing to design a new chemotherapy unit on the site of Wityhush hospital, which of course will be important for all of those who use that service in the future.</p>	<p>Mae llawer i fod yn falch ohono yn y GIG yng Nghymru. Yr hyn y gallaf ei ddweud o ran Hywel Dda a Llwynhelig yn arbennig, sydd yn etholaeth yr Aelod a ofynnodd y cwestiwn yn wreiddiol, yw bod gwaith yn parhau i gynllunio uned cemotherapi newydd ar safle ysbyty Llwynhelig, a fydd yn bwysig wrth gwrs i bawb o'r rhai a fydd yn defnyddio'r gwasanaeth hwnnw yn y dyfodol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Hawliau Cynllunio		Planning Rights	
14:01	<p>Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography <i>5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynghylch hawliau cynllunio mewn perthynas ag ynni? OAQ(4)1787(FM)</i></p>	<p><i>5. Will the First Minister make a statement on planning rights in relation to energy? OAQ(4)1787(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:01	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Blaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw cynnydd yn yr ynni carbon isel o ffynonellau adnewyddadwy. Rydym wedi ymrwymo i hwyluso'r gwaith o osod cyfarpar microgynhyrchu yng Nghymru. Rydym eisoes wedi cymryd camau i leihau'r angen am ganiatâd cynllunio i osod y rhan fwyaf o dechnolegau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach a micro.</p>	<p>The Welsh Government's priority is to increase low-carbon energy production from renewable sources. We are committed to facilitating the installation of microgeneration equipment in Wales. We have already taken steps to reduce the need to obtain planning permission in order to install most small or micro-scale renewable energy technologies.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:01	<p>Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography</p> <p>Diolch ichi am eich ateb. Nid oes gan Gymru pwerau o safbwynt trwyddedu ar gyfer nwy anghonfensiynol. Fodd bynnag, mae rhai pobl yn tybio byddai'r hawliau cynllunio sydd gennym, petai'r Llywodraeth yn dymuno gwneud hynny, o bosibl yn medru mwy neu lai arwain at foratoriw yn y maes hwn. A ydych chi o'r farn bod gan Gymru'r pwerau cynllunio angenrheidiol a fyddai'n ei chaniatáu hi, petai'n dewis gwneud hynny, i roi stop ar ddatblygiadau o'r fath?</p>	<p>Thank you for that response. Wales has no powers in terms of licensing for unconventional gas. However, there are those who believe that the planning rights that we have, if the Government so wished, could possibly lead, more or less, to a moratorium in this area. Are you of the opinion that Wales has the necessary planning powers that would allow it, if it so chose, to put a moratorium on such developments?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:02	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Na. Mae'n bwysig dros ben fod gennym system gynllunio yng Nghymru sy'n rhoi'r lefel o reolaeth y dylem ei chael dros reoli adnoddau. Nid felly y mae ar hyn o bryd ac, wrth gwrs, rwyf wedi gweld yr hyn y mae comisiwn Silk wedi argymhell ynglŷn â'r ffordd ymlaen i'r dyfodol.</p>	<p>No. It is extremely important that we have a planning system in Wales that gives us the level of control that we should have over our resources. That is not the case at present and, of course, I have seen what the Silk commission has recommended on the way forward for the future.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:02	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>Will the First Minister outline which specific paragraphs of the ministerial code he considers were breached by the Minister for Natural Resources and Food in respect of the circuit of Wales?</p>	<p>A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa baragraffau penodol o'r cod gweinidogol y mae o'r farn bod y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd wedi eu torri o ran cylchfordd Cymru?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:02	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I am not sure that this is a supplementary, Llywydd.</p>	<p>Nid wyf yn siŵr bod hwn yn gwestiwn atodol, Lywydd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:02	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>I am sorry. Have I risen on the wrong question?</p>	<p>Mae'n ddrwg gennyf. Ydw i wedi codi ar y cwestiwn anghywir?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:02	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Yes.</p>	<p>Ydych.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:02	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>I apologise, Presiding Officer. In that case, I was going to ask my question 7, so I will leave it.</p>	<p>Ymddiheuraf, Lywydd. Yn yr achos hwnnw, roeddwn i'n mynd i ofyn fy nghwestiwn 7, felly byddaf yn ei adael.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

Y Rhwydwaith Cefnffyrdd

The Trunk Road Network

14:03	<p>Russell George Bywgraffiad Biography</p> <p><i>6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar reoli'r rhwydwaith cefnffyrdd yng nghanolbarth Cymru? OAQ(4)1784(FM)</i></p>	<p><i>6. Will the First Minister make a statement on the management of the trunk road network in mid Wales? OAQ(4)1784(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:03	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography</p> <p><i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We continue to deliver our programme of improvements and maintenance on the trunk road network across all parts of Wales.</p>	<p>Rydym yn parhau i gyflawni ein rhaglen o welliannau a gwaith cynnal a chadw ar y rhwydwaith cefnffyrdd ar draws pob rhan o Gymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:03	<p>Russell George Bywgraffiad Biography</p> <p>A stretch of the A483 near Penarth corner near Newtown, which has been frustrating drivers and passengers with five months of traffic misery, was finally finished last week, much to the relief of everyone who uses that road. When I raised the issue of the culvert work with Ministers at the beginning of June, the response from the Minister for business was that the schedule of work had fallen behind due to a problem with the contractors. The Minister for transport told me in February that these works were about to start and were a priority for the Welsh Government. I do not believe that neither she nor I expected what actually took place.</p> <p>What exactly were the problems that were experienced with the contractors? Residents are asking me and want to know, as, on many days, there was no work taking place. If you cannot provide an answer, I would appreciate it if you could write to me with details.</p>	<p>Cafodd darn o'r A483 ger cornel Penarth ger y Drenewydd, sydd wedi peri rhwystredigaeth i yrwyr a theithwyr gyda phum mis o ddiflastod traffig, ei orffen o'r diwedd yr wythnos diwethaf, er mawr ryddhad i bawb sy'n defnyddio'r ffordd honno. Pan godais fater y gwaith cwlfer gyda Gweinidogion ddechrau mis Mehefin, yr ymateb gan y Gweinidog busnes oedd bod gwaith ar ei hôl hi o ran yr amserlen o ganlyniad i broblem gyda'r contractwyr. Dywedodd y Gweinidog trafnidiaeth wrthyf i ym mis Chwefror bod y gwaith hwn ar fin dechrau a'i fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Nid wyf yn credu ei bod hi na minnau yn disgwyl yr hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd.</p> <p>Beth yn union oedd y problemau a gafwyd gyda'r contractwyr? Mae trigolion yn gofyn i mi ac eisiau gwybod, oherwydd, ar nifer o ddiwrnodau, nid oedd unrhyw waith yn cael ei wneud. Os na allwch chi roi ateb, byddwn yn gwerthfawrogi pe gallech chi ysgrifennu ataf gyda'r manylion.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:04	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Yes. The traffic signals were removed last week and the road was opened to two-way traffic. The remaining works will be completed this week. The works fell behind schedule due to ground problems that the contractor encountered, rather than—. I am aware that a local news article suggested that we were let down by the contractor; that is not the case, but there were some issues regarding the ground that had to be remedied before the work could go ahead. However, I am glad to see now that it is being completed.</p>	<p>Gallaf. Cafwyd gwared ar y signalau traffig yr wythnos diwethaf ac agorwyd y ffordd i draffig dwyffordd. Bydd y gwaith sydd eto i'w wneud yn cael ei gwblhau yr wythnos hon. Roedd y gwaith ar ei hôl hi oherwydd problemau yn ymwneud â'r ddaear a wynebwyd gan y contractwr, yn hytrach na—. Rwy'n ymwybodol bod erthygl newyddion lleol wedi awgrymu bod y contractwr wedi ein siomi; nid yw hynny'n wir, ond roedd rhai problemau yn ymwneud â'r ddaear y bu'n rhaid eu datrys cyn y gallai'r gwaith fynd yn ei flaen. Fodd bynnag, rwy'n falch o weld ei fod yn cael ei gwblhau erbyn hyn.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:04	<p>Kirsty Williams Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, the good news is that the A40 at Crickhowell is free of road works for the first time in many months, but my constituents who commute on the A470—and I declare an interest; I do so myself—are now contacting me about delays on the A470 at Merthyr. I am sure that the new retail unit at Cyfarthfa will be very much welcomed by everybody when it is open, but there are significant queues both in the morning and evening for people travelling south and north on the A470. Please could you give us an update on when that work will be completed?</p>	<p>Brif Weinidog, y newyddion da yw nad oes unrhyw waith ffordd ar yr A40 yng Nghrucywel am y tro cyntaf ers misoedd lawer, ond mae fy etholwyr sy'n cymudo ar yr A470—ac rwy'n datgan buddiant; rwyf i'n gwneud hynny fy hun—bellach yn cysylltu â mi am oediadau ar yr A470 ym Merthyr. Rwy'n siŵr y bydd yr uned fanwerthu newydd yng Nghyfarthfa yn cael ei chrosawu'n fawr gan bawb pan fydd yn agor, ond ceir ciwiau sylweddol yn y bore a min nos i bobl sy'n teithio i'r de ac i'r gogledd ar yr A470. A wnewch chi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ni ynghylch pryd y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:05	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I cannot give a date as to when that work will be completed, but I will write to the Member with further updates as to what the schedule is.</p>	<p>Ni allaf roi dyddiad pryd y bydd y gwaith yn cael ei gwblhau, ond byddaf yn ysgrifennu at yr Aelod gyda diweddariadau pellach ynglŷn â beth yw'r amserlen.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Y Cod Gweinidogol	<p><i>7. A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa baragraffau penodol o'r Cod Gweinidogol y mae'n ystyried y cafodd eu torri gan y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd? OAQ(4)1789(FM)</i></p>	The Ministerial Code	<p><i>7. Will the First Minister outline which specific paragraphs of the Ministerial Code he considers were breached by the Minister for Natural Resources and Food? OAQ(4)1789(FM)</i></p>
14:05	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call Antoinette Sandbach to ask question 7. Do you want to read the question again or have you already read it?</p>	<p>Galwaf ar Antoinette Sandbach i ofyn cwestiwn 7. A ydych chi eisiau darllen y cwestiwn eto neu a ydych chi wedi ei ddarllen eisoes?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:05	<p>Antoinette Sandbach Bywgraffiad Biography</p> <p>I have already read it.</p>	<p>Rwyf wedi ei ddarllen eisoes.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:05	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, can you answer the question on the paper that was asked earlier?</p>	<p>Brif Weinidog, a allwch chi ateb y cwestiwn ar y papur a ofynnwyd yn gynharach?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:05	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I think that I have dealt with this in previous exchanges, Llywydd.</p>	<p>Credaf fy mod i wedi ymdrin â hyn yn ystod cwestiynau blaenorol, Llywydd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 14:05 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Actually, First Minister, you have not. You have not precisely identified which paragraphs of the code you say were breached and which you were happy to ignore. You have talked about the precautionary nature of the advice, but in paragraph 38 of Sir Derek Jones's report, it said:
- 'if followed, would protect the integrity of the process in a controversial case.'
- First Minister, do you accept, by saying it was so precautionary that the Minister did not need to follow the advice provided to him on 28 March that he should not comment on the matter even in his AM capacity, that you were prepared to compromise the integrity of the process in a controversial case?
- Nac ydych, a dweud y gwir, Brif Weinidog. Nid ydych chi wedi nodi yn union pa baragraffau o'r cod a dorwyd yn eich barn chi ac yr oeddech chi'n hapus i'w hanwybyddu. Rydych chi wedi sôn am natur ragofalus y cyngor, ond ym mharagraff 38 o adroddiad Syr Derek Jones, dywedodd:
- pe byddai'n cael ei ddilyn, byddai'n diogelu uniondeb y broses mewn achos dadleuol.
- Brif Weinidog, a ydych chi'n derbyn, trwy ddweud ei fod mor rhagofalus fel nad oedd angen i'r Gweinidog ddilyn y cyngor a roddwyd iddo ar 28 Mawrth na ddylai wneud sylwadau ar y mater hyd yn oed yn rhinwedd ei swydd AC, eich bod yn barod i gyfaddawdu uniondeb y broses mewn achos dadleuol?
- 14:06 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- I do not accept that the issue has been compromised in any way. It is perfectly open to Ministers to represent their constituents within certain guidelines. I felt that the advice went beyond what was already in the ministerial code. Nevertheless, as we know, this week, another issue has come to light to my knowledge and I have taken the appropriate action.
- Nid wyf yn derbyn bod y mater wedi ei gyfaddawdu mewn unrhyw ffordd. Mae'n gwbl agored i Weinidogion gynrychioli eu hetholwyr yn unol â chanllawiau penodol. Roeddwn i'n teimlo bod y cyngor yn mynd tu hwnt i'r hyn a oedd eisoes yn y cod gweinidogol. Serch hynny, fel y gwyddom, yr wythnos hon, fe'm hysbyswyd am fater arall sydd wedi dod i'r amlwg, ac rwyf wedi cymryd y camau priodol.
- 14:06 **Simon Thomas** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Wrth gwrs, ers cyhoeddi'r adroddiad yr wythnos diwethaf, mae digwyddiadau heddiw yn dangos ei fod yn arfer gan y cyn-Weinidog i roi pwysau ar lafar yn dilyn negeseuon e-bost i'w swyddogion, sy'n taflu goleuni newydd ar adroddiad Derek Jones a chynnwys yr e-byst hynny. Ers hynny, hefyd, ddydd Mercher diwethaf, gofynnais yn benodol i chi a oeddech yn dal i greu yn eich Gweinidog. Rydym bellach yn gwybod, chwe awr cyn i mi ofyn y cwestiwn hwnnw i chi, fod y cyn-Weinidog wedi gyrru e-bost yn gofyn am wybodaeth bersonol am bump o Aelodau yn y tŷ hwn. Felly, pryd yn union oedd eich swyddfa yn gwybod am yr e-bost a anfonwyd am 9.30 a.m. gan Alun Davies? Pryd y daethoch i benderfyniad, felly, nad oeddech bellach yn ei greu?
- Of course, since the publication of that report last week, the events today have shown that it was a habit of the former Minister to put pressure on officials orally after sending e-mails, which throws new light on Derek Jones's report and the content of those e-mails. Since then, too, last Wednesday, I specifically asked you whether you still had confidence in your Minister. We now know that six hours before I asked you that question, he had sent an e-mail asking for personal information about five Members in this Senedd. When exactly was your office aware of the e-mail sent at 9.30 a.m. by Alun Davies? When did you come to a decision, therefore, that you no longer had confidence in him?
- 14:07 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Roeddwn i'n gwybod am yr e-bost ar fore Gwener pan ffoniodd swyddog o'r swyddfa fi. Gwelais yr e-bost ddoe. Wedyn, cymerais y penderfyniad—. Roeddwn i mo'yn clywed beth oedd gan y cyn-Weinidog i'w ddweud y bore yma, ac wedi hynny cymerais y penderfyniad.
- I knew about the e-mail on Friday morning when an official from the office phoned me. I saw the e-mail yesterday. Then, I took the decision—. I wanted to hear what the Minister had to say about it this morning, and then I took the decision.
- 14:07 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, when you heard from the former Minister, did he give an explanation as to what he intended to do with the information that he requested on those five Members?
- Brif Weinidog, pan glywsoch chi gan y cyn-Weinidog, a roddodd ef eglurhad i chi ynglŷn â'r hyn yr oedd yn bwriadu ei wneud gyda'r wybodaeth y gofynnodd amdani am y pum Aelod dan sylw?

14:08	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I am not going to go into details about the conversation. However, my view is that the impression certainly was given that the information was being requested in order for that information to be used in the course of questions. I thought that that was the view that most Members would take. That is the view that I took and, therefore, it was no longer tenable for the Minister to remain in post.</p>	<p>Nid wyf yn mynd i ddatgelu manylion y sgwrs. Fodd bynnag, fy marn i yw y rhoddwyd yr argraff bendant y gwnaed cais am y wybodaeth er mwyn i'r wybodaeth honno gael ei defnyddio yn ystod cwestiynau. Roeddwn i'n meddwl y byddai mwyafrif yr Aelodau o'r farn honno. Dyna oedd fy safbwynt i ac, felly, nid oedd yn bosibl mwych i'r Gweinidog aros yn y swydd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
Prynu Gorfodol		Compulsory Purchases	
14:08	<p>William Powell Bywgraffiad Biography <i>8. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwerau prynu gorfodol yng Nghymru? OAQ(4)1790(FM)</i></p>	<p><i>8. Will the First Minister make a statement on powers to make compulsory purchases in Wales? OAQ(4)1790(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:08	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>They are an important tool for local authorities and other public bodies to use as a means of assembling the land needed to help to deliver social and economic improvements in Wales.</p>	<p>Maen nhw'n cynrychioli arf pwysig i awdurdodau lleol a chyrrff cyhoeddus eraill eu defnyddio fel ffordd o gydosod y tir sydd ei angen er mwyn helpu i sicrhau gwelliannau cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:08	<p>William Powell Bywgraffiad Biography</p> <p>I would like to thank the First Minister for that response. At a Policy Forum for Wales seminar on infrastructure last week, Professor Brian Morgan expressed some concern about the Welsh Government's reduced capacity to exercise compulsory purchases because of the consequences of the abolition of the land authority for Wales in 1999. He cited that as an impediment to progressing certain regeneration projects. First Minister, do you share any of Professor Morgan's concern in this regard? Will you undertake to consider reviewing the frequency with which the Welsh Government undertakes compulsory purchase to advance regeneration?</p>	<p>Hoffwn ddiolch i'r Prif Weinidog am yr ateb yna. Mewn seminar Fforwm Polisi Cymru ar seilwaith yr wythnos diwethaf, mynegodd yr Athro Brian Morgan rywfaint o bryder ynghylch y ffaith fod gallu Llywodraeth Cymru i ymarfer prynu gorfodol wedi lleihau oherwydd canlyniadau diddymu awdurdod tir Cymru ym 1999. Dywedodd fod hynny'n rhwystr i fwrw ymlaen â phrosiectau adfywio penodol. Brif Weinidog, a ydych chi'n rhannu unrhyw bryderon sydd gan yr Athro Morgan yn hyn o beth? A wnewch chi addo ystyried adolygu pa mor aml y mae Llywodraeth Cymru yn ymarfer prynu gorfodol i hybu adfywiad?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:09	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I do not think that that is the correct situation. Compulsory purchase orders are available to us through the Welsh Development Agency Act 1975. That remains the case, specifically in relation to economic, business and environmental improvement. I do not see that the situation therefore has changed, given the powers that we have always had as a result of that Act.</p>	<p>Nid wyf yn credu mai dyna'r sefyllfa gywir. Mae gorchmynion prynu gorfodol ar gael i ni trwy Ddeddf Awdurdod Datblygu Cymru 1975. Mae hynny'n dal i fod yn wir, o ran gwelliant economaidd, busnes ac amgylcheddol yn benodol. Nid wyf yn gweld bod y sefyllfa wedi newid felly, o ystyried y pwerau a fu gennym erioed o ganlyniad i'r Ddeddf honno.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:10	<p>Byron Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, leading on from that, I have been working with organisations such as Sustrans on scrutinising the implementation of Active Travel (Wales) Act 2013. There are serious concerns that the current framework for the use of compulsory purchase orders—admittedly, as a last resort—and the guidance do not sit well together. There is scope during the planning Bill to explore this issue further, and I would welcome your commitment to explore whether CPOs or the guidance to the Planning Inspectorate that sits alongside CPOs meet the needs of the Active Travel (Wales) Act, and other Welsh Government legislation.</p>	<p>Brif Weinidog, yn arwain ymlaen o hynny, rwyf wedi bod yn gweithio gyda sefydliadau fel Sustrans ar graffu ar weithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013. Ceir pryderon difrifol nad yw'r fframwaith presennol ar gyfer defnyddio gorchmynion prynu gorfodol—fel dewis olaf, rwy'n cyfaddef— a'r canllawiau yn cyd-fynd â'i gilydd yn dda. Ceir cyfle yn ystod y Bil cynllunio i archwilio'r mater hwn ymhellach, a byddwn yn croesawu eich ymrwymiad i archwilio pa un a yw gorchmynion prynu gorfodol neu'r canllawiau i'r Arolygiaeth Gynllunio sy'n ategu'r gorchmynion prynu gorfodol yn diwallu anghenion Deddf Teithio Llesol (Cymru), a deddfwriaethau eraill Llywodraeth Cymru.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:10	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>I did not quite hear what the Member said, but I think that he was suggesting that compulsory purchase should be something that should be considered as part of the active travel Act. I agree with that. I think that there may well be, on a case-by-case basis, a need to consider compulsory purchase, and local authorities should not be afraid of that where they feel that it is the correct thing to do.</p>	<p>Ni chlywais yn iawn yr hyn a ddywedodd yr Aelod, ond rwy'n meddwl ei fod yn awgrymu y dylai prynu gorfodol fod yn rhywbeth y dylid ei ystyried yn rhan o'r Ddeddf teithio llesol. Rwy'n cytuno â hynny. Rwy'n meddwl y gallai fod angen, ar sail achosion unigol, ystyried prynu gorfodol, ac ni ddylai awdurdodau lleol ofni hynny pan eu bod yn teimlo mai dyna'r peth iawn i'w wneud.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:11	<p>Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography</p> <p>Brif Weinidog, a ydych chi'n credu bod pryniant gorfodol yn cael ei weithredu yn gyson ar draws Cymru, neu a ydy awdurdodau lleol yn cymryd agwedd wahanol mewn rhai ardaloedd? A wnewch chi ystyried, gydag unrhyw ad-drefnu o lywodraeth leol, sicrhau bod yna drefn lawer iawn mwy cyson o ran defnyddio pryniant gorfodol?</p>	<p>First Minister, do you believe that compulsory purchase is being implemented consistently across Wales, or are local authorities taking different approaches in certain areas? Will you consider, with any reorganisation of local government, that there should be a far more consistent system in terms of using compulsory purchase?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:11	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Nid oes tystiolaeth o hynny ac nid wyf yn gwybod am unrhyw sefyllfa lle mae diffyg cysondeb ar hynny rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru. Maen nhw i gyd yn gorfod gweithio o dan yr un fframwaith cyfreithiol. Os oes unrhyw dystiolaeth sydd yn dangos problem gyda chysondeb, byddwn i'n barod i'w hystyried.</p>	<p>There is no evidence of inconsistent use, and I do not know of any situation where there is a lack of consistency on that between local authorities in Wales. They all have to work under the same legal framework. If there is any evidence that demonstrates a problem with consistency, I would be willing to look at it.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc sydd ag Anableddau</p>		<p>Services for Children and Young People with Disabilities</p>	
14:11	<p>Julie Morgan Bywgraffiad Biography <i>9. Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd ag anableddau? OAQ(4)1793(FM)</i></p>	<p><i>9. What plans does the First Minister have to improve services for children and young people with disabilities? OAQ(4)1793(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:11	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>Our legislative programme continues to drive improvement in services for children and young people with disabilities. Targeted funding includes £2.6 million in 2014-15 to the Family Fund Trust, and the Families First programme includes specific provision of £3 million for families affected by disability.</p>	<p>Mae ein rhaglen ddeddfwriaethol yn parhau i ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau i blant a phobl ifanc ag anableddau. Mae cyllid wedi ei dargedu yn cynnwys £2.6 miliwn i Ymddiriedolaeth Cronfa'r Teulu yn 2014-15, ac mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnwys darpariaeth benodol o £3 miliwn i deuluoedd y mae anabledd yn effeithio arnynt.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

- 14:12 **Julie Morgan** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I thank the First Minister for that response. I am sure that he is aware of the report published by the children's commissioner last week called 'Full Lives', a study of short breaks for disabled children, which highlighted the problems of transition at the age of 18 from children's to adult services, when,
- 'all the scaffolding is suddenly being taken away',
- as the document said. What more can the Welsh Government do to improve this period of disabled young people's lives?
- Diolchaf i'r Prif Weinidog am yr ateb yna. Rwy'n siŵr ei fod yn ymwybodol o'r adroddiad a gyhoeddwyd gan y comisiynydd plant yr wythnos diwethaf o'r enw 'Full Lives', astudiaeth o seibiannau byr i blant anabl, a amlygodd broblemau trosglwyddo yn 18 oed o wasanaethau i blant i wasanaethau i oedolion, pan,
- gymerir yr holl sgaffaldiau i ffwrdd yn sydyn,
- fel y dywedodd y ddogfen. Beth arall all Llywodraeth Cymru ei wneud i wella'r cyfnod hwn ym mywydau pobl ifanc anabl?
- 14:12 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Through the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, we can improve the way that people can get information and advice and access services, as well as drive forward a more tailored approach to services to meet specific needs. By ensuring that people have a greater say over the services that they get, we can make sure that services are tailored for them and make sure that the transition when children and young people move to access services as adults is as seamless as possible.
- Trwy Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles (Cymru) 2014, gallwn wella'r ffordd y gall pobl dderbyn gwybodaeth a chyngor a mynediad at wasanaethau, yn ogystal â bwrw ymlaen â dull wedi ei deilwra'n well o ran darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion penodol. Trwy sicrhau bod pobl yn cael lleisio mwy o farn am y gwasanaethau maen nhw'n eu derbyn, gallwn wneud yn siŵr bod gwasanaethau'n cael eu teilwra ar eu cyfer nhw a gwneud yn siŵr bod y pontio pan fydd plant a phobl ifanc yn symud i ddefnyddio gwasanaethau fel oedolion mor ddi-dor â phosibl.
- 14:13 **Suzy Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, we celebrate this Assembly's commitment to the United Nations Convention on the Rights of the Child, and acknowledge some of your Government's action to improve services for disabled children and young people. Swansea council has followed the Assembly's lead in committing to the UNCRC, so will you join me in condemning that particular council for even considering the removal of special needs assistance on school transport that will, of course, result in poorer services for disabled children and young people?
- Brif Weinidog, rydym ni'n dathlu ymrwymiad y Cynulliad hwn i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, ac yn cydnabod rhai o'r camau mae eich Llywodraeth wedi eu cymryd i wella gwasanaethau i blant a phobl ifanc anabl. Mae cyngor Abertawe wedi dilyn esiampl y Cynulliad gan ymrwymo i'r CCUHP, felly a wnewch chi ymuno â mi i gondemnio'r cyngor penodol hwnnw am hyd yn oed ystyried cael gwared ar gymorth anghenion arbennig ar gludiant i'r ysgol a fydd, wrth gwrs, yn arwain at wasanaethau salach i blant a phobl ifanc anabl?
- 14:13 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Y Prif Weinidog / The First Minister*
- Local authorities must act in accordance with the law and in accordance with any charter that they have signed up to. It stands to reason that we would expect them to honour those commitments, if those commitments are in place.
- Mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithredu'n unol â'r gyfraith ac yn unol ag unrhyw siarter y maen nhw wedi ymrwymo iddo. Mae'n sefyll i reswm y byddem yn disgwyl iddyn nhw fodloni'r ymrwymadau hynny, os yw'r ymrwymadau hynny wedi'u sefydlu.
- 14:13 **Lindsay Whittle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- First Minister, disabled people, families and campaign and pressure groups advocating on behalf of those with disabilities have supported Plaid Cymru's call for a disability commissioner for Wales to properly ensure that services for disabled children and young people are consistently improved and that we have an impartial office to monitor the services. I would be interested to know, First Minister, why you prefer having a commissioner for future generations, which was proposed in the Well-being of Future Generations (Wales) Bill yesterday, but not a disabilities commissioner, please.
- Brif Weinidog, mae pobl anabl, teuluoedd a grwpiau ymgyrchu a phwysau sy'n eirioli ar ran y rhai sydd ag anabledau wedi cefnogi galwad Plaid Cymru am gomisiynydd anabled i Gymru i sicrhau'n iawn bod gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc anabl yn cael eu gwella'n gyson a bod gennym swyddfa ddiuedd i fonitro'r gwasanaethau. Byddai gennyf ddiddordeb mewn gwybod, Brif Weinidog, pam mae'n well gennyh chi gael comisiynydd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, a ygnigwyd ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ddoe, ond nid comisiynydd anabledau, os gwelwch yn dda.

- 14:14 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
- Thus far, it is not something that we have considered necessary, but, of course, we always review the situation to see whether there is a case for a new commissioner, and we will continue to give that further thought.
- Hyd yn hyn, nid yw'n rhywbeth yr ydym ni wedi ei ystyried yn angenrheidiol, ond, wrth gwrs, rydym ni bob amser yn adolygu'r sefyllfa i weld a oes achos dros gomisiynydd newydd, a byddwn yn parhau i roi ystyriaeth bellach i hynny.
- 14:14 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- Brif Weinidog, mae'r ymgynghoriad ar anghenion dysgu ychwanegol yn dod i ben ar 25 Gorffennaf. Mae'r ymgynghoriad hwnnw yn cynnwys datganiad bod y lwfans sy'n cael ei dalu i fyfyrwyr anabl ar hyn o bryd yn mynd i gael ei foderneiddio a bod ymgynghoriad pellach mewn golwg gan y Llywodraeth. A wnech chi ddweud y prynhawn yma eich bod yn ymrwymedig i barhad y lwfans hwnnw, yn hytrach nac yn ystyried ei ddileu?
- First Minister, the consultation on additional learning needs comes to an end on 25 July. That consultation includes a statement that the allowance paid to disabled students at present is to be modernised and that there is going to be a further consultation by the Government. Will you tell us this afternoon that you are committed to the continuation of that allowance,
- 14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
- Wrth gwrs, mae hynny'n rhywbeth yr ydym yn ei ystyried ar hyn o bryd. Ni fyddem yn mo'yn rhoi pobl mewn sefyllfa lle mae'r sefyllfa yn waeth, ond, tra bod yr ymgynghoriad yn cymryd lle, nid ydym yn gallu dweud dim byd cyn ein bod yn ystyried yr hyn sydd yn dod allan o'r ymgynghoriad hwnnw.
- Of course, that is something that is being considered at present. We would not wish to put people in a position that would be to their detriment, but, while the consultation is ongoing, we cannot say anything until we consider the outcome of that consultation.
- Uwchgynhadledd NATO**
- The NATO Summit**
- 14:15 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- 10. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar gynlluniau arfaethedig i gyfyngu ar drafnidiaeth a chau ffyrdd yn sgil yr uwchgynhadledd NATO yng Nghasnewydd? OAQ(4)1783(FM)*
- 10. Will the First Minister make a statement on planned transport and road closures as a result of the NATO summit in Newport? OAQ(4)1783(FM)*
- 14:15 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
- Yes. The operational arrangements for the summit are being managed by the UK Government and the police. We are working with them to ensure that our transport network is kept operational during the event.
- Gwnaf. Mae'r trefniadau gweithredol ar gyfer yr uwchgynhadledd yn cael eu rheoli gan Lywodraeth y DU a'r heddlu. Rydym ni'n gweithio gyda nhw i sicrhau bod ein rhwydwaith trafnidiaeth yn cael ei gadw'n weithredol yn ystod y digwyddiad.
- 14:15 **Eluned Parrott** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)
- Thank you, First Minister. I hope that you can clarify whether you mean that the transport network will remain operational during the event, because we are now six weeks away from that summit and yet businesses in Cardiff are contacting me now to say that they still have not had any information about the potential impact of the summit in terms of road closures, staff travel and, potentially, business closures on any affected routes. As communications for the summit appear to be your responsibility when it comes to launching logos in Brussels, can you tell me what work the Welsh Government has done in terms of communicating with businesses so that they can understand how they should prepare for the NATO summit here?
- Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Rwy'n gobeithio y gallwch chi egluro pa un a ydych chi'n golygu y bydd y rhwydwaith trafnidiaeth yn parhau i fod yn weithredol yn ystod y digwyddiad, gan ein bod ni chwe wythnos i fwrdd o'r uwchgynhadledd honno erbyn hyn ac eto mae busnesau yng Nghaerdydd yn cysylltu â mi nawr i ddweud nad ydynt wedi cael unrhyw wybodaeth o hyd am effaith bosibl yr uwchgynhadledd o ran cau ffyrdd, staff yn teithio ac, o bosibl, cau busnesau ar unrhyw ffyrdd yr effeithir arnynt. Gan ei bod yn ymddangos mai eich cyfrifoldeb chi yw cyfathrebiadau ar gyfer yr uwchgynhadledd pan ddaw i lansio logos ym Mrwsel, a allwch chi ddweud wrthyf pa waith mae Llywodraeth Cymru wedi ei wneud o ran cyfathrebu gyda busnesau fel y gallant ddeall sut y dylent baratoi ar gyfer uwchgynhadledd NATO yma?

14:16	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>The logo was launched by the Secretary of State for Wales, not by me, so it is a matter for her to criticise her own party with regard to how that was done. I was in Brussels because I was asked to be there, in fairness, by the Foreign Secretary, to host an event of foreign Ministers. What I can say, however, to the Member, is that I do not anticipate that there will be widespread and lengthy road closures. Rather, it seems that road closures will occur for a very short space of time to allow certain convoys through, although there will, of course, be an area of Cathays park—we anticipate—and the centre of Cardiff that will be closed off during the course of the summit.</p>	<p>Lansiwyd y logo gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru, nid gennyf fi, felly mae'n fater iddi hi feirniadu ei phlaid ei hun o ran sut y gwnaed hynny. Roeddwn i ym Mrwsel oherwydd y gofynnwyd i mi fod yno, a bod yn deg, gan yr Ysgrifennydd Tramor, i gynnal digwyddiad ar gyfer Gweinidogion tramor. Yr hyn y gallaf ei ddweud, fodd bynnag, wrth yr Aelod, yw nad wyf yn rhagweld y bydd ffyrdd ar gau yn eang ac am amser maith. Yn hytrach, mae'n ymddangos y bydd ffyrdd yn cael eu cau am gyfnod byr iawn o amser i ganiatáu rhai gosgorddion i fynd trwyddo, er y bydd, wrth gwrs, ardal o barc Cathays—r ydym ni'n rhagweld—a chanol Caerdydd a fydd yn cael eu cau yn ystod yr uwchgynhadledd.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:16	<p>Mohammad Asghar Bywgraffiad Biography</p> <p>First Minister, as well as the planned road closures and restrictions associated with the NATO summit, it is likely that traffic disruption will also be caused by any demonstration that may take place during that event. I recognise that it is difficult to forecast the scale and location of such protests, but will the First Minister confirm that his Government will be working with Gwent Police to ensure that any such disruption is also kept to a minimum?</p>	<p>Brif Weinidog, yn ogystal â'r cau ffyrdd arfaethedig a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig ag uwchgynhadledd NATO, mae'n debygol y bydd tarfu ar draffig yn cael ei achosi gan unrhyw wrthdystiadau a allai ddigwydd yn ystod y digwyddiad hwnnw. Rwy'n cydnabod ei bod yn anodd rhagweld maint a lleoliad protestiadau o'r fath, ond a wnaiff y Prif Weinidog gadarnhau y bydd ei Lywodraeth yn gweithio gyda Heddlu Gwent i sicrhau bod unrhyw darfu o'r fath cyn lleied â phosibl hefyd?</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:17	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>It is a matter, of course, not for us but for Gold Command, which is organising the event. Any issues with regard to security are a matter for the UK Government, but we are aware of the possibility of demonstrations. I know that account has been taken of that.</p>	<p>Mae'n fater, wrth gwrs, nid i ni, ond i Gold Command, sy'n trefnu'r digwyddiad. Mater i Lywodraeth y DU yw unrhyw faterion yn ymwneud â diogelwch, ond rydym ni'n ymwybodol o'r posibilrwydd o wrthdystiadau. Gwn y cymerwyd hynny i ystyriaeth.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:17	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Question 11, OAQ(4)1782(FM), is withdrawn.</p>	<p>Tynnwyd cwestiwn 11, OAQ(4)1782(FM), yn ôl.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
<p>Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol</p>		<p>The Integration of Health and Social Care</p>	
14:17	<p>Sandy Mewies Bywgraffiad Biography</p> <p><i>12. Pa gymorth y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru? OAQ(4)1788(FM)</i></p>	<p><i>12. What support is the Welsh Government providing to integrate health and social care in Wales? OAQ(4)1788(FM)</i></p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:17	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>We are supporting it through legislation, guidance and funding. This year alone we provided £4.5 million of funding to support integrated family support services, and £50 million for our intermediate care plan.</p>	<p>Rydym ni'n ei gefnogi trwy ddeddfwriaeth, canllawiau a chyllid. Darparwyd £4.5 miliwn o gyllid gennym eleni yn unig i gefnogi gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd, a £50 miliwn ar gyfer ein cynllun gofal canolraddol.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:18 **Sandy Mewies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am aware that the Government is doing much to integrate these services. As we know, demand continues to increase. We know that older people want to remain in control of their lives and to be independent, so I have been visiting extra care facilities, most recently Llys Jasmine in Mold. These facilities provide older people—some with complex needs—with the ability to continue to live their lives independently, but within a social network. First Minister, can I ask that we continue to support more services like these as an essential part of integrating health and social care in communities and avoiding unnecessary hospital and residential care admissions?

Rwy'n ymwybodol bod y Llywodraeth yn gwneud llawer i integreiddio'r gwasanaethau hyn. Fel y gwyddom, mae'r galw yn parhau i gynyddu. Rydym ni'n gwybod bod pobl hŷn yn awyddus i gadw rheolaeth dros eu bywydau a bod yn annibynnol, felly rwyf wedi bod yn ymweld â chyfleusterau gofal ychwanegol, yn Llys Jasmine yn yr Wyddgrug yn fwyaf diweddar. Mae'r cyfleusterau hyn yn rhoi'r gallu i bobl hŷn—rhai ohonynt ag anghenion cymhleth—i barhau i fyw eu bywydau yn annibynnol, ond o fewn rhwydwaith cymdeithasol. Brif Weinidog, a gaf fi ofyn ein bod yn parhau i gefnogi mwy o wasanaethau fel y rhain yn rhan hanfodol o integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol mewn cymunedau ac osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty a gofal preswyl?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:18 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. Our programme for government commits us to developing high-quality, integrated, safe and effective people-centred services that build on people's strengths and promote their wellbeing. Extra care facilities are fantastic facilities in terms of what they offer to people, allowing them to live as independently as possible, but within an environment where they receive the services that they need. Clearly, we would like to see more of them throughout Wales.

Cewch. Mae ein rhaglen ar gyfer llywodraethu yn ein hymrwymo i ddatblygu gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar bobl, sydd o ansawdd uchel, yn integredig, yn ddiogel ac yn effeithiol ac sy'n datblygu cryfderau pobl ac yn hybu eu lles. Mae cyfleusterau gofal ychwanegol yn gyfleusterau gwych o ran yr hyn y maent yn ei gynnig i bobl, gan eu galluogi i fyw mor annibynnol â phosibl, ond o fewn amgylchedd lle maen nhw'n derbyn y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Yn amlwg, byddem yn hoffi gweld mwy ohonynt ledled Cymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19 **Janet Finch-Saunders** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, it is a fact that the integration of health and social services has not gone any further despite the fact that we now have the Act. The Williams commission urges that progress towards integrating these services cannot wait until any local authority re-organisation. What actions will your Government be taking for those authorities that are likely to merge, or wish to merge, if any of them do? What actions is your Government taking now to ensure that the integration of the health and social services agenda actually does move forward?

Brif Weinidog, mae'n ffaith nad yw integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol wedi symud ymlaen o gwbl er gwaethaf y ffaith fod y Ddeddf gennym bellach. Mae comisiwn Williams yn annog na all cynnydd tuag at integreiddio'r gwasanaethau hyn aros tan y ceir unrhyw ad-drefnu awdurdodau lleol. Pa gamau fydd eich Llywodraeth yn eu cymryd ar gyfer yr awdurdodau hynny sy'n debygol o uno, neu sy'n dymuno uno, os bydd unrhyw un ohonynt nhw yn dymuno hynny? Pa gamau mae eich Llywodraeth yn eu cymryd nawr i sicrhau bod integreiddiad yr agenda iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn symud ymlaen mewn gwirionedd?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:19 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Well, of course, there are two statements this afternoon on the Williams commission, and, of course, the integration of health and social services is an important part of what Williams actually looked at, particularly, of course, the need to ensure that there was greater co-ordination between local authorities and local health boards, and to ensure, where possible, coterminosity of those two organisations to ensure a more seamless delivery.

Wel, wrth gwrs, ceir dau ddatganiad y prynhawn yma ar gomisiwn Williams, ac, wrth gwrs, mae integreiddio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn rhan bwysig o'r hyn a ystyriwyd gan Williams mewn gwirionedd, yn enwedig, wrth gwrs, yr angen i sicrhau bod mwy o gydgylltiad rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, ac i sicrhau, pan fo'n bosibl, bod y ddau sefydliad hyn yn cyd-ffinio er mwyn sicrhau darpariaeth fwy di-dor.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Perfformiad Ariannol y GIG

NHS Financial Performance

14:20 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

13. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar berfformiad ariannol y GIG yng Nghymru? OAQ(4)1777(FM)

13. Will the First Minister make a statement on NHS financial performance in Wales? OAQ(4)1777(FM)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

- 14:20 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Yes. The Minister issued a written statement on NHS financial performance on 26 June.
- 14:20 **Darren Millar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
The Minister did indeed issue a written statement, which identified the fact that three health boards have had their accounts qualified for the first time in their history here in Wales, which, of course, will result in the Welsh Government's accounts being qualified as well. There are two further health boards that required multi-million-pound bail-outs on a repayment basis in that financial year. So, that is five out of the seven health boards in Wales. Do you accept that, given those overspends, you are not giving the national health service sufficient resources here in Wales and that you need to reverse the record-breaking cuts that your Government has chosen to impose on our national health service?
- 14:21 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
First of all, the Welsh Government's accounts are not qualified—that is my understanding—as a result of the health boards' accounts. He cannot have it both ways. He cannot on the one hand criticise us for bailing out health authorities and then, when we do not do it, criticise us for that as well. The reality is that there are pressures on the health service, but the pressures in England—has he not read 'The Times' and other papers in terms of the financial pressures there? Under his party's stewardship in England, there are billions of pounds that are missing in the English NHS. It is clear from what the health organisations there are saying that that is the case, and from what the medical profession is saying. The difference is that we in Wales are meeting the challenge, whereas in England, under his party, it is being ignored.
- 14:21 **Lynne Neagle** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
First Minister, I am sure that you are aware of the Trades Union Congress's Support Our Welsh NHS campaign, launched yesterday to mark the sixty-sixth anniversary of the health service. The campaign comes together with patients who have recent experience of the NHS and staff, and it calls for an end to the kind of attacks and denigration that we have seen consistently from the Prime Minister and his Tory colleagues, which culminated in those totally unacceptable comments about Offa's Dyke being a line between life and death. First Minister, would you agree with me that we need to see an end to these slurs that do such damage to staff morale, particularly at a time when we really need a motivated NHS workforce?
- Gwnaf. Cyhoeddodd y Gweinidog ddatganiad ysgrifenedig ar berfformiad ariannol y GIG ar 26 Mehefin.
- Yn wir, cyhoeddwyd datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog, a oedd yn nodi'r ffaith y cymhwyswyd cyfrifon tri bwrdd iechyd am y tro cyntaf yn eu hanes yma yng Nghymru, a fydd, wrth gwrs, yn arwain at gymhwyso cyfrifon Llywodraeth Cymru hefyd. Ceir dau fwrdd iechyd arall sydd angen cymorth ychwanegol o sawl miliwn o bunnoedd ar sail ad-dalu yn y flwyddyn ariannol. Felly, mae hynny'n bump allan o'r saith bwrdd iechyd yng Nghymru. A ydych chi'n derbyn, o ystyried yr achosion hyn o orwario, nad ydych chi'n rhoi adnoddau digonol i'r gwasanaeth iechyd gwladol yma yng Nghymru a bod angen i chi i wrthdroi'r toriadau mwyaf erioed mae eich Llywodraeth wedi dewis eu gorfodi ar ein gwasanaeth iechyd gwladol?
- Yn gyntaf oll, nid yw cyfrifon Llywodraeth Cymru wedi eu cymhwyso—dyna fy nealltwriaeth i—o ganlyniad i gyfrifon y byrddau iechyd. Ni all ei chael hi bob ffordd. Ni all ar y naill law ein beirniadu am roi help llaw i awdurdodau iechyd ac yna, pan nad ydym yn gwneud hynny, ein beirniadu am hynny hefyd. Y gwir amdani yw bod pwysau ar y gwasanaeth iechyd, ond mae'r pwysau yn Lloegr—onid yw wedi darllen 'The Times' a phapurau newydd eraill am y pwysau ariannol yno? Dan stiwardiaeth ei blaid ef yn Lloegr, mae biliynau o bunnoedd ar goll yn y GIG yn Lloegr. Mae'n amlwg o'r hyn y mae'r sefydliadau iechyd yno'n ei ddweud bod hynny'n wir, ac o'r hyn y mae'r proffesiwn meddygol yn ei ddweud. Y gwahaniaeth yw ein bod ni yng Nghymru yn ymateb i'r her, ond yn Lloegr, dan ei blaid ef, mae'n cael ei hanwybyddu.
- Brif Weinidog, rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol o ymgyrch Cefnogi'r GIG yng Nghymru Cyngres yr Undebau Llafur, a lansiwyd ddoe i ddathlu 66 mlynedd o'r gwasanaeth iechyd. Daw'r ymgyrch ynghyd â chleifion sydd â phrofiad diweddar o'r GIG ac aelodau staff, ac mae'n galw am derfyn ar y math o ymosodiadau a dirmyg yr ydym ni wedi eu gweld yn gyson gan y Prif Weinidog a'i gydweithwyr Toriaidd, a arweiniodd at y sylwadau hollol annerbyniol hynny bod Clawdd Offa yn ffin rhwng byw a marw. Brif Weinidog, a fydddech chi'n cytuno â mi bod angen i ni weld terfyn ar y sarhau hyn sy'n gwneud cymaint o niwed i ysbryd aelodau staff, yn enwedig ar adeg pan fo gwir angen gweithlu brwdfrydig arnom yn y GIG?

14:22 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
Absolutely. My view has always been that it is perfectly proper for parties in this Chamber to hold the Welsh Government to account—of course it is. It is perfectly proper for parties to ask questions and for there to be, quite often, a strong discussion of what those issues are. It is not appropriate, in my view, for attacks to come from outside Wales. So, I think that parties in this Chamber are fully able to stand their own ground. I deplored what the Prime Minister said, namely that Offa's Dyke was the line between life and death. We can both play that game, because cancer treatment is far worse in England than it is in Wales. I do not think that that is particularly productive, and do not think that it is particularly mature, and I thought that it was beneath the office of the Prime Minister.
Yn sicr. Fy marn i bob amser fu ei bod yn gwbl briodol i bleidiau yn y Siambr hon ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif —wrth gwrs ei bod hi. Mae'n gwbl briodol i bleidiau ofyn cwestiynau ac i gael, yn eithaf aml, trafodaeth gref o beth yw'r materion hynny. Nid yw'n briodol, yn fy marn i, i ymosodiadau ddod o'r tu allan i Gymru. Felly, rwy'n credu bod pleidiau yn y Siambr hon yn sicr yn gallu sefyll eu tir eu hunain. Roeddwn i'n gresynu'n fawr yr hyn a ddywedodd Prif Weinidog y DU, sef mai Clawdd Offa oedd y ffin rhwng byw a marw. Gall y ddau ohonom ni chwarae'r gêm honno, gan fod triniaeth canser yn waeth o lawer yn Lloegr nag y mae yng Nghymru. Nid wyf yn credu bod hynny'n arbennig o gynhyrchiol, ac nid wyf yn credu ei fod yn arbennig o aeddfed, ac roeddwn i'n meddwl bod hynny islaw urddas Prif Weinidog y DU.

14:23 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Question 14 is next, from Andrew R.T. Davies. Cwestiwn 14 sydd nesaf, gan Andrew R.T. Davies.

14:23 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I think that that is a bit rich, actually, but then— Rwy'n meddwl fod honna'n un dda, mewn gwirionedd, ond yna—

14:23 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Sorry, will you just ask your question? Mae'n ddrwg gennyf, a wnewch chi ofyn eich cwestiwn?

14:23 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Thank you, Presiding Officer. Diolch i chi, Lywydd.

Ymgysylltiad Pobl Ifanc â Gwleidyddiaeth

Youth Engagement with Politics

14:23 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
14. Pa ymdrechion sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru i gynyddu ymgysylltiad pobl ifanc â gwleidyddiaeth yng Nghymru? OAQ(4)1791(FM) *14. What efforts are being undertaken by the Welsh Government to increase youth engagement with politics in Wales? OAQ(4)1791(FM)*

14:23 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Y Prif Weinidog / The First Minister
We have a range of initiatives to engage with children and young people and to encourage children and young people to have a voice in decisions that affect them. Mae gennym amrywiaeth o fentrau i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc ac i annog plant a phobl ifanc i gael llais mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

14:23 **Andrew R.T. Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, your Government recently announced its withdrawal of funding for the Funky Dragon project; a project that has been going for some time—since 1996, as I understand it. It plays an integral role in delivering the legal obligations placed on local authorities in the Children and Families (Wales) Measure 2010, which went through in the last Assembly. As I understand it, with this withdrawal of funding, the Funky Dragon project will come to an end on 30 September of this year. How do such actions encourage young people to engage in political life and gain an understanding of politics here in Wales? Its main board is run by young people and its sole purpose is to speak on behalf of young people about public affairs and politics in Wales.

Brif Weinidog, cyhoeddodd eich Llywodraeth yn ddiweddar ei bod yn tynnu cyllid ar gyfer prosiect y Ddraig Ffynci yn ôl; prosiect sydd wedi bod ar waith ers cryn amser—ers 1996 fel rwy'n deall. Mae'n cyflawni swyddogaeth hanfodol o ran cyflawni'r rhwymedigaethau cyfreithiol a osodir ar awdurdodau lleol ym Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, a gyflwynwyd yn y Cynulliad diwethaf. Yn ôl yr hyn yr wyf yn ei ddeall, yn sgil tynnu'r cyllid hwn yn ôl, bydd prosiect y Ddraig Ffynci yn dod i ben ar 30 Medi eleni. Sut mae camau o'r fath yn annog pobl ifanc i gymryd rhan mewn bywyd gwleidyddol a chael dealltwriaeth o wleidyddiaeth yma yng Nghymru? Mae ei brif fwrdd yn cael ei redeg gan bobl ifanc a'i unig bwrpas yw siarad ar ran pobl ifanc am faterion cyhoeddus a gwleidyddiaeth yng Nghymru.

14:24 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I understand Funky Dragon's disappointment. I know that the Minister is looking to respond to the letter that it sent. It is difficult, given the current financial climate. There is another issue here, which I think needs to be looked at, and that is: should Welsh Government be funding what is the youth parliament for Wales, or is that, in the future, something for the Commission? That is something that I think is worth looking at. Nevertheless, as I say, the Minister will be responding to the letter that it has sent.

Rwy'n deall siom y Ddraig Ffynci. Gwn fod y Gweinidog yn ceisio ymateb i'r llythyr a anfonodd. Mae'n anodd, o ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol. Ceir mater arall yma, rwy'n credu, sydd angen ei ystyried, sef: a ddylai Llywodraeth Cymru fod yn ariannu'r hyn sy'n senedd ieuentid Cymru, neu a yw hynny, yn y dyfodol, yn rhywbeth i'r Comisiwn? Mae hynny'n rhywbeth rwy'n meddwl sy'n werth ei ystyried. Er hynny, fel y dywedais, bydd y Gweinidog yn ymateb i'r llythyr y mae wedi ei anfon.

14:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Finally, we have question 15 from Mohammad Asghar. Yn olaf, mae gennym gwestiwn 15 gan Mohammad Asghar.

Targedau Iechyd

14:24 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

15. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd a wnaed o ran cyrraedd y targedau allweddol ar gyfer iechyd yn y Rhaglen Lywodraethu? OAQ(4)1779(FM)

15. Will the First Minister provide an update on progress against the key targets for health that are set out in the Programme for Government? OAQ(4)1779(FM)

14:24 **Carwyn Jones** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Yes. Progress is good. Gwnaf. Mae'r cynnydd yn dda.

14:24 **Mohammad Asghar** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much, First Minister, for that answer. In your manifesto for the last Assembly election, you promised improved access to GP surgeries in the evenings and on Saturday mornings. Answers to written questions reveal that, out of 466 general practitioner practices in Wales, only 49 offered evening appointments. Your Government had no idea how many were open on weekends. Would you please explain to the Chamber the failure to deliver this key promise in your manifesto?

Diolch yn fawr iawn, Brif Weinidog, am yr ateb yna. Yn eich manifestio ar gyfer yr etholiad Cynulliad diwethaf, addawsoch well mynediad at feddygfeydd teulu gyda'r nos ac ar foreau Sadwrn. Mae atebion i gwestiynau ysgrifenedig yn datgelu, o'r 466 o feddygfeydd teulu yng Nghymru, dim ond 49 oedd yn cynnig apwyntiadau gyda'r nos. Nid oedd gan eich Llywodraeth unrhyw syniad faint oedd ar agor ar benwythnosau. A wnech chi egluro i'r Siambr os gwelwch yn dda y methiant i gyflawni'r addewid allweddol hwn yn eich manifestio?

14:25	<p>Carwyn Jones Bywgraffiad Biography <i>Y Prif Weinidog / The First Minister</i></p> <p>It is a matter of fact that more GP surgeries are open in the evenings. It is a matter of fact that people are able to access services at least one evening a week. That is to be welcomed; it shows that the majority of GP surgeries are responding to the needs of the people who use those surgeries.</p>	<p>Mae'n fater o ffaith bod mwy o feddygfeydd teulu ar agor gyda'r nos. Mae'n fater o ffaith bod pobl yn gallu cael mynediad at wasanaethau ar o leiaf un noson yr wythnos. Mae hynny i'w groesawu; mae'n dangos bod y rhan fwyaf o feddygfeydd teulu yn ymateb i anghenion y bobl sy'n defnyddio'r meddygfeydd hynny.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:25	<p>Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>Thank you, First Minister.</p>	<p>Diolch yn fawr, Brif Weinidog.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:25	<p>Datganiad a Chyhoeddiad Busnes</p> <p>Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography</p> <p>I call on the Minister for Local Government and Government Business.</p>	<p>Business Statement and Announcement</p> <p>Galwaf ar y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth.</p>	<p>Y Senedd.tv Fideo Video</p>
14:25	<p>Lesley Griffiths Bywgraffiad Biography <i>Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business</i></p> <p>Thank you, Presiding Officer. I have two changes to report to this week's business. First, the time allocated to tomorrow's oral Assembly questions to the Counsel General has been reduced. Secondly, an oral statement will be made on the Agricultural Sector (Wales) Bill. Business for the next three weeks is as shown in the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.</p>	<p>Diolch, Lywydd. Mae gennyf ddau newid i'w hadrodd i fusnes yr wythnos hon. Yn gyntaf, mae'r amser a neilltuwyd ar gyfer cwestiynau llafar y Cynulliad yfory i'r Cwnsler Cyffredinol wedi ei leihau. Yn ail, gwneir datganiad llafar ynglŷn â'r Bil Sector Amaethyddol (Cymru). Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y dangosir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>
14:26	<p>Byron Davies Bywgraffiad Biography</p> <p>Minister, I would like to request an urgent statement by the Minister for Economy, Science and Transport. Assembly Members will be aware—having seen it in the media today—that the Welsh Government has averted a High Court case by accepting that its planned cuts to funding for free bus travel were wrong. I have, on several occasions, put questions surrounding this issue to the First Minister and Mrs Hart, and have received a less than satisfactory response. I think that this institution has seen a huge Government u-turn with not so much as a written statement. This is very regrettable, and is all too often normal practice now.</p> <p>Several companies, including Stagecoach, began proceedings in the High Court because the law obliges the Government to ensure that bus companies are no worse off than they would be if free travel were not available. Obviously, the Government felt unable to defend this point, and it is extremely important that we have a full and frank debate about this issue, the decision making and the timescales. We must know why the Minister allowed this case to go to the High Court, when exactly the Minister did a u-turn on this policy and, finally, why this Chamber was, yet again, not afforded a statement as a matter of course about a significant change in Government policy.</p>	<p>Weinidog, hoffwn ofyn am ddatganiad brys gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth. Bydd Aelodau'r Cynulliad yn ymwybodol—o'i weld yn y cyfryngau heddiw—bod Llywodraeth Cymru wedi osgoi achos Uchel Lys drwy dderbyn bod eu toriadau arfaethedig i gyllid ar gyfer teithiau bus am ddim yn anghywir. Rwyf, ar sawl achlysur, wedi gofyn cwestiynau ynghylch y mater hwn i'r Prif Weinidog ac i Mrs Hart, ac wedi cael ymateb anfoddhaol. Rwyf yn credu bod y sefydliad hwn wedi gweld tro pedol enfawr gan y Llywodraeth heb hyd yn oed ddatganiad ysgrifenedig. Mae hyn yn anffodus iawn, ac yn rhy aml yn arfer arferol erbyn hyn.</p> <p>Dechreuwyd achos yn yr Uchel Lys gan lawer o gwmnïau, gan gynnwys Stagecoach, oherwydd bod y gyfraith yn mynnu bod y Llywodraeth yn sicrhau nad yw cwmnïau bysiau mewn sefyllfa waeth nag y byddent pe na byddai teithio am ddim ar gael. Yn amlwg, nid oedd y Llywodraeth yn teimlo y gallai amddiffyn y pwynt hwn, ac mae'n hynod bwysig ein bod yn cael trafodaeth lawn ac agored am y mater hwn, am wneud penderfyniadau ac am yr amserlen. Mae'n rhaid i ni gael gwybod pam y caniatodd y Gweinidog i'r achos hwn fynd i'r Uchel Lys, pa bryd yn union y gwnaeth y Gweinidog dro pedol ar y polisi hwn ac, yn olaf, pam na chafodd y Siambr hon, unwaith eto, ddatganiad fel mater o drefn ynglŷn â newid sylweddol i bolisi'r Llywodraeth.</p>	<p>Senedd.tv Fideo Video</p>

14:27 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I do not think it appropriate to have a statement in Government time. Nid wyf yn credu ei bod yn briodol cael datganiad yn amser y Llywodraeth.

14:27 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, further to the launch of the Welsh Government's landmark Gender-based Violence, Domestic Abuse and Sexual Violence (Wales) Bill, may I request a statement from you on what the Welsh Government is doing to promote safe and healthy relationships in schools as a way of educating our young people at an early stage that domestic abuse and violence, in any form, are unacceptable and should not be tolerated? Weinidog, i ychwanegu at lansiad Bil newydd pwysig Llywodraeth Cymru, y Bil Trais ar sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru), a gaf fi ofyn am ddatganiad gennych am yr hyn y mae Llywodraeth Cymru'n ei wneud i hyrwyddo perthynas ddiogel ac iach ag eraill mewn ysgolion fel ffordd o addysgu ein pobl ifanc yn gynnar bod cam-drin a thrais domestig, ar unrhyw ffurf, yn annerbyniol ac na ddylid eu goddef?

14:27 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
I do not think it appropriate to have a statement at this time, but I want to assure Mike Hedges and all Assembly Members that healthy relationships education is a very important part of preventing gender-based violence, domestic abuse and sexual violence. I think that teaching our young people to be aware of what behaviour is and is not acceptable at a very young age can help them to develop healthy relationships in their own lives and prevent abuse in future relationships. My officials and those of the Minister for Education and Skills are working together to assess how we might include further provisions in this area in Stage 2 or 3. Nid wyf yn credu ei bod yn briodol cael datganiad ar hyn o bryd, ond hoffwn sicrhau Mike Hedges a holl Aelodau'r Cynulliad bod addysg perthnasoedd iach yn rhan bwysig iawn o atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Rwyf yn meddwl bod addysgu ein pobl ifanc i fod yn ymwybodol o ba ymddygiad sy'n dderbyniol ac yn annerbyniol yn ifanc iawn yn gallu eu helpu i ddatblygu perthynas iach yn eu bywydau eu hunain ac atal cam-drin mewn perthnasoedd yn y dyfodol. Mae fy swyddogion a rhai'r Gweinidog Addysg a Sgiliau'n gweithio gyda'i gilydd i asesu sut y gallwn gynnwys darpariaethau pellach yn y maes hwn yng Nghyfnod 2 neu 3.

14:28 **Jocelyn Davies** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
Minister, I have two requests. First, the Welsh Government says that it supports Funky Dragon, and that support is based on your commitment to ensuring that children and young people can express their views widely and because they are valued members of the community. Will there be a statement, then, on the reasons why this no longer applies, or are these things luxuries that you are no longer prepared to fund, as the First Minister just said in his response to Andrew R.T. Davies that it is the financial climate that led to the decision? Weinidog, mae gennyf ddau gais. Yn gyntaf, dywed Llywodraeth Cymru ei bod yn cefnogi'r Ddraig Ffynici, a bod y gefnogaeth honno'n seiliedig ar eich ymrwymiad i sicrhau y caiff plant a phobl ifanc fynegi eu barn yn eang ac oherwydd y cânt eu gwerthfawrogi fel aelodau o'r gymuned. A gawn ni ddatganiad, felly, am y rhesymau pam nad yw hyn yn berthnasol mwyach, neu a yw'r pethau hyn yn bethau moethus nad ydych bellach yn fodlon talu amdanynt, gan fod y Prif Weinidog newydd ddweud yn ei ymateb i Andrew R.T. Davies mai'r hinsawdd ariannol a arweiniodd at y penderfyniad?

Secondly, Minister, I wonder whether you are aware that well over 20,000 puppies are born in Wales every single year—some, I have to say, in the most appalling conditions, with the most appalling treatment. We have been promised legislation on this for the last three years. Potentially, Minister, those are many, many little puppies that are not benefitting from the protection of the law, yet you have used emergency procedures for the Bill on the agricultural wages board. Where are your priorities, Minister, and when do you imagine that we might actually get to vote on these regulations?

Yn ail, Weinidog, rwyf yn meddwl tybed a ydych yn ymwybodol bod llawer mwy nag 20,000 o gŵn bach yn cael eu geni yng Nghymru bob blwyddyn—rhai ohonynt, mae'n rhaid imi ddweud, dan amodau mwyaf dychrynlyd, gyda'r driniaeth fwyaf ofnadwy. Rydym wedi clywed addewidion am ddeddfwriaeth ar hyn ers tair blynedd. Mae'n bosibl bod y rhain, Weinidog, yn llawer iawn o gŵn bach nad ydynt yn cael eu diogelu gan y gyfraith, ac eto rydych wedi defnyddio gweithdrefnau argyfwng ar gyfer y Bil ar y bwrdd cyflogau amaethyddol. Ble mae eich blaenoriaethau, Weinidog, a phryd yr ydych yn dychmygu y gallem mewn gwirionedd gael pleidleisio ar y rheoliadau hyn?

- 14:29 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- With regard to your question on the funding of Funky Dragon, you will have heard the First Minister's answer. I know that there was a tendering process for bids for this funding, and the Deputy Minister for Tackling Poverty will be answering those points. In relation to The Animal Welfare (Breeding of Dogs) (Wales) Regulations 2014, the former Minister for Natural Resources and Food had written to the Constitutional and Legislative Affairs Committee regarding the regulations. I know that the committee wrote to the former Minister with some points that it wanted to address. It will now be for the Minister for Economy, Science and Transport to have a look at this, and she will make a further statement, probably after the recess.
- O ran eich cwestiwn am gyllid y Ddraig Ffyni, byddwch wedi clywed ateb y Prif Weinidog. Rwyf yn gwybod y bu proses dendro ar gyfer ceisiadau am yr arian hwn, a bydd y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi yn ateb y pwyntiau hynny. O ran Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014, roedd y cyn Weinidog Adnoddau Naturiol a Bwyd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynglŷn â'r rheoliadau. Gwn fod y pwyllgor wedi ysgrifennu at y cyn Weinidog gyda rhai pwyntiau yr oedd yn dymuno rhoi sylw iddynt. Nawr, bydd angen i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gael golwg ar hyn, a bydd hi'n gwneud datganiad pellach, yn ôl pob tebyg ar ôl y toriad.
- 14:30 **Kirsty Williams** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Minister, will you bring forward a statement by the Minister for Health and Social Services with regard to the current Welsh Government regulations relating to NHS pay-offs? There has been much criticism of the substantial pay-off to the former chief executive of Betsi Cadwaladr, which was in order, as the board followed precisely guidance from Welsh Government. Given the Minister's determination to deliver a prudent NHS, would it now not be timely to review the current guidance with a view to ensuring that such payments are kept to a minimum?
- Weinidog, a wnewch chi gyflwyno datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynglŷn â rheoliadau presennol Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â thaliadau olaf yn y GIG? Cafodd y taliad olaf sylweddol i gyn brif weithredwr Betsi Cadwaladr lawer o feirniadaeth, ond roedd yn briodol, gan fod y bwrdd wedi dilyn arweiniad Llywodraeth Cymru'n fanwl. O ystyried penderfyniad y Gweinidog i ddarparu GIG darbodus, oni fyddai nawr yn amser da i adolygu'r canllawiau presennol gyda golwg ar sicrhau bod taliadau o'r fath yn cael eu cadw mor isel â phosibl?
- 14:31 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- As you referred, the pay to the former chief executive of Betsi Cadwaladr University Local Health Board is a matter for the health board and the Minister cannot discuss the pay of individual staff members, past or present. The Minister for Health and Social Services has his oral Assembly questions tomorrow and you could raise the subject with him then.
- Fel y dywedasoch, mater i'r bwrdd iechyd yw'r taliad i gyn brif weithredwr Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ac ni all y Gweinidog drafod cyflog aelodau staff unigol, boed yn y gorffennol neu'r presennol. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael cwestiynau llafar gan y Cynulliad yfory a gallech godi'r pwnc gydag ef bryd hynny.
- 14:31 **William Graham** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- Business Minister, I ask you to bring forward a statement on the M4 relief road yet again, if I may. The Minister will be aware of the very significant traffic congestion and 10-mile tailbacks on Friday afternoon. The appropriate misery has been well documented in evidence to the commission and to Members of this Assembly. I ask the Minister, therefore, to bring forward a statement at the earliest opportunity.
- Weinidog Busnes, rwyf yn gofyn ichi gyflwyno datganiad am ffordd liniaru'r M4 unwaith eto, os caf. Bydd y Gweinidog yn ymwybodol o'r tagfeydd traffig sylweddol iawn a'r ciwiau 10 milltir brynhawn Gwener. Mae'r diflastod priodol wedi'i ddogfennu'n dda mewn tystiolaeth i'r comisiwn ac i Aelodau'r Cynulliad hwn. Gofynnaf i'r Gweinidog, felly, gyflwyno datganiad cyn gynted ag y caiff gyfle.
- 14:32 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) [Senedd.tv](#) [Fideo](#) [Video](#)
- The Minister for Economy, Science and Transport will bring forward a statement.
- Bydd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn cyflwyno datganiad.

Simon Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gofynnaf am ddau ddatganiad. Mae'r un cyntaf, a'r hawsaf, ar effaith uwchgynhadledd NATO ar ysgolion yng Nghasnewydd. Rwy'n deall fod nifer fawr o ysgolion wedi penderfynu cau yn ystod y cyfnod hwn, ond nid yw'n ymddangos i mi fod unrhyw strategaeth y tu ôl i'r penderfyniad hwn. Mae rhai yn cau a rhai yn aros ar agor. Felly, byddai'n braf cael datganiad ysgrifenedig gan y Llywodraeth ynglŷn â'r sefyllfa fan hyn, yn enwedig os oes rhieni sydd ddim yn siŵr nawr os dylen nhw fynd â'r plant i'r ysgol ar y diwrnodau hyn, gan y byddent bellach yn wynebu cosb ariannol am hynny o dan gyfraith y Llywodraeth.

Mae'r ail ddatganiad yr wyf yn gofyn amdano yn dilyn y pwynt a wnaed gan fy nghyfaill Jocelyn Davies. Nid wyf yn meddwl i'r ateb i hynny fod yn ddigonol, felly gofynnaf am ddatganiad llawn. Pan drafodwyd y rheoliadau bridio cŵn a microsglodio cŵn yn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ddoe, nid oedd ymateb gan y Llywodraeth. Roeddem yn trafod y rheoliadau heb wybod beth oedd safbwynt y Llywodraeth. Dros nos, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu tynnu'r rheoliadau yma i ffwrdd ac nid oes modd inni bleidleisio arny'n nhw yfory. Er bod Jocelyn Davies wedi codi'r mater ynglŷn â bridio cŵn, gallai'r mater o microsglodio arwain at smonach hyd yn oed yn fwy. Fel y cofiwch, tua phythefnos yn ôl, gwnaethom gytuno i gynniw cydsyniad deddfwriaethol atodol ar y materion hyn, er gwaetha'r ffaith bod Plaid Cymru wedi gosod gwelliant i'r cynnig, sy'n rhoi'r hawl i gychwyn ar y materion hyn i Weinidogion Lloegr. Os yw Gweinidogion Lloegr yn cychwyn ar ddeddfwriaeth, a ninnau heb gael y cyfle fan hyn i benderfynu a phleidleisio ar ddeddfwriaeth Cymraeg, byddem yn mynd i mewn i gyfyng gyngor deddfwriaethol go iawn. Mae angen cywiro'r sefyllfa hon.

I ask for two statements. The first, and the easiest, is on the impact of the NATO summit on schools in Newport. I understand that a number of schools have decided to close over this period, but it does not appear to me that there is any strategy behind this decision. Some are closing and some are remaining open. So, it would be good to have a written statement from the Government on what exactly the situation is here, particularly if there are parents who are not sure now whether they should take their children to school on these days, given that they would now face a financial penalty for that under Government legislation.

The second statement that I ask for follows the point made by my colleague Jocelyn Davies. I do not think that the response to that was adequate, so I ask for a full statement. When the dog breeding and microchipping regulations were discussed in the Constitutional and Legislative Affairs Committee yesterday, there was no Government response. We discussed the regulations without knowing the Government's view. Overnight, the Government has decided to withdraw these regulations and there is no way that we can vote on them tomorrow. Although Jocelyn Davies raised the issue in relation to dog breeding, the issue of microchipping could lead to an even greater mess. As you will recall, around a fortnight ago, we consented to a supplementary legislative consent motion on these issues, despite the fact that Plaid Cymru had placed an amendment to that motion, which would put the right to commence these issues in the hands of Ministers in England. If Ministers in England commence legislation when we have not had an opportunity to vote on Welsh legislation, then we are getting into a real constitutional mess. We need to put this right.

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you for those two points. In relation to arrangements around the NATO summit, there will be a Welsh Government statement prior to that, as soon as we have all of the information together. It is not just about school closures; you will have heard other Members question the First Minister and the Minister for transport, for instance. So, there will be a Welsh Government statement in due course.

In relation to the Animal Welfare (Breeding of Dogs) (Wales) Regulations 2014, my understanding is that the correspondence was not available for committee yesterday, but that the former Minister did take the view that there were very some pertinent points raised by the committee. However, I will ask the Minister for Economy, Science and Transport to bring forward a statement before the summer recess.

Diolch am y ddau bwynt yna. O ran trefniadau uwchgynhadledd NATO, ceir datganiad gan Lywodraeth Cymru cyn hynny, cyn gynted ag y byddwn wedi casglu'r holl wybodaeth at ei gilydd. Nid dim ond mater o gau ysgolion yw hwn; byddwch wedi clywed Aelodau eraill yn holi'r Prif Weinidog a'r Gweinidog trafndiaeth, er enghraifft. Felly, ceir datganiad gan Lywodraeth Cymru maes o law.

O ran Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014, rwyf ar ddeall nad oedd yr ohebiaeth ar gael i'r pwyllgor ddoe, ond bod y cyn Weinidog o'r farn bod y pwyllgor wedi codi rhai pwyntiau perthnasol iawn. Fodd bynnag, gofynnaf i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gyflwyno datganiad cyn toriad yr haf.

- 14:34 **Aled Roberts** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Gofynnaf am ddatganiad gan y Llywodraeth ynghylch y llythyr a dderbyniwyd ddoe gan y Gweinidog trafndiaeth ynghylch y cynllun i ddeuoli'r rheilffordd rhwng Wrecsam a Chaer. Mae'r Llywodraeth yn gwario £41 miliwn ar hyn o bryd ac mae Llywodraeth Prydain yn gwario £10 miliwn ar wella cysylltiadau yn ardal Halton ac eto ni fydd yn bosibl inni gael trenau ychwanegol rhwng Wrecsam a Chaer ar ôl i'r holl arian hwn gael ei wario. Mae'r Llywodraeth wedi dweud ei bod yn awyddus i wella cysylltiadau efo Lerpwl a Manceinion. Rwy'n gwybod eich bod yn cadeirio grŵp yn y gogledd-ddwyrain, ond a gaf i ofyn am ddatganiad i weld sut yn union y mae'r Llywodraeth yn mynd i ymateb i'r diffyg o ran y cynllun presennol hwn?
- I ask for a statement from the Government regarding the letter received yesterday by the Minister for transport on the dualling of the railway between Wrexham and Chester. The Government is spending £41 million at present and the British Government is spending £10 million on improving connections in the Halton area and yet it is not possible for us to have additional trains between Wrexham and Chester after all of this money being spent. The Government has said that it is eager to improve the connections with Liverpool and Manchester. I know that you chair a group in the north-east, but may I ask for a statement to see how exactly the Government is going to respond to the deficit in this current scheme?
- 14:35 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- I will ask the Minister for the Economy, Science and Transport to publish a statement.
- Gofynnaf i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth gyhoeddi datganiad.
- 14:35 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Minister, there are two matters that I would like to raise with you. First, you may not be aware but Plas Dulas, a very important seventeenth-century house in Llandulas, has been earmarked for demolition by Conwy County Borough Council and I would welcome an urgent statement from the Minister for Culture and Sport in respect of the destruction of the architectural heritage that is taking place as a result of this decision in north Wales. It is opposed by local residents and historians. I would ask that the Minister looks at it as a matter of urgency.
- Weinidog, hoffwn godi dau fater gyda chi. Yn gyntaf, efallai na fyddwch yn ymwybodol ond mae Plas Dulas, tŷ pwysig iawn o'r ail ganrif ar bymtheg yn Llanddulas, wedi cael ei glustnodi i'w ddymchwel gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a byddwn yn croesawu datganiad brys gan y Gweinidog Diwylliant a Chwaraeon ynglyn â'r dinistrio treftadaeth bensaernïol sy'n digwydd o ganlyniad i'r penderfyniad hwn yn y gogledd. Mae haneswyr a thrigolion lleol yn ei wrthwynebu. Byddwn yn gofyn i'r Gweinidog edrych ar hyn fel mater o frys.
- Secondly, in relation to the Animal Welfare (Breeding of Dogs) Regulations, these regulations had previously been scrutinised by the Environment and Sustainability Committee, but the new regulations that have been laid have not been scrutinised by the Environment and Sustainability Committee, even though animal welfare, as I understand it, falls within the remit of the committee. I obviously do not know what took place yesterday in the Constitutional and Legislative Affairs Committee, but I am concerned that a statutory instrument is in effect being passed without having had that level of scrutiny. I know that recommendations were made last time that we had an opportunity to look at those regulations. It would be useful if we could have an opportunity to scrutinise those.
- Yn ail, ynglŷn â'r Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn), mae'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd eisoes wedi craffu ar y rheoliadau hyn, ond nid yw'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd wedi craffu ar y rheoliadau newydd a osodwyd, er bod lles anifeiliaid, fel y deallaf, o fewn cylch gwaith y pwyllgor. Yn amlwg, nid wyf yn gwybod beth ddigwyddodd ddoe yn y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, ond rwyf yn pryderu bod offeryn statudol i bob diben yn cael ei basio heb fod wedi cael y lefel honno o graffu. Gwn fod argymhellion wedi eu gwneud y tro diwethaf y cawsom gyfle i edrych ar y rheoliadau hynny. Byddai'n ddefnyddiol pe gallem gael cyfle i graffu ar y rheini.
- 14:37 **Lesley Griffiths** [Bywgraffiad](#) [Biography](#) Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)
- Which committee scrutinises what regulations or whatever inquiry is a matter for the Business Committee.
- Mater i'r Pwyllgor Busnes yw pa bwyllgor sy'n craffu ar ba reoliadau neu ar ba ymchwiliad.
- In relation to Plas Dulas, the case for listing it was thoroughly considered in 2010 and it was concluded that the building did not satisfy the listing criteria and so could not be listed as a building of special architectural or historic interest.
- O ran Plas Dulas, ystyriwyd yr achos dros ei restru yn drylwyr yn 2010 a daethpwyd i'r casgliad nad oedd yr adeilad yn bodloni'r meini prawf rhestru ac felly na ellid ei restru fel adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig.

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I again call for two statements. First, I endorse Aled Roberts's call, further to the Minister's letter on the north-south Wales journey time reduction project, for the redoubling of a section of the line between Wrexham and Chester. I would like to extend that to an oral statement because this is a matter that merits proper scrutiny in the Chamber. The reason I say that is because rail users in Wrexham have told me that an opportunity has been lost, with the taxpayer left to fund £44 million to allow the aspiration of one extra train from Cardiff every few hours, ruling out extra capacity to run future trains for the north-west of England. They also point out that there has been a consultation of rail travellers on the Cambrian line, between Aberystwyth and Shrewsbury, and as a result of this the Welsh Government has announced that the two-hourly service will become hourly from May next year. A similar consultation on rail travel on the Fishguard line is taking place, funded by the Welsh Government, but rail travellers between Chester and Wrexham were never consulted before the £44 million contract was signed off. Your constituents and mine deserve this to be fully aired and scrutinised, Minister, and I hope that you will respond with that in mind.

Secondly, and finally, could I call for a Welsh Government statement on the investigation into historic allegations of child abuse? You will be aware that the Home Secretary has announced two independent inquiries regarding allegations about former Members of Parliament and other senior members of society at various levels. You will be aware that the victims of child abuse in north Wales stated over many years that they were taken away from their children's home by a police officer and taken to high society parties frequented by MPs and other members of high society and they were silenced, ridiculed or threatened and some committed suicide as a consequence. You will be aware that when Flintshire County Council's senior audit manager was instructed to investigate why a middle-ranking officer was shown as the highest-paid officer on the annual accounts, he was subjected to a personal campaign of denigration, which ended up with him fighting and winning an employment tribunal. That was the officer who collated and submitted documentation to Waterhouse, and Sir Ron Waterhouse told me in person that he believed that documentation had been withheld. These are serious matters. Wales has a clear role in this and to my mind, and I hope that others will agree, it is essential that the considerations of the abuse in north Wales form part of these inquiries because of the allegations that those young victims were abused by MPs and other members of high society.

Galwaf unwaith eto am ddau ddatganiad. Yn gyntaf, ategaf alwad Aled Roberts, ynglŷn â llythyr y Gweinidog am y prosiect lleihau amser teithio o'r gogledd i'r de, am ailddyblu rhan o'r rheilffordd rhwng Wrecsam a Chaer. Hoffwn ymestyn hynny i ddatganiad llafar oherwydd mae hwn yn fater sy'n haeddu bod yn destun craffu priodol yn y Siambr. Y rheswm yr wyf yn dweud hynny yw bod defnyddwyr trenau yn Wrecsam wedi dweud wrthyf bod cyfle wedi ei golli, ac y gadawyd trethdalwyr i dalu £44 miliwn i ganiatáu'r dyhead o un trên ychwanegol o Gaerdydd bob ychydig oriau, gan ddiystyru gallu ychwanegol i redeg trenau yn y dyfodol ar gyfer gogledd-orllewin Lloegr. Maent hefyd yn nodi y bu ymgynghoriad i deithwyr rheilffordd y Cambrian, rhwng Aberystwyth a'r Amwythig, ac o ganlyniad i hyn bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd y gwasanaeth bob dwy awr yn dod yn un bob awr o fis Mai y flwyddyn nesaf ymlaen. Mae ymgynghoriad tebyg yn cael ei gynnal ar deithio ar drenau ar reilffordd Abergwaun, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, ond ni ymgynghorwyd â theithwyr rheilffordd rhwng Caer a Wrecsam cyn i'r contract £44 miliwn gael ei gadarnhau. Mae eich etholwyr chi a'm rhai innau'n haeddu cael gwybod am hyn ac yn haeddu iddo fod yn destun craffu manwl, Weinidog, ac rwyf yn gobeithio y gwnewch gofio hynny wrth ymateb.

Yn ail, ac yn olaf, a gaf fi alw am ddatganiad gan Lywodraeth Cymru ar yr ymchwiliad i honiadau hanesyddol o gam-drin plant? Byddwch yn ymwybodol bod yr Ysgrifennydd Cartref wedi cyhoeddi dau ymchwiliad annibynnol ynghylch honiadau am gyn-Aelodau Seneddol ac uwch aelodau eraill o gymdeithas ar wahanol lefelau. Byddwch yn ymwybodol bod dioddefwyr cam-drin plant yn y gogledd wedi dweud dros lawer o flynyddoedd bod heddw was wedi mynd â hwy o'u cartref plant ac i bartïon y cylchoedd uchaf a fynychwyd gan ASau ac aelodau eraill o gymdeithas uchel a'u bod wedi cael eu tawelu, eu gwawdio neu eu bygwth a bod rhai ohonynt wedi cyflawni hunanladdiad o ganlyniad. Byddwch yn ymwybodol, pan gafodd rheolwr archwilio uwch Cyngor Sir y Fflint ei gyfarwyddo i ymchwilio pam yr oedd y cyfrifon blyneddol yn dangos mai swyddog rheng ganol oedd yn cael ei dalu fwyaf, y bu'n destun ymgyrch bersonol o bardduo, ac mai ei diwedd oedd iddo frwydro ac ennill tribiwnlys cyflogaeth. Hwnnw oedd y swyddog a gasglodd ac a gyflwynodd ddogfennau i Waterhouse, a dywedodd Syr Ron Waterhouse wrthyf yn bersonol ei fod yn credu bod dogfennau wedi cael eu dal yn ôl. Mae'r rhain yn faterion difrifol. Mae gan Gymru ran glir yn hyn ac yn fy marn i, ac rwyf yn gobeithio y bydd eraill yn cytuno, mae'n hanfodol bod y cam-drin yn y gogledd yn cael ei ystyried fel rhan o'r ymholiadau hyn oherwydd yr honiadau bod y dioddefwyr ifanc hynny wedi cael eu cam-drin gan ASau ac aelodau eraill o'r cylchoedd uchaf.

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In relation to your question regarding an oral statement, I do not think that we have time during this term, which finishes next week, for an oral statement, but I think that it is important that a written statement is published before summer recess. I, too, met with some constituents on Friday in relation to this who very much welcomed the £41 million that is being spent by the Welsh Government on this improved rail infrastructure.

O ran eich cwestiwn ynglŷn â datganiad llafar, nid wyf yn credu bod gennym amser yn ystod y tymor hwn, sy'n dod i ben yr wythnos nesaf, am ddatganiad llafar, ond rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig cyhoeddi datganiad ysgrifenedig cyn toriad yr haf. Cefais innau hefyd gyfarfod â rhai etholwyr ddydd Gwener ynglŷn â hyn, ac roeddent hwy'n croesawu'n fawr iawn y £41 miliwn y mae Llywodraeth Cymru'n ei wario ar wella'r seilwaith rheilffyrdd.

In relation to your second point, it is best to let the Home Office begin its inquiries, and I am sure that Ministers will contribute to them, if appropriate.

O ran eich ail bwynt, byddai'n well gadael i'r Swyddfa Gartref ddechrau ar ei hymholiadau, ac rwyf yn siŵr y bydd Gweinidogion yn cyfrannu atynt, os bydd hynny'n briodol.

14:41

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Leader of the house, can we have two statements, please? I endorse the comments of the Member for South East Wales, Jocelyn Davies, on the Funky Dragon project, which I met yesterday. I appreciate that time is quite tight and that next week we break for recess, and while I would prefer an oral statement, could we have a written statement explaining clearly how the decision was arrived at? In fairness to the directors of Funky Dragon, they do not have a clue as to how this decision was arrived at. They are awaiting a ministerial letter to set that out. There is a real issue of who will take on board the competencies that they fulfil at the moment in assisting the engagement of young people across the whole of Wales. This is not a regional organisation; this is an organisation with an exceptional track record, with many endorsements nationally and internationally, and while I appreciate that it is up to the Government to allocate resources, especially with a difficult budget, there is also an obligation on the Government to clearly explain how this process has turned out this decision and, ultimately, who will fulfil the statutory obligations that Funky Dragon fulfil at the moment, as well as the added-value work that it does in the community around bullying and mental health issues with young people.

Arweinydd y tŷ, a gaf fi ddau ddatganiad, os gwelwch yn dda? Ategef sylwadau'r Aelod dros Dwyrain De Cymru, Jocelyn Davies, am brosiect y Ddraig Ffyni; gwelais y prosiect ddoe. Rwyf yn sylweddoli bod amser yn eithaf tynn a'n bod yn cael toriad ar ôl yr wythnos nesaf, ac er y byddai'n well gennyf gael datganiad llafar, a allem ni gael datganiad ysgrifenedig i egluro'n glir sut y gwnaethpwyd y penderfyniad? Er tegwch i gyfarwyddwyr y Ddraig Ffyni, nid oes ganddynt syniad sut y gwnaethpwyd y penderfyniad hwn. Maent yn aros am lythyr gan weinidog i nodi hynny. Mae ganddynt broblem wirioneddol o bwy fydd yn cyflawni'r cymwyseddau y maent yn eu cyflawni ar hyn o bryd i gynorthwyo'r gwaith o ymgysylltu â phobl ifanc ledled Cymru. Nid sefydliad rhanbarthol yw hwn; mae hwn yn sefydliad sydd â hanes eithriadol, a llawer o arnodiadau cenedlaethol a rhyngwladol, ac er fy mod yn sylweddoli mai lle'r Llywodraeth yw dyrannu adnoddau, yn enwedig gyda chyllideb anodd, mae hefyd yn ddyletswydd ar y Llywodraeth i egluro'n glir sut y mae'r broses hon wedi dod i'r penderfyniad hwn ac, yn y pen draw, pwy fydd yn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol y mae'r Ddraig Ffyni'n eu cyflawni ar hyn o bryd, yn ogystal â'r gwaith gwerth ychwanegol y maent yn ei wneud yn y gymuned yn ymwneud â bwlio a materion iechyd meddwl gyda phobl ifanc.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Secondly, could we have a statement from the Minister for planning as to at what stage the planning Bill is at and when it is likely to be introduced into the Assembly for consideration? When we will come back from the summer recess, we will be a little over 18 months away from the Assembly breaking for its elections. This is a vital piece of legislation that has the potential, if introduced correctly, to transform planning here in Wales, and we are already seeing many businesses pointing to a more relaxed atmosphere around planning in other parts of the United Kingdom, and I would be grateful to understand when the Government will be bringing this piece of legislation forward.

Yn ail, a gawn ni ddatganiad gan y Gweinidog cynllunio ynghylch sefyllfa ddiweddaraf y Bil cynllunio a phryd y mae'n debygol o gael ei gyflwyno i'r Cynulliad i'w ystyried? Pan ddown yn ôl ar ôl toriad yr haf, byddwn ychydig dros 18 mis oddi wrth doriad y Cynulliad ar gyfer ei etholiadau. Mae hwn yn ddarn hanfodol o ddeddfwriaeth sydd â'r potensial, os caiff ei gyflwyno yn gywir, i drawsnewid cynllunio yma yng Nghymru, ac rydym eisoes yn gweld llawer o fusnesau'n pwyntio at awyrgylch mwy hamddenol o gwmpas cynllunio mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, a byddwn yn ddiolchgar o gael deall pryd y bydd y Llywodraeth yn cyflwyno'r darn hwn o ddeddfwriaeth.

14:43

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In relation to the planning Bill, it will be introduced in this Assembly later this year.

My understanding is that Funky Dragon has had the position explained to it by the Deputy Minister for Tackling Poverty. He is not in the Chamber, but I will ask him to write to you to confirm that point.

O ran y Bil cynllunio, caiff ei gyflwyno yn y Cynulliad hwn yn ddiweddarach eleni.

Rwyf ar ddeall bod y Dirprwy Weinidog Trechu Tlodi wedi egluro'r sefyllfa i'r Ddraig Ffyni. Nid yw ef yn y Siambr, ond gofynnaf iddo ysgrifennu atoch i gadarnhau'r pwynt hwnnw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:43

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I would like some clarity as to why an oral statement scheduled for next Tuesday on the Welsh Government's refresh of its climate change policies has been pulled from the Plenary business agenda and will now be issued as a written statement. Given the importance that the Welsh public has placed on tackling and mitigating the effects of climate change, not allowing AMs the opportunity to properly scrutinise you on this next week is, I believe, poorly judged.

At a recent scrutiny committee, the First Minister was also at great pains to state the importance of this statement for the future direction of public policies. So, will the Minister seriously reconsider this decision and reinstate the item as it was originally scheduled?

Hoffwn rywfaint o eglurder ynghylch pam mae datganiad llafar a drefnwyd ar gyfer dydd Mawrth nesaf am adnewyddu polisiau newid yn yr hinsawdd Llywodraeth Cymru wedi cael ei dynnu oddi ar agenda busnes y Cyfarfod Llawn ac y caiff nawr ei gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig. O ystyried y pwysigrwydd y mae'r cyhoedd yng Nghymru wedi'i roi i ymdrin ag effeithiau newid yn yr hinsawdd a'u lliniaru, rwyf yn credu bod peidio â chaniatáu cyfle i ACau i graffu'n briodol arnoch yr wythnos nesaf ynglŷn â hyn yn benderfyniad gwael.

Mewn pwyllgor craffu diweddar, roedd y Prif Weinidog hefyd yn awyddus iawn i ddatgan pwysigrwydd y datganiad hwn i gyfeiriad polisiau cyhoeddus yn y dyfodol. Felly, a wnaiff y Gweinidog ailystyried y penderfyniad hwn o ddifrif a rhoi'r eitem yn ôl yn ei lle fel y trefnwyd yn wreiddiol?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:44

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am sorry that you think that my decisions are poorly judged. There will be a written statement before the end of this term and there will be an oral statement in the autumn.

Mae'n ddrwg gennyf eich bod yn credu bod fy mhenderfyniadau'n rhai gwael. Ceir datganiad ysgrifenedig cyn diwedd y tymor hwn a cheir datganiad llafar yn yr hydref.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

14:44

Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I make a request for two statements from the Minister for Economy, Science and Transport? I know that the Minister will have welcomed the UK Government announcement for investment on the Halton curve, as has already been mentioned today, which will allow for the re-establishment of rail links on the north Wales mainline and, indeed, in Wrexham and other parts of north Wales, allowing a direct rail link to Liverpool, which has been a matter of concern to me for a number of years.

A gaf fi ofyn am ddau ddatganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth? Gwn y bydd y Gweinidog wedi croesawu cyhoeddiad Llywodraeth y DU am fuddsoddi yn nhrofa Halton, fel sydd eisoes wedi'i grybwyll heddiw, a fydd yn caniatáu ailsefydlu cysylltiadau rheilffordd ar brif reilffordd y gogledd ac, yn wir, yn Wrecsam ac mewn rhannau eraill o'r gogledd, gan ganiatáu cyswllt rheilffordd uniongyrchol i Lerpwl, sydd wedi bod yn destun pryder imi ers nifer o flynyddoedd.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

However, I think that it would be prudent to have a statement on this and on the other opportunities that might be afforded as a result of that link being re-established and the additional opportunities in the north-west region to improve rail links to Manchester Airport and, indeed, to Liverpool John Lennon Airport. If we could have a statement on that, I would appreciate it.

Fodd bynnag, rwyf yn meddwl y byddai'n ddoeth cael datganiad am hyn ac am y cyfleoedd eraill y gellid eu creu o ganlyniad i ailsefydlu'r cyswllt hwnnw a'r cyfleoedd ychwanegol yn rhanbarth y gogledd-orllewin i wella cysylltiadau rheilffordd â Maes Awyr Manceinion ac, yn wir, â Maes Awyr John Lennon Lerpwl. Byddwn yn ddiolchgar pe gallem gael datganiad ynglŷn â hynny.

Secondly, also in relation to the portfolio held by the Minister for Economy, Science and Transport, we have not had an update as an Assembly on the Welsh life sciences fund for some time. I request that a statement be made available to Members on that. There have been some concerns expressed previously, and a piece of internal audit work has also been undertaken, of which it would be nice to know the outcome.

Yn ail, hefyd ynglŷn â phortffolio Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, nid ydym wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf fel Cynulliad am y gronfa gwyddorau bywyd yng Nghymru ers cryn amser. Gofynnaf am ryddhau datganiad i'r Aelodau am hynny. Mae rhai pryderon wedi cael eu mynegi cyn hyn, ac mae darn o waith archwilio mewnol wedi'i wneud hefyd, a byddai'n braf cael gwybod ei ganlyniad.

14:45

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

In relation to your first point, of course we welcome the £10 million, which enhances the £41 million that the Welsh Government is putting into rail infrastructure. The two subjects could be covered in the one written statement that the Minister is already committed to. She is also very happy to provide a statement on the Welsh life sciences fund.

O ran eich pwynt cyntaf, wrth gwrs, rydym yn croesawu'r £10 miliwn, sy'n ychwanegu at y £41 miliwn y mae Llywodraeth Cymru'n ei roi i mewn i seilwaith rheilffyrdd. Gellid ymdrin â'r ddau bwnc yn yr un datganiad ysgrifenedig y mae'r Gweinidog eisoes wedi ymrwymo iddo. Mae hi hefyd yn fodlon iawn i ddarparu datganiad am y gronfa gwyddorau bywyd yng Nghymru.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much, Minister.

Diolch yn fawr iawn, Weinidog.

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad Biography](#)

Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty

Yesterday, I laid the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, together with the explanatory memorandum, before the National Assembly for Wales. This piece of legislation, more than any other, is central to this Government's legislative programme and, if passed, will be one of a few laws of its kind anywhere in the world.

Ddoe, gosodais Fil Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), ynghyd â memorandwm esboniadol, gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r darn hwn o ddeddfwriaeth, i fwy o raddau nag unrhyw un arall, yn ganolog i raglen ddeddfwriaethol y Llywodraeth hon ac, os caiff ei basio, bydd yn un o ychydig o gyfreithiau o'r fath mewn unrhyw le yn y byd.

The Bill puts sustainable development at the heart of public service governance in Wales. It represents the next, significant stage in our devolution journey on sustainable development. In so doing, it enshrines in legislation our shared commitment during 15 years of devolution to make sustainability central to everything that we and the wider public sector do. The Bill is the result of a considerable body of work by many people from different political standpoints, but at its core it represents our commitment to pass on a better quality of life to our children and grandchildren. Nothing could be more important.

Mae'r Bil yn rhoi datblygu cynaliadwy wrth wraidd llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Hwn yw'r cam mawr nesaf ar ein taith ddatganoli ar ddatblygu cynaliadwy. Wrth wneud hynny, mae'n ymgorffori mewn deddfwriaeth ein hymrwymiad ar y cyd yn ystod 15 mlynedd o ddatganoli i sicrhau bod cynaliadwyedd yn ganolog i bopeth yr ydym ni a'r sector cyhoeddus ehangach yn ei wneud. Mae'r Bil yn ganlyniad i waith sylweddol gan lawer o bobl o wahanol safbwyntiau gwleidyddol, ond wrth ei wraidd mae'n cynrychioli ein hymrwymiad i drosglwyddo gwell ansawdd bywyd i'n plant a'n hwyrion. Ni allai unrhyw beth fod yn bwysicach.

We all know that Wales faces a number of complex and long-term social, economic and environmental challenges. Many of these are a legacy from the past, but it is increasingly recognised that more needs to be done to ensure that the current generation does not leave them as challenges for future generations.

Rydym i gyd yn gwybod bod Cymru'n wynebu nifer o heriau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cymhleth a hirdymor. Etifeddiaeth o'r gorffennol yw llawer o'r rhain, ond cydnabyddir yn gynyddol bod angen gwneud mwy i sicrhau nad yw'r genhedlaeth bresennol yn eu gadael fel heriau i genedlaethau'r dyfodol.

At its heart, the Bill has three key aims that I will highlight today. First, the Bill provides a renewed sense of purpose for public services to plan what they do. It requires all of us to think differently and to plan over a longer period of time. It seeks to end the practice of public bodies working independently of one another and requires that we look for collaborative solutions. Most fundamentally, it requires us to plan so that we recognise challenges before they arise and grasp the opportunities that arise for us as a nation.

Yn y bôn, mae gan y Bil dri nod allweddol y rhoddaf sylw iddynt heddiw. Yn gyntaf, mae'r Bil yn rhoi ymdeimlad newydd o bwrpas i wasanaethau cyhoeddus i gynllunio'r hyn y maent yn ei wneud. Mae'n mynnu bod pob un ohonom yn meddwl yn wahanol ac yn cynllunio dros gyfnod hwy. Mae'n ceisio rhoi terfyn ar arfer cyrff cyhoeddus o weithio'n annibynnol ar ei gilydd ac yn mynnu ein bod yn chwilio am atebion ar y cyd. Yn fwyaf sylfaenol, mae'n mynnu ein bod yn cynllunio er mwyn gallu adnabod heriau cyn iddynt ymddangos a manteisio ar y cyfleoedd a gawn fel cenedl.

Secondly, the Bill embodies international values of sustainable development and wellbeing. It incorporates the Brundtland definition of sustainable development as development that meets the needs of the present without compromising the ability of future generations to meet their own needs. Wales is at the forefront of an international dialogue that is seeking to engage people across the world in a debate about the world that they want to see in 2050. Wales, once again, is leading the way. No other nation is taking these bold steps to legislate for long-term wellbeing goals.

Yn ail, mae'r Bil yn ymgorffori gwerthoedd rhyngwladol datblygu cynaliadwy a lles. Mae'n ymgorffori diffiniad Brundtland o ddatblygu cynaliadwy fel datblygu sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. Mae Cymru ar flaen y gad mewn deialog ryngwladol sy'n ceisio cynnwys pobl ledled y byd mewn trafodaeth am y byd yr hoffent ei weld yn 2050. Mae Cymru, unwaith eto, yn arwain y ffordd. Nid oes unrhyw genedl arall yn cymryd y camau beiddgar hyn i ddeddfu ar gyfer nodau lles hirdymor.

Thirdly, the Bill is intended to make a real difference for people and communities. In my portfolio, intervening early is central to our ambition to tackle poverty. There is no better way of preventing poverty than helping people into work by equipping them with the skills they need to succeed.

In many ways, this Bill could come under any one of our ministerial portfolios. Setting long-term goals, working collaboratively, and engaging with communities to find preventative solutions all apply as much to health as they do to the environment.

The Bill has three components, each contributing to deliver the aims I have just described. The first element of the Bill requires specified public services to work together to achieve a set of wellbeing goals for Wales. These goals recognise the relationship between our environment, our economy and people and communities in Wales, and the way in which they cannot and must not be separated if we are to improve the long-term future of Wales. The wellbeing goals define what we collectively want to achieve—the wellbeing of a sustainable Wales. The goals have been carefully drafted and reflect the feedback that I received from the pilot national conversation called The Wales We Want, which was a national engagement exercise by the Commissioner for Sustainable Futures on the future that we want to see. The goals also build upon our current sustainable development scheme.

The Welsh Government and each specified public body subject to the duty will need to set and meet wellbeing objectives to maximise their contribution to achieving the wellbeing goals. The difference we are all making will be evaluated and measured through the Welsh Government setting and reporting against national indicators.

All specified public bodies will be required to set wellbeing objectives in a manner that is consistent with the sustainable development principle. This means working together—collaboration; futureproofing—long-term; avoiding problems from arising in the first place—prevention; looking at all the goals together—integration; and engagement with people and communities—citizen centred. In this way, this part of the Bill reinforces the fundamental role that specified public bodies play in putting the present and future needs of Wales at the heart of their decisions. It will enable a step change in the way in which these public services improve the long-term economic, social and environmental wellbeing of Wales, leaving a better legacy for our children and grandchildren.

The next part of the Bill establishes a future generations commissioner for Wales, supported by a panel of advisers, to capture the wide experience of experts needed to help public bodies find the best solutions for their area.

Yn drydydd, bwriedir i'r Bil i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl a chymunedau. Yn fy mhorthfolio i, mae ymyrryd yn gynnar yn ganolog i'n huchelgais i drechu tlodi. Nid oes ffordd well o atal tlodi na helpu pobl i gael gwaith drwy eu harfogi â'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo.

Mewn llawer o ffyrdd, gallai'r Bil hwn ddod o dan unrhyw un o'n portffolios gweinidogol. Mae gosod nodau hirdymor, gweithio ar y cyd, ac ymgysylltu â chymunedau i ddod o hyd i atebion ataliol i gyd yr un mor berthnasol i iechyd ag y maent i'r amgylchedd.

Mae tair cydran i'r Bil, a phob un yn cyfrannu at gyflawni'r nodau yr wyf newydd eu disgrifio. Mae elfen gyntaf y Bil yn mynnu bod gwasanaethau cyhoeddus penodol yn cydweithio i gyflawni cyfres o nodau lles ar gyfer Cymru. Mae'r nodau hyn yn cydnabod y berthynas rhwng ein hamgylchedd, ein heconomi a'n pobl a'n cymunedau yng Nghymru, a'r ffaith na ellir ac na ddylid eu gwahanu os ydym am wella dyfodol hirdymor Cymru. Mae'r nodau lles yn diffinio'r hyn yr hoffem i gyd ei gyflawni—lles Cymru gynaliadwy. Mae'r nodau wedi eu drafftio'n ofalus ac maent yn adlewyrchu'r adborth a gefais o'r sgwrs genedlaethol arbrofol sef Y Gymru a Gareu, a oedd yn ymarfer ymgysylltu cenedlaethol gan y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy am y dyfodol yr hoffem ei weld. Mae'r nodau hefyd yn adeiladu ar ein cynllun datblygu cynaliadwy presennol.

Bydd angen i Lywodraeth Cymru a phob corff cyhoeddus penodedig sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd osod amcanion lles a'u bodloni er mwyn gwneud y cyfraniad gorau posibl at gyflawni'r nodau lles. Bydd y gwahaniaeth yr ydym i gyd yn ei wneud yn cael ei werthuso a'i fesur drwy i Lywodraeth Cymru bennu dangosyddion cenedlaethol ac adrodd yn eu herbyn.

Bydd yn ofynnol i bob corff cyhoeddus penodedig bennu amcanion lles mewn modd sy'n gyson â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae hyn yn golygu cydweithio—cydweithredu; diogelu ar gyfer y dyfodol—hirdymor; osgoi problemau yn y lle cyntaf—atal; edrych ar yr holl nodau gyda'i gilydd—integreiddio; ac ymgysylltu â phobl a chymunedau—canolbwyntio ar y dinesydd. Yn y modd hwn, mae'r rhan hon o'r Bil yn atgyfnerthu swyddogaeth sylfaenol cyrff cyhoeddus penodedig i sicrhau bod anghenion Cymru yn y presennol a'r dyfodol wrth galon eu penderfyniadau. Bydd yn galluogi newid sylweddol i'r ffordd y mae'r gwasanaethau cyhoeddus hyn yn gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol hirdymor Cymru, gan adael etifeddiaeth well i'n plant a'n hwyryon.

Mae rhan nesaf y Bil yn sefydlu comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol i Gymru, wedi'i gefnogi gan banel o gynghorwyr, i ddarparu profiad eang gan arbenigwyr sydd ei angen i helpu cyrff cyhoeddus i ddod o hyd i'r atebion gorau ar gyfer eu hardal.

Finally, the Bill places public service boards and wellbeing plans—currently known as local service boards and single integrated plans—on a statutory basis. In doing so, the Bill simplifies community planning, placing it firmly within the strengthened sustainable development framework of the Bill, and delivering on our commitment to reduce bureaucratic burdens on public services.

The Well-being of Future Generations (Wales) Bill is about looking at the big picture—what our long-term goals and aspirations are as a nation and what makes our approach distinctive and better. A shared vision for the Wales we want, with a shared commitment to act, will make a real difference to people's lives. It will serve as the central theme for all our policies and legislation. For that reason, I look forward to scrutiny of the Bill and commend it to the Chamber.

14:53

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for his statement and for formally introducing this Bill. I also thank the Minister for the numerous update meetings and the technical briefing sessions that his officials have provided, which were all extremely helpful and welcome, and which demonstrate the consensual air that he has been fostering since taking the lead on this Bill.

The Bill has had a very long and, at times, rocky journey in getting where we are today. I remember some very bruising encounters in various Environment and Sustainability Committee sessions where Ministers and officials were grilled in relation to what the Government was looking to achieve with this legislation, and as regards whether the definition of futureproofed was fit for purpose and whether the principles underpinning the Bill were the right ones.

Looking at some of the key aspects of the Bill's architecture, the issue of setting goals on the face of the Bill was an important element, and I am pleased that you have listened to the concerns of a wide range of environmental non-governmental organisations in relation to the second goal on biodiversity, and to the Welsh language campaigners in terms of strengthening the last goal. Do you feel that the goals that you have set out represent the complete picture of what you are looking to achieve, particularly given the importance placed by the public on tackling climate change in The Wales We Want survey? Will you be open during the scrutiny process to widening the scope and range of the goals now that this evidence has been presented?

You have set out in your definition of public bodies that you have been obligated to comply with the legislation. I would like to know how you have come to the 200,000 compliance threshold for public bodies. On those public bodies that are not fully devolved—I am thinking about the police force and particularly regiments based in Wales, for example—how do they fit into the structure of the Bill and what discussions have you had with the UK Government in that regard?

Yn olaf, mae'r Bil yn rhoi statws statudol i fyrdau gwasanaethau cyhoeddus a chynlluniau lles—a elwir ar hyn o bryd yn fyrdau gwasanaethau lleol a chynlluniau integredig sengl. Wrth wneud hynny, mae'r Bil yn symleiddio cynllunio cymunedol, gan ei osod yn gadarn o fewn fframwaith datblygu cynaliadwy cryfach y Bil, a chyflawni ein hymrwymiad i leihau beichiau biwrocraidd ar wasanaethau cyhoeddus.

Mae Bil Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yn ymwneud ag edrych ar y darlun mawr—beth yw ein nodau a'n dyheadau hirdymor fel cenedl a beth sy'n gwneud ein dulliau ni'n unigryw ac yn well. Bydd gweledigaeth a rennir ar gyfer y Gymru yr hoffem ei chael, gydag ymrwymiad ar y cyd i weithredu, yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Bydd yn thema ganolog i'n holl bolisiau a deddfwriaeth. Am y rheswm hwnnw, rwyf yn edrych ymlaen at graffu ar y Bil ac yn ei gymeradwyo i'r Siambur.

Diolchaf i'r Gweinidog am ei ddatganiad ac am gyflwyno'r Bil hwn yn ffurfiol. Diolch hefyd i'r Gweinidog am y cyfarfodydd diweddarau a'r sesiynau briffio technegol niferus y mae ei swyddogion wedi'u darparu; roeddent i gyd yn hynod ddefnyddiol ac i'w croesawu, ac maent yn dangos yr ymdeimlad o gydsyniad y mae wedi bod yn ei feithrin ers iddo fod yn arwain ar y Bil hwn.

Mae'r Bil wedi cael taith hir iawn, ac anodd ar adegau, i gyrraedd lle'r ydym ni heddiw. Rwyf yn cofio rhai gornestau poenus iawn mewn gwahanol sesiynau o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd lle cafodd Gweinidogion a swyddogion eu croesholi ynglŷn â'r hyn yr oedd y Llywodraeth yn bwriadu ei gyflawni â'r ddeddfwriaeth hon, ac ynghylch a oedd y diffiniad o ddiogelu ar gyfer y dyfodol yn addas i'w ddiben ac a oedd y Bil yn seiliedig ar yr egwyddorion cywir.

I edrych ar rai o'r agweddau allweddol ar bensaerniaeth y Bil, roedd gosod targedau ar wyneb y Bil yn elfen bwysig, ac rwyf yn falch eich bod wedi gwrandao ar bryderon amrywiaeth eang o sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol ynglŷn â'r ail darged bioamrywiaeth, ac ar ymgyrchwyr dros yr iaith Gymraeg ynglŷn â chryfhau'r nod olaf. A ydych chi'n teimlo bod y nodau yr ydych wedi'u hamlinellu yn cynrychioli darlun cyflawn yr hyn yr ydych yn ceisio'i gyflawni, yn enwedig o ystyried pa mor bwysig oedd ymdrin â'r newid yn yr hinsawdd i'r cyhoedd yn arolwg Y Gymru a Garem? A fyddwch chi'n agored yn ystod y broses graffu i ehangu cwpas ac ystod y nodau, nawr bod y dystiolaeth hon wedi cael ei chyflwyno?

Rydych chi wedi nodi yn eich diffiniad o gyrff cyhoeddus eich bod wedi gorfod cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Hoffwn wybod sut yr ydych wedi cyrraedd y trothwy cydymffurfiaeth o 200,000 ar gyfer cyrff cyhoeddus. O ran y cyrff cyhoeddus hynny nad ydynt wedi'u datganoli'n llawn—rwyf yn meddwl am yr heddlu ac yn enwedig am gatrodau a leolir yng Nghymru, er enghraifft—sut y maent yn ffitio yn strwythur y Bil a pha drafodaethau yr ydych wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynglŷn â hynny?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In relation to national indicators for wellbeing, do you at this stage know what those indicators may look like? I think that we can all agree that the current set of 44 indicators has not been particularly useful to benchmark performance, so we need indicators that are clear and tangible for the public. In terms of the creation of the role of the future generations commissioner, I have to say that I am still quite sceptical regarding the creation of another commissioner. I think that we are in danger of commissioner proliferation in Wales, which in itself is not sustainable. However, in terms of the appointment of the said individual, why have you decided that Welsh Ministers should have the power to appoint and not the National Assembly for Wales as a whole? I would be particularly keen that you respond on that point.

There are models in other parts of the world, like Canada, which has a very robust and independent structure for the selection of sustainable development commissioners, which are very arm's-length and free from interference of Government, so why have you chosen this route, particularly given the ministerial influence on the appointment of the commissioner's advisory panel as well? In relation to the commissioner's reporting cycle, there is no determination as yet on how frequently the commissioner could report. Is that something you are going to leave for the individual to decide or do you have a cycle process that you believe is appropriate? If so, how does that fit around the reporting cycles of other bodies, particularly publicly elected bodies?

Finally, what is the overall cost of this legislation—establishing a commissioner and their office, the advisory panel and the public service bodies, with costs attributed to public organisations? What is the overall cost envelope? Have you found that money from within your own budget, Minister, or will the Minister for Finance have to provide additional funding costs?

O ran dangosyddion cenedlaethol ar gyfer lles, a ydych chi ar hyn o bryd yn gwybod sut y gallai'r dangosyddion hynny edrych? Rwyf yn meddwl y gallwn i gyd gytuno nad yw'r gyfres bresennol o 44 o ddangosyddion wedi bod yn arbennig o ddefnyddiol i feincnodi perfformiad, felly mae arnom angen dangosyddion sy'n glir ac yn bendant i'r cyhoedd. O ran creu swyddogaeth comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol, rhaid imi ddweud fy mod yn dal yn eithaf amheus ynghylch creu comisiynydd arall. Rwyf yn meddwl bod perygl y bydd gennym doreth o gomisiynwyr yng Nghymru, sydd ynddo'i hun yn anghynladwy. Fodd bynnag, o ran penodi'r unigolyn dan sylw, pam yr ydych chi wedi penderfynu mai Gweinidogion Cymru ddylai gael y pŵer i'w benodi, ac nid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei gyfarwydd? Byddwn yn arbennig o awyddus i gael ateb gennych am y pwynt hwnnw.

Mae modelau mewn rhannau eraill o'r byd, megis Canada, lle ceir strwythur cadarn iawn ac annibynnol ar gyfer dewis comisiynwyr datblygu cynaliadwy, yn cadw hyd braich oddi wrth ymyrraeth y Llywodraeth, felly pam yr ydych chi wedi dewis y llwybr hwn, yn enwedig o ystyried dylanwad gweinidogion ar benodi panel ymgynghorol y comisiynydd hefyd? O ran cylch adrodd y comisiynydd, nid oes penderfyniad hyd yma ynghylch pa mor aml y gallai'r comisiynydd adrodd. A yw hynny'n rhywbeth yr ydych chi yn mynd i'w adael i'r unigolyn ei benderfynu ynteu a oes gennych broses gylchu yr ydych chi credu ei bod yn briodol? Os felly, sut y mae honno'n cyd-fynd â chylchoedd adrodd cyrff eraill, yn enwedig cyrff a etholir yn gyhoeddus?

Yn olaf, beth yw cyfanswm cost y ddeddfwriaeth hon—sefydlu comisiynydd a'i swyddfa, y panel cynghori a'r cyrff gwasanaethau cyhoeddus, gyda chostau a briodolir i sefydliadau cyhoeddus? Beth yw cyfanswm y gost? A ydych chi wedi dod o hyd i'r arian hwnnw o'ch cyllideb eich hun, Weinidog, ynteu a fydd yn rhaid i'r Gweinidog Cyllid ddarparu costau cyllid ychwanegol?

14:57

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Russell George very much for those questions and comments. I am grateful that you feel that I have a consensual approach to this. That is the spirit in which I wish to pursue this particular legislation. I think that it is important that we can agree across the floor about its main purpose. That would be a great advantage, although, clearly, during the scrutiny stage and the amendments stage, there will be plenty of scope for disagreement, but hopefully around the edges.

Diolch yn fawr iawn i Russell George am y cwestiynau a'r sylwadau yna. Rwyf yn ddiolchgar eich bod yn teimlo bod gennyf ymagwedd gydsyniol at hyn. Dyna'r ysbryd yr wyf yn dymuno ei ddefnyddio i ddilyn y ddeddfwriaeth benodol hon. Rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig bod pawb yn gallu cytuno ar y prif bwrpas. Byddai hynny'n fantais fawr, er, yn amlwg, yn ystod y cyfnod craffu a'r cyfnod gwelliannau, ceir digon o gyfle i anghytuno, ond o amgylch yr ymylon, gobeithio.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I am aware of the history of this particular piece of legislation, but I was delighted to be given responsibility for seeing it through. I believe that the principles that are enshrined in the goals are the right ones. It is always, of course, possible to say that there could be more. I had a number of suggestions from various national conversation events I visited around Wales, some of them interesting, one or two a little bizarre. However, what I have said to people—and I will make this point here—is that, if there is a strong case for either expanding or, indeed, contracting the goals or rewriting them, it is for people to submit that evidence and for people to propose amendments if they think that that is the right thing to do. However, I believe that the goals as currently written do present adequately a complete picture of the Wales that we want—together with the descriptors; I must stress that point. The goals need to be seen as an integrated set of goals. No one goal should be concentrated on on its own.

You asked a number of technical questions, including some about finance. Now, I will jump a little bit. I have had a regulatory impact assessment conducted. We anticipate, drawing upon the costs of the offices of other commissioners, that it would be in the order of £1.5 million. We will obviously look at that closely. We have identified sources of funding, some of which will come from my portfolio. In terms of any other costs for public service bodies, we would hope that, by and large, they would be able to cover those costs. We would expect them to address the training of staff, for example, through their normal continuing professional development arrangements. So we feel that the costs are manageable. However, as with any brand new piece of legislation, especially one as unique as this, it is difficult to be accurate in terms of predicting moneys at this stage, although, clearly, that will become clearer as we move towards finality in this regard.

The figure of £200,000 that you mentioned being the threshold for community councils was agreed so that we do not overburden the system. There are somewhere in the order of 800 community councils across Wales, many of them very small indeed, and to require all of them to be subject to this duty and to be audited is probably far too onerous. So, the figure of a turnover per annum of £200,000 was arrived at in terms of community councils.

You asked about non-devolved public services, such as the police and crime commissioners and the police themselves, for example. I am in discussion with the UK Government on this matter. We hope that they can be regarded as statutory invitees as opposed to core members of the public service boards, and we trust that that will work smoothly. I have to say that, where this matter has been discussed with those authorities, they have greeted it with enthusiasm, and I do not anticipate any problems. In terms of indicators—[Interruption.] Okay. It is the quantity of questions; I will miss some and end on this point.

Rwyf yn ymwybodol o hanes y darn arbennig hwn o ddeddfwriaeth, ond roeddwn yn falch iawn o gael y cyfrifoldeb amdano. Rwyf yn credu bod yr egwyddorion sydd wedi'u hymgorffori yn y nodau yn rhai priodol. Mae bob amser, wrth gwrs, yn bosibl dweud y gellid bod mwy. Cefais nifer o awgrymiadau yn yr amryw o ddiwyddiadau sgwrs genedlaethol yr ymwelais â hwy ledled Cymru; rhai ohonynt yn ddiddorol, un neu ddau braidd yn rhyfedd. Fodd bynnag, yr hyn yr wyf wedi'i ddweud wrth bobl—a gwnaf y pwynt yma nawr—yw, os ceir achos cryf dros naill ai ehangu neu, yn wir, gyfangu'r targedau neu eu hailysgrifennu, bydd gofyn i bobl gyflwyno'r dystiolaeth honno a chynnig gwelliannau os ydynt yn credu mai dyna'r peth cywir i'w wneud. Fodd bynnag, rwyf yn credu bod y targedau fel y'u hysgrifennwyd ar hyn o bryd yn rhoi darlun cyflawn a boddhaol o'r Gymru a garem—ynghyd â'r disgrifyddion; mae'n rhaid imi bwysleisio'r pwynt hwnnw. Mae angen gweld y nodau fel cyfres integredig o nodau. Ni ddylid canolbwyntio ar unrhyw un nod ar ei ben ei hun.

Rydych wedi gofyn nifer o gwestiynau technegol, gan gynnwys rhai am gyllid. Nawr, rwyf am neidio rhywfaint. Rwyf wedi cynnal asesiad o effaith reoleiddiol. Rydym yn rhagweld, gan gymharu â chostau swyddfeydd comisiynwyr eraill, y byddai o gwmpas £1.5 miliwn. Byddwn yn amlwg yn edrych ar hynny'n ofalus. Rydym wedi nodi ffynonellau cyllid, a bydd rhai ohonynt yn dod o fy mhorthfolio i. O ran unrhyw gostau eraill i gyrrff gwasanaethau cyhoeddus, byddem yn gobeithio, ar y cyfan, y byddent hwy'n gallu talu'r costau hynny. Byddem yn disgwyl iddynt ymdrin â hyfforddi staff, er enghraifft, drwy eu trefniadau datblygiad proffesiynol parhaus arferol. Felly, rydym yn teimlo bod y costau'n hylaw. Fodd bynnag, fel gydag unrhyw ddarn newydd sbon o ddeddfwriaeth, yn enwedig un mor unigryw â hyn, mae'n anodd rhagweld arian yn gywir ar hyn o bryd, er y daw hynny, yn amlwg, yn gliriach wrth inni symud tuag at derfynoldeb yn hyn o beth.

Cytunwyd ar y ffigur o £200,000 a grybwyllwyd gennyh fel trothwy ar gyfer cynghorau cymuned er mwyn inni beidio â gorlwytho'r system. Mae oddeutu 800 o gynghorau cymuned yng Nghymru, mae llawer ohonynt yn fach iawn yn wir, ac mae'n debygol y byddai mynnu bod pob un ohonynt yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd hon ac yn cael ei archwilio'n llawer rhy feichus. Felly, cytunwyd ar ffigur o £200,000 o drosiant y flwyddyn ar gyfer cynghorau cymuned.

Gofynasoch am wasanaethau cyhoeddus heb eu datganoli, megis comisiynwyr yr heddlu a throseddau a'r heddlu eu hunain, er enghraifft. Rwyf mewn trafodaeth â Llywodraeth y DU ynglŷn â'r mater hwn. Rydym yn gobeithio y gellir eu hystyried yn wahoddedigion statudol yn hytrach nag yn aelodau craidd o'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus, a hyderwn y bydd hynny'n gweithio'n ddidrafferth. Mae'n rhaid imi ddweud, pan drafodwyd y mater hwn gyda'r awdurdodau hynny, eu bod wedi'i gyfarch gyda brwdfrydedd, ac nid wyf yn rhagweld unrhyw broblemau. O ran dangosyddion—[Torri ar draws.] Iawn. Nifer y cwestiynau yw'r broblem; byddaf yn hepgor rhai ac yn gorffen ar y pwynt hwn.

The indicators will, of course, need to be revised on a fairly regular basis to make sure that all relevant indicators across a range of Welsh Government activities are up to date and are current and relevant. Those indicators will be used by the Welsh Government to measure achievement towards the goals.

Wrth gwrs, bydd angen adolygu'r dangosyddion yn eithaf rheolaidd i wneud yn siŵr bod yr holl ddangosyddion perthnasol ar draws ystod o weithgareddau Llywodraeth Cymru yn gyfoes, yn gyfredol ac yn berthnasol. Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r dangosyddion hynny i fesur cyflawniad tuag at y nodau.

15:02

Christine Chapman [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you, Minister, for the statement. Some years ago, when I served on the Committee of the Regions for this Assembly, I acted as a rapporteur for an opinion that looked at the future of the EU's jobs and growth strategy. Reading back through the work I did then, I think that the evidence that I provided is very relevant to this Bill, so it may be useful for you to have a look at this. We took an awful lot of evidence from stakeholders at every level in Wales and beyond, across Europe. As I say, I think that it was very relevant. A key finding for this opinion was that, even when the economy was performing well,

'high levels of poverty continued to exist as well as growing levels of income inequality.'

What we found was that the poorest communities were still left behind even when the economy was performing well. So, Minister, this Bill is a real opportunity to look at things afresh, to do things differently and to make a difference to our communities. If it does not, I think this Bill will have failed. So, this is a real test for us here to make sure that this Bill delivers.

Therefore, my first question is: how can we make sure that the future generations Bill becomes a real, concrete measure to reduce poverty in Wales? The opinion also recognised the need to adopt a much more inclusive indicator of economic performance than the blunt tool of GDP under the Welsh Government's consideration of this Bill, so what consideration has been given to developing new indicators that provide a more meaningful way—I emphasise the word 'meaningful'—of measuring prosperity, wellbeing and quality of life for everyone, including the poorest?

On the architecture of the Bill's proposal, I note the creation of an advisory panel for the commissioner and/or public service boards on a statutory basis, so how can we ensure diversity on these important bodies, so that they represent our communities and nation? I also welcome the commitment to a national conversation, but how can we make sure that the commissioner actually goes out there and speaks not just to the usual suspects, but to the hardest-to-reach, least enfranchised members of our community?

Diolch, Weinidog, am y datganiad. Rai blynyddoedd yn ôl, pan oeddwn yn gwasanaethu ar Bwyllgor y Rhanbarthau ar gyfer y Cynulliad hwn, bûm yn gweithredu fel adroddwr am farn a oedd yn edrych ar ddyfodol strategaeth twf a swyddi yr UE. O ddarllen yn ôl drwy'r gwaith a wnes bryd hynny, rwyf yn credu bod y dystiolaeth a ddarparais yn berthnasol iawn i'r Bil hwn, felly efallai y byddai'n ddefnyddiol ichi gael golwg ar hyn. Cawsom lawer iawn o dystiolaeth gan randdeiliaid ar bob lefel yng Nghymru a thu hwnt, ledled Ewrop. Fel y dywedais, rwyf yn meddwl ei fod yn berthnasol iawn. Un o ganfyddiadau allweddol y farn hon oedd, hyd yn oed pan oedd yr economi'n perfformio'n dda,

'roedd llawer o dlodi'n parhau i fodoli, yn ogystal â lefelau cynyddol o anghydraddoldeb incwm.'

Yr hyn a welsom oedd bod y cymunedau tlotaf yn dal i gael eu gadael ar ôl, hyd yn oed pan oedd yr economi'n perfformio'n dda. Felly, Weinidog, mae'r Bil hwn yn gyfle gwirioneddol i edrych ar bethau o'r newydd, i wneud pethau'n wahanol ac i wneud gwahaniaeth i'n cymunedau. Os na wnaiff hynny, rwyf yn credu y bydd y Bil hwn wedi methu. Felly, mae hwn yn brawf mawr inni yma i wneud yn siŵr bod y Bil hwn yn cyflawni.

Felly, fy nghwestiwn cyntaf yw: sut y gallwn wneud yn siŵr bod Bil cenedlaethau'r dyfodol yn dod yn fesur pendant, diriaethol i leihau tlodi yng Nghymru? Roedd y farn hefyd yn cydnabod bod angen mabwysiadu dangosydd llawer mwy cynhwysol o berfformiad economaidd nag offeryn di-fin CMC wrth i Lywodraeth Cymru ystyried y Bil hwn, felly pa ystyriaeth a roddwyd i ddatblygu dangosyddion newydd sy'n darparu ffordd fwy ystyrlon—pwysleisiaf y gair 'ystyrlon'—o fesur ffyniant, lles ac ansawdd bywyd i bawb, gan gynnwys y bobl dlotaf?

O ran pensaerniaeth cynnig y Bil, sylwaf y bydd panel ymgynghorol y comisiynydd a/neu fyrddau gwasanaethau cyhoeddus yn cael ei greu, gyda statws statudol, felly sut y gallwn sicrhau amrywiaeth ar y cyrff pwysig hyn, fel eu bod yn cynrychioli ein cymunedau a'n cenedl? Rwyf hefyd yn croesawu'r ymrwymiad i sgwrs genedlaethol, ond sut y gallwn ni wneud yn siŵr bod y comisiynydd mewn gwirionedd yn mynd allan ac yn siarad nid yn unig â'r bobl arferol, ond â'r aelodau anoddaf eu cyrraedd a'r rhai sydd wedi'u difreinio fwyaf yn ein cymuned?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Christine Chapman for those questions. I am aware of the work that she has done on jobs and growth within the Committee of the Regions of the European Commission. Much of that work was taken account of, particularly when we considered the goal on a prosperous Wales. That goal is as important as any of the other five. One reason for that is that it is difficult to get people on a mass scale to switch on to the importance of their environment and communities if they are worried about the security of their jobs and decent jobs for their children and grandchildren. It is important that the issue of prosperity takes account of quality jobs, sustainable jobs and green jobs and the education and training that goes with it.

It is important that we deliver indicators, and that work is under way. Indeed, the current advisory board to the non-statutory Commissioner for Sustainable Futures has been tasked. It has set up a small working group to look at the issue of the indicators for the future: the ones that we need, how relevant the current ones are, and how they need to be modified to better work for this Bill.

Clearly, we need to look at education and skills attainment. Much of that information is there now, but if we are going to measure it properly, that has to be part of our national indicators as well as, crudely, the employment levels and the nature of jobs and qualifications held by young people and adults.

With regard to the national conversations, it will be a continuous process. The current commissioner, Peter Davies, who conducted it on my behalf, is making great strides to ensure that the voices of young people are heard—not just the easy-to-reach young people. It is important that we delve into school councils, youth groups and youth forums. Funky Dragon has been mentioned and certainly it played a role, but so have other organisations, such as Children in Wales, which work with young people on a daily basis. You are right: it is absolutely crucial that the advice and opinions of all people of Wales are sought and are taken account of.

Diolch i Christine Chapman am y cwestiynau yna. Rwyf yn ymwybodol o'r gwaith y mae hi wedi'i wneud ar swyddi a thwf o fewn Pwyllgor y Rhanbarthau y Comisiwn Ewropeaidd. Cafodd llawer o'r gwaith hwnnw ei ystyried, yn enwedig wrth inni ystyried y nod ar gyfer Cymru ffyniannus. Mae'r nod hwnnw yr un mor bwysig ag unrhyw un o'r pump arall. Un rheswm dros hynny yw ei bod yn anodd perswadio pobl ar raddfa dorfol i sylweddoli pwysigrwydd eu hamgylchedd a'u cymunedau os ydynt yn poeni am ddiogelwch eu swyddi a swyddi da ar gyfer eu plant a'u hwyron. Mae'n bwysig bod ffyniant yn ystyried swyddi o ansawdd, swyddi cynaliadwy a swyddi gwyrdd a'r addysg a hyfforddiant sy'n cyd-fynd â hynny.

Mae'n bwysig ein bod yn darparu dangosyddion, ac mae'r gwaith hwnnw ar y gweill. Yn wir, bwrdd cyngori presennol y Comisiynydd anstatudol ar gyfer Dyfodol Cynaliadwy sydd wedi cael y dasg. Mae wedi sefydlu gweithgor bychan i edrych ar ddangosyddion y dyfodol: y rhai y mae eu hangen arnom, pa mor berthnasol yw'r rhai presennol, a sut y mae angen eu haddasu i weithio'n well ar gyfer y Bil hwn.

Yn amlwg, mae angen inni edrych ar gyrhaeddiad addysg a sgiliau. Mae llawer o'r wybodaeth honno ar gael nawr, ond os ydym yn mynd i'w mesur yn iawn, mae'n rhaid i hynny fod yn rhan o'n dangosyddion cenedlaethol yn ogystal ag, yn fras, lefelau cyflogaeth a natur y swyddi a'r cymwysterau sydd gan bobl ifanc ac oedolion.

O ran y sgrysiâu cenedlaethol, bydd yn broses barhaus. Mae'r comisiynydd presennol, Peter Davies, a'i cynhaliodd ar fy rhan, yn cymryd camau breision i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu clywed—ac nid dim ond y bobl ifanc hawdd eu cyrraedd. Mae'n bwysig ein bod yn cyrraedd cyngorau ysgol, grwpiau ieuentid a fforymau ieuentid. Mae'r Ddraig Ffyni wedi cael ei chrybwyll ac mae'n sicr wedi chwarae rhan, ond mae sefydliadau eraill wedi gwneud hynny hefyd, megis Plant yng Nghymru, sy'n gweithio gyda phobl ifanc o ddydd i ddydd. Rydych yn iawn: mae'n gwbl hanfodol ein bod yn ceisio cyngor a barn holl bobl Cymru ac yn eu hystyried.

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Mae'n amlwg bod angen gweledigaeth gref a chlr ar ddatblygu cynaliadwy a rôl y sector cyhoeddus i weithio tuag at gyflawni hynny yng Nghymru. Er mwyn cyrraedd lle rydym i gyd am gyrraedd, mae angen newid diwylliant llwyr. Mae angen newid yn y 'mindset' o ran sut mae'r sector cyhoeddus yn gweithredu yng Nghymru a sut rydym ni fel trigolion yn byw ein bywydau. Nid yw Deddf ar ei phen ei hun yn mynd i gyflawni hynny, ond yn sicr mae gan ddeddfwriaeth rôl i'w chwarae. Felly, rwy'n croesawu bwriad y Llywodraeth i ddeddfu yn y maes hwn, ac rwy'n awyddus, fel mae eraill wedi mynegi, i wneud i hynny weithio.

It is clear that there is a need for a strong and clear vision on sustainable development and the role of the public sector to work towards achieving that in Wales. In order to get to where we all want to be, we need a complete change of culture. There is a need for change in the mindset in terms of how the public sector operates and how we as the people of Wales live our lives. An Act on its own will not achieve that, but legislation certainly has a role to play. Therefore, I welcome the Government's intention to legislate in this area, and I, as others have already said, am keen to make it work.

Fodd bynnag, mae rhywun yn poeni, wrth edrych ar yr hyn rydym wedi'i gael, bod y Llywodraeth yn ceisio gwneud hynny mewn ffordd sy'n llawer mwy cymhleth nag y byddai angen iddo fod o reidrwydd. Rwy'n edrych ar y nodau. Nid oes dim y gellir anghytuno ag ef yn y nodau hynny. A yw'r Gweinidog yn cydnabod bod perygl yn y nodau ein bod yn ceisio bod yn bopeth i bawb ac, o ganlyniad, bod risg nad yw'r hyn rydym am ei gyflawni yn cael ei wireddu?

Rwy'n edrych ar yr argymhellion i greu 22 o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus gyda 22 o gynlluniau llesiant. Mae'n ymddangos i mi bod y Llywodraeth yn mynd o'i chwmpas hi mewn ffordd or-fiwrocataidd, yn hytrach na gyrru'r newid diwylliannol sydd ei angen, a bod y ffocws ar brosesau yn ormodol. Ar y darlleniad cyntaf, yn sicr, nid oedd yn gwbl glir i mi sut y byddai'r broses honno'n gweithio. Yn amlwg, mae dyletswydd ar y byrddau gwasanaethau cyhoeddus i gynnal asesiadau llesiant ac yna i osod amcanion llesiant ar sail y nodau llesiant cenedlaethol a osodwyd, a gwneud hynny gan ystyried y nod cyffredin, sef yr hyn y byddwn yn ei alw yn egwyddorion datblygu cynaliadwy.

Mae'r cynhwysion i gyd yno, ond mae rhywun yn cael yr argraff bod y Llywodraeth yn defnyddio'r cynhwysion i greu dipyn o gawl, a dweud y gwir. A ydych yn cydnabod bod perygl y byddai rhai o'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus hyn yn gosod amcanion ac yna'n treulio eu hamser yn cyfiawnhau eu cyrhaeddiad yn flynyddol drwy adroddiadau a phrosesau ticio bocsys yn hytrach na'r newid sylfaenol rydym yn chwilio amdano yn y ffordd y maen nhw yn cymryd y penderfyniadau hynny yn y lle cyntaf?

Ar yr un diwrnod ag y gosodwyd y ddeddfwriaeth hon, wrth gwrs, cafodd adroddiad interim 'Y Gymru a Garem' ei gyhoeddi, a oedd yn dangos bod pobl yn credu mai newid yn yr hinsawdd yw her bwysicaf y dyfodol ac mai newid yn yr hinsawdd sydd bwysicaf i les cenedlaethau'r dyfodol. Fodd bynnag, nid oes sôn am newid yn yr hinsawdd na'n cyfrifoldeb ni am yr effeithiau rhyngwladol rydym ni'n eu cael yn y Bil. Rwy'n teimlo bod hynny yn gamgymeriad. Efallai y byddai'r Gweinidog yn fodlon awgrymu a yw hynny'n rhywbeth y byddai'n barod i'w ystyried wrth edrych ar welliannau.

Rwy'n croesawu bod lle penodol i'r iaith Gymraeg yng nghyd-destun y nodau hyn, ond byddwn yn gwahodd y Gweinidog i achub ar y cyfle i esbonio sut y bydd mabwysiadu'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn effeithio ar y Gymraeg. Mae gennym gyfrif cyhoeddus sydd â chynlluniau iaith. Mae strategaethau Cymraeg mewn addysg. Mae gennym nodyn cyngor technegol 20, sydd yno i ddylanwadu ar y broses gynllunio yng nghyd-destun y Gymraeg, er mai dim ond 0.03% o geisiadau cynllunio unigol a oedd wedi bod yn destun asesiad effaith ieithyddol. Felly, sut, drwy greu deddfwriaeth fel ag y mae'r Llywodraeth yn ei chynnig, y bydd hynny yn arwain at newid, er enghraifft, mewn penderfyniadau cynllunio o safbwynt y Gymraeg, neu, yn wir, yn cryfhau dyfodol yr iaith Gymraeg?

However, one worries, in looking at what we have been given, that the Government is trying to do that in a way that is much more complicated than it needs to be. I am looking at the goals. There is nothing with which we can disagree in those goals. Does the Minister recognise that there is a danger in the goals that we are trying to be all things to all people and that, as a result, there is a risk that we will not achieve what we want to see realised?

I am looking at the recommendations to create 22 public services boards with 22 well-being plans. It seems to me that the Government is going about it in an overly bureaucratic way, rather than driving the culture change that is needed, and that the focus on processes is excessive. At first reading, certainly, it was not entirely clear to me how that process would work. Clearly, it is the duty of the public services boards to undertake well-being assessments and then to set well-being objectives on the basis of the national well-being goals set, and, in doing so, to have regard to the common aim, which is what I would call the principles of sustainable development.

The ingredients are all there, but one gets the impression that the Government is using the ingredients to create a bit of a mess, frankly. Do you recognise that there is a risk that some of these public services boards set objectives and then spend their time justifying their achievement annually through reports and tick-box processes rather than the fundamental change that we are looking for in how they take those decisions in the first place?

On the same day as this legislation was laid, of course, the interim 'The Wales We Want' report was published, which showed that people believe that climate change is the greatest challenge for the future and that climate change is most important to the wellbeing of future generations. However, there is no mention of climate change or our responsibilities for the international impacts that we are having in this Bill. I feel that that is a mistake. Perhaps the Minister would be willing to suggest whether that is something that he would be willing to consider in looking at amendments.

I welcome that there is a specific place for the Welsh language in the context of these goals, but I would invite the Minister to take this opportunity to explain how adopting this proposed legislation would impact upon the Welsh language. We have public bodies that have language schemes. There are Welsh in education strategies. We have technical advice note 20, which is there to influence the planning process in the context of the Welsh language, although only 0.03% of individual planning applications have been subject to a linguistic impact assessment. Therefore, how, by enacting legislation such as that proposed by the Government, will that lead to change, for example, in planning decisions in relation to the Welsh language or, indeed, in strengthening the future of the Welsh language?

May I thank the Member very much indeed for those comments? I think that he is absolutely right to refer to the importance of culture change. We have tried to be clear, throughout the drafting of this legislation and in the various discussions that we have had with public bodies, in stressing that we do not necessarily require them to do new things. We do not want to add to the bureaucratic burden; rather, we want them to ensure that the way that they think, together with their other partner organisations, is in this different way, on the basis of collaboration and of long-term sustainable development.

The Member mentioned that there is very little in here that anyone could disagree with. I have heard it described as 'motherhood and apple pie'. That is why I am comfortable with that. The difference, though, is that this is not just aspirations or things that would be nice to achieve; this will place an obligation on the named public boards to ensure a recognition that this was enshrined in law and that the steps that they take towards achievement of the goals are to be real and meaningful and that they will be measured as a result of the revised national indicators that will be developed for a whole range of activities.

This, of course, is happening at the same time as the Williams commission is reporting, and while we cannot say with accuracy yet what the outcome of that will be, I suspect that there could be fewer public services boards, once that is concluded, so we would anticipate that the focus on a regional basis will be better than perhaps it could be now. In terms of the work of the public services boards, whether there are 22, 11 or 12—whatever the case may be—the principle is that they would be supported very much by the statutory commissioner to make sure that their plans towards the goals incorporating sustainable development were rigorous, that they stood up to scrutiny and were as good as they could be. Not one of those organisations that make up the public services boards will be able to opt out of any of the goals. They will have to show how they will be working towards them, although, clearly, one or two might be greater than some of the others, depending on the nature of that organisation.

In terms of the interim report that Peter Davies launched yesterday, I accept that the issue of climate change is very important. In my discussions with groups of young people, particularly the youth forum at the Urdd, which I met some weeks ago, it was the issue of climate change that dominated thoughts. Although climate change is not mentioned explicitly on the face of the Bill or within the goals, it would be inconceivable for the issue of climate change not to be a very important part of, for example, a resilient Wales, and it would certainly need to be in there. I think that it is, even though the language may be a little different. We do certainly take international obligations very seriously indeed. Last week, Peter Davies the current commissioner was at a UNESCO event in New York where he articulated these issues and, as I understand it, he received considerable support for his input.

A gaf fi ddiolch yn fawr iawn i'r Aelod am y sylwadau yna? Rwyf yn meddwl ei fod yn llygad ei le wrth gyfeirio at bwysigrwydd newid diwylliant. Rydym wedi ceisio bod yn glir, trwy gydol y gwaith o ddrafftio'r ddeddfwriaeth hon ac yn yr amrywiol drafodaethau yr ydym wedi'u cael gyda chyrrff cyhoeddus, wrth bwysleisio nad ydym o reidrwydd yn mynnu eu bod yn gwneud pethau newydd. Nid ydym yn dymuno ychwanegu at y baich biwrocraidaidd; yn hytrach, rydym am iddynt sicrhau eu bod yn meddwl, ynghyd â'u sefydliadau partner eraill, yn y ffordd wahanol hon, yn seiliedig ar gydweithio ac ar ddatblygu cynaliadwy hirdymor.

Dwywedodd yr Aelod mai ychydig iawn sydd yma y gallai unrhyw un anghytuno ag ef. Rwyf wedi ei glywed yn cael ei ddisgrifio fel 'mamogaeth a phastai afal'. Dyna pam yr wyf yn gyfforddus â hynny. Y gwahaniaeth, fodd bynnag, yw nad dim ond dyheadau neu bethau y byddai'n braf eu cyflawni yw hyn; bydd hyn yn gosod rhwymedigaeth ar y byrddau cyhoeddus a enwyd i sicrhau cydnabyddiaeth bod hyn wedi'i ymgorffori yn y gyfraith ac y bydd y camau a gymerant tuag at gyflawni'r nodau yn real ac yn ystyrlon ac y cânt eu mesur yn sgil y dangosyddion cenedlaethol diwygiedig a gaiff eu datblygu ar gyfer ystod eang o weithgareddau.

Mae hyn, wrth gwrs, yn digwydd ar yr un pryd ag y mae comisiwn Williams yn adrodd, ac er na allwn ddweud gyda chywirdeb eto beth fydd canlyniad hynny, rwyf yn amau y gallai fod llai o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus ar ôl i hynny ddod i ben, felly byddem yn rhagweld y bydd y pwyslais ar sail ranbarthol yn well nag yw ar hyn o bryd o bosib. O ran gwaith y byrddau gwasanaethau cyhoeddus, boed 22, 11 neu 12 ohonynt—faint bynnag—yr egwyddor yw y byddent yn cael cefnogaeth gref gan y comisiynydd statudol i wneud yn siŵr bod eu cynlluniau tuag at y nodau sy'n ymgorffori datblygu cynaliadwy yn drwyadl, y gellir craffu arnynt a'u bod cystal â phosibl. Ni fydd yr un o'r sefydliadau hynny sy'n rhan o'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn gallu optio allan o unrhyw un o'r nodau. Bydd yn rhaid iddynt ddangos sut y byddant yn gweithio tuag atynt, er, yn amlwg, efallai y bydd un neu ddau yn fwy na rhai o'r lleill, gan ddibynnu ar natur y sefydliad hwnnw.

O ran yr adroddiad dros dro a lansiodd Peter Davies ddoe, rwyf yn derbyn bod newid yn yr hinsawdd yn fater pwysig iawn. Yn fy nhrafodaethau gyda grwpiau o bobl ifanc, yn enwedig y fforwm ieuentid yn yr Urdd, y cyfarfûm â hwy rai wythnosau yn ôl, newid yn yr hinsawdd oedd y prif fater ar eu meddyliau. Er nad yw newid yn yr hinsawdd yn cael ei grybwyll yn benodol ar wyneb y Bil nac o fewn y nodau, byddai'n annirnadwy i newid yn yr hinsawdd beidio â bod yn rhan bwysig iawn o Gymru gref, er enghraifft, ac yn sicr mae angen iddo fod i mewn ynddo. Rwyf yn credu ei fod, er y gall yr iaith fod ychydig yn wahanol. Yn sicr, mae rhwymedigaethau rhyngwladol yn fater yr ydym yn sicr yn ei ystyried o ddirif. Yr wythnos diwethaf, roedd Peter Davies y comisiynydd presennol mewn digwyddiad UNESCO yn Efrog Newydd pryd y soniodd am y materion hyn ac, yn ôl yr hyn a ddeallaf, cafodd gefnogaeth sylweddol i'w fewnbwn.

Finally, on the Welsh language, that aspect, together with all of the other goals, will then become issues where public bodies will have to evidence in a very clear way how they are addressing that aspect of improving the take-up of the Welsh language. Whether it is through enhanced occupational standards, for example, enhanced procedures in terms of how they deal and respond with people, or indeed promote the take-up of the Welsh language, there are many ways in which they can discharge that responsibility, all of which will have to be measured.

Yn olaf, ar yr iaith Gymraeg, bydd yr agwedd honno, ynghyd â phob un o'r nodau eraill, yna'n dod yn faterion lle y bydd yn rhaid i gyrff cyhoeddus ddangos tystiolaeth glir iawn o sut y maent yn ymdrin â'r agwedd honno ar gynyddu'r niferoedd sy'n defnyddio'r iaith Gymraeg. Boed hynny drwy wella safonau galwedigaethol, er enghraifft, gweithdrefnau gwell o ran sut y maent yn ymdrin â phobl ac yn ymateb iddynt, neu yn wir hyrwyddo defnyddio'r iaith Gymraeg, mae nifer o ffyrdd y gallant gyflawni'r cyfrifoldeb hwnnw, a bydd rhaid mesur pob un ohonynt.

15:16 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call William Powell.

Galwaf ar William Powell.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

15:16 **William Powell** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch, Weinidog, am y datganiad heddiw.

Thank you, Minister, for the statement today.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I would also like to echo the comments made by Russell George earlier in thanking you, Minister, and indeed your officials, for affording us the ongoing briefing that we have received as opposition spokespeople during this process. Hopefully, this practice will be noted and extended to other Cabinet colleagues in the future.

Hoffwn innau ategu'r sylwadau a wnaeth Russell George yn gynharach i ddiolch i chi, Weinidog, ac yn wir i'ch swyddogion, am gynnig i ni'r briffio parhaus yr ydym wedi'i gael fel llefarwyr y gwrthbleidiau yn ystod y broses hon. Gobeithio y caiff yr arfer hwn ei nodi a'i ymestyn i gydweithwyr eraill y Cabinet yn y dyfodol.

It is clear to me, as you have already said, that it would be a strange person indeed who would have any major issue with the main substance of this Bill. However, as is often the case with this form of portmanteau legislation, we do need to ensure that the legislative rhetoric of the goals does not come at the expense of a tangible regulatory framework, and indeed meaningful enforcement where necessary. Further to this, we do need to isolate and strengthen what the unique selling point of this legislation is actually going to be. In order for it to be worth while, it needs, as colleagues have said, to deliver a measurable contribution that could not have been delivered by other means. I think that this case is still to be made, in fact, and it is what I plan to be working on with colleagues as we enter the scrutiny phase of this important Bill.

Mae'n amlwg i mi, fel yr ydych eisoes wedi'i ddweud, mai dim ond unigolyn rhyfedd iawn a fyddai'n anghytuno'n gryf â phrif sylwedd y Bil hwn. Fodd bynnag, fel y digwydd yn aml gyda'r math hwn o ddeddfwriaeth gywasgedig, mae angen inni sicrhau nad yw rhethreg ddeddfwriaethol y nodau'n dod ar draul fframwaith rheoleiddio diriaethol, ac yn wir ar draul gorfodi ystyrllon pan fo angen hynny. Yn ogystal â hyn, mae angen inni ynysu a chryfhau beth fydd pwynt gwerthu unigryw'r ddeddfwriaeth hon mewn gwirionedd. Er mwyn iddi fod yn werth chweil, mae angen, fel y mae cydweithwyr wedi'i ddweud, iddi ddarparu cyfraniad mesuradwy na ellid bod wedi ei ddarparu drwy ddulliau eraill. Credaf nad yw'r achos hwn wedi'i wneud o hyd, mewn gwirionedd, a dyna beth yr wyf yn bwriadu gweithio arno gyda chydweithwyr wrth inni ddechrau'r cyfnod o graffu ar y Bil pwysig hwn.

Turning to specific questions, I want to focus first on the goals themselves. One aspect that I would like to see added is democratic accountability. The evolution of democratic devolution is still at a relatively early stage in this country and is arguably not as widespread as it should be. I look particularly to the issue around national parks and the principle of direct election that we have previously discussed in this Chamber.

I droi at gwestiynau penodol, hoffwn ganolbwyntio'n gyntaf ar y nodau eu hunain. Un agwedd yr hoffwn weld ei hychwanegu yw atebolrwydd democrataidd. Mae esblygiad datganoli democrataidd yn dal i fod ar gam cymharol gynnar yn y wlad hon a gellid dadlau nad yw mor gyffredin ag y dylai fod. Rwyf yn edrych yn benodol ar y mater yn ymwneud â pharciau cenedlaethol a'r egwyddor o ethol uniongyrchol yr ydym wedi'i thrafod o'r blaen yn y Siambur hon.

The more equal Wales goal seems to be the place to include reference to an increasingly democratic society, and I would be grateful, Minister, if you would signal your openness to potentially including this aspect.

Mae'n ymddangos mai'r nod Cymru fwy cyfartal yw'r lle i gyfeirio at gymdeithas sy'n gynyddol ddemocrataidd, a byddwn yn ddiolchgar, Weinidog, pe bydddech yn dangos eich bod yn agored i'r posibilrwydd o gynnwys yr agwedd hon.

I also think that, in the most general terms, we need to strengthen the role of the new commissioner across the board. While we do have a focus on public consultation, as we have seen in recent consultations, for example, those on building regulations and the breeding of dogs, huge majorities against the Government and particular initiatives mean nothing if a particular Minister chooses to ride roughshod over those views and to go ahead regardless. As such, in terms of amending goals and indicators, I would argue that the commissioner should have a greater role than simply being a consultee to a Minister and that such things should only be changed with the agreement of the commissioner. I would also appreciate your views on that.

While I would welcome the Minister's views on this, I would also seek his position on creating greater accountability and buy-in to those goals by amending section 6(3) of Part 2 of the Bill to ensure that goals can only be amended, added or removed by a two thirds majority vote in the Senedd. Related also to that point, I am not the only one in this Chamber to be concerned about the Welsh Government's increased tendency to rely on negative resolutions to pass regulations. As a way of turning the tide on this practice, Minister, will you commit to amending this Bill so as to ensure that any future regulation changes will only be made under an affirmative resolution of this Assembly?

Switching back to section 7 of the Bill, there also appears to be a possible loophole in subsection (3). Therein it states that:

'A public body that exercises functions in relation to the whole of Wales may set objectives relating to Wales or any part of Wales.'

To me, this implies that it would be acceptable for any whole-Wales body—say, Natural Resources Wales, for example—to set future generation goal objectives for only one part of the country, and not the whole. Minister, will you please address this potential anomaly?

Finally, I want to talk about indicators. I understand that these are to be confirmed, but a key, long-term point will be to ensure that we can track improvements, and track them consistently. Given this, as more appropriate indicators are developed, it must be clear that we can deliver results that are comparable with previous indicators. Minister, will you commit to making this a test for all future indicators during the course of this Bill's passage?

Credaf hefyd fod angen inni gryfhau swyddogaeth y comisiynydd newydd yn gyffredinol. Er ein bod yn canolbwyntio ar ymgynghoriad cyhoeddus, fel yr ydym wedi'i weld mewn ymgynghoriadau diweddar, er enghraifft, y rhai ar reoliadau adeiladu a bridio cŵn, nid yw mwyafrifoedd mawr yn erbyn y Llywodraeth a mentrau penodol yn golygu dim os oes un Gweinidog penodol yn dewis sathru'r safbwyntiau hynny dan draed a bwrw ymlaen beth bynnag. Fel y cyfryw, o ran diwygio nodau a dangosyddion, byddwn yn dadlau y dylai fod gan y comisiynydd fwy o swyddogaeth na dim ond bod yn ymgynghorai i Weinidog ac na ddylid newid pethau o'r fath heb gytundeb y comisiynydd. Byddwn hefyd yn gwerthfawrogi eich barn am hynny.

Er y byddwn yn croesawu barn y Gweinidog ar hyn, hoffwn hefyd ofyn am ei farn am greu mwy o atebolrwydd a chydysyniad â'r targedau hynny drwy ddiwygio adran 6(3) Rhan 2 y Bil i sicrhau bod angen pleidlais fwyafrif dwy ran o dair yn y Senedd er mwyn diwygio, ychwanegu neu ddileu nodau. Hefyd yn gysylltiedig â'r pwynt hwnnw, nid fi yw'r unig un yn y Siambr hon sy'n pryderu ynghylch tuedd gynyddol Llywodraeth Cymru i ddibynnu ar benderfyniadau negyddol i basio rheoliadau. Fel ffordd o droi'r llanw ar yr arfer hwn, Weinidog, a wnewch chi ymrwymo i ddiwygio'r Bil hwn er mwyn sicrhau bod angen penderfyniad cadarnhaol gan y Cynulliad hwn er mwyn newid unrhyw reoliadau yn y dyfodol?

I droi'n ôl at adran 7 y Bil, mae'n ymddangos hefyd bod bwch posibl yn is-adran (3). Ynndo mae'n nodi:

'Caiff corff cyhoeddus sy'n arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru gyfan osod amcanion sy'n ymwneud â Chymru neu unrhyw ran o Gymru.'

I mi, mae hyn yn awgrymu y byddai'n dderbyniol i unrhyw gorff Cymru gyfan—dyweder, Cyfoeth Naturiol Cymru, er enghraifft—osod amcanion nodau cenedlaethau'r dyfodol ar gyfer dim ond un rhan o'r wlad, ac nid y wlad gyfan. Weinidog, a wnewch chi roi sylw i'r anghysondeb posibl hwn?

Yn olaf, hoffwn siarad am ddangosyddion. Rwyf ar ddeall nad yw'r rhain wedi'u cadarnhau, ond mai un pwynt allweddol, hirdymor fydd sicrhau y gallwn olrhain gwelliannau, a'u holrhain yn gyson. O ystyried hyn, wrth i ddangosyddion mwy priodol gael eu datblygu, mae'n rhaid iddi fod yn glir y gallwn sicrhau canlyniadau y gellir eu cymharu â dangosyddion blaenorol. Weinidog, a wnewch chi ymrwymo i wneud hwn yn brawf ar gyfer holl ddangosyddion y dyfodol yn ystod hynt y Bil hwn?

15:20

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for those questions. I am pleased that you have no issue with the main substance of the Bill.

Diolch yn fawr iawn am y cwestiynau yna. Rwyf yn falch nad oes gennych broblem gyda phrif sylwedd y Bil.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

In terms of the issue of meaningful enforcement by the commissioner or, indeed, by anybody else, all public service bodies on which the duty falls will, of course, be subject to review by the Auditor General for Wales. That is a power that he or she already has, and that will continue. Furthermore, should the commissioner seek to intervene in terms of a wellbeing plan, they will make recommendations back to that public service board, which must be taken into account and, indeed, their response being published. Of course, as it is now, it is quite possible for a judicial review to be called, should any organisation feel that a public service board or, indeed, any of its members are ignoring their responsibilities under this Act. It is also going to be important that the commissioner and the Auditor General for Wales work together well to avoid unnecessary duplication.

In terms of your suggestion of a goal for democratic accountability, I do feel that a more equal Wales, a Wales of cohesive communities, for example, implies the issue of democratic accountability. It is up to you and indeed others, and if you feel that that needs to be strengthened, and you wish to draft an amendment to that effect, then of course you are perfectly free to do so. There will also be guidance issued, and it may well be that, in terms of guidance, those are matters that can be addressed.

The commissioner does have a strong role. They have to be listened to, but, having said that, the clear message that is coming back to us so far is that there will be a consensual approach across public bodies and that the commissioner will be worked with and not someone to be avoided. The commissioner, of course, will have responsibility for preparing the future generations report, and that is at least 12 months before any election, which will tell the Government of the day exactly where it is at and will enable the Government of the day and, indeed, other parties to put issues into their manifestos that they believe are important to continue with this particular piece of legislation.

Now, I am not going to commit to any other amendment at this point. I will obviously listen to submissions that are made to me, whether by Members of this Chamber or from outside organisations, perhaps through the national conversation, that put up a good case for further amendments. Indeed, they will be listened to, otherwise, there is no point in holding the national conversation.

In terms of the issue of organisations being able to have objectives for particular parts of Wales, I think that that links in with our view on localism, because, of course, there may well be particular issues in particular parts of Wales that require a different approach. So, I do not see that necessarily as being particularly different or problematic in terms of developing localised objectives where doing so can be justified. But, indeed, it will have to be made clear within the wellbeing plans if that is the case.

Finally, on your question about indicators, of course, indicators must be capable of being tracked, because they will be used as measures of performance to see how well we are all doing.

O ran gorfodaeth ystyrion gan y comisiynydd neu, yn wir, gan unrhyw un arall, bydd pob corff gwasanaeth cyhoeddus sy'n cael y ddyletswydd, wrth gwrs, yn destun adolygiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae hwnnw'n bŵer sydd ganddo ef neu hi eisoes, a bydd hynny'n parhau. Ymhellach, pe byddai'r comisiynydd yn ceisio ymyrryd o ran cynllun lles, bydd yn gwneud argymhellion yn ôl i'r bwrdd gwasanaeth cyhoeddus dan sylw, a bydd yn rhaid eu hystyried ac, yn wir, cyhoeddi'r ymateb iddynt. Wrth gwrs, fel y mae ar hyn o bryd, mae'n ddigon posibl galw am adolygiad barnwrol, pe byddai unrhyw sefydliad yn teimlo bod bwrdd gwasanaeth cyhoeddus neu, yn wir, unrhyw un o'i aelodau'n anwybyddu eu cyfrifoldebau o dan y Ddeddf hon. Bydd hefyd yn bwysig bod y comisiynydd ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i osgoi dyblygu diangen.

O ran eich awgrym o darged ar gyfer atebolrwydd democrataidd, rwyf yn teimlo bod Cymru fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynol, er enghraifft, yn awgrymu mater atebolrwydd democrataidd. Eich dewis chi ac yn wir eraill ydyw, ac os ydych yn teimlo bod angen cryfhau hynny, a'ch bod yn dymuno drafftio gwelliant i'r perwyl hwnnw, yna, wrth gwrs, rydych yn gwbl rydd i wneud hynny. Cyhoeddir arweiniad hefyd, ac mae'n ddigon posibl, o ran cyfarwyddyd, y gellir rhoi sylw i'r materion hynny.

Mae gan y comisiynydd swyddogaeth gref. Mae'n rhaid gwrando arno, ond, wedi dweud hynny, y neges glir sy'n dod yn ôl atom hyd yn hyn yw y bydd dull cydsyniol ar draws cyrff cyhoeddus ac y byddant yn gweithio gyda'r comisiynydd, nid ei osgoi. Y comisiynydd, wrth gwrs, fydd yn gyfrifol am baratoi'r adroddiad cenedlaethau'r dyfodol, ac mae hynny o leiaf 12 mis cyn unrhyw etholiad, a fydd yn dweud wrth Lywodraeth y dydd yn union ble y mae ac yn galluogi Llywodraeth y dydd ac, yn wir, pleidiau eraill i roi materion yn eu manifestos y maent yn credu sydd yn bwysig er mwyn parhau â'r darn penodol hwn o ddeddfwriaeth.

Nawr, nid wyf yn mynd i ymrwymo i unrhyw ddiwygiad arall ar hyn o bryd. Yn amlwg, byddaf yn gwrando ar gyflwyniadau a wneir imi, boed hwy'n dod gan Aelodau'r Siambr hon neu gan sefydliadau allanol, efallai drwy gyfrwng y sgwrs genedlaethol, sy'n cyflwyno achos da dros welliannau pellach. Yn wir, gwrandewir arnynt; fel arall, nid oes unrhyw bwynt mewn cynnal y sgwrs genedlaethol.

O ran gallu sefydliadau i osod amcanion ar gyfer rhannau penodol o Gymru, rwyf yn credu bod hynny'n cysylltu â'n barn ar leoliaeth, oherwydd, wrth gwrs, efallai y ceir materion penodol mewn rhannau penodol o Gymru sy'n golygu bod angen dull gwahanol o weithredu. Felly, nid wyf yn gweld y bydd hynny o reidrwydd yn arbennig o wahanol na phroblemus o ran datblygu amcanion lleol lle y gellir cyfiawnhau gwneud hynny. Ond, yn wir, bydd yn rhaid ei gwneud yn glir yn y cynlluniau lles os yw hynny'n wir.

Yn olaf, ar eich cwestiwn am ddangosyddion, wrth gwrs, mae'n rhaid bod modd olrhain dangosyddion, oherwydd cânt eu defnyddio fel mesurau perfformiad i weld pa mor dda yr ydym i gyd yn gwneud.

15:24 **Y Llywydd / The Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

We have had a speaker from each of the parties, with a lot of varied questions and very detailed responses from the Minister. So, may I just ask Members, because I do have a long list of speakers, to keep their contributions as concise as possible? I call Mick Antoniw.

Rydym wedi cael siaradwr o bob un o'r pleidiau, a llawer o gwestiynau amrywiol ac ymatebion manwl iawn gan y Gweinidog. Felly, a gaf fi ofyn i'r Aelodau, gan fod gennyf restr hir o siaradwyr, gadw eu cyfraniadau mor gryno ag y bo modd? Galwaf ar Mick Antoniw.

15:25 **Mick Antoniw** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Presiding Officer. Minister, I am fully in accord with the aspirations and intentions of the Bill, and I am very grateful for the opportunity that you have given over the past weeks to engage in the formulation of aspects of the Bill. At this stage, I would say that there are a number of aspects to it that, I think, are not strong enough and do not reflect what the Bill is about enough if we really want it to deliver what could be a piece of radical legislation.

Diolch, Lywydd. Weinidog, rwyf yn cydweld yn llawn â dyheadau a bwriadau'r Bil, ac rwyf yn ddiolchgar iawn am y cyfle yr ydych wedi'i roi yn ystod yr wythnosau diwethaf i gymryd rhan yn y gwaith o lunio agweddau ar y Bil. Ar hyn o bryd, byddwn yn dweud bod nifer o agweddau arno nad ydynt, yn fy marn i, yn ddigon cryf ac nad ydynt yn adlewyrchiad digon cryf o ddiben y Bil os oes arnom wir eisiau iddo gyflawni'r hyn a allai fod yn ddarn o ddeddfwriaeth radical.

I will focus on three points. The first is in terms of the principles that are outlined. We need to make these far more focused; for example, a prosperous Wales should, in my view, be a prosperous and socially just Wales. It should also include the issue of social justice. As you know, I have drafted proposals in respect of all of the principles, but I think that, as they stand, they are far too loose and woolly. However, I think that they can be made effective with some fine tuning.

Rwyf am ganolbwyntio ar dri phwynt. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r egwyddorion a amlinellir. Mae angen inni wneud y rhain yn llawer mwy penodol; er enghraifft, dylai Cymru ffyniannus, yn fy marn i, fod yn Gymru ffyniannus a chymdeithasol gyfiawn. Dylai hefyd gynnwys mater cyfiawnder cymdeithasol. Fel y gwyddoch, rwyf wedi drafftio cynigion ynglŷn â phob un o'r egwyddorion, ond rwyf yn meddwl, fel ag y maent, eu bod yn llawer rhy aneglur a llac. Fodd bynnag, rwyf yn meddwl y gellir eu gwneud yn effeithiol gydag ychydig o fireinio.

The other point is in respect of the drafting, particularly section 20(1) with regard to public bodies and their response to recommendations from the commissioner. Again, these are too weak. For example, section 20(1) notes that a public body must take all reasonable steps to follow the recommendations, but, according to section 20(1)(b), if it decides on an alternative course of action, of course, it can do so. We need to make sure that that is tightened up.

Mae'r pwynt arall yn ymwneud â'r drafftio, yn enwedig adran 20(1) ynglŷn â chyrrff cyhoeddus a'u hymateb i argymhellion gan y comisiynydd. Unwaith eto, mae'r rhain yn rhy wan. Er enghraifft, mae adran 20(1) yn nodi bod yn rhaid i gorff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol i ddilyn yr argymhellion, ond, yn ôl adran 20(1)(b), os yw'n penderfynu gweithredu mewn ffordd arall, wrth gwrs, caiff wneud hynny. Mae angen inni wneud yn siŵr bod hynny'n cael ei dynhau.

The other point that we need to tighten up very much is the actual powers of the commissioner, because I do not think that they are clear enough. We need to have some power of intervention among the commissioner's powers. Finally, I think that there is a point with regard to the advisory panel that needs to be far more focused.

Y pwynt arall y mae angen inni ei dynhau'n sylweddol iawn yw pwerau gwirioneddol y comisiynydd, oherwydd nid wyf yn credu eu bod yn ddigon clir. Mae arnom angen rhywfaint o bŵer ymyrryd ymysg pwerau'r comisiynydd. Yn olaf, rwyf yn credu bod pwynt ynglŷn â'r panel ymgynghorol y dylai fod â llawer mwy o bwyslais.

Those are some of my comments. I will, of course, be fully participating in the scrutiny process and will be engaging with you further on this. However, it seems to me that social justice is a key element. You cannot have sustainability and social justice as separate entities. If they are in the general content of the Bill, I see no reason why we should not be specific—put it there and put it right at the front of the legislation.

Dyna rai o fy sylwadau. Byddaf, wrth gwrs, yn cymryd rhan lawn yn y broses graffu ac yn ymgysylltu â chi ymhellach am hyn. Fodd bynnag, ymddengys i mi bod cyfiawnder cymdeithasol yn elfen allweddol. Ni all cynaliadwyedd a chyfiawnder cymdeithasol fodoli fel endidau ar wahân. Os ydynt yng nghynnwys cyffredinol y Bil, ni welaf unrhyw reswm pam na ddylem fod yn benodol—rhowch ef yno a rhowch ef ar flaen y ddeddfwriaeth.

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. In view of your plea, Presiding Officer, I will be brief. I think that you make a good point in terms of social justice. I happen to think that that is capable of being seen in a number of the goals, particularly in terms of a more equal Wales, but I am more than happy to have further discussions with you and other Members to see whether there is a need to strengthen that and how that may be done.

In terms of section 20, if you think that the requirements there in terms of responses by public bodies are too weak, again, I am sure that we will discuss that further during the scrutiny stage. I welcome those conversations and, of course, you and others are able to consider amendments if you wish.

We have discussed the powers of the commissioner at quite some length. We feel that we have struck the right balance. Much of that has been done in discussions with the current commissioner and his current advisory board. However, again, there may well be scope for review.

I take the same point of view in terms of the advisory panel: we think that we have the right balance in terms of its core membership. However, of course, it will be able to draw on other invitees, such as trade unions and representatives of employers. Again, I will be very happy to consider these matters further.

Diolch. O ystyried eich ple, Lywydd, byddaf yn fyr. Rwyf yn meddwl eich bod yn gwneud pwynt da ynglŷn â chyfiawnder cymdeithasol. Rwyf yn digwydd credu y gellir gweld hynny mewn nifer o'r nodau, yn enwedig o ran Cymru fwy cyfartal, ond rwyf yn fwy na bodlon i gael trafodaethau pellach gyda chi ac Aelodau eraill i weld a oes angen cryfhau hynny a sut y gellir gwneud hynny.

O ran adran 20, os ydych yn meddwl bod y gofynion yno o ran ymatebion gan gyrff cyhoeddus yn rhy wan, unwaith eto, rwyf yn siŵr y byddwn yn trafod hynny ymhellach yn ystod y cyfnod craffu. Rwyf yn croesawu'r sgysiaau hynny ac, wrth gwrs, gallwch chi ac eraill ystyried gwelliannau os dymunwch.

Rydym wedi cael trafodaeth eithaf hir am bwerau'r comisiynydd. Rydym yn teimlo ein bod wedi taro'r cydbwysedd cywir. Gwnaethpwyd llawer o hynny mewn trafodaethau gyda'r comisiynydd presennol a'i fwrdd cyngori presennol. Fodd bynnag, eto, mae'n bosibl iawn bod lle ar gyfer adolygiad.

Rwyf o'r un safbwynt o ran y panel ymgynghorol: rydym yn credu bod gennym y cydbwysedd cywir o ran ei aelodaeth graidd. Fodd bynnag, wrth gwrs, bydd yn gallu galw ar wahoddedigion eraill, megis undebau llafur a chynrychiolwyr cyflogwyr. Unwaith eto, byddaf yn hapus iawn i ystyried y materion hyn ymhellach.

Antoinette Sandbach [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Minister, I have real concerns about the framework nature of the Bill. This is the first Assembly to which full law-making power has been given, and it is deeply regrettable that Bills that are coming before the National Assembly for Wales are seeking to take scrutiny functions away from Assembly Members and to concentrate power in the hands of Welsh Ministers. I would like you to look at the Bill and check that that is not happening, and that the commissioner is accountable to the Assembly and not the Welsh Government—after all, sustainable development is the central organising principle of the National Assembly for Wales.

I think that the democratic deficit that was spoken about earlier by William Powell is an important point, because you will be, in effect, creating another quango, and you will be removing the decision-making process from the National Assembly for Wales. I think that, where you are talking about future generations, in those circumstances, any appointment made for a commissioner should be made by the National Assembly rather than the Welsh Government. I look forward to taking up your offer to meet Ministers so that I can raise my concerns about the way in which the Bill is drafted. A badly drafted Bill, which concentrates powers in the hands of Ministers, which then removes scrutiny from this place, will not serve the future generations of Wales.

Weinidog, mae gennyf bryderon gwirioneddol am natur fframwaith y Bil. Hwn yw'r Cynulliad cyntaf i gael pŵer deddfu llawn, ac mae'n anffodus iawn bod Biliau sy'n dod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ceisio cymryd swyddogaethau craffu oddi ar Aelodau'r Cynulliad a chrynodi pŵer yn nwylo Gweinidogion Cymru. Hoffwn ichi edrych ar y Bil a gwirio nad yw hynny'n digwydd, a bod y comisiynydd yn atebol i'r Cynulliad ac nid i Lywodraeth Cymru—wedi'r cyfan, datblygu cynaliadwy yw prif egwyddor drefniadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Rwyf yn meddwl bod y diffyg democrataidd y soniodd William Powell amdano'n gynharach yn bwynt pwysig, oherwydd byddwch, i bob pwrpas, yn creu cwango arall, a byddwch yn cymryd y broses o wneud penderfyniadau oddi ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Credaf, pan eich bod yn sôn am genedlaethau'r dyfodol, dan yr amgylchiadau hynny, mai'r Cynulliad Cenedlaethol ddylai benodi unrhyw gomisiynydd yn hytrach na Llywodraeth Cymru. Rwyf yn edrych ymlaen at dderbyn eich cynnig i gwrdd â Gweinidogion fel y gallaf fynegi fy mhryderon ynghylch y ffordd y mae'r Bil wedi ei ddrafftio. Ni fydd Bil wedi'i ddrafftio'n wael, sy'n crynodi pwerau yn nwylo Gweinidogion, sydd yna'n cael gwared ar graffu o'r lle hwn, yn gwasanaethu cenedlaethau Cymru yn y dyfodol.

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member for those comments. I have to say that I do not agree with her. As far as the commissioner being accountable to Ministers, that is the case with all of the other commissioners apart from the commissioner for standards, for very clear reasons, and I am not aware of any serious allegations that those commissioners are in any way lacking in independence from the Welsh Government. We anticipate that that will continue. I do not understand the issue of taking scrutiny away from Assembly Members. Certainly, in terms of the scrutiny of this Bill, I expect that to be robust and rigorous, and, again, as with everybody else, you are quite entitled to propose amendments if you feel that the Bill is inadequate in any way.

Diolch i'r Aelod am y sylwadau yna. Mae'n rhaid imi ddweud nad wyf yn cytuno â hi. O ran bod y comisiynydd yn atebol i Weinidogion, felly y mae hi gyda phob un o'r comisiynwyr eraill heblaw am y comisiynydd safonau, am resymau clir iawn, ac nid wyf yn ymwybodol o unrhyw honiadau difrifol bod y comisiynwyr hynny mewn unrhyw ffordd yn brin o annibyniaeth ar Lywodraeth Cymru. Rydym yn rhagweld y bydd hynny'n parhau. Nid wyf yn deall y mater o gymryd craffu oddi ar Aelodau'r Cynulliad. Yn sicr, o ran craffu ar y Bil hwn, rwyf yn disgwyl y bydd hynny'n gadarn a thrwyadl, ac, unwaith eto, fel gyda phawb arall, mae gennych berffaith hawl i gynnig gwelliannau os teimlwch fod y Bil yn annigonol mewn unrhyw ffordd.

Alun Ffred Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Er nad wyf yn siarad heddiw fel Cadeirydd y pwyllgor a fydd, maes o law, yn ystyried y Bil hwn, rwy'n ymwybodol bod angen inni roi ystyriaeth deg a chytbwys i'r cynnwys, felly rwyf am fod yn ofalus wrth wneud fy sylwadau heddiw. Ni all neb anghytuno â'r amcanion na'r weledigaeth sy'n cael eu cyfleu yn y Bil hwn. Rwy'n croesawu'r ffaith bod amgylchedd cynaliadwy a ffyniant y Gymraeg wedi'u cynnwys ymhlith yr amcanion, ond y cwestiwn y bydd yn rhaid inni i gyd ei ystyried maes o law yw: i ba raddau y bydd y Bil hwn yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion hynny? Beth yn union bydd y Bil hwn yn ei wneud? Dau beth amlwg fydd creu'r byrddau cyflawni lleol fel cyrff statudol, ac, yn ail, creu comisiynydd i oruchwylio amcanion y Bil. O ystyried y byrddau cyflawni lleol i ddechrau, mae'r rhain wedi bod mewn bodolaeth am flynyddoedd, gyda chanlyniadau cymysg iawn. O ystyried y sefyllfa ariannol a chyllidol yr ydym yn byw ynddi, mae rhywun yn ofni braid beth fydd y cyrff cyhoeddus hyn, sy'n cael eu cynnwys ar y byrddau hyn, yn gallu ei flaenoriaethu.

Although I am not contributing today as the Chair of the committee that will, in due time, consider this Bill, I am aware that we need to give a balanced and fair consideration of the content, so I will be guarded in my comments today. Nobody can disagree with the objectives or the vision contained within this Bill. I welcome the fact that a sustainable environment and the prosperity of the Welsh language is included among the objectives, but the question that we must all consider in due time is: to what extent will this Bill contribute to delivering and achieving those objectives? What exactly will this Bill do? There are two obvious things, namely the creation of the local delivery boards as statutory bodies, and, secondly, the creation of the role of the commissioner to oversee the objectives contained within the Bill. Considering the local delivery boards first of all, these have been in existence for a number of years, with mixed results. Given the financial climate that we are currently in, one is a little concerned as to what these public bodies represented on these boards will be able to prioritise.

Roeddwn yn digwydd bod mewn trafodaeth y bore yma, er enghraifft, ac fe soniwyd am gyngor—un o gynghorau'r de, fel mae'n digwydd; un o gynghorau'r Cymoedd—sy'n wynebu toriadau sylweddol. Mae'n edrych, ymhlith ei arbedion, i gau chwech o lawntiau bowlio. Enghraifft fach iawn yw honno—mae'n weithgaredd sy'n rhoi ymarfer i bobl o bob oed; mae deilliannau iechyd amlwg i'r rhai sydd wedi ymddeol, er enghraifft; mae'n fan gwyd i gymdeithasu; ac mae'n adnodd cymdeithasol. Dyna'r union fath o weithgaredd y byddech yn tybio y byddech eisiau gweld yn digwydd, ac eto, y realiti ar y llawr yw y bydd yn rhaid i'r cynghorau sir edrych am doriadau yn yr union leoedd y mae'r Bil hwn eisiau gweld ffyniant a datblygiad ynddynt. Dyna'r math o ystyriaethau ymarferol, rwy'n credu, y bydd yn rhaid i ni eu hystyried.

I happened to be involved in a debate this morning, for example, and a council was mentioned—one of the south Wales councils, as it happens; a Valleys council—that is facing significant cuts. It is seeking, within its savings, to close six bowling greens. That is a very minor example—it is an activity that provides physical exercise to people of all ages; there are obvious health outcomes and benefits for those who are retired, for example; it is an excellent place to socialise; and it is a social facility. That is exactly the kind of activity you would assume that you would want to see happening, and yet, the reality on the ground is that many councils will have to seek cuts in the very areas where this Bill wants to see prosperity and development. Those are the kinds of practical considerations, I believe, that we will have to grapple with.

O ran y comisiynydd, mae'n rhaid i mi gyfaddef bod rhywun yn rhannu'r ofnau y mae Russell George wedi'u mynegi, pan ddywedodd ein bod ni'n edrych, efallai, i greu comisiynydd bob tro y mae'r Llywodraeth eisiau dangos ei bod o ddifrif ynglŷn â rhyw faes arbennig. Rhaid i gomisiynydd gael swyddogaeth benodol, a rhaid i'r comisiynydd gael adnoddau i gyflawni amcanion y Bil. Dyna'r cwestiwn mae'n debyg o ran y comisiynydd hwn: beth yn union fydd y pwerau a fydd ganddo ef neu hi i gyflawni'r amcanion er mwyn i'r Llywodraeth gael y maen i'r wal? Fodd bynnag, rwy'n edrych ymlaen at ystyried y Bil yn ei fanylder yn ystod y misoedd i ddod.

In terms of the commissioner, I have to admit that one shares the fears expressed by Russell George, when he said that we, perhaps, look to create a commissioner every time the Government wants to show that it is serious about a given area. A commissioner must have a clear function, and the commissioner must also have the resources to deliver the objectives of the Bill. That is the question from the point of view of this commissioner: what exactly will the powers of that individual be in order to deliver the objectives so that the Government can deliver on its vision? However, I look forward to considering the Bill in detail in coming months.

Thank you very much, Alun Ffred. I welcome your general support. You are quite right that this Bill will place sustainable development on a legal basis, a statutory basis, which means, as I have said in response to earlier questions, that all the named public bodies will have to show how they are working towards the achievement of the goals. You are right; local service boards, which, currently, are not there on a statutory basis, have been around for some time, and it is a mixed picture. I think that I can accept that. The new public service boards, however, will be there on a statutory basis. They will have to work closely with the commissioner and receive advice and act upon advice from the commissioner. Of course, their work will be audited as, indeed, will the work of all the members of those public service boards be audited by the auditor general in terms of how well they are working towards the sustainable development principles. You raise the issue of bowling greens. Of course, I accept that all of this is being done at a time of austerity and there is no real sign for the next few years that that will change, and money will be very tight. Therefore, it is all the more important that there is this culture change and that greater collaboration takes place so that resources are used in a planned way to the very best effect, with all public bodies working together.

The issue of bowling greens is a good example of this. They can be a valuable recreational resource and any public body in the future, once the enactment of this Bill takes place, will have to show that they have considered the long-term implications for people and communities of any decision to remove bowling greens and replace them with some other form of capital item, perhaps. So, it is actually a good example of how this Bill could really make a step change in terms of the way things are thought through in the future.

Now we are not going to create a commissioner every time that an issue arises. I know that your colleague Lindsay Whittle suggested that we should have a commissioner for disabled people as well, even though I know that there is no call for that from the major disability groups. However, that is not the case. This commissioner will have a very clear function, as described in the Bill. I am sure it will be the subject of more discussion to come.

Diolch yn fawr iawn, Alun Ffred. Rwyf yn croesawu eich cefnogaeth gyffredinol. Rydych yn llygad eich lle y bydd y Bil hwn yn rhoi sail gyfreithiol, sail statudol, i ddatblygu cynaliadwy, sy'n golygu, fel yr wyf wedi'i ddweud wrth ymateb i gwestiynau cynharach, y bydd yr holl gyrrff cyhoeddus a enwir yn gorfod dangos sut y maent yn gweithio tuag at gyflawni'r nodau. Rydych yn iawn; mae byrddau gwasanaethau lleol, nad ydynt, ar hyn o bryd, yn statudol, wedi bod o gwmpas ers peth amser, ac mae'n ddarlun cymysg. Rwyf yn meddwl y gallaf dderbyn hynny. Bydd y byrddau gwasanaethau cyhoeddus newydd, fodd bynnag, yn statudol. Bydd yn rhaid iddynt gydweithio'n agos â'r comisiynydd a chael cyngor gan y comisiynydd a gweithredu ar y cyngor hwnnw. Wrth gwrs, caiff eu gwaith ei archwilio fel, yn wir, y caiff gwaith holl aelodau'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus hynny ei archwilio gan yr archwilydd cyffredinol o ran pa mor dda y maent yn gweithio tuag at yr egwyddorion datblygu cynaliadwy. Rydych yn sôn am lawntiau bowlio. Wrth gwrs, rwyf yn derbyn bod hyn i gyd yn cael ei wneud ar adeg o galedi ac nad oes unrhyw arwydd gwirioneddol y bydd hynny'n newid yn yr ychydig flynyddoedd nesaf, a bydd arian yn dynn iawn. Felly, mae'n bwysicach fyth bod y newid diwylliannol hwn yn digwydd a bod mwy o gydweithio'n digwydd er mwyn defnyddio adnoddau mewn ffordd sydd wedi'i chynllunio i gael yr effaith orau posib, gyda phob corff cyhoeddus yn cydweithio.

Mae'r mater lawntiau bowlio yn enghraifft dda o hyn. Gallant fod yn adnodd hamdden gwerthfawr a bydd yn rhaid i unrhyw gorff cyhoeddus yn y dyfodol, ar ôl i'r Bil hwn gael ei ddeddfu, ddangos ei fod wedi ystyried y goblygiadau hirdymor i bobl a chymunedau o ganlyniad i unrhyw benderfyniad i gael gwared ar lawntiau bowlio a rhoi rhyw fath arall o eitem cyfalaf yn eu lle, efallai. Felly, mae'n enghraifft dda iawn o sut y gallai'r Bil hwn greu newid sylweddol o ran sut y byddwn yn meddwl am bethau yn y dyfodol.

Nawr, nid ydym yn mynd i greu comisiynydd bob tro y mae mater yn codi. Gwn fod eich cydweithiwr Lindsay Whittle wedi awgrymu y dylem gael comisiynydd pobl anabl hefyd, er fy mod yn gwybod nad oes galw am hynny gan y prif grwpiau anabled. Fodd bynnag, nid yw hynny'n digwydd. Bydd gan y comisiynydd hwn swyddogaeth glir iawn, fel y'i disgrifir yn y Bil. Rwyf yn siŵr y bydd yn destun mwy o drafodaethau i ddod.

Jenny Rathbone [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I suppose that one of the things that I am puzzled about is how different the Commissioner for Sustainable Futures is to the future generations' commissioner for Wales and perhaps you would like to clarify that. On Friday, I met eight or nine members of the Cardiff community resource team. Its remit is to keep elderly people out of hospital and keep them safe and well cared for where they reside, or, if they are have to go into hospital, it is about enabling them to leave hospital safely, as soon as they are medically fit to do so. It consists of doctors, nurses, physiotherapists, social workers and third sector bodies. The biggest problem that they face is the data-sharing barriers that exist, I think, as much in people's heads as they do in practice. It has to be about trying to stop the wasting of hours of people's time retrieving the information that they need in order to provide the services that that individual needs to have. So, I want to know whether this future generations Bill is going to tackle this, because the obstacles are as much about attitudes as they are about appropriate IT systems. I wonder whether you can be clear with us on that and whether we are, in fact, reducing bureaucracy and strengthening the communications between different bodies who are endeavouring to look after individuals, whether elderly people or children. Are we going to see with this Bill efforts so that we can ensure that people who work for public bodies—they may get their pay cheque from different bodies, but they are all trying to work for the individual—can share data? Could you clarify that?

Mae'n debyg mai un o'r pethau nad wyf yn eu deall yw pa mor wahanol yw'r Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy i gomisiynydd cenedlaethau'r dyfodol Cymru ac efallai yr hoffech egluro hynny. Ddydd Gwener, cyfarfûm ag wyth neu naw aelod o dîm adnoddau cymunedol Caerdydd. Ei gylch gwaith yw cadw pobl hŷn allan o'r ysbyty a'u cadw'n ddiogel ac yn derbyn gofal da lle maent yn byw, neu, os oes rhaid iddynt fynd i'r ysbyty, y flaenoriaeth yw eu galluogi i adael yr ysbyty'n ddiogel, cyn gynted ag y maent yn iach yn feddygol i wneud hynny. Mae'r tîm yn cynnwys meddygon, niysys, ffisiotherapyddion, gweithwyr cymdeithasol a chyrrff y trydydd sector. Y broblem fwyaf sy'n eu hwynebu yw'r rhwystrau rhannu data sy'n bodoli, yn fy marn i, ym mhennau pobl gymaint ag y maent yn bodoli mewn gwirionedd. Mae'n rhaid i hyn fod yn fater o geisio atal gwastraffu oriau o amser pobl yn cael gafael ar wybodaeth sydd ei hangen arnynt er mwyn darparu'r gwasanaethau sydd eu hangen ar yr unigolyn dan sylw. Felly, hoffwn wybod a yw'r Bil cenedlaethau'r dyfodol hwn yn mynd i ymdrin â hyn, gan fod y rhwystrau'n ymwneud ag agweddau lawn gymaint ag y maent yn ymwneud â systemau TG priodol. Tybed a allwch chi fod yn glir gyda ni am hynny ac ynglŷn ag a ydym, mewn gwirionedd, yn lleihau biwrocratiaeth ac yn cryfhau'r cyfathrebu rhwng gwahanol gyrff sy'n ymdrechu i edrych ar ôl unigolion, boed hwy'n bobl oeddrannus neu'n blant. A ydym ni'n mynd i weld ymdrechion gyda'r Bil hwn fel y gallwn sicrhau bod pobl sy'n gweithio i gyrff cyhoeddus—efallai eu bod yn cael eu sicrhau gan gyrff gwahanol, ond maent i gyd yn ceisio gweithio dros yr unigolyn—yn cael rhannu data? A allech chi egluro hynny?

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Member very much. I would envisage third sector bodies as being invitees to the public service boards, because many of the services—you have articulated the very important one about working with older people to keep them safe and improve their wellbeing—will perform important health functions and so it is very important that they are part of that planning process. In terms of data sharing, this Bill will not repeal the Data Protection Act 1998, but what I would expect to see is a far greater sharing of information across those members of the public service boards in order to ensure that the very best service for people was delivered and, indeed, this, together with the Williams commission work, is very much what we are talking about: changing the culture and a person-centred approach. The first point you made was about what the difference is between the current commissioner, who is on a voluntary non-statutory basis, and the new commissioner, who will be on a statutory basis. Essentially, without taking up too much time, all I will say is that this commissioner will have far greater powers, and this will become clear as the Bill develops.

Diolch yn fawr iawn i'r Aelod. Byddwn yn gweld cyrrff y trydydd sector fel gwahoddedigion i'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus, gan fod llawer o'r gwasanaethau—rydych wedi sôn am yr un pwysig iawn sy'n gweithio gyda phobl hŷn i'w cadw'n ddiogel a gwella eu lles—yn perfformio swyddogaethau iechyd pwysig a'i bod felly'n bwysig iawn eu bod yn rhan o'r broses gynllunio honno. O ran rhannu data, ni fydd y Bil hwn yn diddymu Deddf Diogelu Data 1998, ond yr hyn y byddwn yn disgwyl ei weld yw llawer mwy o rannu gwybodaeth rhwng yr aelodau hynny o'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth gorau posibl yn cael ei ddarparu ar gyfer pobl ac, yn wir, dyma, ynghyd â gwaith comisiwn Williams, yw'r union beth yr ydym yn sôn amdano: newid y diwylliant ac ymagwedd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Y pwynt cyntaf a wnaethoch oedd beth yw'r gwahaniaeth rhwng y comisiynydd presennol, sydd ar sail wirfoddol anstatudol, a'r comisiynydd newydd, a fydd yn statudol. Yn y bôn, heb gymryd gormod o amser, y cyfan a ddywedaf yw y bydd gan y comisiynydd hwn lawer mwy o bwerau, ac y daw hyn yn glir wrth i'r Bil ddatblygu.

15:40

Julie Morgan [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I welcome the Minister's statement and the introduction of this Bill. I think that it is very important and very ambitious. The test will be how it translates into action. I have raised with the Minister before the importance of looking at this Bill and at Wales in an international context to emphasise that our wellbeing is caught up with the wellbeing of other people all over the world. I know that Wales has a good record on fair trade, for example. Is there anything that can be done through this Bill to make our record even better, because, obviously, fair trade has a big impact on climate change, and climate change has been raised as one of the important issues that people think should be addressed in this Bill? I will never forget going to Bangladesh with one of my constituents from Cardiff North, visiting his home area, and seeing the water coming up under our feet as a result of climate change. I wonder whether any of that could be addressed in this Bill.

Rwyf yn croesawu datganiad y Gweinidog a chyflwyno'r Bil hwn. Rwyf yn meddwl ei fod yn bwysig iawn ac yn uchelgeisiol iawn. Y prawf fydd sut y caiff ei droi'n gamau gweithredu. Rwyf wedi sôn wrth y Gweinidog cyn hyn am ba mor bwysig yw edrych ar y Bil hwn ac ar Gymru mewn cyd-destun rhyngwladol i bwysleisio bod ein lles yn cael ei ystyried yng nghyd-destun lles pobl eraill ledled y byd. Gwn fod gan Gymru hanes da o ran masnach deg, er enghraifft. A oes unrhyw beth y gellir ei wneud drwy'r Bil hwn i wneud ein hanes yn well fyth, oherwydd, yn amlwg, mae masnach deg yn cael effaith fawr ar newid yn yr hinsawdd, ac mae newid yn yr hinsawdd wedi cael ei grybwyll fel un o'r materion pwysig y mae pobl yn credu y dylid rhoi sylw iddynt yn y Bil hwn? Ni wnaif fyth anghofio mynd i Ffngladesh gydag un o fy etholwyr o Ogledd Caerdydd, i ymweld ag ardal ei gartref, a gweld y dŵr yn codi o dan ein traed o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd. Tybed a allai'r Bil hwn roi sylw i unrhyw beth felly.

Yesterday, I met a school council in my constituency of Cardiff North, and I was talking to the children about what matters most to them for their wellbeing. The first thing that mattered, they said, was having friends, and the second was being treated fairly. How will we promote those ambitions into actions through this legislation? I also look forward to studying the Bill further.

Ddoe, cyfarfûm â chyngor ysgol yn fy etholaeth i, sef Gogledd Caerdydd, ac roeddwn yn siarad â'r plant am yr hyn sydd bwysicaf iddynt ar gyfer eu lles. Y peth pwysicaf, meddent, oedd cael ffrindiau, a'r ail oedd cael eu trin yn deg. Sut y gwnawn ni droi'r uchelgeisiau hynny'n gamau gweithredu drwy'r ddeddfwriaeth hon? Rwyf innau hefyd yn edrych ymlaen at astudio'r Bil ymhellach.

15:41

Jeff Cuthbert [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you very much. Those are important points. Certainly, wellbeing is an international issue, and that is why we are keen to engage with the UN, particularly through UNESCO—I have already talked about Peter Davies's visit to New York—and through the EU on this. Climate change, undoubtedly, is a critical issue, especially for younger people, as is the issue of being treated fairly, and I think that is very much at the heart of the goal of a more equal Wales: a society that enables people to fulfil their potential no matter what their background or circumstances are, and I think that is all about fairness.

Diolch yn fawr. Mae'r rheini'n bwyntiau pwysig. Yn sicr, mae lles yn fater rhyngwladol, a dyna pam yr ydym yn awyddus i ymgysylltu â'r Cenhedloedd Unedig, yn enwedig drwy UNESCO—rwyf eisoes wedi sôn am ymweliad Peter Davies ag Efrog Newydd—a thrwy'r UE ar hyn. Mae newid yn yr hinsawdd, yn ddiau, yn fater hollbwysig, yn enwedig i bobl iau, fel y mae cael eu trin yn deg, a chredaf fod hynny'n bendant wrth wraidd y nod o greu Cymru fwy cyfartal: cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir na'u hamgylchiadau, a chredaf fod hynny i gyd yn ymwneud â thegwch.

Again on the issue of fairness, or fair trade, you have raised that issue with me before. I understand your keen support for it, and I am sure that that is shared by many Members. We cannot put that on the face of the Bill, but I see no reason why, in terms of procurement or related issues, it cannot be referred to as good practice in guidance.

Unwaith eto ynglŷn â thegwch, neu fasnach deg, rydych wedi codi'r mater hwn gyda mi o'r blaen. Rwyf yn deall eich cefnogaeth frwd iddo, ac rwyf yn siŵr bod llawer o Aelodau'n rhannu hynny. Ni allwn roi hynny ar wyneb y Bil, ond ni welaf unrhyw reswm pam, o ran caffael neu faterion cysylltiedig, na ellir cyfeirio ato fel arfer da yn y canllawiau.

15:43

Datganiad: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad Comisiwn Williams

Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the First Minister.

Statement: The Welsh Government's Response to the Williams Commission Report

Galwaf ar y Prif Weinidog.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Last week, I announced our response to the commission on devolution in Wales as the first in our series of reform proposals for public services. We have already proved that devolution in Wales works, but, as I set out last week, we need a stronger, more stable devolution settlement to enable us to deliver the best services for people in Wales.

Yesterday, we announced the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, which, indeed, has been mentioned in the Chamber just now, and, as we have already mentioned, the Bill will help to tackle the generational challenges that Wales faces in a more joined-up and integrated way by ensuring specified public services work together to achieve the wellbeing goals that are established in the Bill.

This provides the context for today's statements and the publication of 'Devolution, Democracy and Delivery'—nothing if not alliteration. 'Devolution, Democracy and Delivery: Improving public services for people in Wales' sets out our strategic reform agenda for public services, and represents our response to the report of the Commission on Public Service Governance and Delivery led by Sir Paul Williams.

We are committed to public services and we value our public service workforce. However, we are facing unprecedented challenges in terms of increasing demand and reducing finances. There is no need to rehearse those statistics again here other than to say that they mean that the status quo is not an option. I was encouraged by the widespread recognition of this in the Chamber last week. We have the opportunity to act now, together, to build a public service in Wales that can meet the challenges ahead. That is why I made a commitment in the programme for government to establish the commission and I have welcomed its report. It is worth recalling how widely the commission engaged and the breadth of the evidence it collected. The commission conducted many oral evidence sessions and received written evidence from virtually every part of the public service in Wales. The commission's report, informed by this evidence, was serious, authoritative and objective.

The commission recognised that there are areas, such as fire and rescue or waste management, where the performance of public services is good. However, there is too much variation in performance, not enough engagement and involvement with people and communities on the services they rely upon and not enough sharing and learning from best practice.

Yr wythnos diwethaf, cyhoeddais ein hymateb i'r comisiwn ar ddatganoli yng Nghymru fel y cyntaf yn ein cyfres o gynigion ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus. Rydym eisoes wedi profi bod datganoli yng Nghymru yn gweithio, ond, fel y nodais yr wythnos diwethaf, mae arnom angen setliad datganoli cryfach, mwy sefydlog er mwyn ein galluogi i ddarparu'r gwasanaethau gorau i bobl Cymru.

Ddoe, cyhoeddwyd Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), sydd, yn wir, newydd gael ei grybwyll yn y Siambr, ac, fel yr ydym eisoes wedi sôn, bydd y Bil yn helpu i fynd i'r afael mewn ffordd fwy cydgysylltiedig ac integredig â'r heriau cenedliadol sy'n wynebu Cymru, drwy sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus penodol yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni'r amcanion lles a sefydlir yn y Bil.

Mae hyn yn darparu cyd-destun ar gyfer datganiadau heddiw a chyhoeddi 'Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni'—cyflythrennu yn sicr. Mae 'Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Gwella gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pobl Cymru' yn gosod ein hagenda strategol ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus, a hwn yw ein hymateb i adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus o dan arweiniad Syr Paul Williams.

Rydym wedi ymrwmo i wasanaethau cyhoeddus ac rydym yn gwerthfawrogi ein gweithlu yn y gwasanaethau cyhoeddus. Fodd bynnag, rydym yn wynebu heriau digynsail o ran cynnydd yn y galw a gostyngiad yn y cyllid. Nid oes angen mynd dros yr ystadegau hynny eto yma heblaw i ddweud eu bod yn golygu nad yw'r status quo yn opsiwn. Cefais fy nghalonogi bod hyn yn cael ei gydnabod yn eang yn y Siambr yr wythnos diwethaf. Mae gennym y cyfle i weithredu yn awr, gyda'n gilydd, i ddatblygu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru sy'n gallu ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau. Dyna pam y gwneuthum ymrwymiad yn y rhaglen lywodraethu i sefydlu'r comisiwn ac rwyf wedi croesawu ei adroddiad. Mae'n werth cofio pa mor eang y gwnaeth y comisiwn ymgysylltu a pha mor eang oedd y dystiolaeth a gasglwyd. Cynhaliodd y comisiwn nifer o sesiynau tystiolaeth lafar a derbyniodd dystiolaeth ysgrifenedig gan bron pob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru. Roedd adroddiad y comisiwn, wedi'i lywio gan y dystiolaeth hon, yn ddifrifol, yn awdurdodol ac yn wrthrychol.

Roedd y comisiwn yn cydnabod bod meysydd, megis tân ac achub neu reoli gwastraff, lle mae gwasanaethau cyhoeddus yn gwneud yn dda. Fodd bynnag, mae perfformiad yn amrywio gormod, nid oes digon o ymgysylltu ac ymwneud â phobl a chymunedau ynglŷn â'r gwasanaethau y maent yn dibynnu arnynt, a dim digon o rannu a dysgu arfer gorau.

The agenda published today describes our ambition for public services in Wales. Public services matter to everyone; we all rely on them in our moments of need and, every day, they help to save lives and change lives for the better. They support not just our wellbeing now, but that of future generations.

The commission made 62 recommendations, only four of which relate to structural change in local government. The case the commission makes for this is compelling and it must be understood in the context of its wider analysis of the whole of the public service in Wales. Public services have to work together and the commission highlights how too much time is spent managing the complexity of dealing with 22 local authorities. Other stakeholders, such as the business community, have also reinforced this.

Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:46.

Carwyn Jones [Bywgraffiad Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

The commission also makes the point that some local authorities are too small to get the critical mass needed to provide the sort of effective community leadership and service performance that people expect and deserve. It is in this context that we should be talking about reform, which includes mergers. Local authority mergers will protect and improve local services. They will help to improve the capacity of organisations to respond to the growing challenges they face. There have been too many interventions in recent years, where we have had to step in and take firm action in order to safeguard public services, particularly in some smaller local authorities. This cannot continue.

The commission's report presented a number of options in terms of a map of merged authorities, but made it clear that the decision was for the Welsh Government. I currently believe that the first model described by the commission, which suggests 12 local authorities, provides a coherent overall approach and strikes a balance between building organisational capacity and ensuring local democratic responsiveness. We, as a Government, will remain open to receiving alternative, worked-up proposals for mergers. However, it is my view that the commission made a convincing argument that the boundaries of merged local authorities should align with health board and police force boundaries in order to best support collaborative service delivery on that basis. There would have to be exceptional circumstances in order to move away from this principle.

Mae'r agenda a gyhoeddwyd heddiw yn disgrifio ein huchelgais ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Mae gwasanaethau cyhoeddus o bwys i bawb; rydym i gyd yn dibynnu arnynt pan fyddwn mewn angen a, phob dydd, maent yn helpu i achub bywydau a newid bywydau er gwell. Maent yn cefnogi ein lles yn awr, a lles cenedlaethau'r dyfodol hefyd.

Gwnaeth y comisiwn 62 o argymhellion, a dim ond pedwar ohonynt sy'n ymwneud â newid strwythurol mewn llywodraeth leol. Mae'r achos y mae'r comisiwn yn ei gyflwyno o blaid hyn yn un grymus a rhaid ei ddeall yng nghyd-destun ei ddadansoddiad ehangach o'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn eu cyfanrwydd. Rhaid i wasanaethau cyhoeddus weithio gyda'i gilydd ac mae'r comisiwn yn dangos sut y mae gormod o amser yn cael ei dreulio'n rheoli'r cymhlethdod o ddelio â 22 o awdurdodau lleol. Mae rhanddeiliaid eraill, megis y gymuned fusnes, hefyd wedi ategu hyn.

The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:46.

Mae'r comisiwn hefyd yn gwneud y pwynt bod rhai awdurdodau lleol yn rhy fach i gael y màs critigol sydd ei angen i ddarparu'r math o arweinyddiaeth gymunedol effeithiol a pherfformiad gwasanaeth y mae pobl yn ei ddisgwyl ac yn ei haeddu. Dylem fod yn siarad am ddiwygio, gan gynnwys uno awdurdodau, yn y cyd-destun hwn. Trwy uno awdurdodau lleol, byddwn yn diogelu ac yn gwella gwasanaethau lleol. Bydd yn helpu i wella gallu sefydliadau i ymateb i'r heriau cynyddol y maent yn eu hwynebu. Bu gormod o ymyriadau yn y blynyddoedd diwethaf, lle'r ydym wedi gorfod camu i mewn a chymryd camau cadarn er mwyn diogelu gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig mewn rhai awdurdodau lleol llai. Ni all hyn barhau.

Cyflwynodd adroddiad y comisiwn nifer o opsiynau o ran map o awdurdodau unedig, ond fe'i gwnaeth yn glir bod y penderfyniad yn fater i Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd rwy'n credu bod y model cyntaf a ddisgrifwyd gan y comisiwn, sy'n awgrymu 12 o awdurdodau lleol, yn darparu patrwm cyffredinol cydlynol ac yn taro cydbwysedd rhwng meithrin gallu sefydliadol a sicrhau ymatebolrwydd democrataidd lleol. Byddwn ni, fel Llywodraeth, yn parhau i fod yn barod i dderbyn cynigion amgen, datblygedig ar gyfer uno. Fodd bynnag, fy marn i yw bod y comisiwn wedi cyflwyno dadl argyhoeddiadol y dylai ffiniau awdurdodau lleol unedig gyd-fynd â ffiniau byrddau iechyd a heddluoedd er mwyn cynorthwyo i ddarparu gwasanaethau ar y cyd yn y ffordd orau ar y sail honno. Byddai'n rhaid cael amgylchiadau eithriadol er mwyn symud oddi wrth yr egwyddor hon.

I would like to emphasise that we are not solely focused on merging local authorities. The Minister for Local Government and Government Business will be saying more later this afternoon about our ambitions for reforming local government more widely as we look to strengthen and improve local democracy and delivery. Our plans are not just about local government. The commission was about improving all public services for our citizens. Therefore, we have set out a wide-ranging, ambitious programme of reform that encompasses the whole public sector including health, education, social services, fire, national parks and Academi Wales. It describes wholesale integrated change so that we work and act as one public service, including proposals for developing shared services and improving digital services. We have set out our desire to develop stronger leadership in local services, to reduce complexity, to strengthen performance management, to encourage innovation and to raise ambition across all public service organisations.

Public services need to reflect a new relationship between people who deliver the services and the people benefiting from them. People should be involved in the design and delivery of services, so that services are delivered not to people, but with them. These measures are all part of the Welsh Government's commitment to delivering for Wales, and protecting and improving our public services to ensure that they are sustainable and fit for the future. I invite the Assembly to support them.

Hoffwn bwysleisio nad ydym yn canolbwyntio'n llwyr ar uno awdurdodau lleol. Bydd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth yn dweud mwy yn ddiweddarach y prynhawn yma am ein huchelgeisiau ar gyfer diwygio llywodraeth leol yn fwy eang wrth inni geisio cryfhau a gwella democratiaeth a darpariaeth leol. Nid yw ein cynlluniau'n ymwneud â llywodraeth leol yn unig. Roedd y Comisiwn yn ymwneud â gwella'r holl wasanaethau cyhoeddus ar gyfer ein dinasyddion. Felly, rydym wedi nodi rhaglen ddiwygio uchelgeisiol ac eang sy'n cynnwys y sector cyhoeddus cyfan, gan gynnwys iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, tân, parciau cenedlaethol ac Academi Cymru. Mae'n disgrifio newid integredig ar raddfa eang fel ein bod yn gweithio ac yn gweithredu fel un gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys cynigion ar gyfer rhannu gwasanaethau a gwella gwasanaethau digidol. Rydym wedi nodi ein dymuniad i ddatblygu arweinyddiaeth gryfach mewn gwasanaethau lleol, lleihau cymhlethdod, cryfhau trefniadau rheoli perfformiad, annog arloesedd a chodi uchelgais ar draws yr holl sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus.

Mae angen i wasanaethau cyhoeddus adlewyrchu perthynas newydd rhwng y bobl sy'n cyflwyno'r gwasanaethau a'r bobl sy'n elwa oddi wrthynt. Dylai pobl fod yn rhan o gynllunio a chyflwyno gwasanaethau, fel bod gwasanaethau'n cael eu cyflwyno gyda phobl, ac nid iddynt. Mae'r mesurau hyn i gyd yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyflawni dros Gymru, ac i ddiogelu a gwella ein gwasanaethau cyhoeddus er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy ac yn addas ar gyfer y dyfodol. Rwy'n gwahodd y Cynulliad i'w cefnogi.

15:49

Andrew R.T. Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First Minister, thank you for your statement this afternoon—one of many that we have had over the last couple of months in relation to the Williams commission report that was presented to you, I believe, back in January. It is correct and true to say that service delivery and the construction of public services cannot stand still. Given society's changing needs and demands, the models of delivery will have to change according to the demands placed upon them. Only this morning, on the way in, I heard about the problems relating to dementia and the demands on dementia provision in the health service going forward, with the ever-increasing number of people receiving such a diagnosis. That has massive implications for social care, as we all understand. Given the timetable that the First Minister outlined when Williams was first presented to him about having a clear road map back in April—I think it was at Easter—we do not seem to have that road map coming from the Welsh Government. I can understand that the localised difficulties within the Labour Party are preventing the First Minister from offering that to the Chamber, particularly as the Labour leader in the Vale of Glamorgan Council. I see that the Member is in her place there, and the Member for the Vale of Glamorgan will know that I listen avidly to the comments of Neil Moore, and the vision that he has for the Vale of Glamorgan when he says

'This is not the time for a wholesale slaughter of local government, either voluntary or otherwise.'

Brif Weinidog, diolch ichi am eich datganiad brynhawn heddiw—un o lawer yr ydym wedi'u cael dros y misoedd diwethaf mewn cysylltiad ag adroddiad comisiwn Williams a gyflwynwyd i chi, rwy'n credu, yn ôl ym mis Ionawr. Mae'n gywir ac yn wir dweud nac oes modd sefyll yn llonydd o ran cyflwyno gwasanaethau a datblygu gwasanaethau cyhoeddus. O ystyried bod anghenion a gofynion cymdeithas yn newid, bydd yn rhaid i'r modelau cyflwyno newid yn unol â'r gofynion a roddir arnynt. Dim ond fore heddiw, ar y ffordd i mewn, clywais am y problemau sy'n ymwneud â dementia a'r galw ar ddarpariaeth dementia yn y gwasanaeth iechyd wrth symud ymlaen, gyda'r nifer cynyddol o bobl sy'n cael diagnosis o'r fath. Mae gan hynny oblygiadau enfawr ar gyfer gofal cymdeithasol, fel yr ydym i gyd yn deall. O ystyried yr amserlen a amlinellodd y Prif Weinidog pan gyflwynwyd Williams iddo gyntaf, ar gyfer cael map eglur o'r ffordd ymlaen yn ôl ym mis Ebrill—adeig y Pasg rwy'n credu—nid yw'n ymddangos bod y map hwnnw ar gael inni gan Lywodraeth Cymru. Gallaf ddeall bod yr anawsterau lleol o fewn y Blaid Lafur yn atal y Prif Weinidog rhag cynnig hwnnw i'r Siambr, yn enwedig fel arweinydd y Blaid Lafur yng Nghyngor Bro Morgannwg. Gwelaf fod yr Aelod yn ei lle yno, a bydd yr Aelod dros Fro Morgannwg yn gwybod fy mod yn gwrando'n eiddgar ar sylwadau Neil Moore, a'r weledigaeth sydd ganddo ar gyfer Bro Morgannwg pan ddywed

Nid dyma'r amser i ar gyfer lladdfa eang o fewn llywodraeth leol, naill ai'n wirfoddol neu fel arall.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I think that that is clearly coming across from all Labour leaders in local authorities across Wales. Indeed, I got that feeling when I was at the Welsh Local Government Association conference in Llandudno recently.

I think that there is a welcome opportunity here with these proposals to redefine the relationship between local government and Welsh Government. In particular, plenty of the obligations that come from this institution are unfunded and place a legal obligation on local government. It is a fact that since the last reorganisation, the Government that flows out of this building has formed another layer of Government in Wales, and it is the accepted will of the Welsh people now. So, I think that this is a good opportunity for that relationship to be defined. However, I would be grateful if the First Minister could give us a timeline for how he sees things developing. I appreciate that we are going to get a statement a little later from the Minister for local government around voluntary amalgamations and mergers, but does he see any concrete proposals coming from the Welsh Government about forced amalgamations or forced reorganisations before the 2016 election, or will this have to be an issue that resides in party manifesto commitments for the 2016 election, which the Government that will be returned after 2016 will be charged with implementing?

I also notice a long paragraph that talks about engagement with other bodies, and he talks about engagement with health, education, social services, fire services, national park authorities and academia. One of the things that I was always amazed at was the inability for the voluntary sector to get through the door to work with many public bodies in Wales. This was emphasised to me, when I was health spokesperson, around wheelchair services in Wales. The British Red Cross, for example, said that it often felt in competition with the Government sponsored body or the local authority in providing that resource. I would be grateful if the First Minister could outline where he believes good practice has developed over the last two to three years, where working with the voluntary or the private sector can be held up as a model that we can adopt or develop in Wales for that collaborative working that makes the Welsh pound go that much further, and ultimately gives the service user a better bang for their buck.

I would also be grateful if the First Minister could outline the cost implications of reorganisation. I know that this question is constantly put to the First Minister, which I do not think is unreasonable as some of the costing coming out, even at the lower end, are in the hundreds of millions of pounds, and at the higher end are quite eye-watering to say the least. The uncertainty that this is putting on people's job prospects within local government, in particular, is deeply concerning.

Rwy'n meddwl bod hynny'n cael ei gyfleu'n amlwg gan holl arweinywyr Llafur mewn awdurdodau lleol ledled Cymru. Yn wir, cefais y teimlad hwnnw pan oeddwn yng nghynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn Llandudno yn ddiweddar.

Credaf fod cyfle i'w groesawu yma gyda'r cynigion hyn i ailddiffinio'r berthynas rhwng llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru. Yn benodol, nid oes arian yn cael ei ddarparu ar gyfer digonedd o'r rhwymedigaethau a ddaw o'r sefydliad hwn ac maent yn rhoi rhwymedigaeth gyfreithiol ar lywodraeth leol. Mae'n ffaith ers yr ad-drefnu diwethaf, bod y Llywodraeth sy'n llifo allan o'r adeilad hwn wedi ffurfio haen arall o Lywodraeth yng Nghymru, a dyna yw ewyllys pobl Cymru bellach. Felly, rwy'n meddwl bod hwn yn gyfle da i ddiffinio'r berthynas honno. Fodd bynnag, byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Prif Weinidog roi amserlen inni ar gyfer sut y mae'n gweld pethau'n datblygu. Rwy'n sylweddoli ein bod yn mynd i gael datganiad ychydig yn ddiweddarach gan y Gweinidog llywodraeth leol ynglŷn ag uno a chyfuno gwirfoddol, ond a yw'n gweld unrhyw gynigion pendant yn dod gan Lywodraeth Cymru ynglŷn ag uno gorfodol neu ad-drefnu gorfodol cyn etholiad 2016, neu a fydd yn rhaid i hwn fod yn fater sy'n aros o fewn ymrwymadau manifesto'r pleidiau ar gyfer etholiad 2016, y bydd y Llywodraeth a gaiff ei dychwelyd ar ôl 2016 yn gyfrifol am ei weithredu?

Rwyf hefyd yn sylwi ar baragraff hir sy'n sôn am ymgysylltu â chyrff eraill, ac mae'n sôn am ymgysylltu ag iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau tân, awdurdodau parciau cenedlaethol ac academia. Un o'r pethau yr oeddwn yn rhyfeddu ato bob amser oedd anallu'r sector gwirfoddol i gael trwy'r drws i weithio gyda llawer o gyrff cyhoeddus yng Nghymru. Pwysleisiwyd hyn imi, pan oeddwn yn llafarydd iechyd, o ran gwasanaethau cadeiriau olwyn yng Nghymru. Er enghraifft, dywedodd y Groes Goch Brydeinig, ei bod yn teimlo'n aml ei bod yn cystadlu â'r corff a noddur gan y Llywodraeth neu'r awdurdod lleol o ran darparu'r adnodd hwnnw. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Prif Weinidog amlinellu lle y mae'n credu y mae arfer da wedi datblygu dros y ddwy neu dair blynedd diwethaf, lle y gellir dangos enghreifftiau o weithio gyda'r sector gwirfoddol, neu'r sector preifat fel model y gallwn ei fabwysiadu neu ei ddatblygu yng Nghymru ar gyfer y gweithio ar y cyd hwnnw sy'n gwneud i bunt Cymru fynd ymhellach, ac yn y pen draw yn rhoi gwell gwerth am arian i'r defnyddiwr gwasanaeth.

Byddwn hefyd yn ddiolchgar pe gallai'r Prif Weinidog amlinellu goblygiadau'r ad-drefnu o ran cost. Gwn fod y cwestiwn hwn yn cael ei ofyn yn gyson i'r Prif Weinidog, ac nid wyf yn credu ei fod yn afresymol gan fod rhai o'r costau sy'n dod i'r amlwg, hyd yn oed ar eu hisaf, oddeutu cannoedd o filiynau o bunnoedd, ac ar eu uchaf yn eithaf syfrdanol a dweud y lleiaf. Mae'r ansicrwydd y mae hyn yn ei greu ar gyfer rhagolygon swyddi pobl o fewn llywodraeth leol, yn arbennig, yn fy mhoeni'n fawr.

I implore the First Minister, when he talks about options for local government, to ensure, vitally, that people have empathy for the authorities that represent them and ultimately deliver the services in their area. I use the example in west Wales of the large Dyfed configuration that used to be there. Plenty of people in Pembrokeshire, Ceredigion or Carmarthenshire felt no affiliation to that particular organisation, yet they do feel an affiliation and a bond to their local authority, whether they live in Carmarthenshire, Pembrokeshire or Ceredigion. They have to be convinced that an organisation covering a larger geographical area will be able to deliver better public services for them, rather than it being just a new administrative block. We have seen it in the health service reorganisation in 2009, when we were told that by creating bigger bodies we would get better delivery of service. That has not proven to be the case. We only need to look at the trials and tribulations that many people in north Wales have had to go through with regard to Betsi Cadwaladr University Local Health Board, which, I believe, is the biggest spending public body in Wales.

So, with those few questions, I look forward to hearing the answers from the First Minister.

Erfyniaf ar y Prif Weinidog i sicrhau, pan mae'n sôn am opsiynau ar gyfer llywodraeth leol, yn hanfodol, bod gan bobl empathi â'r awdurdodau sy'n eu cynrychioli ac yn y pen draw yn darparu gwasanaethau yn eu hardal. Rwy'n defnyddio'r enghraifft yn y gorllewin o'r sir Dyfed fawr a arferai fodoli. Roedd llawer o bobl yn Sir Benfro, yng Ngheredigion neu yn Sir Gaerfyrddin nad oeddent yn teimlo unrhyw ymlyniad i'r sefydliad arbennig hwnnw, ac eto maent yn teimlo ymlyniad a bond i'w hawdurdod lleol, p'un a ydynt yn byw yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro neu Geredigion. Mae'n rhaid iddynt fod yn argyhoeddedig y bydd sefydliad sy'n cwmpasu ardal ddaearyddol fwy yn gallu darparu gwell gwasanaethau cyhoeddus ar eu cyfer, yn hytrach na bod yn ddim ond bloc gweinyddol newydd. Rydym wedi gweld hynny wrth ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd yn 2009, pan ddywedwyd wrthym y byddem yn cael gwell gwasanaeth trwy greu cyrff mwy. Nid yw hynny wedi bod yn wir. Nid oes ond angen inni edrych ar yr helyntion y mae llawer o bobl yn y gogledd wedi gorfod mynd trwyddynt mewn cysylltiad â Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr, sydd, rwy'n credu, yn gwario mwy na'r un corff cyhoeddus arall yng Nghymru.

Felly, gyda'r ychydig gwestiynau hynny, rwy'n edrych ymlaen at glywed yr atebion gan y Prif Weinidog.

15:54

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

I thank the leader of the opposition for his observations. As a party, we have initiated a short consultation process that will be concluded at the end of September. Then, in October, we will of course declare our position as a Government. I encourage him to do the same in his party. I am not sure from his contribution whether he is in fact in favour of merging local authorities or not now because his message was confused. He asked questions, that is true, but it would certainly help me if I understood where his party stood on this. Is he in favour, for example, of keeping the Vale, as Neil Moore has publicly said, as a standalone authority, even though it is a very small authority? The timetable for April, which he mentioned, is in fact the Williams commission's timetable, which was, on the face of it, unrealistic, given the fact that there is a need to get cross-party agreement from at least two parties, as a minimum, and preferably more than that in the Chamber, and that it is correct to say, as I said last week, that there is no prospect of a Bill being introduced before the next Assembly election that would ensure that full-scale mergers could take place. We know that time is against us. It is a matter, as we certainly discussed last week, for party manifestoes when it comes to the next election. However, my party will have long before then declared a position, and I would urge other parties to do the same thing.

Rwy'n diolch i arweinydd yr wrthblaid am ei sylwadau. Fel plaid, rydym wedi cychwyn ar broses ymgynghori fer a fydd yn dod i ben ar ddiwedd mis Medi. Yna, ym mis Hydref, byddwn wrth gwrs yn datgan ein safbwynt fel Llywodraeth. Rwy'n ei annog i wneud yr un peth yn ei blaid ei hun. Nid wyf yn siŵr o'i gyfraniad a yw mewn gwirionedd o blaid uno awdurdodau lleol neu beidio yn awr am fod ei neges yn ddryslyd. Gofynnodd gwestiynau, mae hynny'n wir, ond byddai'n sicr yn fy helpu pe byddwn yn deall lle beth yw safbwynt ei blaid yn hyn o beth. A yw o blaid, er enghraifft, cadw'r Fro, fel y mae Neil Moore wedi'i ddweud yn gyhoeddus, fel awdurdod annibynnol, er ei fod yn awdurdod bach iawn? Yr amserlen ar gyfer mis Ebrill, a grybwyllodd, yw amserlen comisiwn Williams mewn gwirionedd. Roedd, ar yr olwg gyntaf, yn afrealistig, o ystyried bod angen cael cytundeb trawsbleidiol gan o leiaf ddwy blaid, fel lleiafswm, ac yn ddefnyddol gan fwy na hynny yn y Siambr, a'i fod yn gywir i ddweud, fel y dywedais yr wythnos diwethaf, nad oes unrhyw obaith i Fil gael ei gyflwyno cyn etholiad nesaf y Cynulliad a fyddai'n sicrhau y gallai prosesau uno ar raddfa lawn ddigwydd. Rydym yn gwybod bod amser yn ein herbyn. Mae'n fater, fel y trafodwyd gennym yn sicr yr wythnos diwethaf, ar gyfer manifestos pleidiau pan ddaw'r etholiad nesaf. Fodd bynnag, bydd fy mhlaid i wedi datgan ei safbwynt ymhell cyn hynny, a byddwn yn annog pleidiau eraill i wneud yr un peth.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

He talked of redefining the relationship between local authorities. I agree with him there. I would like to see local authorities take on more powers, but my assessment now is that they are far from being in a position to do that. Too many of them have failed. Too many of them have failed to exercise the powers they already have. I think that authorities with a better critical mass will be far better able to exercise new powers in the future than authorities are now. We had at one point six local authorities in special measures in education. That is reduced now. He mentions Pembrokeshire. Pembrokeshire is a poor example of an authority in terms of the way it has operated. We know that it has the highest-paid chief executive. We know that there are serious questions about the education authority there. We know that there are serious questions about the fact that it was not properly regulating its summer camps, if I remember. There were lots of questions. There were questions about the way in which it was dealing with disruptive pupils. These are all questions that arise—that are not specific to Pembrokeshire—in authorities that are not big enough to have the expertise to deal with specific issues, and that is the problem here. It is right to say—and Ceredigion points this out—that Ceredigion has a very good education department. That much is true. However, for how long? We know that many of those officers are being actively poached by other authorities that are bigger and that offer more money—the Man Uniteds that offer more money. The question is: what would it mean for a small authority—and it is a good authority—if it sees its good people being taken by the bigger authorities? That is a problem.

When it comes to planning, of course, Ceredigion for a long time was in serious difficulty—a long, long, long time. That has been resolved now, but, again, it comes back to the point that it can be very difficult for a local authority that is small to have the critical mass to cover, for example, a situation where one or two members of staff are off on long-term sick leave or they leave. Quite often, that authority finds itself in severe difficulties as a result because there simply are not enough of them to cover for each other in the way that, for example, Mid Glam could with its half a million people back in the days before reorganisation.

I do not think that any of us can be content with a situation where we have a constant stream of local authorities somewhere in Wales that are in trouble. That is a sign that the present structure does not work. We had one local authority that collapsed entirely in Ynys Môn. Again, that is not a sign of a local government structure that works. I want to see a situation where interventions by Government are not needed, but we are not going to get that, let us be blunt about it, with the current structure. There needs to be a strengthening of local authorities and an improvement, at the end of the day, to the services that they provide for their people.

Soniodd am ailddiffinio'r berthynas rhwng awdurdodau lleol. Rwy'n cytuno ag ef ynglŷn â hynny. Hoffwn weld awdurdodau lleol yn ysgwyddo rhagor o bwerau, ond fy asesiad ar hyn o bryd yw eu bod ymhell o fod mewn sefyllfa i wneud hynny. Mae gormod ohonynt wedi methu. Mae gormod ohonynt wedi methu ag arfer y pwerau sydd ganddynt eisoes. Rwy'n credu y bydd awdurdodau â gwell màs critigol yn gallu arfer pwerau newydd yn llawer gwell yn y dyfodol nag y mae awdurdodau yn awr. Roedd gennym ar un adeg chwe awdurdod lleol yn y categori mesurau arbennig ar gyfer addysg. Mae'r nifer yn is yn awr. Mae'n sôn am Sir Benfro. Mae Sir Benfro yn enghraifft wael o awdurdod o ran y ffordd y mae wedi gweithredu. Rydym yn gwybod bod ganddi'r prif weithredwr sy'n cael y tâl uchaf. Rydym yn gwybod bod cwestiynau difrifol ynglŷn â'r awdurdod addysg yno. Rydym yn gwybod bod cwestiynau difrifol ynglŷn â'r ffaith nad oedd yn rheoleiddio ei wersylloedd haf yn iawn, os wyf yn cofio. Roedd llawer o gwestiynau. Cafwyd cwestiynau am y ffordd yr oedd yn delio â disgyblion aflonyddgar. Mae'r rhain i gyd yn gwestiynau sy'n codi—nad ydynt yn benodol i Sir Benfro—mewn awdurdodau nad ydynt yn ddigon mawr i fod â'r arbenigedd i ymdrin â materion penodol, a dyna'r broblem yma. Mae'n iawn dweud—ac mae Ceredigion yn nodi hyn—bod gan Geredigion adran addysg dda iawn. Mae hynny'n wir, ond am ba hyd? Rydym yn gwybod bod awdurdodau eraill sy'n fwy o faint ac yn y cynnig mwy o arian—y Man Uniteds sy'n cynnig mwy o arian—yn mynd ati i ddwyn llawer o'r swyddogion hynny. Y cwestiwn yw: beth fyddai'n ei olygu i awdurdod bach—ac mae'n awdurdod da—pe fyddai'n gweld ei bobl dda yn cael eu cymryd gan yr awdurdodau mwy? Mae hynny'n broblem.

O safbwynt cynllunio, wrth gwrs, roedd Ceredigion am gyfnod hir mewn anhawster difrifol—amser hir, hir, hir. Mae hynny wedi cael ei ddatrys yn awr, ond, unwaith eto, mae'n dod yn ôl at y pwynt y gall fod yn anodd iawn i awdurdod lleol sy'n fach gael y màs critigol i ymdrin â sefyllfa, er enghraifft, lle mae un neu ddau aelod o staff i ffwrdd ar absenoldeb salwch tymor hir neu'n gadael. Yn aml iawn, mae'r awdurdod hwnnw'n ei gael ei hun mewn anawsterau difrifol, oherwydd yn syml nad oes digon ohonynt i gyflenwi yn y ffordd, er enghraifft, y gallai Morgannwg Ganol gyda'i hanner miliwn o bobl yn ôl yn y dyddiau cyn ad-drefnu.

Nid wyf yn meddwl y gall unrhyw un ohonom fod yn fodlon ar sefyllfa lle mae gennym lif cyson o awdurdodau lleol rhywle yng Nghymru sydd mewn trafferth. Mae hynny'n arwydd nad yw'r strwythur presennol yn gweithio. Cawsom un awdurdod lleol a ddymchwelodd yn gyfan gwbl yn Ynys Môn. Unwaith eto, nid yw hynny'n arwydd o strwythur llywodraeth leol sy'n gweithio. Mae arnaf eisiau gweld sefyllfa lle nad oes angen ymyriadau gan y Llywodraeth, ond nid ydym yn mynd i gael hynny, gadewch inni fod yn glir am y peth, gyda'r strwythur presennol. Mae angen cryfhau awdurdodau lleol a gwella'r gwasanaethau, ar ddiwedd y dydd, y maent yn eu darparu ar gyfer eu pobl.

So, I come back to the point I made that we will be moving forward with our plans for mergers. These are plans in the main—substantially though not entirely—for after 2016. It is important that local authorities have certainty and therefore it is important the parties declare their hands before 2016 and say what they plan to do in the election after 2016. However, we do know that the problems that local authorities have faced because of the small size of some of them and because of the fact that they are fishing in a very small pond for talent, for example, have led to inflated pay increases for senior staff—we know that—and to departments collapsing in local authorities. We have got to get away from that, and this is what the Williams commission has identified.

Felly, rwy'n dod yn ôl at y pwynt a wneuthum y byddwn yn symud ymlaen gyda'n cynlluniau ar gyfer uno. Mae'r rhain yn gynlluniau yn bennaf—yn sylweddol er nad yn gyfan gwbl—ar gyfer ar ôl 2016. Mae'n bwysig bod gan awdurdodau lleol sicrwydd, ac felly mae'n bwysig bod y pleidiau'n cyhoeddi'u bwriad cyn 2016 a dweud beth y maent yn bwriadu ei wneud yn yr etholiad ar ôl 2016. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod y problemau y mae awdurdodau lleol wedi eu hwynebu oherwydd maint bychan rhai ohonynt ac oherwydd y ffaith eu bod yn pysgota mewn pwll bach iawn ar gyfer talent, er enghraifft, wedi arwain at godiadau cyflog chwyddedig ar gyfer staff uwch—rydym yn gwybod hynny—ac at adrannau'n chwalu mewn awdurdodau lleol. Mae'n rhaid inni symud oddi wrth hynny, a dyma'r hyn y mae'r comisiwn Williams wedi'i nodi.

15:59

Leanne Wood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

There is no doubt that Welsh public services are facing great challenges and the evidence in the Williams report for that is overwhelming. Plaid Cymru has been clear, however, that piecemeal solutions will not deliver the change or reform that is needed. We will be producing our own proposals in due course. There are a number of questions that arise regardless of how the map of local authorities will end up looking.

The Williams report highlights the need for scrutiny to be regarded as an investment in the future of public services. It underlines that accountability needs to be clear across the whole of the public sector, so, my first question is: what leadership will the Welsh Government provide on this? The report points to the importance of values and of embedding agreed public service values across the whole public sector, and there may be some broad agreement between Plaid Cymru and the Welsh Government on what those values would look like, although we would want to scrutinise that point further.

The Williams report calls for the creation of a leadership development centre in order to train leaders to embed these values across the public sector. It also cites evidence that leadership is a crucial ingredient to successful public services. Having committed leaders in different parts of the public sector can make a difference to the level and quality of services that our communities receive. So, what does the First Minister intend to do in order to progress the recommendation on the development centre?

Nid oes amheuaeth bod gwasanaethau cyhoeddus Cymru yn wynebu heriau mawr ac mae'r dystiolaeth dros hynny yn adroddiad Williams yn llethol. Mae Plaid Cymru wedi bod yn glir, fodd bynnag, na fydd atebion tameidiog yn cyflawni'r newid na'r diwygiadau sydd eu hangen. Byddwn yn paratoi ein cynigion ein hunain maes o law. Mae nifer o gwestiynau sy'n codi waeth sut y bydd map yr awdurdodau lleol yn edrych yn y pen draw.

Mae adroddiad Williams yn tynnu sylw at yr angen i ystyried craffu fel buddsoddiad yn nyfodol gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n tanlinellu bod angen i atebolrwydd fod yn glir ar draws y sector cyhoeddus cyfan, felly, fy nghwestiwn cyntaf yw: pa arweiniad y bydd Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu yn hyn o beth? Mae'r adroddiad yn cyfeirio at bwysigrwydd gwerthoedd ac ymwreiddio gwerthoedd gwasanaeth cyhoeddus y cytunwyd arnynt ar draws y sector cyhoeddus cyfan, a gall fod rhywfaint o gytundeb cyffredinol rhwng Plaid Cymru a Llywodraeth Cymru ar sut y byddai'r gwerthoedd hynny yn edrych, er y byddem yn awyddus i graffu ar y pwynt hwnnw ymhellach.

Mae adroddiad Williams yn galw am greu canolfan datblygu arweinyddiaeth er mwyn hyfforddi arweinwyr i ymwreiddio'r gwerthoedd hyn ar draws y sector cyhoeddus. Mae hefyd yn cyflwyno tystiolaeth fod arweinyddiaeth yn elfen hanfodol o wasanaethau cyhoeddus llwyddiannus. Gall arweinwyr ymroddedig mewn gwahanol rannau o'r sector cyhoeddus wneud gwahaniaeth i lefel ac ansawdd y gwasanaethau y mae ein cymunedau'n eu derbyn. Felly, beth y mae'r Prif Weinidog yn bwriadu ei wneud er mwyn bwrw ymlaen â'r argymhelliad ar y ganolfan ddatblygu?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

The Minister for Local Government and Government Business confirmed at the WLGA conference that a staff commission would be established, as requested by Unison in the initial response to the commission's report. The current public spending climate has led to low morale right across the public sector, and, if you add to this the uncertainty of reorganisation, which I accept may well be very difficult to avoid, there is an inevitability that this debate will only deepen people's concerns about their job security. Plaid Cymru wants to see more detail on the staffing and workforce issues. In particular, people will be keen to hear how we can distinguish between the concerns of the rank-and-file workforce on the one hand and the need to avoid excessive pay-outs to those on the highest staff levels on the other hand. Would the First Minister also set out what progress has been made on any cost-benefit analysis and whether this will include information on potential staff redeployment, so that we do not lose people's skills and experiences?

As there is general agreement that the status quo is not sustainable, it is likely that there will be a reduction in the number of local authorities during the next Assembly term. If this happens, the level of community and town councils becomes more important and will need reform. This was looked at by the Williams commission and, while the Welsh Government has already legislated on improving democracy at that tier, a more wide-ranging reorganisation could take place as part of the wider reform of public services. So, my final question is: does the Welsh Government intend to address the community layer of government as part of its reform agenda and, if so, how?

Cadarnhaodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth yng nghynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y byddai comisiwn staff yn cael ei sefydlu, yn unol â chais Unsain yn yr ymateb cychwynnol i adroddiad y comisiwn. Mae'r hinsawdd gwariant cyhoeddus cyfredol wedi arwain at forâl isel ar draws y sector cyhoeddus, ac, os ydych yn ychwanegu ansicrwydd yr ad-drefnu at hyn, ac rwy'n derbyn y gall fod yn anodd iawn ei osgoi, mae'n anochel na fydd y ddadl ond yn dyfnhau pryderon pobl am sicrwydd eu swydd. Mae Plaid Cymru eisiau gweld mwy o fanylion am y materion staffio a gweithlu. Yn benodol, bydd pobl yn awyddus i glywed sut y gallwn wahaniaethu rhwng pryderon y gweithlu cyffredin ar y naill law a'r angen i osgoi rhoi cyflogau gormodol i'r rhai ar y lefelau staffio uchaf ar y llaw arall. A fyddai'r Prif Weinidog hefyd yn nodi pa gamau sydd wedi'u cymryd ar unrhyw ddadansoddiad cost a budd ac a fydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am y posibilrwydd o orfod symud staff, fel nad ydym yn colli sgiliau a phrofiad pobl?

Gan fod cytundeb cyffredinol nad yw'r status quo yn gynaliadwy, mae'n debygol y bydd gostyngiad yn nifer yr awdurdodau lleol yn ystod tymor nesaf y Cynulliad. Os bydd hyn yn digwydd, mae lefel y cynghorau cymuned a thref yn dod yn fwy pwysig, a bydd angen diwygio hynny. Edrychwyd ar hyn gan Gomisiwn Williams ac, er bod Llywodraeth Cymru eisoes wedi deddfu ar wella democratiaeth ar yr haen honno, gellid ad-drefnu'n fwy eang fel rhan o broses ehangach o ddiwygio gwasanaethau cyhoeddus. Felly, fy nghwestiwn olaf yw: a yw Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â haen gymunedol llywodraeth fel rhan o'i hagenda ddiwygio ac, os felly, sut?

16:03

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

Okay, there were a number of question there. First of all, in terms of scrutiny, it has not been at a level that we expect it to be in many local authorities. I think that it is right to say that, for some local authorities, certainly, the impression has been given that the officers have been in the driving seat and members have not been as proactive as they might have been in terms of scrutiny. That will be important. With fewer local authorities and fewer councillors, there is the opportunity to provide the right level of expertise to those councillors who are in those bigger authorities to have the level of scrutiny that is expected. I think that was true, for example, of the eight county councils; there was a very high level of scrutiny within those councils. Certainly, councillors were very much in a position where they scrutinised what officers were doing. I do not think that anyone could say that they were officer-led authorities. You could say that of some of the authorities, historically, in Wales, and that is not appropriate for democracy.

She asked what values we have in terms of reorganisation, particularly in terms of local government. I think that 'subsidiarity' is a word that is not often used these days, but, nevertheless, it means that the powers should be at the lowest possible level closest to the people. The key is, of course, what is the lowest possible level?

lawn, roedd nifer o gwestiynau yno. Yn gyntaf oll, o ran craffu, nid yw wedi bod ar lefel yr ydym yn disgwyl iddo fod mewn llawer o awdurdodau lleol. Rwy'n meddwl ei bod yn iawn dweud, yn achos rhai awdurdodau lleol, yn sicr, mai'r argraff a roddwyd yw mai'r swyddogion oedd yn cymryd yr awenau ac nad yw aelodau wedi bod mor rhagweithiol ag y gallent fod o ran craffu. Bydd hynny'n bwysig. Gyda llai o awdurdodau lleol a llai o gynghorwyr, mae cyfle i ddarparu'r lefel gywir o arbenigedd i'r cynghorwyr hynny sydd yn yr awdurdodau mwy hynny er mwyn cael craffu ar y lefel a ddisgwylir. Credaf fod hynny'n wir, er enghraifft, yn achos yr wyth cyngor sir; roedd craffu ar lefel uchel iawn o fewn y cynghorau hynny. Yn sicr, roedd cynghorwyr mewn sefyllfa lle'r oeddent yn craffu beth yr oedd swyddogion yn ei wneud. Nid wyf yn credu y gallai unrhyw un ddweud eu bod yn awdurdodau a oedd yn cael eu harwain gan swyddogion. Gallech ddweud hynny am rai o'r awdurdodau, yn hanesyddol, yng Nghymru, ac nid yw hynny'n briodol i ddemocratiaeth.

Gofynnodd pa werthoedd sydd gennym o ran ad-drefnu, yn enwedig o ran llywodraeth leol. Credaf nad yw 'sbsidiaredd' yn air sy'n cael ei ddefnyddio'n aml y dyddiau hyn, ond, serch hynny, mae'n golygu y dylai'r pwerau fod ar y lefel isaf bosibl yn agosaf at y pobl. Yr allwedd yw, wrth gwrs, beth yw'r lefel isaf bosibl?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Moving on to what she said about community and town councils, I am particularly keen to look at how community and town councils can be empowered. There are too many of them, in my view, and some of them are so small that, literally, one in eight of the population has to be on them to have a full complement of councillors. There is a need to merge some of them, definitely. There are some parts of Wales that do not have community councils, and the Member's part of Wales is one of them. I think that we will see a kind of asymmetrical devolution to community and town councils, where the largest ones will be able to take more powers on board, while the smaller ones that represent a few hundred people will have fewer powers. Giving them all the same level of powers is fraught with difficulty. It was a big discrepancy with regard to their sizes.

We are looking to move forward with the leadership development centre. It is important that the level of leadership is as high as it can be. The Minister has announced the staff commission, and that will be important. I take the point about the uncertainty. That is why we need to show that there is a move forward and ways of trying to reduce that uncertainty, bearing in mind that it cannot be removed completely, given the fact that there is no way of doing it before 2016. Nevertheless, over the next year or two, it is important for all parties to consider their proposals for the way forward to try to remove some of that uncertainty, at least.

With regard to the rank-and-file workforce, the point that I made before is that, even where there are merges of local authorities, you still need the same number of people to collect the rubbish. You still need the same number of people to deliver the day-to-day services, but you do not need as many people at the top end. So, I do not fear for those who are part of the rank-and-file workforce. It is important that there are no major costs with regard to dealing with those who are further on up the line.

The Member deals with the question of costs, and she will know, as I mentioned this last week, that we are looking at our cost-benefit analysis, but let us not forget that there is a cost to keeping things as they are. There is a cost to massive duplication of services, particularly human resources, information technology and services that are delivered by councils alone when they could be working with other councils to reduce costs. There is a cost there, and it is reflected in the council tax. The duplication of services, when the services could be delivered jointly or, ideally, by larger authorities, is an important part of that thinking. I think that I have dealt with the issues there.

I did not quite catch the Member's question at the end, but I think that it was about what the next step is and how this might be dealt with. The Minister for Local Government and Government Business is making a statement straight after this, which will provide more detail, but, as I said earlier, as a Government we will be in a position to have a final view as far as we are concerned at this moment in time, certainly by Christmas, but hopefully in October, so that it will be understood what our position is now. However, of course, it is after 2016 that counts, and we know that parties will have to put their proposals in their manifestos at that point.

Gan symud ymlaen at yr hyn a ddywedodd am gynghorau cymuned a thref, rwy'n arbennig o awyddus i edrych ar sut y gellir grymuso cynghorau cymuned a thref. Mae gormod ohonynt, yn fy marn i, ac mae rhai ohonynt mor fach fel bod yn rhaid i un o bob wyth o'r boblogaeth, yn llythrennol, fod arnynt i gael cyflenwad llawn o gynghorwyr. Mae angen uno rhai ohonynt, yn bendant. Mae rhai rhannau o Gymru nad oes ganddynt gynghorau cymuned, ac mae rhan yr Aelod o Gymru yn un ohonynt. Rwy'n meddwl y byddwn yn gweld rhyw fath o ddatganiol anghymesur i gynghorau cymuned a thref, lle y bydd y rhai mwyaf yn gallu derbyn mwy o bwerau, tra bydd y rhai llai sy'n cynrychioli ychydig gannoedd o bobl yn cael llai o bwerau. Mae rhoi'r un lefel o bwerau i bob un ohonynt yn llawn anawsterau. Roedd yn anghysondeb mawr o ran eu maint.

Rydym yn edrych i symud ymlaen gyda'r ganolfan datblygu arweinyddiaeth. Mae'n bwysig bod lefel yr arweinyddiaeth mor uchel ag y gall fod. Mae'r Gweinidog wedi cyhoeddi'r comisiwn staff, a bydd hynny'n bwysig. Rwyf yn derbyn y pwynt am yr ansicrwydd. Dyna pam y mae angen dangos bod pethau'n symud ymlaen a ffyrdd o geisio lleihau'r ansicrwydd hwnnw, gan gadw mewn cof na ellir ei ddileu'n llwyr, o ystyried y ffaith nad oes unrhyw ffordd o gyflawni hyn cyn 2016. Serch hynny, yn ystod y flwyddyn neu ddwy nesaf, mae'n bwysig i bob plaid ystyried eu cynigion ar gyfer y ffordd ymlaen i geisio cael gwared ar rywffaint o'r ansicrwydd, o leiaf.

O ran y gweithlu cyffredin, y pwynt a wneuthum o'r blaen yw, hyd yn oed lle mae awdurdodau lleol yn cael eu huno, bydd yn dal i fod angen yr un nifer o bobl i gasglu'r sbwrriel. Bydd yn dal i fod angen yr un nifer o bobl i gyflwyno'r gwasanaethau o ddydd i ddydd i chi, ond nid oes angen cymaint o bobl arnoch ar y brig. Felly, nid wyf yn ofni ynghylch y rhai sy'n rhan o'r gweithlu cyffredin. Mae'n bwysig nad oes unrhyw gostau mawr o ran delio â'r rhai sydd ymhellach i fyny.

Mae'r Aelod yn ymdrin â chwestiwn costau, ac mae hi'n gwybod, gan imi sôn am hyn yr wythnos diwethaf, ein bod yn edrych ar ein dadansoddiad cost a budd, ond gadewch inni beidio ag anghofio bod cost i gadw pethau fel y maent. Mae cost i ddyblygu enfawr ar wasanaethau, yn enwedig adnoddau dynol, technoleg gwybodaeth a gwasanaethau sy'n cael eu cyflwyno gan gynghorau ar eu pen eu hunain pan allent fod yn gweithio gyda chynghorau eraill i leihau costau. Mae cost yno, ac mae'n cael ei hadlewyrchu yn y dreth gyngor. Mae dyblygu gwasanaethau, pan allai'r gwasanaethau gael eu cyflwyno ar y cyd, neu, yn ddefnyddiol, gan awdurdodau mwy o faint, yn rhan bwysig o'r ffordd o feddwl. Credaf fy mod wedi ymdrin â'r materion hynny.

Wnes i ddim clywed cwestiwn yr Aelod ar y diwedd yn iawn, ond credaf ei fod yn ymwneud â beth yw'r cam nesaf a sut y gellid ymdrin â hyn. Mae'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth yn gwneud datganiad yn syth ar ôl hyn, a fydd yn rhoi mwy o fanylion, ond, fel y dywedais yn gynharach, fel Llywodraeth byddwn mewn sefyllfa i ddod i safbwynt terfynol o'm rhan ni ein hunain ar hyn o bryd, yn sicr erbyn y Nadolig, ond ym mis Hydref gobeithio, fel y bydd pobl yn deall beth yw ein safbwynt yn awr. Fodd bynnag, wrth gwrs, ar ôl 2016 sy'n cyfrif, a gwyddom y bydd yn rhaid i bleidiau roi eu cynigion yn eu manifestos ar yr adeg honno.

First Minister, I very much welcome the report. Many of us lived through the catastrophic reorganisation in 1996, where problems lasted for quite a number of years after that. We obviously have the benefit of learning the lessons from that period. There are a few areas that particularly concerned me that I would like to focus on.

Whatever the format, there is general agreement with regard to the need for fewer councils, larger councils and a consolidation of public services for better, more efficient delivery, but there is the issue as to what the future shape of those councils might be and where they are. So, for example, where there is a concentration of councils in some of the poorest areas, one issue that we must look at will be the method of financing councils. There are areas in Wales of variability in terms of affluence and poverty, and we have to be careful that, if we are consolidating councils in some of the poorest areas, we ensure that those councils are able to deliver public services, and in line with the Welsh Government's policy on tackling poverty.

Another issue is that if we have fewer councils and fewer councillors, there will be larger wards, and there is the democratic deficit issue, which is recognised in the Williams report to some extent. Yesterday, I had the opportunity to meet with the Minister for Local Government and Government Business, Lesley Griffiths, and four community councils in my constituency—Llantwit Fardre, Tonyrefail, Pontypridd and Llantrisant—which have been looking at the whole issue for the last few months and prepared a helpful contribution to the consultation. It is probably one of the first submissions to the consultation process.

I recognise that there is complete diversity of community councils across Wales. Some areas do not have them, and they perform in different ways. Taff Ely is an example where it works well. We have to look at how we address the democratic deficit that gets created, and that is not to say that larger councils will not be setting the framework within their areas of policy responsibility, but that there are areas where community councils can deliver and can probably form partnerships with other community councils and deliver some of the most local services that are involved in local councils. I think that we need to give serious consideration to the governance of community councils, but also to look very carefully at what role they might play, because, for all their faults, they are close to the people. Many people in many small communities identify with them. At a time of increasing political disengagement, it would be a shame if we were to lose the benefit of developing what I think could potentially provide a significant level of democracy at community level.

Brif Weinidog, rwy'n croesawu'r adroddiad yn fawr. Mae llawer ohonom wedi byw trwy'r ad-drefnu trychinebus ym 1996, pryd y gwnaeth problemau barhau am gryn nifer o flynyddoedd ar ôl hynny. Mae'n amlwg bod gennym y fantais o ddysgu'r gwersi o'r cyfnod hwnnw. Hoffwn ganolbwyntio ar ychydig o feysydd a oedd yn peri pryder arbennig imi.

Beth bynnag yw'r fformat, ceir cytundeb cyffredinol bod angen llai o gynghorau, cynghorau mwy o faint a chyfuno gwasanaethau cyhoeddus er mwyn gallu eu darparu'n well ac yn fwy effeithlon, ond mae cwestiwn ynghylch siâp y cynghorau hynny yn y dyfodol a lle y maent. Felly, er enghraifft, lle ceir nifer o gynghorau yn rhai o'r ardaloedd tlotaf, un mater y mae'n rhaid inni edrych arno yw'r dull o gyllido cynghorau. Ceir ardaloedd yng Nghymru o amrywioldeb o ran cyfoeth a thlodi, ac mae'n rhaid inni fod yn ofalus, os ydym yn uno cynghorau mewn rhai o'r ardaloedd tlotaf, ein bod yn sicrhau bod y cynghorau hynny'n gallu darparu gwasanaethau cyhoeddus, a hynny'n unol â pholisi Llywodraeth Cymru ar drechu tlodi.

Mater arall yw y bydd y wardiau'n fwy os bydd gennym lai o gynghorau a llai o gynghorwyr, a cheir mater y diffyg democrataidd, sy'n cael ei gydnabod yn adroddiad Williams i ryw raddau. Ddoe, cefais y cyfle i gyfarfod â'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth, Lesley Griffiths, a phedwar cyngor cymuned yn fy etholaeth—Llanilltud Faerdref, Tonyrefail, Pontypridd a Llantrisant—sydd wedi bod yn ystyried y mater yn ei gyfanrwydd yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf ac wedi paratoi cyfraniad defnyddiol i'r ymgynghoriad. Mae'n debyg mai dyma un o'r cyflwyniadau cyntaf i'r broses ymgynghori.

Rwy'n cydnabod bod amrywiaeth llwyr o gynghorau cymuned ar draws Cymru. Nid ydynt i'w cael ym mhob ardal, ac maent yn gweithio mewn gwahanol ffyrdd. Mae Taf Elái yn enghraifft lle mae'n gweithio'n dda. Mae'n rhaid inni ystyried sut yr ydym yn mynd i'r afael â'r diffyg democrataidd sy'n cael ei greu, ac nid yw hynny'n golygu na fydd cynghorau mwy o faint yn gosod y fframwaith o fewn y meysydd polisi y maent yn gyfrifol amdanynt, ond gall cynghorau cymunedol gyflawni mewn rhai meysydd ac mae'n debyg y gallant ffurfio partneriaethau gyda chynghorau cymuned eraill a chyflwyno rhai o'r gwasanaethau mwyaf lleol sy'n ymwneud â chynghorau lleol. Credaf fod angen i ni roi ystyriaeth ddwys i drefniadau llywodraethu cynghorau cymuned, ond hefyd edrych yn ofalus iawn ar ba rôl y gallant ei chwarae, oherwydd, er eu holl ddiffygion, maent yn agos at y bobl. Mae llawer o bobl mewn llawer o gymunedau bach yn uniaethu â nhw. Ar adeg o ymddieithriad gwleidyddol cynyddol, byddai'n drueni pe baem yn colli'r budd o ddatblygu'r hyn a allai o bosibl, yn fy marn i, ddarparu lefel sylweddol o ddemocratiaeth ar lefel gymunedol.

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I take the point that the Member makes, and that is that it is important that any changes do not entrench poverty, if I can put it that way—that local authorities are of a sufficient mass to be able to raise revenue locally and that they do not create a situation where authorities are hampered in being able to do that. That is certainly something that we are continuing to consider.

I do not think that, necessarily, larger authorities create a democratic deficit, otherwise, in this Chamber, we would be particularly deficient in terms of our democratic accountability. I do not think that that is correct. It is fair to say that councillors are in a position now where they are well remunerated, so I do not think that it is too much to ask them to take on more constituents, and they are well able to represent those constituents. I do not think, therefore, that a deficit occurs necessarily if you have a larger authority.

I do very much take on board the point that he makes about community and town councils. I think that there are important and exciting times ahead for community and town councils. Many of them are well able to take on board greater powers. He will know in his own constituency which of those are in that situation. As somebody who used to be a community councillor at one time, I well remember that much of our conversation revolved around allotments and public footpaths, and little else. It was a shame, because it was a community that identified very strongly with its community council, and I have no doubt that that council could have taken more power on board. It was often the case as well, if I remember rightly, that planning applications would come for comment before the community council after approval had been given, which was a bugbear of the council at that time. [Laughter.] That situation has improved since.

However, there is no reason why the larger town councils could not take on board more powers. They are of a sufficient size to do that. It could be looked at on a case-by-case basis. The smaller community and town councils would not want to do that; they might well want to stay in the situation that they are in. So, it is a more complicated picture in terms of how powers are devolved, but, nevertheless, there are enormous opportunities there for entrenching power more locally in those bigger town councils, which I think local people will appreciate.

Rwy'n derbyn y pwynt y mae'r Aelod yn ei wneud, sef ei bod yn bwysig nad yw unrhyw newidiadau yn ymwreiddio tloedi, os caf ei roi felly—bod awdurdodau lleol o'r maint digonol i allu codi refeniw yn lleol ac nad ydynt yn creu sefyllfa lle mae awdurdodau yn cael eu rhwystro rhag gallu gwneud hynny. Mae hynny'n sicr yn rhywbeth yr ydym yn parhau i'w ystyried.

Nid wyf yn credu bod awdurdodau mwy, o reidrwydd, yn creu diffyg democrataidd. Fel arall, byddem yn arbennig o ddiffygiol yn y Siambr hon o ran ein hatebolrwydd democrataidd. Nid wyf yn credu bod hynny'n wir. Mae'n deg dweud bod cynghorwyr mewn sefyllfa yn awr lle maent yn cael eu talu'n dda, felly nid wyf yn credu ei bod yn ormod i ofyn iddynt ymgymryd â mwy o etholwyr, ac maent yn gwbl alluog i gynrychioli'r etholwyr hynny. Nid wyf yn credu, felly, bod diffyg yn digwydd o reidrwydd os oes gennyh awdurdod mwy.

Rwy sicr yn derbyn y pwynt y mae'n ei wneud ynglŷn â chynghorau cymuned a thref. Credaf fod amser pwysig a chyffrous o'n blaenau ar gyfer cynghorau cymuned a thref. Mae llawer ohonynt yn ddigon abl i dderbyn mwy o bwerau. Bydd yn gwybod ei hun pa rai yn ei etholaeth sydd yn y sefyllfa honno. Fel rhywun a oedd yn arfer bod yn gynghorydd cymuned ar un adeg, rwy'n cofio'n dda fod llawer o'n sgysiau'n canolbwytio ar randiroedd a llwybrau cyhoeddus, a fawr ddim arall. Roedd yn drueni, oherwydd ei bod yn gymuned a oedd yn uniaethu'n gryf iawn â'i chingor cymuned, ac nid oes gennyf amheuaeth y gallai'r cyngor hwnnw fod wedi derbyn mwy o bwerau. Roedd yn aml yn wir hefyd, os cofiaf yn iawn, y byddai ceisiadau cynllunio yn dod gerbron y cyngor cymuned i gael sylwadau ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo, a oedd yn gasbeth gan y cyngor ar y pryd. [Chwerthin.] Mae'r sefyllfa wedi gwella ers hynny.

Fodd bynnag, nid oes unrhyw reswm pam na allai'r cynghorau tref mwy o faint dderbyn rhagor o bwerau. Maent yn ddigon mawr i wneud hynny. Gellid edrych ar hyn fesul achos unigol. Ni fyddai'r cynghorau cymuned a thref llai yn dymuno gwneud hynny; efallai y byddant am aros yn eu sefyllfa bresennol. Felly, mae'n ddarlun mwy cymhleth o ran sut mae pwerau'n cael eu datganoli, ond, serch hynny, ceir cyfleoedd anferth ar gyfer ymwreiddio pŵer yn fwy lleol yn y cynghorau tref mwy hynny, ac rwy'n meddwl y bydd pobl leol yn gwerthfawrogi hynny.

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I will leave the local government stuff until the next statement, First Minister, but may I say at the outset that I am concerned that the very detailed response on the public services Williams commission and in terms of the local government was not made available to us until just under an hour before you got to your feet? It has been very difficult to digest that very detailed response in the time available to us. Having said that, I have a number of questions from scanning through that document and from your statement.

Byddaf yn gadael y pethau sy'n ymwneud â llywodraeth leol tan y datganiad nesaf, Brif Weinidog, ond gaf i ddweud ar y dechrau fy mod yn pryderu nad oedd yr ymateb manwl iawn ar wasanaethau cyhoeddus gan gomisiwn Williams ac o ran llywodraeth leol ar gael i ni tan ychydig o dan awr cyn i chi godi ar eich traed? Mae wedi bod yn anodd iawn treulio'r ymateb manwl iawn hwnnw yn yr amser a oedd ar gael i ni. Wedi dweud hynny, mae gennyf nifer o gwestiynau o sganio drwy'r ddogfen ac o'ch datganiad.

First of all, we talk about transparency and accountability in terms of the delivery of public services, and yet, as you acknowledged and as we have raised previously, health was not included in the Williams commission brief. How then is the health agenda going to be incorporated into the reform of public health services as it is being mooted by the Williams commission and in your response to it? Similarly, in terms of national parks, my colleague William Powell raised earlier the issue of the democratisation of those bodies. Are national parks included in this agenda and will they be made more democratic and accountable as a result of that?

The whole Williams commission report talks about culture change and, certainly, in your response to it, you also referred to culture change in the way that public services are delivered, and yet, in terms of local government reform, we are effectively creating 12 super councils that, because of the electoral system that is being used for them, will effectively embed one-party regimes in at least 10 of them. How then can you get a culture change when you have one-party regimes without effective scrutiny and without an effective opposition that is representative of the local electorate, simply because the numbers that they should have do not reflect the way that people voted?

Should you not think that, if you are going to have a culture change, you must have a form of proportional representation, which will mean that the outcome of elections reflects the way that people vote and, equally, because of that, you get more effective, accountable and transparent services as a result.

My next question relates to the role of city regions, which, again, were referred to in your response—and, of course, in the Williams commission report. What is the role of city regions within this new utopia, if you like, of public service delivery? How are they going to fit into that?

In relation to the shared-service model for back-office functions, which you referred to in your response, your vision includes that shared-office model for public services across Wales. How is that going to be delivered, in practice, given that there is a whole range of different ICT contracts, for example, in many public bodies? However, more importantly, the ICT delivery models of many public bodies are not compatible with each other. That does not just apply between local government and health boards, but also in local councils and in different health boards. That is a major obstacle in terms of getting those back-office functions in place. That will be an important obstacle to overcome. How do you allow for sovereign decisions by independent authorities in trying to get that back-office model up and running, particularly given what happened in south-east Wales when they tried to get a similar model up between five or six local councils? It fell apart, basically, under its own contradictions.

Yn gyntaf oll, rydym yn siarad am dryloywder ac atebolrwydd o ran cyflwyno gwasanaethau cyhoeddus, ac eto, fel yr oeddech yn cydnabod ac fel yr ydym wedi'i grybwyll o'r blaen, ni chafodd iechyd ei gynnwys ym mriif comisiwn Williams. Sut felly y mae'r agenda iechyd yn mynd i gael ei hymgorffori wrth ddiwygio gwasanaethau iechyd y cyhoedd fel y crybwyllir gan gomisiwn Williams ac yn eich ymateb iddo? Yn yr un modd, o ran parciau cenedlaethol, cododd fy nghydweithiwr William Powell yn gynharach y mater o ddemocrateiddio'r cyrff hynny. A yw parciau cenedlaethol wedi'u cynnwys yn yr agenda hon ac a fyddant yn cael eu gwneud yn fwy democrataidd ac atebol o ganlyniad i hynny?

Mae holl adroddiad comisiwn Williams yn sôn am newid diwylliant ac, yn sicr, yn eich ymateb iddo, fe wnaethoch chithau hefyd gyfeirio at newid diwylliant yn y ffordd y caiff gwasanaethau cyhoeddus eu cyflwyno, ac eto, o ran diwygio llywodraeth leol, rydym i bob pwrpas yn creu 12 arch gyngor a fydd, oherwydd y system etholiadol sy'n cael ei defnyddio ar eu cyfer, i bob pwrpas yn sefydlu cyfundrefnau un blaid mewn o leiaf 10 ohonynt. Sut felly y gallwch chi gael newid diwylliant pan fydd gennych gyfundrefnau un blaid heb graffu effeithiol a heb wrthblaid effeithiol sy'n gynrychiadol o'r etholaeth leol, yn syml oherwydd nad yw'r niferoedd y dylai fod ganddynt yn adlewyrchu'r ffordd y mae pobl wedi pleidleisio?

Oni ddylech gredu, os ydych yn mynd i gael newid diwylliant, bod yn rhaid i chi gael rhyw fath o gynrychiolaeth gyfrannol, a fydd yn golygu bod canlyniad etholiadau'n adlewyrchu'r ffordd y mae pobl yn pleidleisio ac, i'r un graddau, oherwydd hynny, y bydd gennych wasanaethau mwy effeithiol, atebol a thryloyw o ganlyniad.

Mae fy nghwestiwn nesaf yn ymwneud â rôl y dinas-ranbarthau y cyfeiriwyd atynt, unwaith eto, yn eich ymateb—ac, wrth gwrs, yn adroddiad comisiwn Williams. Beth yw rôl dinas-ranbarthau o fewn yr iwtopia newydd hon, os hoffech chi, o gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus? Sut maen nhw'n mynd cyd-fynd â hynny?

O safbwynt y model o rannu swyddogaethau'r swyddfa gefn, y gwnaethoch gyfeirio ato yn eich ymateb, mae eich gweledigaeth yn cynnwys y model hwnnw o rannu swyddfa ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Sut y mae hynny'n mynd i gael ei gyflawni, yn ymarferol, o gofio bod gan lawer o gyrff cyhoeddus amrywiaeth eang o gontractau TGCh gwahanol, er nghraifft? Fodd bynnag, yn bwysicach, nid yw modelau darparu TGCh llawer o gyrff cyhoeddus yn gydnaws â'i gilydd. Mae hynny'n berthnasol o fewn gwahanol gynghorau lleol a byrddau iechyd yn ogystal â rhwng llywodraeth leol a byrddau iechyd. Mae hwnnw'n rhwystr mawr o ran cael y swyddogaethau swyddfa gefn hynny ar waith. Bydd hwnnw'n rhwystr pwysig i'w oresgyn. Sut rydych chi'n caniatáu ar gyfer penderfyniadau sofran gan awdurdodau annibynnol wrth geisio sefydlu'r model hwnnw, yn enwedig o ystyried yr hyn a ddigwyddodd yn ne-ddwyrain Cymru pan geisiodd pump neu chwech o gynghorau lleol sefydlu model tebyg? Chwalodd y trefniant, yn y bôn, o ganlyniad i'w anghysondebau ei hun.

When you talk about different public authorities accessing a single shared-service model for back-office functions, how do you deal with the VAT issues that arise as a result of that? For example, when we talked in Swansea of looking at a shared model that might include the local university, it was pointed out that if the university used a model that the local government set up or vice versa, it would have to pay VAT on that service, which it does not do at the moment. How do you get around that particular issue?

Finally, First Minister, in terms of the whole agenda, what are you using to measure success? What are the targets that you are putting in place to measure the success of this model? What are the timescales that have been put in place to do that? None of that is set out in your response to the Williams commission. Are we to expect a further response that will set out those targets and the times by which they should be met?

16:17

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

There were a number of questions from the Member. I expect there to be better delivery in terms of health, because, unless there are exceptional circumstances that dictate otherwise, I expect the local health board boundaries to be coterminous—or rather, for the new LHB boundaries to be included wholly within the LHB boundaries—so that there is working with one LHB rather than several LHBs. That certainly makes life easier for local authorities and, indeed, for the LHBs.

The national parks are a part of our agenda. I think that there is a case for saying that there should be elections to national parks, particularly given the fact that they retain a planning function, which is an important function. This was not something that we could do before 2011, as national parks—or certainly in terms of their legislative structure—were not within the competence of the National Assembly. I think that there is certainly a case that will argue for direct elections to national parks, perhaps being held at the same time as local authority elections.

In terms of culture change of our electoral systems, he and I will never agree on the single transferable vote—he gives me a wry smile and understands that. He does make it sound as if these local authorities would have councillors imposed upon them. The reality is that these are people who are elected by the people who live in those areas. There is a very easy way to end what he calls one-party rule: for people to vote for other parties. That is what democracy is all about. If they choose to do so, of course, those parties are free to take control of those authorities. I do not think that changing the electoral system will change that; it is simply a question of other parties trying to convince the electorate of the merits of their arguments. Call me old-fashioned, but I think that that is the way that things should be.

Os ydych yn sôn am wahanol awdurdodau cyhoeddus yn defnyddio un model o rannu gwasanaeth ar gyfer swyddogaethau swyddfa gefn, sut rydych chi'n delio â'r materion TAW sy'n codi o ganlyniad? Er enghraifft, pan oeddem yn sôn yn Abertawe am edrych ar fodel a allai gynnwys y brifysgol leol, tynnwyd sylw at y ffaith y byddai'n rhaid i'r brifysgol dalu TAW ar y gwasanaeth hwnnw, nad yw'n gwneud ar hyn o bryd, pe byddai'n defnyddio model a sefydlwyd gan y llywodraeth leol neu i'r gwrthwyneb. Sut rydych chi'n datrys y broblem benodol honno?

Yn olaf, Brif Weinidog, o ran yr agenda gyfan, beth ydych chi'n ei ddefnyddio i fesur llwyddiant? Beth yw'r targedau yr ydych yn eu pennu i fesur llwyddiant y model hwn? Beth yw'r amserlenni sydd wedi cael eu rhoi ar waith i wneud hynny? Nid oes dim o hynny'n cael ei nodi yn eich ymateb i gomisiwn Williams. A ydym i ddisgwyl ymateb arall a fydd yn nodi'r targedau hynny a'r amseroedd erbyn pryd y dylid eu cyflawni?

Roedd gan yr Aelod nifer o gwestiynau. Rwy'n disgwyl y bydd y ddarpariaeth yn well ym maes iechyd, oherwydd fy mod yn disgwyl i ffiniau'r byrddau iechyd lleol, oni bai bod amgylchiadau eithriadol sy'n pennu fel arall, fod yn gydffiniol—neu yn hytrach, i ffiniau'r BILL newydd gael eu cynnwys yn gyfan gwbl o fewn ffiniau'r BILL—fel y ceir gweithio gydag un BILL yn hytrach na nifer o BILlau. Mae hynny'n sicr yn gwneud bywyd yn haws i awdurdodau lleol ac, yn wir, i'r BILlau.

Mae'r parciau cenedlaethol yn rhan o'n hagenda. Credaf fod achos o blaid dweud y dylid cael etholiadau i barciau cenedlaethol, yn enwedig o ystyried y ffaith eu bod yn cadw swyddogaeth gynllunio, sy'n swyddogaeth bwysig. Nid oedd hyn yn rhywbeth y gallem ei wneud cyn 2011, gan nad oedd parciau cenedlaethol—neu yn sicr o ran eu strwythur deddfwriaethol—o fewn cymhwysedd y Cynulliad Cenedlaethol. Credaf yn sicr fod achos o blaid etholiadau uniongyrchol i barciau cenedlaethol, efallai yn cael eu cynnal ar yr un pryd ag etholiadau awdurdodau lleol.

O ran newid diwylliant ein systemau etholiadol, ni fydd ef a minnau fyth yn cytuno ar y bleidlais sengl drosglwyddadwy—mae'n rhoi gwên gam i mi ac yn deall hynny. Mae'n gwneud iddi swnio fel pe byddai'r cynghorwyr yn cael eu gorfodi ar yr awdurdodau lleol hyn. Y realiti yw bod y rhain yn bobl sy'n cael eu hethol gan y bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny. Mae ffordd hawdd iawn i roi terfyn ar yr hyn y mae'n ei alw'n gyfundrefn un blaid: i bobl bleidleisio dros bleidiau eraill. Dyna beth y mae democratiaeth yn ei olygu. Os ydynt yn dewis gwneud hynny, wrth gwrs, mae'r pleidiau hynny'n rhydd i gymryd rheolaeth dros yr awdurdodau hynny. Nid wyf yn credu y bydd hynny'n newid trwy newid y system etholiadol; mae'n gwestiwn syml o bleidiau eraill yn ceisio argyhoeddi'r etholwyr o rinweddau eu dadleuon. Galwch fi'n hen ffasiwn, ond rwy'n meddwl mai dyna'r ffordd y dylai pethau fod.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

City regions still obviously play an important role, and will continue to do so in the future, because collaboration between local authorities will be important, even with mergers. It is important that we see, for example, collaboration between whatever the new Cardiff and Vale authority calls itself and other authorities in the area, because economically they are part of the same region. However, there is an argument for saying, therefore, that the council should be a greater Cardiff council; however, my view is that that takes things a little too far in terms of accountability, but it is important, nevertheless, that councils do still work together in the utopia that he has described—'Utopia' was of course written by Thomas More and included items such as having lectures before breakfast, which, I can assure the Member, is not part of the Williams commission's plans.

In terms of ICT, he makes the point quite rightly that there are differences in ICT contracts and in terms of operating systems. That shows how ludicrous it is that we are in this situation, where there are so many differences across the board. That is why it is important that we see that harmonisation over time of different systems. There may well be, in terms of some organisations, VAT issues—they may well be able to be resolved—but that does not apply to a number of organisations that might be able to merge their ICT systems over time in a sensible way. Simply saying, 'It's too difficult, in my view', is not a reason for not making sure that it happens, because in having so many different systems you get the duplication of costs that the taxpayer could do without paying for.

What is success? Well, I could say that success is about making sure that people feel an affinity with their local authorities and that those authorities are delivering, but I suppose that, for me, the ultimate definition of success would be, at the very least, that local authorities do not have departments or, indeed, entire local authorities that collapse, which is what we have seen over the past 19 years across Wales. It would be authorities that are robust enough and have enough critical mass to deliver services without seeing departments fall apart from time to time. We cannot surely be happy with a situation where one local authority collapses entirely, and where we have had almost every local authority in Wales at some point in time seeing a department collapse and, effectively, have to be taken over. That is not a sustainable way to run local government, and that is why the Williams commission's proposals deserve support.

Mae dinas-ranbarthau yn amlwg yn dal i chwarae rhan bwysig, a byddant yn parhau i wneud hynny yn y dyfodol, gan y bydd cydweithredu rhwng awdurdodau lleol yn bwysig, hyd yn oed ar ôl proses uno. Mae'n bwysig ein bod yn gweld cydweithio, er enghraifft, rhwng beth bynnag y bydd awdurdod newydd Caerdydd a'r Fro yn ei alw ei hun ac awdurdodau eraill yn yr ardal, oherwydd eu bod yn economaidd yn rhan o'r un rhanbarth. Fodd bynnag, mae dadl dros ddweud, felly, y dylai'r cyngor fod yn gyngor Caerdydd fwyaf, fodd bynnag, fy marn i yw bod hynny'n mynd â phethau ychydig yn rhy bell o ran atebolrwydd, ond mae'n bwysig, er hynny, fod cyngorau yn dal i weithio gyda'i gilydd yn yr iwtopia y mae wedi'i disgrifio—cafodd 'Utopia', wrth gwrs, ei ysgrifennu gan Thomas More ac roedd yn cynnwys eitemau fel cael darlithoedd cyn brechwast. Gallaf sicrhau'r Aelod nad yw hynny'n rhan o gynlluniau comisiwn Williams.

O ran TGCh, mae'n gwneud y pwynt yn gwbl briodol bod gwahaniaethau rhwng contractau TGCh ac o ran systemau gweithredu. Mae hynny'n dangos pa mor chwerthinllyd yw hi ein bod yn y sefyllfa hon, lle mae cymaint o wahaniaethau'n bodoli. Dyna pam ei bod yn bwysig i'r gwahanol systemau gael eu cysoni dros gyfnod o amser. Mae'n bosibl y bydd problemau o ran TAW mewn rhai sefydliadau—efallai'n wir y gellir eu datrys—ond nid yw hynny'n berthnasol i nifer o sefydliadau a allai fod yn gallu uno eu systemau TGCh dros amser mewn ffordd synhwyrol. Nid yw dweud, 'Mae'n rhy anodd, yn fy marn i', yn rheswm dros beidio â gwneud yn siŵr ei fod yn digwydd, oherwydd bod cynifer o systemau gwahanol yn golygu dyblygu costau y gallai'r trethdalwr wneud heb dalu amdanynt.

Beth yw llwyddiant? Wel, gallwn ddweud bod llwyddiant yn ymwneud â sicrhau bod pobl yn uniaethu â'u hawdurdodau lleol a bod yr awdurdodau hynny yn cyflawni, ond mae'n debyg mai'r diffiniad sylfaenol o llwyddiant, i mi, fyddai, man lleiaf, nad oes gan awdurdodau lleol adrannau neu, yn wir, awdurdodau lleol cyfan sy'n methu, sef yr hyn yr ydym wedi'i weld dros y 19 mlynedd diwethaf ledled Cymru. Awdurdodau sy'n ddigon cadarn ac sydd â digon o fâs critigol i gyflwyno gwasanaethau heb weld adrannau'n chwalu o bryd i'w gilydd. Ni allwn siawns fod yn fodlon ar sefyllfa lle mae un awdurdod lleol yn methu'n gyfan gwbl, a lle'r ydym wedi gweld adran yn methu ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru bron ar ryw adeg ac, i bob pwrpas, yn gorfod cael eu cymryd drosodd. Nid yw honno'n ffordd gynaliadwy i redeg llywodraeth leol, a dyna pam y mae cynigion comisiwn Williams yn haeddu cefnogaeth.

16:21

Rhodri Glyn Thomas [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n sylweddoli, wrth inni ddod at ddiwedd y datganiad hwn, bod nifer o feysydd eisoes wedi cael sylw.

I realise, as we come to the end of this statement, that many areas have already been addressed.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

A gaf i ofyn tri cwestiwn cwbl benodol i chi, Brif Weinidog? Cyhoeddwyd ar y dechrau, wrth ichi gyflwyno adroddiad Williams i'r Cynulliad ddechrau'r flwyddyn, y byddech yn ymateb yn gyflym ac mewn ffordd glir iawn i argymhellion Williams. Rydym yn gweld bellach eich bod mewn sefyllfa lle na allwch wneud hynny. A yw'r ffaith bod Owen Smith, arweinydd y Blaid Lafur Gymreig yn San Steffan, wedi dweud mai mater i lywodraeth leol yw hyn, a bod Bob Wellington, arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi dweud nad oes unrhyw fath o drafodaethau manwl wedi bod â llywodraeth leol, yn dangos nad oes gennyh gefnogaeth Aelodau Seneddol na llywodraeth leol o ran y Blaid Lafur a bod hynny, felly, yn golygu na allwch wneud dim cyn diwedd y tymor hwn, a'ch bod chi wedi cael eich gorfodi i sefyllfa lle rydych yn awr yn sôn am gyfuno gwirfoddol?

Mae'r ail gwestiwn yn ymwneud â'r cyfuno gwirfoddol hwn. Sut yr ydych yn mynd i reoli hynny? Os oes cyfuniadau gwirfoddol sy'n datblygu'n groes i'r patrwm sydd yn Williams, a yw'r Llywodraeth yn mynd i gamu i mewn a gwrthwynebu'r cyfuno hwnnw? Os felly, beth yw ystyr 'cyfuno gwirfoddol'? Os yw awdurdodau lleol am gyfuno yn wirfoddol, a oes ganddynt hawl i wneud hynny, ynteu â chaniatâd Llywodraeth Cymru yn unig y gallant symud ymlaen â'r broses honno?

Yn olaf, a gaf ofyn cwestiwn i chi am 'scrutiny'? A fyddech yn cytuno, beth bynnag fo'r drefn ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru, Brif Weinidog, bod yn rhaid inni gael system o atebolrwydd? Yn benodol, pan fo adroddiadau gan Swyddfa Archwilio Cymru, mae'n eithriadol o bwysig bod awdurdodau lleol yn ymateb yn gadarnhaol iddynt, yn cyd-fynd ag unrhyw argymhellion sy'n cael eu cyflwyno gan Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn peidio â cheisio cyfiawnhau gweithgaredd sydd eisoes wedi cael ei gondemnio gan yr archwilydd. Felly, a fyddech yn ymuno â mi i gondemnio'r ffaith bod Cyngor Sir Caerfyrddin y prynhawn yma, unwaith eto, yn ceisio cyfiawnhau'r hyn a wnaed gyda'r indemniad rhag costau'r prif weithredwr mewn achos llys ac yn dweud, gan gamliwio'n gyfan gwbl lythyr a dderbyniwyd gan y Gweinidog Llywodraeth leol, fod Llywodraeth Cymru yn ei gefnogi yn hyn o beth? A wnewch yn gwbl glir y prynhawn yma, beth bynnag fo'r drefn o ran llywodraeth leol, fod herio adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru yn gwbl annerbyniol?

May I ask you three specific questions, First Minister? It was announced at the beginning, when you introduced the Williams report to the Assembly at the beginning of the year, that you would respond quickly and in a very clear way to the Williams recommendations. We see now that you are unable to do that. Does the fact that Owen Smith, leader of the Welsh Labour Party in Westminster, has said that this is a matter for local government, and that Bob Wellington, leader of the Welsh Local Government Association, has said that there have not been any kind of detailed discussions with local government, show that you do not have the support of Labour MPs or local government members, and that that means that you cannot do anything before the end of this term, and that you have been forced into a position where you are now talking about voluntary mergers?

The second question relates to these voluntary mergers. How are you going to manage that? If voluntary mergers develop that are contrary to the pattern in Williams, is the Government going to step in and object to those mergers? If so, what is the meaning of 'voluntary merger'? If local authorities want to merge voluntarily, can they do that, or can they only proceed with the permission of the Welsh Government?

Finally, may I ask you a question about scrutiny? Would you agree, whatever the regime for local authorities in Wales, First Minister, that we must have a system of accountability? Specifically, when there are reports by the Wales Audit Office, it is very important that local authorities respond positively to them, comply with any recommendations made by the Wales Audit Office, and do not try to justify activity that has already been condemned by the auditor. So, would you join me in condemning the fact that Carmarthenshire County Council this afternoon, once again, has tried to justify what was done with the indemnity for the chief executive's costs in court proceedings and in misrepresenting a letter received from the Minister for local government, that the Welsh Government supported it in this regard? Will you make it entirely clear this afternoon, whatever the regime for local government, that challenging WAO reports is entirely unacceptable?

16:24

Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Prif Weinidog / The First Minister

A gaf ddechrau gyda'r cwestiwn cyntaf? Bydd Owen Smith yn hapus iawn gyda'r dyrchafiad y mae'r Aelod wedi ei roi iddo yn arweinydd y Blaid Lafur Gymreig yn San Steffan. Mae cefnogaeth gref i'r newidiadau i lywodraeth leol yn San Steffan, ac mae lot fawr o drafod wedi bod yng Nghymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; nid yw'n wir i ddweud bod dim wedi digwydd. Rai misoedd yn ôl, dywedodd y gymdeithas wrthym y byddai'n barod i ystyried map gwahanol, ond nid ydym wedi cael y map hwnnw—nid ydym yn gwybod lle mae'r map hwnnw. Rydym, felly, yn dal i fod yn aros amdano. Mae ymgynghori wedi bod. O ran fy mhlaid i, bydd yr ymgynghoriad hwnnw yn gorffen ddiwedd mis Medi a bydd penderfyniad yn cael ei wneud bryd hynny.

May I start with the first question? Owen Smith will be very happy with the promotion that the Member gave him as the leader of the Welsh Labour Party in Westminster. There is strong support in Westminster for changes in local government, and there has been a great deal of discussion in the WLGA; it is not true to say that nothing has happened. Some months ago, the association told us that it would be willing to consider an alternative map, but we are yet to receive it—we do not know where that map is. Therefore, we are still waiting for it. There has been consultation. In my party, that consultation will conclude at the end of September and a decision will be made at that point.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

O ran ymuno'n wirfoddol—na; ni fydd yn bosibl cyd-ymuno'n wirfoddol heb ganiatâd Llywodraeth Cymru. Y system, yn fy marn i, fydd un lle y byddwn ni, fel Llywodraeth, yn dweud pa fath o fap y byddwn am symud ymlaen ag ef, ac yna bydd awdurdodau lleol, os ydynt eisiau, yn ymuno gyda'i gilydd wrth ystyried y map hwnnw. Nid rhyw fath o 'free for all' mohono; byddai'n rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru ynglŷn â hynny. Mae hynny'n bwysig dros ben, neu byddwn mewn sefyllfa lle y bydd rhai awdurdodau ar eu pennau eu hunain, ac nid yw hynny'n rhywbeth a fyddai'n iawn yn y dyfodol.

Mae 'scrutiny' yn bwysig dros ben, wrth gwrs. Mae hynny'n rhywbeth sydd wedi cael ei ddweud yn adroddiad Williams, sef bod gormod o deimlad bod cyrff cyhoeddus, lle mae beirniadaeth ohonynt, yn ceisio dweud nad eu bai nhw yw hynny. Mae Williams yn dweud ei bod yn bwysig dros ben bod cyrff cyhoeddus yn derbyn y feirniadaeth y maent yn ei chael gan yr archwilydd ac nid yn dweud mai rhyw fath o gamddealltwriaeth yw hynny ac mai nid eu bai nhw yw hynny. Mae hynny'n rhan bwysig o sicrhau'r ffordd ymlaen.

O ran sefyllfa sir Gâr, rwy'n credu fy mod yn iawn i ddweud ein bod ni, fel Llywodraeth, wedi dweud nad yw'n iawn rhoi unrhyw fath o indemniad ynglŷn â beth ddigwyddodd yn sir Gâr. Ar ddiwedd y dydd, mae hynny'n rhywbeth i Gyngor Sir Gâr, ac mae'n bwysig dros ben bod cyngorau'n sicrhau nad ydynt yn rhoi swyddogion mewn sefyllfa lle maent yn cael rhyw fath o indemniad ynglŷn ag achosion yn y llys. Rwy'n credu bod hynny wedi cael ei ddweud o'r blaen.

With regard to voluntary mergers—no; it will not be possible to merge voluntarily without the consent of the Welsh Government. The system, in my opinion, will be one where we, as Government, will propose what sort of map we would like to see, and then local authorities, if they wish, will merge in line with the recommendations on that map. It would not be some kind of free for all; they would need Welsh Government consent. That is very important, or we will be in a situation where some authorities would be left isolated, and that would not be fit for the future.

Scrutiny is extremely important, of course. That is something that has been said in the Williams report, namely that there was too much of a feeling that public bodies, where there was criticism of them, tried to say that it was not their fault. Williams is saying that it is extremely important that public bodies accept the criticism made of them by the auditor and do not say that it is some sort of misunderstanding and that it is not their fault. That is an important part of securing the way forward.

In terms of the situation in Carmarthenshire, I think that I am right in saying that we, as a Government, have said that it is not right to provide any sort of indemnity in terms of what happened in Carmarthenshire. At the end of the day, that is something for Carmarthenshire County Council, and it is exceptionally important that councils ensure that they do not place officers in a situation where they have some sort of indemnity in terms of cases in court. I think that that point has been made in the past.

16:27 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

Thank you, First Minister.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

16:27 **Datganiad: Y Papur Gwyn Llywodraeth Leol**

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Local Government and Government Business

The First Minister has just set out the Welsh Government's programme for public service reform in Wales. Our purpose is to ensure better services and better outcomes for the people of Wales. The programme encompasses our response to the recommendations of the Commission on Public Service Governance and Delivery, including providing clarity on our preferred option for future mergers of local government in Wales. It stresses that this must be seen in the wider context of our whole reform programme.

Today, I am also publishing 'Reforming Local Government'—a White Paper that sets out our ambitions for the future of local government in Wales. It provides more detail about how we will take forward the commission's findings in respect of local government.

Statement: The Local Government White Paper

Mae'r Prif Weinidog newydd amlinellu rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Ein pwrpas yw sicrhau gwell gwasanaethau a gwell canlyniadau i bobl Cymru. Mae'r rhaglen yn cwmpasu ein hymateb i argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, gan gynnwys nodi'n eglur pa ddewis yr ydym yn ei ffafrio ar gyfer o llywodraeth leol yn y dyfodol yng Nghymru. Mae'n pwysleisio bod yn rhaid ystyried hyn yng nghyd-destun ehangach ein rhaglen ddiwygio gyfan.

Heddiw, rwyf hefyd yn cyhoeddi 'Diwygio Llywodraeth Leol'—Papur Gwyn sy'n nodi ein huchelgeisiau ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'n rhoi mwy o fanylion am sut y byddwn yn datblygu canfyddiadau'r comisiwn mewn cysylltiad â llywodraeth leol.

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

However, it is far more than a response to the commission's recommendations; it sets out a vision for what local government in Wales in the twenty-first century should be. Reforming local government must mean reform in every sense of the word. The merger of local authorities is one element; however, it also means how local authorities make decisions, how they connect with their communities, how effectively they scrutinise themselves and how they seek to improve their own performance.

In terms of decision making, we can all think of recent examples where governance has failed or where decisions have been taken that are not based on effective engagement with communities or the workforce. I do not believe that that is good enough.

Apart from the introduction of the Cabinet system, the way in which local government operates has remained largely unchanged since Victorian times. We must have authorities that can respond quickly and effectively to the voices of their communities and that are truly open and transparent. I include in this how authorities co-produce solutions and services with communities themselves.

I have not forgotten about town and community councils. I have been listening carefully to what Members have been saying in committee and Plenary about their capability, capacity and lack of professionalism. I have also listened to Members' calls to ensure that communities have an effective say in bigger authorities—and, indeed, in our existing authorities—and this debate will be part of the reform programme.

I have already introduced a number of measures to promote better engagement with communities and greater openness and transparency. However, I want to do more and I will be consulting further on this in the autumn.

In terms of performance, local authorities should be working to improve all of the time, not just when the inspector is calling or the auditor is banging on the door. We have seen too much failure. We need more prevention and more focus on innovation and positive learning from best practice. Current service performance is too variable and, in some cases, services have failed. This, too, is not good enough.

I will, therefore, also be looking at the way in which authorities scrutinise themselves, how they improve themselves and the role of the public and elected members in that. I want authorities that drive themselves to improve, not ones where the Welsh Government has to intervene or constantly support improvement for it to happen. That is not what local democracy is about. I will also be consulting on this further in the autumn.

Fodd bynnag, mae'n llawer mwy nag ymateb i argymhellion y comisiwn; mae'n nodi gweledigaeth ar gyfer yr hyn y dylai llywodraeth leol yng Nghymru fod yn yr unfed ganrif ar hugain. Wrth ddiwygio llywodraeth leol, mae'n rhaid diwygio ym mhob ystyr y gair. Mae uno awdurdodau lleol yn un elfen; fodd bynnag, mae hefyd yn golygu sut y mae awdurdodau lleol yn gwneud penderfyniadau, sut y maent yn cysylltu â'u cymunedau, pa mor effeithiol y maent yn craffu arnynt eu hunain a sut y maent yn ceisio gwella eu perfformiad eu hunain.

O ran gwneud penderfyniadau, gallwn ni i gyd feddwl am enghreifftiau diweddar lle mae trefniadau llywodraethu wedi methu neu lle mae penderfyniadau wedi cael eu gwneud nad ydynt wedi'u seilio ar ymgysylltu effeithiol â chymunedau neu'r gweithlu. Nid wyf yn credu bod hynny'n ddigon da.

Ar wahân i gyflwyno'r system Cabinet, nid yw'r ffordd o weithredu llywodraeth leol wedi newid i raddau helaeth ers oes Fictoria. Mae'n rhaid inni gael awdurdodau sy'n gallu ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i leisiau eu cymunedau a bod yn wirioneddol agored a thryloyw. Rwy'n cynnwys yn hyn y ffordd y mae awdurdodau'n cyd-gynhyrchu atebion a gwasanaethau gyda'r cymunedau eu hunain.

Nid wyf wedi anghofio am gynghorau tref a chymuned. Rwyf wedi bod yn gwranddo'n ofalus ar yr hyn y mae Aelodau wedi bod yn ei ddweud yn y pwyllgor a'r Cyfarfod Llawn ynghylch eu gallu a'u capasiti, a'r ffaith nad ydynt yn ddigon proffesiynol. Rwyf hefyd wedi gwranddo ar y galwadau gan Aelodau i sicrhau bod gan gymunedau effeithiol mewn awdurdodau mwy—ac, yn wir, yn ein hawdurdodau presennol—a bydd y ddaidl hon yn rhan o'r rhaglen ddiwygio.

Rwyf eisoes wedi cyflwyno nifer o fesurau i hyrwyddo gwell ymgysylltiad â chymunedau ac agwedd fwy agored a thryloyw. Fodd bynnag, hoffwn wneud mwy a byddaf yn ymgynghori ymhellach ar hyn yn yr hydref.

O ran perfformiad, dylai awdurdodau lleol fod yn gweithio i wella bob amser, nid dim ond pan fo'r arolygydd yn galw neu'r archwiliwr yn curo ar y drws. Rydym wedi gweld gormod o fethiant. Mae angen mwy o waith ataliol a mwy o bwyslais ar arloesi a dysgu cadarnhaol o arfer gorau. Mae perfformiad gwasanaeth ar hyn o bryd yn rhy amrywiol ac, mewn rhai achosion, mae gwasanaethau wedi methu. Nid wyf hyn, chwaith, yn ddigon da.

Byddaf, felly, yn edrych hefyd ar y ffordd y mae awdurdodau'n craffu arnynt eu hunain, sut y maent yn eu gwella'u hunain, a rôl y cyhoedd ac aelodau etholedig yn hynny o beth. Rwyf am gael awdurdodau sy'n eu sbarduno eu hunain i wella, nid rhai lle mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ymyrryd neu roi cefnogaeth yn gyson er mwyn iddynt wella. Nid dyna yw democratiaeth leol. Byddaf hefyd yn ymgynghori rhagor ar hyn yn yr hydref.

My White Paper also sets out local government election timetables to 2022. It provides answers to the questions that many Members have been asking me. My White Paper will ask for views from local government, the wider public sector and the public on the areas I outlined. It will result in a Bill to provide the powers necessary to enable mergers to take place in a coherent and planned way, for introduction in January 2015.

The Bill will include power to enable the Welsh Ministers to merge local authorities that wish to do so voluntarily, ahead of the main merger and reform programme. It will include provisions to enable the Local Democracy and Boundary Commission for Wales to start considering and making recommendations in respect of proposed new authorities. It will have provision to allow the independent remuneration panel to make determinations about payments to be made to members of new local authorities and shadow authorities before they are formally established. The Bill will also include a power to ensure that authorities co-operate and work together for the specific purpose of jointly planning and preparing for merger, and provision to prevent activities by current or shadow authorities that might bring financial or reputational harm upon any new authority.

This is a Bill that will lay the ground for mergers, but which will not in itself affect the main merger and reform programme. That will be for after the Assembly elections in May 2016. Legislation to merge and reform authorities is not planned for introduction before May 2016. However, I intend in the autumn of 2015 to publish for consultation a draft Bill explaining how the mergers will work, including provisions to enable the wider reform that I have already outlined. This will include a draft regulatory impact assessment.

I will also include assessments of the impacts on equality, the Welsh language, rural issues, and children's rights. This will be an opportunity for all to comment on our proposals, informed by assessments of the likely impacts, costs and benefits. We must, however, consider the question of costs in the context of the financial pressures facing public services, the likely costs of inaction, and the improved public services for the people of Wales, which are the reason for this programme of reform.

Last week, local government was pressing for pace in these reforms. Now that we have a map and that I have announced my intention to legislate to make mergers a reality, my message to local government is: you can now set the pace yourselves. I look forward to a positive response and working with local government to further develop these proposals.

The Welsh Government believes in our public services. We value them, as I know the people of Wales do. We also value our public service workforce and we will be setting up a staff commission to ensure that those affected are supported through the reform process.

Mae fy Mhapur Gwyn hefyd yn nodi amserlenni etholiadau llywodraeth leol hyd at 2022. Mae'n rhoi atebion i'r cwestiynau y mae llawer o Aelodau wedi bod yn eu gofyn imi. Bydd fy Mhapur Gwyn yn gofyn am sylwadau gan lywodraeth leol, y sector cyhoeddus ehangach a'r cyhoedd ar y meysydd a amlinellais. Bydd yn arwain at Fil, i'w gyflwyno ym mis Ionawr 2015, i ddarparu'r pwerau angenrheidiol er mwyn gallu uno awdurdodau mewn ffordd gydlynol, wedi'i chynllunio.

Bydd y Bil yn cynnwys pŵer i alluogi Gweinidogion Cymru i uno awdurdodau lleol sy'n dymuno gwneud hynny'n wirfoddol, cyn y brif raglen uno a diwygio. Bydd yn cynnwys darpariaethau i alluogi Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i ddechrau ystyried a gwneud argymhellion mewn cysylltiad ag awdurdodau newydd arfaethedig. Bydd yn cynnwys darpariaeth i ganiatáu i'r panel annibynnol ar gydnabyddiaeth ariannol wneud penderfyniadau ynghylch taliadau i i aelodau awdurdodau lleol newydd ac awdurdodau cysgodol cyn iddynt gael eu sefydlu'n ffurfiol. Bydd y Bil hefyd yn cynnwys pŵer i sicrhau bod awdurdodau'n cydweithredu ac yn gweithio gyda'i gilydd at y diben penodol o gynllunio a pharatoi ar y cyd ar gyfer uno, a darpariaeth i atal gweithgareddau gan awdurdodau presennol neu gysgodol a allai ddod â niwed ariannol neu niwed i enw da unrhyw awdurdod newydd.

Mae hwn yn Fil a fydd yn braenaru'r tir ar gyfer uno, ond na fydd ynddo'i hun yn effeithio ar y brif raglen uno a diwygio. Bydd hynny'n digwydd ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016. Nid oes cynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth i uno a diwygio awdurdodau cyn mis Mai 2016. Fodd bynnag, rwy'n bwriadu cyhoeddi Bil drafft ar gyfer ymgynghori yn yr hydref 2015 yn egluro sut y bydd y broses uno'n gweithio, gan gynnwys darpariaethau i alluogi'r broses ddiwygio ehangach yr wyf eisoes wedi'i hamlinellu. Bydd hyn yn cynnwys asesiad effaith rheoleiddiol drafft.

Byddaf hefyd yn cynnwys asesiadau o effeithiau ar gydraddoldeb, yr iaith Gymraeg, materion gwledig, a hawliau plant. Bydd hwn yn gyfle i bawb roi sylwadau ar ein cynigion, yn seiliedig ar asesiadau o effeithiau, costau a buddion tebygol. Rhaid inni, fodd bynnag, ystyried y costau yng nghyd-destun y pwysau ariannol sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus, y costau tebygol o beidio â gweithredu, a'r gwasanaethau cyhoeddus gwell i bobl Cymru, sef y rheswm dros y rhaglen ddiwygio hon.

Yr wythnos diwethaf, roedd llywodraeth leol yn pwysu am gyflwyno'r diwygiadau hyn yn gyflym. Nawr bod gennym fap a fy mod wedi cyhoeddi fy mwriad i ddeddfu i wneud uno yn realiti, fy neges i lywodraeth leol yw: gallwch nawr bennu'r cyflymder eich hunain. Edrychaf ymlaen at ymateb cadarnhaol ac at weithio gyda llywodraeth leol i ddatblygu'r cynigion hyn ymhellach.

Mae Llywodraeth Cymru yn credu yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn eu gwerthfawrogi, a gwn fod pobl Cymru yn eu gwerthfawrogi. Rydym hefyd yn gwerthfawrogi gweithlu ein gwasanaethau cyhoeddus a byddwn yn sefydlu comisiwn staff er mwyn sicrhau bod y rhai yr effeithir arnynt yn cael eu cefnogi drwy'r broses ddiwygio.

The White Paper that I have issued today sets out a vision for the future of local government in Wales, which is one of strong performance, strong democracy, good governance, meaningful engagement with the people of Wales and of delivering for our communities.

As the First Minister said last week, there will be matters on which we will have to work together pragmatically to resolve. We all agree that change must happen and that the status quo is not an option. This is the start of the conversation about how we manage and deliver the change that is needed, including a discussion on the devolving of powers to new local authorities.

I now want to hear the views of others and I encourage all interested parties to respond over the next three months.

Mae'r Papur Gwyn yr wyf wedi'i gyhoeddi heddiw yn gosod gweledigaeth ar gyfer dyfodol llywodraeth leol yng Nghymru, sef un o berfformiad cryf, democratiaeth gref, llywodraethu da, ymgysylltu ystyrlon â phobl Cymru ac o gyflawni ar gyfer ein cymunedau.

Fel y dywedodd y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf, bydd yn rhaid inni weithio gyda'n gilydd yn bragmatig i ddatrys rhai materion. Rydym oll yn cytuno bod yn rhaid i newid ddigwydd ac nad yw'r status quo yn opsiwn. Dyma gychwyn y sgwrs ynglŷn â sut yr ydym yn rheoli a chyflwyno'r newid sydd ei angen, gan gynnwys trafodaeth ar ddatganoli pwerau i awdurdodau lleol newydd.

Rwyf yn awr yn awyddus i glywed barn pobl eraill ac rwy'n annog pawb sydd â diddordeb i ymateb dros y tri mis nesaf.

16:34

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

You told the WLGA conference on 19 June that you wanted local government to be the architect of change as reform and mergers got under way, but the WLGA leader and Torfaen council leader, Councillor Bob Wellington, said that local government had expected to be involved in the debate but that the dialogue had not materialised. Councillor Dyfed Edwards, leader of Gwynedd Council, said that the Minister had taken a stand-off approach and that there was a grand canyon between them, local government, and the Welsh Government with regard to the response to the Williams commission report, and clearly, in this context, we are talking about the local government element of that.

Councillor Wellington added that he acknowledged that local government must change, but the reform process should be based on a true consideration of the functions and role that local councils should fulfil, rather than the structures that are required to support this. How, therefore, do you respond to the statement made by the Auditor General for Wales at that conference that the Williams commission report was useful, but lacked a coherent vision, and that the debate around form following function had not been had in Wales?

Last weekend, I met and discussed these issues with councillors of all parties, very much including your own, in north Wales. They were all very concerned and were all opposed to the proposals as they are currently understood. How would you respond to concerns raised with me by council leaders and chief executives in our region—and, admittedly, I have not discussed it outside our region thus far—that they have no interest in being a part of a voluntary merger, because that would take a lot of resources for little gain, unless they were sure that this was going to be the outcome required of them ultimately? Further to that, how do you respond to their comment that, in terms of the service failure that you referred to—particularly in education, but you also referred to Ynys Môn and other examples—the smaller authorities have been able to turn themselves around far more quickly and efficiently than the larger ones, where the problems, particularly in education, have become most deeply rooted?

Dywedasoch wrth gynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 19 Mehefin eich bod am i lywodraeth leol fod yn bensaer y newid wrth i brosesau diwygio ac uno ddechrau, ond dywedodd arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac arweinydd cyngor Torfaen, y Cynghorydd Bob Wellington, bod llywodraeth leol wedi disgwyl bod yn rhan o'r ddadl, ond nad oedd y ddeialog wedi digwydd. Dywedodd y Cynghorydd Dyfed Edwards, arweinydd Cyngor Gwynedd, fod agwedd y Gweinidog wedi bod yn ddigroeso a bod ceunant enfawr rhyngddynt hwy, llywodraeth leol, a Llywodraeth Cymru o safbwynt yr ymateb i adroddiad comisiwn Williams, ac yn amlwg, yn y cyd-destun hwn, rydym yn sôn am elfen llywodraeth leol o hynny.

Ychwanegodd y Cynghorydd Wellington ei fod yn cydnabod bod yn rhaid i lywodraeth leol newid, ond y dylai'r broses ddiwygio fod yn seiliedig ar ystyriaeth wirioneddol o'r swyddogaethau a'r rôl y dylai cyngorau lleol eu cyflawni, yn hytrach na'r strwythurau sydd eu hangen i gefnogi hyn. Sut, felly, rydych chi'n ymateb i'r datganiad a wnaed gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gynhadledd honno bod adroddiad comisiwn Williams yn ddefnyddiol, ond nad oedd iddo weledigaeth gydylynol, ac nad oedd y ddadl ynghylch ffurf yn dilyn swyddogaeth wedi'i chynnal yng Nghymru?

Y penwythnos diwethaf, cyfarfûm i drafod y materion hyn gyda chynghorwyr o bob plaid, gan gynnwys eich plaid eich hun, yng ngogledd Cymru. Roeddent i gyd yn bryderus iawn ac i gyd yn gwrthwynebu'r cynigion fel y maent yn cael eu deall ar hyn o bryd. Sut y byddech yn ymateb i bryderon a godwyd gyda mi gan arweinwyr a phrif weithredwyr cyngorau yn ein rhanbarth—a rhaid cyfaddef, nid wyf wedi trafod y tu allan i'n rhanbarth ni hyd yn hyn—nad oes ganddynt diddordeb mewn bod yn rhan o broses uno wirfoddol, gan y byddai hynny'n gofyn am lawer o adnoddau heb fawr o fudd, oni bai eu bod yn sicr mai dyma fyddai'r canlyniad a ddisgwyld ganddynt yn y pen draw? Yn ogystal â hynny, sut yr ydych yn ymateb i'w sylw, o ran y methiant mewn gwasanaethau yr ydych yn cyfeirio ato—yn enwedig mewn addysg, ond rydych wedi cyfeirio hefyd at Ynys Môn ac enghreifftiau eraill—bod awdurdodau llai wedi gallu gwella'n gyflymach ac yn fwy effeithlon na'r rhai mwy, lle mae'r problemau, yn enwedig mewn addysg, wedi ymwreiddio'n fwyaf dwfn?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

How do you respond to the concern from councils regarding your tripling of the indicative cuts to them, on 24 June, in the letter you sent them? Although you said that you appreciated the importance of early planning, in fact, you contradicted yourself because you had previously indicated in December a cut of only one third of that amount. The impact of that cut will, they say, mean more and deeper service restrictions at a time when you have indicated, in paragraph 120 of the White Paper, that this merger will impose significant additional upfront costs on local authorities. This comes before the WLGA's report on cost evaluation—an independent report—has been completed and before the Welsh Government's own analysis of costs, which the First Minister referred to last week, is concluded and published, and certainly before what the auditor general told the committee was required, which was a proper cost-benefit analysis before local government would wish to collaborate or merge.

You referred positively to co-producing services and solutions with communities themselves. I note that the First Minister's statement earlier referred to co-production and co-design. To what extent do you realise that that means a complete revolution in the way in which things are done, regardless of the size or structure of local authorities? Co-design is not a concept in abstract, or in the ether; it means breaking down the barriers and enabling services to be delivered and designed with, and by, for example, hospices, relationship charities, bereavement counsellors, charities tackling fuel poverty and social exclusion, social isolation and much more, rather than hanging on to those services necessarily in-house.

In terms of town and community councils, the presumption seems to be that size is the solution, but surely the issue is how we incentivise councillors with the right expertise to stand. Once again, how do you envisage that within a structure that will allow councils—community and town councils—to correlate their borders with the actual local communities that they represent, rather than some imposed model to fit a politically designed system?

You referred to the way in which authorities scrutinise themselves, the role of elected members and the public in that. How will we ensure, working with the new ombudsman—and I understand that the will is there—to ensure that members are not referred to the ombudsman when they challenge officers in a vibrant, but not offensive or threatening way?

Sut yr ydych yn ymateb i'r pryder gan gynghorau eich bod, yn y llythyr a anfonwyd atynt ar 24 Mehefin, wedi treblu'r toriadau dangosol iddynt? Er ichi ddweud eich bod yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cynllunio'n gynnar, mewn gwirionedd, roeddech yn eich gwrth-ddweud eich hun oherwydd eich bod wedi nodi ym mis Rhagfyr mai dim ond un rhan o dair o'r swm hwnnw fyddai'r toriad. Maent yn dweud y bydd y toriad yn golygu cyfyngiadau mwy a dyfnach ar wasanaethau ar adeg pan rydych wedi nodi, ym mharagraff 120 o'r Papur Gwyn, y bydd yr uno hwn yn gosod costau cychwynnol ychwanegol sylweddol ar awdurdodau lleol. Daw hyn cyn cwblhau adroddiad CLILC ar werthusiad o'r gost—adroddiad annibynnol—a chyn y bydd dadansoddiad Llywodraeth Cymru ei hun o'r costau, y cyfeiriodd y Prif Weinidog ato'r wythnos diwethaf, wedi cael ei gwblhau a'i gyhoeddi, ac yn sicr cyn yr hyn y dywedodd yr archwilydd cyffredinol wrth y pwyllgor yr oedd ei angen, sef dadansoddiad cost a budd priodol cyn y byddai llywodraeth leol yn dymuno cydweithio neu uno.

Cyfeiriasoch yn gadarnhaol at gyd-gynhyrchu gwasanaethau ac atebion gyda chymunedau eu hunain. Nodaf fod datganiad y Prif Weinidog yn gynharach yn cyfeirio at gyd-gynhyrchu a chyd-gynllunio. I ba raddau yr ydych chi'n sylweddoli bod hynny'n golygu chwyldro llwyr yn y ffordd y mae pethau'n cael eu gwneud, waeth beth fo maint neu strwythur awdurdodau lleol? Nid cysyniad haniaethol neu rywbeth yn y cymylau mo cyd-gynllunio; mae'n golygu chwalu'r rhwystrau a sicrhau bod modd cyflwyno a chynllunio gwasanaethau gyda, a thrwy, er enghraifft, hosbisau, elusennau perthynas, cwmselwyr profedigaeth, elusennau sy'n mynd i'r afael â thlodi tanwydd ac allgáu cymdeithasol, ynysu cymdeithasol a llawer mwy, yn hytrach na chadw'r gwasanaethau hynny'n fewnol o reidrwydd.

O ran cynghorau tref a chymuned, mae'n ymddangos mai'r rhagdybiaeth yw mai maint yw'r ateb, ond onid y cwestiwn yw sut yr ydym yn cymhell cynghorwyr sydd â'r arbenigedd cywir i sefyll? Unwaith eto, sut rydych chi'n rhagweld hynny o fewn strwythur a fydd yn caniatáu i gynghorau—cynghorau cymuned a thref—fod â ffiniau sy'n cyfateb i'r cymunedau lleol gwirioneddol y maent yn eu cynrychioli, yn hytrach na rhyw fodel a osodwyd i gyd-fynd â system a gynlluniwyd yn wleidyddol?

Rydych yn cyfeirio at y ffordd y mae awdurdodau'n craffu arnynt eu hunain, rôl aelodau etholedig a'r cyhoedd yn hynny. Sut y byddwn yn sicrhau, gan weithio gyda'r ombwdsmon newydd—ac rwy'n deall bod yr ewyllys yno—nad yw aelodau'n cael eu cyfeirio at yr ombwdsmon pan fyddant yn herio swyddogion mewn ffordd fywiog, ond nid sarhaus neu fygythiol?

You referred to powers to enable Welsh Ministers to merge local authorities that wish to do so voluntarily. What if they do that, but the proposed merger is not between the authorities that match your model, or, in the meantime, they merge departments in different authorities that do not fit your proposed model? I quote the example of Flintshire and Denbighshire announcing a joint procurement unit that went live last week to purchase goods and services. They are two authorities that wish to co-operate on many areas, but do not fit the understood model, which would require different mergers with different authorities.

I have two final questions and the first is regarding deficits. There are several legal safeguards regarding local authority expenditure, as Blaenau Gwent and Caerphilly discovered last year when they were going to merge social services, but found that this would have placed Caerphilly at risk of cross-subsidising services in another authority, which would have been illegal, and it prevented the merger. A similar situation, as you know, happened in Powys where there were proposals to merge health and social services. Therefore, how is the Welsh Government considering the law relating to mergers, where it would be unlawful to merge with risk of financial deficit, and voluntary mergers would not be an option unless the Welsh Government bought out any resulting deficits?

Finally, at the WLGA conference on 19 June you announced that the White Paper would come shortly—and you have announced that today—and that local elections would take place as expected for local authorities in 2017, but that you would legislate to defer elections until 2018 for those authorities willing to voluntarily merge before then. Could you therefore explain a bit more on learning the lessons from the 1996 reorganisation and the costs associated with it—some of which have still not been recouped; on the costs discovered by the Social Justice and Regeneration committee relating to the cancelled police merger some years ago; and how you would administer that transfer with shadow authorities presumably in place?

Fe wnaethoch gyfeirio at bwerau i alluogi Gweinidogion Cymru i uno awdurdodau lleol sy'n dymuno gwneud hynny'n wirfoddol. Beth os ydynt yn gwneud hynny, ond nid mewn modd sy'n cyfateb i'ch model, neu, yn y cyfamser, eu bod yn uno adrannau mewn gwahanol awdurdodau nad ydynt yn gweddu i'ch model arfaethedig? Dyfynnaf yr enghraifft o Sir y Fflint a Sir Ddinbych sydd wedi cyhoeddi uned gaffael ar y cyd a aeth yn fyw'r wythnos diwethaf i brynu nwyddau a gwasanaethau. Dyma ddau awdurdod sy'n dymuno cydweithio ar nifer o feysydd, ond nid ydynt yn cyd-fynd â'r model dealledig, a fyddai'n gofyn am wahanol gyfuniadau gyda gwahanol awdurdodau.

Mae gennyf ddau gwestiwn terfynol ac mae'r cyntaf yn ymwneud â diffygion. Ceir nifer o fesurau diogelu cyfreithiol o ran gwariant awdurdodau lleol, fel y gwnaeth Blaenau Gwent a Chaerffili ddarganfod y llynedd pan oeddent yn bwriadu uno gwasanaethau cymdeithasol, cyn gweld y byddai hyn wedi rhoi Caerffili mewn perygl o ddarparu croes-gymhorthdal i wasanaethau mewn awdurdod arall. Byddai hynny wedi bod yn anghyfreithlon, a gwnaeth atal yr uno. Digwyddodd sefyllfa debyg, fel y gwyddoch, ym Mhowys, lle y cafwyd cynigion i uno iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Felly, sut y mae Llywodraeth Cymru yn ystyried y gyfraith sy'n ymwneud ag uno, lle y byddai'n anghyfreithlon i uno gyda risg o ddiffyg ariannol, a lle na fyddai uno gwirfoddol yn opsiwn oni bai bod Llywodraeth Cymru'n prynu unrhyw ddiffygion o ganlyniad?

Yn olaf, yng nghynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar 19 Mehefin cyhoeddwyd gennyf y byddai'r Papur Gwyn yn dod yn fuan—ac rydych wedi cyhoeddi hynny heddiw—ac y byddai etholiadau lleol yn cael eu cynnal yn ôl y disgwyl ar gyfer awdurdodau lleol yn 2017, ond y byddech yn deddfu i ohirio etholiadau tan 2018 ar gyfer yr awdurdodau hynny sy'n barod i uno'n wirfoddol cyn hynny. Felly, a allech esbonio ychydig yn fwy o ran dysgu gwersi yn sgil ad-drefnu 1996 a'r costau cysylltiedig—mae rhai ohonynt yn dal heb eu hadennill; o ran y costau a ddarganfuwyd gan y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio yn ymwneud â'r broses o uno heddluoedd a gafodd ei chanslo rai blynyddoedd yn ôl; a sut y byddech yn gweinyddu'r trosglwyddiad hwnnw gydag awdurdodau cysgodol wedi'u sefydlu'n ôl pob tebyg?

16:41

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you. Mark Isherwood asks many questions that I will endeavour to respond to. First, the WLGA has been involved. By your own admission, you have spoken to a couple of leaders and chief executives; I have spoken to many of them, as has the First Minister. You will have heard the First Minister say in his previous statement that he asked the WLGA to come forward with proposals and we have not received those. However, engagement between the First Minister, me and the WLGA has happened.

Diolch. Mae Mark Isherwood yn gofyn llawer o gwestiynau a byddaf yn ymdrechu i ymateb iddynt. Yn gyntaf, mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi cael ei chynnwys. Rydych yn cyfaddef eich hun eich bod wedi siarad ag un neu ddau o arweinwyr a phrif weithredwyr; rwyf i a'r Prif Weinidog wedi siarad â llawer ohonynt. Byddwch wedi clywed y Prif Weinidog yn dweud yn ei ddatganiad blaenorol ei fod wedi gofyn i'r Gymdeithas gyflwyno cynigion ac nid ydym wedi'u derbyn. Fodd bynnag, mae ymgysylltu wedi digwydd rhyngof i, y Prif Weinidog a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In response on the letter I sent to local authorities about tripling the indicative cuts, it was an indicative figure; by its very nature, 'indicative' means what it says. Local authorities have been pushing me to give them as much information as possible, and I have tried to assist them in doing that. However, I am restricted in doing so by the way that we have the budget cycle in the Assembly. However, I have written a letter to them, which you are aware of, saying that they should be looking at cuts of up to 4.5%. Neil Moore of the Vale of Glamorgan Council has been quoted here today. Neil Moore looked at me in the meeting and said, 'Well, of course, we've been looking at those sorts of cuts; the indicative figure you gave us means that we have to plan for other scenarios'. So, I think that many leaders had been looking at this proactively before I sent my letter and before the discussion that we had at the finance sub-group last month.

You asked about costs. I think that we need to put the cost of reform in context. If you think about how much local government spends, it spends about £8 billion a year, and other public services spend more on top of that. It will cost money to reform, but it is not about that—it is about making sure that the public services we have in Wales are stronger and more sustainable in the future. The WLGA suggested that merger costs could be between £200 million and £400 million, but that there would be recurrent annual savings of between £92 million and £100 million. That suggests a payback period of between two and four years. As the First Minister said, we will be working to assess and refine these estimates, but in the current financial position, I have told local government that there cannot be a blank cheque to fund the costs of transition, but we need to have our assessments in relation to that.

You talk about co-production. It is not a completely new way of working; I think that it builds on collaboration, and we are looking at that very closely.

Mewn ymateb o ran y llythyr a anfonais at awdurdodau lleol ynghylch treblu'r toriadau dangosol, roedd yn ffigwr dangosol; yn ei hanfod, mae 'dangosol' yn golygu yr hyn y mae'n ei ddweud. Mae awdurdodau lleol wedi bod yn gwthio imi roi cymaint o wybodaeth iddynt â phosibl, ac rwyf wedi ceisio eu cynorthwyo i wneud hynny. Fodd bynnag, mae cylch y gyllideb yn y Cynulliad yn cyfyngu arnaf yn hynny o beth. Fodd bynnag, rwyf wedi ysgrifennu llythyr atynt, yr ydych yn ymwybodol ohono, gan ddweud y dylent fod yn ystyried toriadau o hyd at 4.5%. Mae Neil Moore o Gyngor Bro Morgannwg wedi cael ei ddyfynnu yma heddiw. Edrychodd Neil Moore arnaf yn y cyfarfod, a dweud, 'Wel, wrth gwrs, rydym wedi bod yn edrych ar y mathau hynny o doriadau; mae'r ffigur dangosol a gawsom gennych chi yn golygu bod yn rhaid i ni gynllunio ar gyfer senarios eraill'. Felly, rwy'n credu bod llawer o arweinwyr wedi bod yn edrych ar hyn yn rhagweithiol cyn imi anfon fy llythyr a chyn y drafodaeth a gawsom yn yr is-grŵp cyllid y mis diwethaf.

Fe wnaethoch holi ynglŷn â chostau. Credaf fod angen inni roi costau diwygio yn eu cyd-destun. Os ydych chi'n meddwl faint y mae llywodraeth leol yn ei wario, mae'n gwario oddeutu £8 biliwn y flwyddyn, ac mae gwasanaethau cyhoeddus eraill yn gwario mwy ar ben hynny. Bydd yn costio arian i ddiwygio, ond nid dyna'r pwynt—mae'n ymwneud â sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus sydd gennym yng Nghymru yn gryfach ac yn fwy cynaliadwy yn y dyfodol. Awgrymodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y gallai costau uno fod rhwng £200 miliwn a £400 miliwn, ond y byddai rhwng £92 miliwn a £100 miliwn yn cael ei arbed bob blwyddyn. Mae hynny'n awgrymu cyfnod ad-dalu o rhwng dwy a phedair blynedd. Fel y dywedodd y Prif Weinidog, byddwn yn gweithio i asesu a mireinio'r amcangyfrifon hyn, ond yn y sefyllfa ariannol bresennol, rwyf wedi dweud wrth lywodraethau lleol na ellir cael sicet wag i ariannu costau pontio, ond mae angen inni gynnal ein hasesiadau o safbwynt hynny.

Rydych yn sôn am gyd-gynhyrchu. Nid yw'n ffordd gwbl newydd o weithio; rwy'n meddwl ei fod yn ddatblygiad o gydweithio, ac rydym yn edrych ar hynny'n ofalus iawn.

You ask about town and community councils. I am looking at town and community councils, which were not part of the Williams commission's remit, as you said. However, I agree with the commission's report that reform and the need for improvement are out there. I met yesterday with One Voice Wales, which very much agrees with me. You will have heard Mick Antoniw in his question to the First Minister talk about a report that town and community councillors from his area gave me yesterday, and I will be reading that report with interest. At the current time, I am considering the role of town and community councils and I will bring forward proposals for the future of community governance in the autumn. I think that there are some key facts around town and community councils that we all need to think about. There are 930 seats vacant. That is 12% of the total. There are more than 8,000 community councillors in Wales, one for every 203 electors. Another thing that I think is very interesting and that I have asked to have looked at is how many county councillors are also community councillors, and in five local authorities that have responded to me already 70% or more of county councillors are also community councillors, so I think that there is some work that we need to do around that.

You talk about scrutiny and I think that scrutiny is so important. You will be aware of the scrutiny development programme we have. I have just put in an extra £300,000 in this year to look at scrutiny and how we can help elected members to scrutinise. I think it is very important that they scrutinise for themselves and that they also scrutinise on behalf of the people they represent. We have the map, and again you will have heard the First Minister say that, if proposals come forward, we will look at those that are different from the current map, but there has to be a worked up alternative to that. In relation to deficits, that is an important point and it is something we need to look at. You mentioned Powys, and again you will be aware of the previous proposals to merge Powys Teaching Local Health Board and Powys County Council. That is obviously another recommendation from the Williams commission, and the Minister for Health and Social Services and I are working on that together.

You asked about the timescales for the elections. The authorities that volunteer to merge early will not have elections in 2017, which is when the next local government elections will be. There will be elections to the new authorities in 2018. The remaining authorities will have elections to the current authorities as they stand now in 2017. Authorities that are merged by a Bill following the Assembly elections will have the first elections to the new authorities in 2019, and then all authorities would have elections in 2020.

Rydych yn gofyn am gynghorau tref a chymuned. Rwy'n edrych ar gynghorau tref a chymuned, nad oeddent yn rhan o gylch gwaith comisiwn Williams, fel y dywedwch. Fodd bynnag, rwy'n cytuno ag adroddiad y comisiwn fod diwygio a'r angen am welliant yn bodoli. Cefais gyfarfod ddoe gydag Un Llais Cymru, a oedd yn cytuno â mi i raddau helaeth iawn. Byddwch wedi clywed Mick Antoniw yn ei gwestiwn i'r Prif Weinidog yn siarad am adroddiad a dderbyniais ddoe gan gynghorwyr tref a chymuned o'i ardal, a byddaf yn darllen yr adroddiad hwnnw â diddordeb. Ar hyn o bryd, rwy'n ystyried rôl cynghorau tref a chymuned a byddaf yn cyflwyno cynigion ar gyfer dyfodol llywodraeth gymunedol yn yr hydref. Rwy'n meddwl fod yna rhai ffeithiau allweddol yn ymwneud â chynghorau tref a chymuned y mae angen inni i gyd i feddwl amdanynt. Mae 930 o seddi gwag. Mae hynny'n 12% o'r cyfanswm. Mae mwy nag 8,000 o gynghorwyr cymuned yng Nghymru, un ar gyfer pob 203 o etholwyr. Peth arall sy'n ddiddorol iawn yn fy marn i—ac rwyf wedi gofyn am gael ei ystyried—yw faint o gynghorwyr sir sydd hefyd yn gynghorwyr cymuned, ac mewn pum awdurdod lleol sydd wedi ymateb imi eisoes mae 70% neu fwy o'r cynghorwyr sir hefyd yn gynghorwyr cymuned, felly rwy'n credu bod rhywfaint o waith y mae angen inni ei wneud ynglŷn â hynny.

Rydych yn sôn am graffu ac rwy'n credu bod craffu mor bwysig. Byddwch yn ymwybodol o'r rhaglen ddatblygu sydd gennym ym maes craffu. Rwyf newydd roi £300,000 yn ychwanegol yn ystod y flwyddyn hon i edrych ar graffu a sut y gallwn helpu aelodau etholedig i graffu. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn eu bod yn craffu drostynt eu hunain a'u bod hefyd yn craffu ar ran y bobl y maent yn eu cynrychioli. Mae'r map gennym, ac unwaith eto byddwch wedi clywed y Prif Weinidog yn dweud y byddwn yn edrych ar gynigion sy'n wahanol i'r map presennol, os daw rhai gerbron, ond mae'n rhaid cael dewis amgen datblygedig. O safbwynt diffygion, mae hwnnw'n bwynt pwysig, ac mae'n rhywbeth y mae angen inni edrych arno. Roeddech yn sôn am Bowys, ac unwaith eto, byddwch yn ymwybodol o'r cynigion blaenorol i uno Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys a Chyngor Sir Powys. Mae hwnnw'n amlwg yn argymhelliad arall gan gomisiwn Williams, ac mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau yn gweithio ar hynny gyda'n gilydd.

Roeddech yn holi am yr amserlenni ar gyfer yr etholiadau. Ni fydd yr awdurdodau sy'n gwirfoddoli i uno'n gynnar yn cynnal etholiadau yn 2017, sef dyddiad yr etholiadau llywodraeth leol nesaf. Bydd etholiadau i'r awdurdodau newydd yn 2018. Bydd yr awdurdodau sy'n weddill yn cynnal etholiadau ar gyfer yr awdurdodau presennol fel y maent yn sefyll yn awr yn 2017. Bydd awdurdodau sy'n cael eu huno gan Fil yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn cael yr etholiadau cyntaf i'r awdurdodau newydd yn 2019, ac yna byddai'r holl awdurdodau yn cael etholiadau yn 2020.

Diolch yn fawr iawn, Weinidog, am y datganiad. Rydym yn gwerthfawrogi hefyd y datganiad gan y Prif Weinidog yn gynharach, er mae'n rhaid i fi gyfaddef bod y sefyllfa yn parhau i fod yn aneglur, felly gadewch i mi ofyn rhai cwestiynau i chi i weld a allwn gael rhyw ychydig o eglurder ynglŷn â'r sefyllfa. Yn gyntaf oll, ar y berthynas gyda Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, mae arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi bod yn ddigon clir nad oes trafodaeth o werth wedi bod. Yr ydych chi a'r Prif Weinidog wedi dweud bod trafodaethau a'ch bod yn dal i negodi. Fodd bynnag, eto i gyd, rydych wedi cyfaddef nad oes ymateb wedi dod oddi wrth Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Hynny yw, sut y gallech ddweud bod dealltwriaeth gyda chi a chyda Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru pan nad yw wedi ymateb? Felly, nid ydych yn gwybod os yw'n cytuno â chi, a yw'n cwestiynau eich penderfyniadau chi, neu a yw'n barod i gydweithredu gyda chi. A allech egluro'r berthynas honno i ni, os gwelwch yn dda, a sut ydych yn mynd i symud ymlaen gyda chydweithrediad neu heb gydweithrediad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru? Fe adawn Owen Smith allan ohoni; mae hynny yn creu mwy o ddryswch o ran y darlun.

Yr ail sefyllfa sydd yn dal i beri dryswch i fi yw sut yn union yr ydych yn bwriadau, fel y dywedodd y Prif Weinidog, symud ymlaen i aildrefnu'r modd y mae gwasanaethau yn cael eu cyflwyno mewn ffordd cynhwysfawr—yr ydych yn cyfeirio at iechyd ac at wasanaethau eraill—er eich bod yn canolbwyntio ar fap Williams sydd yn ymwneud â ad-drefnu llywodraeth leol, ag eithrio Powys. Sut ydych yn mynd i sicrhau bod y gwasanaethau eraill hyn yn rhan o batrwm yr ad-drefnu a bod cysondeb yn y ffordd yr ydym yn symud ymlaen yn y fan honno? Rydych yn awgrymu yn awr y gellid cael cyfuniadau gwirfoddol cyn 2016, os mai dyna yw dymuniad llywodraeth leol, ond bod yn rhaid i'r cyfuniadau gwirfoddol hyn fod yn gyson â'r map y mae Williams wedi'i gyflwyno i chi. Y gwir amdani, Weinidog, yw bod cytundebau eisoes yn bodoli rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru sy'n wahanol iawn i'r map y mae Williams wedi ei gyflwyno i ni.

A ydych chi yn awr yn dweud wrth llywodraeth leol yng Nghymru, 'Mae'n rhaid i chi atal y cytundebau hynny ac aildrefnu ar sail map Williams' neu a ydych chi'n mynd i ganiatáu i'r cytundebau hynny sy'n bodoli i barhau tan 2016 a thu hwnt? Os felly, sut ydych chi'n mynd i sicrhau bod cyfuno'n digwydd wedyn pan fydd cytundebau yma a thraw a fydd yn hollol wahanol i'r map y mae Williams wedi ei gyflwyno? Ai dyna'r map, o hyn ymlaen, i llywodraeth leol yng Nghymru, ac a oes rhaid i bob cytundeb sy'n cael ei wneud rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru fod ar sail y map hwnnw?

Yn olaf, a gaf gyfeirio at y mater o 'scrutiny'?

Thank you, Minister, for the statement. We also appreciate the earlier statement by the First Minister, but I have to say that the situation continues to be unclear, so I want to ask a few questions to see whether we can have some clarity around the situation. First of all, on the relationship with the Welsh Local Government Association, the WLGA leader has been quite clear that there have been no meaningful discussions. You and the First Minister have said that there have been discussions and that you are still negotiating. However, you have also said that there has been no response from the WLGA. So, how can you say that there is an understanding between you and the WLGA when it has not responded? So, you do not know whether it agrees with you, and you do not know whether it questions your decisions or whether it is willing to work with you. Could you give us some clarity on that relationship, please, and how are you going to move forward with the co-operation or without the co-operation of the WLGA? We will leave Owen Smith out of the equation for now as that creates more confusion in the picture.

The second situation that still causes me confusion is how exactly you intend, as the First Minister said, to move forward to reshape the way that services are delivered in an inclusive way—you have talked about health and other services—even though you are concentrating on the Williams map that relates to local government reorganisation, apart from Powys, that is. How are you going to ensure that all of these other services are part of this pattern of reorganisation and that there is consistency in the way that we are moving forward in that regard? You are now suggesting that we could have voluntary mergers before 2016 if that is what local government wants, but that those voluntary mergers would have to be consistent with the Williams map. The truth is, Minister, that there are agreements already in place between local authorities in Wales that are very different from the map that Williams has presented to us.

Are you now saying to local government in Wales, 'You have to stop those agreements and reorganise on the basis of the Williams map' or are you going to allow those agreements that do exist to continue until 2016 and beyond? If so, how are you going to ensure that mergers happen when there are agreements here, there, and everywhere that are completely different from the map that Williams has presented? Is that the map, from now on, for local government in Wales, and does any agreement made between local authorities have to be made on the basis of that map?

Finally, may I refer to the matter of scrutiny?

I want to raise the scrutiny issue with you, Minister, because I asked the First Minister about the situation with Carmarthenshire County Council and there will be a debate tomorrow in the Chamber about it. It is once again challenging the findings of the district auditor and it is using a letter from you to say that the Welsh Government supports its stance. Now, I have read the letter and I think that that is a misrepresentation of your letter. Can you clearly state today, Minister, that you are not supporting Carmarthenshire County Council, and more than that, that you do not believe that Carmarthenshire County Council should challenge the findings of the district auditor and that it should conform with those findings, as should every local authority in Wales?

16:51

Lesley Griffiths [Bywgraffiad Biography](#)

I thank Rhodri Glyn Thomas for those questions. With regard to meaningful discussions, I think we have had meaningful discussions with the WLGA and leaders and chief executives over the past few months. I spoke to the leader of the WLGA only this morning, who very clearly said to me that the status quo is not an option and he is really pleased that this White Paper was coming forward. I think that there is co-operation from the WLGA. Certainly, I value my relationship with it and I want to work in co-operation with it. I want local government to come forward with proposals.

One area we have been working on is around funding flexibilities. Again, it is about asking local authorities to come forward with what they want. Sometimes, they are perhaps a bit slow in coming forward, but what we have asked them for is an alternative, which we have not had. However, it may be because they are happy with the map. As we go forward with the White Paper, they can put forward their proposals—that is what the White Paper is for. I want as many people as possible to engage with us over the next 12 weeks. So, as the First Minister has said, we have the map now and, if local authorities want to come up with alternatives, they have to be worked-up alternatives and we will look at them.

In relation to voluntary mergers, if they want a different merger than that which is being proposed in the map, then, again, come forward with it, but we want them to carry on collaborating. That collaboration is very important. There is always going to be collaboration between local authorities that are not perhaps being proposed for merger, because that work has been going on for a while, but we know that collaboration—I am sure that you would agree—has not progressed as quickly or as deeply as we would have liked. However, no matter what structures exist, collaboration will always be important, because the people out there who use our public services require those public services to collaborate, integrate and work together, and they do not mind who collaborates with whom. So, I think collaboration is really important.

Rwyf am godi mater craffu gyda chi, Weinidog, oherwydd y gofynnais i'r Prif Weinidog am y sefyllfa gyda Chyngor Sir Caerfyrddin a bydd dadl yfory yn y Siambr am y peth. Unwaith eto mae'n herio canfyddiadau'r archwilydd dosbarth ac mae'n defnyddio llythyr oddi wrthych chi i ddweud bod Llywodraeth Cymru yn cefnogi ei safiad. Nawr, rwyf wedi darllen y llythyr ac rwy'n meddwl bod eich llythyr yn cael ei gamliwio trwy ddweud hynny. A allwch chi nodi'n glir heddiw, Weinidog, nad ydych yn cefnogi Cyngor Sir Caerfyrddin, a mwy na hynny, nad ydych yn credu y dylai Cyngor Sir Caerfyrddin herio canfyddiadau'r archwilydd dosbarth ac y dylai gydymffurfio â'r canfyddiadau hynny, fel y dylai pob awdurdod lleol yng Nghymru?

Diolch i Rhodri Glyn Thomas am y cwestiynau hynny. O ran trafodaethau ystyrlon, rwy'n credu ein bod wedi cael trafodaethau ystyrlon gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac arweinwyr a phrif weithredwyr dros yr ychydig fisoedd diwethaf. Siaradais ag arweinydd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fore heddiw, a dywedodd yn glir iawn wrthyf nad yw'r status quo yn opsiwn ac mae'n falch iawn bod y Papur Gwyn yn dod gerbron. Credaf fod Cymdeithas Llywodraeth Leol yn cydweithio. Yn sicr, rwy'n gwerthfawrogi fy mherthynas â'r Gymdeithas ac rwy'n awyddus i weithio mewn cydweithrediad â hi. Rwyf am i lywodraeth leol gyflwyno cynigion.

Un maes yr ydym wedi bod yn gweithio arno yw ynghylch hyblygrwydd o ran cyllido. Unwaith eto, mae'n ymwneud â gofyn i awdurdodau lleol gyflwyno'r hyn y maent ei eisiau. Efallai eu bod ychydig yn araf yn camu ymlaen weithiau. Yr hyn yr ydym wedi gofyn iddynt amdano yw dewis arall, ond nid ydym wedi'i gael. Fodd bynnag, mae'n bosibl mai'r rheswm am hynny yw eu bod yn fodlon ar y map. Wrth inni symud ymlaen â'r Papur Gwyn, gallant gyflwyno eu cynigion—dyna yw diben y Papur Gwyn. Rwyf am i gymaint o bobl â phosibl ymgysylltu â ni yn ystod y 12 wythnos nesaf. Felly, fel y mae'r Prif Weinidog wedi'i ddweud, mae'r map gennym yn awr, ac os bydd awdurdodau lleol yn awyddus i gyflwyno dewisiadau eraill, rhaid iddynt fod yn ddewisiadau datblygedig, a byddwn yn edrych arnynt.

Mewn perthynas ag uno gwirfoddol, os ydynt am uno mewn ffordd wahanol i'r hyn sy'n cael ei gynnig yn y map, yna, unwaith eto, camwch ymlaen, ond rydym am iddynt barhau i gydweithio. Mae'r cydweithio hwnnw'n bwysig iawn. Bydd cydweithio bob amser rhwng awdurdodau lleol nad ydynt o bosibl yn cael eu cynnig ar gyfer uno, gan fod y gwaith hwnnw wedi bod yn digwydd ers cryn amser, ond rydym yn gwybod nad yw cydweithredu—rwy'n siŵr y byddech yn cytuno—wedi symud ymlaen mor gyflym nac mor ddwfn ag y byddem wedi dymuno. Fodd bynnag, ni waeth pa strwythurau sy'n bodoli, bydd cydweithio bob amser yn bwysig, gan fod y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau cyhoeddus angen i'r gwasanaethau cyhoeddus hynny gydweithio, integreiddio a gweithio gyda'i gilydd, ac nid ydynt yn poeni pwy sy'n cydweithio â phwy. Felly, rwy'n meddwl bod cydweithio yn wirioneddol bwysig.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Deputy Presiding Officer, in relation to the issue around Carmarthenshire County Council, I am having my officials look at that today and I will write to the Member on that specific point.

Ddirprwy Lywydd, o ran Cyngor Sir Caerfyrddin, rwy'n trefnu bod fy swyddogion yn edrych ar hynny heddiw, a byddaf yn ysgrifennu at yr Aelodau ynglŷn â'r pwynt penodol hwnnw.

16:54

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

May I start by repeating my complaint about how little time we have had to read the White Paper, given that it was only sent to us at 2.45 p.m. this afternoon? It is a substantive document, but, having said that, I have picked out a couple of points from it and from the statement that I want to raise with the Minister.

May I say at the outset that I noted your comment, Minister, that you are looking at how many county councillors are also community councillors? May I suggest that if you start to micromanage this, in a way, you might actually have more vacancies than you have at the moment? Perhaps one of the best ways—. Vacancies are not necessarily an indication of a crisis in structure, but much more of a crisis in our democracy. I think maybe that needs a wider solution than what we have in front of us today.

I note in paragraph 42 of your White Paper that you say that you want to ensure that locally elected members are truly representative of the communities they serve. May I once more, therefore, recommend to you proportional representation as one way to achieve that? I also point that, where you do have proportional representation systems, the number of vacancies is very small and uncontested elections are virtually non-existent. That, obviously, would solve many of your problems in one fell swoop. It also brings in openness, transparency and accountability and, as a result, you get better services.

I noted in the previous statement on the future generations Bill that the Minister referred to local service boards being put on a statutory footing, and that, I think, is also referred to in your White Paper—there is a cross-reference to that. May I ask, if that goes ahead, how it will fit in with the reorganisation? More importantly, how do you propose to ensure that those new statutory local service boards will be properly scrutinised, given that there will not, effectively, be an opposition on them? What mechanisms will you put in place to make sure that they will be properly scrutinised as part of that change?

Gaf fi ddechrau drwy ailadrodd fy nghwyn am gyn lleied o amser yr ydym wedi ei gael i ddarllen y Papur Gwyn, gan mai dim ond 2.45 pm y prynhawn yma y cafodd ei anfon atom? Mae'n ddogfen sylweddol, ond, wedi dweud hynny, rwyf wedi dewis un neu ddau o bwyntiau ohoni, ac o'r datganiad, yr wyf yn dymuno eu codi gyda'r Gweinidog.

A gaf fi ddweud ar y dechrau fy mod yn nodi eich sylw, Weinidog, eich bod yn edrych ar faint o gynghorwyr sir sydd hefyd yn gynghorwyr cymuned? A gaf i awgrymu, os byddwch yn dechrau meicroreoli hyn, mewn ffordd, efallai y byddwch mewn gwirionedd yn cael mwy o swyddi gwag nag sydd gennych ar hyn o bryd? Efallai mai un o'r ffyrdd gorau—. Nid yw swyddi gwag o reidrwydd yn arwydd o argyfwng yn y strwythur, ond yn llawer mwy o argyfwng yn ein democratiaeth. Rwy'n meddwl efallai bod angen ateb ehangach na'r hyn sydd gennym ger ein bron heddiw.

Nodaf ym mharagraff 42 eich Papur Gwyn eich bod yn dweud eich bod yn awyddus i sicrhau bod aelodau etholedig lleol yn wirioneddol gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. A gaf fi unwaith eto, felly, argymhell cynrychiolaeth gyfrannol i chi fel un ffordd o gyflawni hynny? Rwyf hefyd yn nodi, lle mae gennych systemau cynrychiolaeth gyfrannol, bod nifer y swyddi gwag yn fach iawn ac ni cheir etholiadau diwrthwynebiad o gwbl bron. Mae hynny, yn amlwg, yn datrys llawer o'ch problemau gydag un ergyd. Mae hefyd yn dod â natur agored, tryloywder ac atebolrwydd ac, o ganlyniad, rydych yn cael gwell gwasanaethau.

Sylwais yn y datganiad blaenorol ar y Bil cenedlaethau'r dyfodol bod y Gweinidog yn cyfeirio at fyrrddau gwasanaethau lleol yn cael eu rhoi ar sail statudol, ac, rwy'n credu, cyfeirir at hynny hefyd yn eich Papur Gwyn—mae croesgyfeirio i hynny. A gaf fi ofyn, os yw hynny'n mynd yn ei flaen, sut y bydd yn cyd-fynd â'r ad-drefnu? Yn bwysicach, sut yr ydych yn bwriadu sicrhau y bydd y byrddau gwasanaethau lleol statudol hynny sy'n newydd yn cael eu harchwilio'n briodol, o gofio na fydd gwrthblaid, mewn gwirionedd, ar eu cyfer? Pa fecanweithiau y byddwch yn eu rhoi ar waith i wneud yn siŵr y byddant yn cael eu harchwilio yn briodol yn rhan o'r newid hwnnw?

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It is interesting in terms of the cost. I noted what you said about the cost and noted that you have, effectively, taken £100 million from the Williams commission and taken £200 million or more from the WLGA, looked at the payback and said that it will be four to five years in the White Paper. That is all very well, but I think we really deserve more detailed costings as to where exactly those £92 million-worth of savings are going to come from. I would be interested to know when those costings will be available. I am a bit sceptical that that is achievable in the first few years, certainly, and it may well be that, if the aim is for five years of £92 million, it is significantly delayed, meaning that the payback period will be much longer than that. So, I think we do need some detailed costings on that. Also, in terms of the funding of local authorities, can you give an indication of how you will be looking at the funding formula based on 12 authorities, which is now your preferred model, and option one in the Williams commission report?

In terms of existing partnerships and collaborations—Rhodri Glyn Thomas has already raised that issue—there are certainly partnerships and collaborations in place that do not fit into the model that you have now decided is your preferred model. How you propose to unpick those and reconstruct them around the reorganisation? What support are you giving to local authorities as part of that process?

Council tax is another big issue. Rationalisation of council tax will obviously be on the agenda. I noted that, in your White Paper, you, effectively, say that there are no resources to carry that out. That is going to be bad news for some local council tax payers. I notice that, for example, in the Williams commission report, council tax payers in Caerphilly will see their council tax increase by 10.1% just as part of the merger with Blaenau Gwent, and there are similar anomalies elsewhere. Of course, that is the high end of that. So, how will you work through those issues to make sure that people are not going to be paying for this merger through their council tax bills, effectively?

Can you also clarify, in terms of voluntary mergers, where Powys fits into this? Obviously, Powys is unique; you are talking about merging Powys council with the Powys health board. That is not the same as the rest of them. If they decide to go ahead and do that early, can that happen or do you need legislation to make that happen? If it does happen early, are the incentives that are available for other voluntary mergers available for Powys as well?

Finally, Minister, you gave an undertaking at the Communities, Equality and Local Government Committee that you would involve the boundary commission in having a look at the proposed model of 12 authorities to see whether they reflected natural communities. Does that undertaking still stand or has this White Paper overtaken it?

Mae'n ddiddorol o ran y gost. Nodais yr hyn a ddywedasoch am y gost a nodais eich bod wedi cymryd, yn effeithiol, £100 miliwn o gomisiwn Williams ac wedi cymryd £200 miliwn neu fwy o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, wedi edrych ar yr ad-dalu a dweud y bydd yn bedair i bum mlynedd yn y Papur Gwyn. Hawdd yw dweud hynny, ond rwy'n credu ein bod wir yn haeddu costau mwy manwl ynglŷn ag o ble yn union y bydd y gwerth £92 miliwn o arbedion yn dod. Byddai gennyf ddiddordeb mewn cael gwybod pryd y bydd y costau hynny ar gael. Rwyf ychydig yn amheus y gellir cyflawni hynny yn y blynyddoedd cyntaf, yn sicr, a gall fod, os mai'r nod yw am bum mlynedd o £92 miliwn, bydd yn cael ei oedi'n sylweddol, sy'n golygu y bydd y cyfnod ad-dalu yn llawer hwy na hynny. Felly, rwy'n credu ein bod angen costau manwl ar hynny. Hefyd, o ran ariannu awdurdodau lleol, a allwch chi roi syniad o sut y byddwch yn edrych ar y fformiwla ariannu yn seiliedig ar 12 awdurdod, sydd bellach y model a ffefirir gennych, a dewis un yn adroddiad comisiwn Williams?

O ran partneriaethau a chydweithio presennol—mae Rhodri Glyn Thomas eisoes wedi codi'r mater hwnnw—yn sicr mae partneriaethau a chydweithio ar waith nad ydynt yn ffitio i mewn i'r model yr ydych bellach wedi penderfynu yw'r model a ffefirir gennych. Sut yr ydych yn bwriadu datod y rheini a'u hail-greu o amgylch yr ad-drefnu? Pa gymorth ydych chi'n ei roi i awdurdodau lleol yn rhan o'r broses honno?

Mae'r dreth gyngor yn fater pwysig arall. Bydd rhesymoli'r dreth gyngor yn amlwg ar yr agenda. Rwy'n nodi, yn eich Papur Gwyn, eich bod, i bob pwrpas, yn dweud nad oes unrhyw adnoddau i wneud hynny. Mae hynny'n mynd i fod yn newyddion drwg i rai sy'n talu'r dreth gyngor leol. Rwy'n sylwi, er enghraifft, yn adroddiad comisiwn Williams, y bydd talwyr y dreth gyngor yng Nghaerffili yn gweld eu treth gyngor yn codi gan 10.1% dim ond fel rhan o'r uno â Blaenau Gwent, a cheir anghysonderau tebyg mewn mannau eraill. Wrth gwrs, dyna ben uchaf hynny. Felly, sut y byddwch yn gweithio drwy'r materion hynny i wneud yn siŵr nad yw pobl yn mynd i fod yn talu am yr uno hwn drwy eu biliau treth gyngor, mewn gwirionedd?

A allwch chi hefyd egluro, o ran uno gwirfoddol, lle mae Powys yn ffitio i mewn i hyn? Yn amlwg, mae Powys yn unigryw; rydych yn sôn am uno Cyngor Powys gyda bwrdd iechyd Powys. Nid yw hynny yr un fath â'r gweddill ohonynt. Os ydynt yn penderfynu mynd yn eu blaenau ac yn gwneud hynny'n gynnar, a all hynny ddigwydd neu a ydych chi angen deddfwriaeth i wneud i hynny ddigwydd? Os bydd yn digwydd yn gynnar, a yw'r cymhellion sydd ar gael ar gyfer uno gwirfoddol arall ar gael ar gyfer Powys hefyd?

Yn olaf, Weinidog, rhoesoch ymrwymiad yn y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y byddech yn cynnwys y comisiwn ffiniau mewn cael golwg ar y model arfaethedig o 12 awdurdod i weld a ydynt yn adlewyrchu cymunedau naturiol. A yw hynny'n ymrwymiad sy'n dal i sefyll neu a yw'r Papur Gwyn wedi ei oddiweddyd?

Thank you very much, Peter Black, for those questions. In relation to town and community councils, I certainly do not want to micromanage thousands of town and community councils. I was just trying to show that there are far too many for 3 million people. The figure is 736, I think. Many of them now are being asked to take on extra powers. Certainly, in the conversation that I had with One Voice Wales yesterday, it highlighted to me that many county councils are now in discussions with town and community councils. So, I think there is some reform required around town and community councils. That is a piece of work that I will be looking at and I will publish further information on that in the autumn.

That was a nice try on voting reform. You tried with the First Minister, and now you are going to try with me. I think that what we have to remember is that the electorate understands the principles of first past the post: the individual who wins the most votes gets elected. I think that we have seen, over recent years, that that system is quite capable of results that require coalitions, and very few councils have remained in the control of a single party. Obviously, Williams did not look at that point.

I am passionate about diversity, certainly. You will be aware of the expert group that I have set up and the piece of work that we are doing around that. I am very grateful to all local authorities for bringing forward somebody to champion diversity as we go forward. Again, if you look at the county councillors that we have, you will see that they are not representative of the communities that they serve, and I am determined to do more to increase diversity in local government.

You mentioned the reforms that my colleague Jeff Cuthbert has announced in relation to the Well-being of Future Generations (Wales) Bill, which will put LSBs on a statutory footing. I think that it will make them more focused, consistent and accountable. I think that they do have a vital role in bringing local public service organisations together, but I recognise that there is scope for further improvements, and that is something that we will be doing.

You talked about the costs, and I use the WLGA costings, because I think that they are probably more excessive, perhaps, than what my first impression was. However, I was saying that, even if we look at £400 million, which is the top of its costs, we will still have a payback period of four years at the most. However, as I said, I do not think that it is about money; it is about making sure that we have those stronger and sustainable services going forward.

Diolch yn fawr iawn, Peter Black, am y cwestiynau yna. O ran cynghorau tref a chymuned, yn sicr nid wyf yn dymuno meicroeoli miloedd o gynghorau tref a chymuned. Ceisio dangos yr oeddwn bod llawer gormod ar gyfer 3 miliwn o bobl. Mae'r ffigur yn 736, rwy'n meddwl. Mae disgwyl i lawer ohonynt bellach gymryd pwerau ychwanegol. Yn sicr, yn y sgwrs a gefais gydag Un Llais Cymru ddoe, amlygodd i mi fod llawer o gynghorau sir yn awr mewn trafodaethau gyda chynghorau tref a chymuned. Felly, rwy'n credu bod rhywfaint o ddiwygio yn ofynnol ynghylch cynghorau tref a chymuned. Mae hynny'n ddarn o waith y byddaf yn edrych arno a byddaf yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth am hynny yn yr hydref.

Yr oedd honna'n ymdrech deg ar ddiwygio pleidleisio. Rhoesoch gynnig arni gyda'r Prif Weinidog, ac yn awr rydych yn mynd i roi cynnig arni gyda mi. Rwy'n meddwl mai'r hyn y mae'n rhaid i ni ei gofio yw bod yr etholwyr yn deall egwyddorion y cyntaf i'r felin: yr unigolyn sy'n ennill y nifer fwyaf o bleidleisiau sy'n cael ei ethol. Rwy'n meddwl ein bod wedi gweld, dros y blynyddoedd diwethaf, bod y system yn gallu cael canlyniadau sydd angen clymbleidiau, ac ychydig iawn o gynghorau sydd wedi aros dan reolaeth un blaid. Yn amlwg, nid edrychodd Williams ar y pwynt hwnnw.

Rwy'n frwd dros amrywiaeth, yn sicr. Byddwch yn ymwybodol o'r grŵp arbenigol yr wyf wedi'i sefydlu a'r darn o waith yr ydym yn ei wneud o gwmpas hynny. Rwy'n ddiolchgar iawn i'r holl awdurdodau lleol am gyflwyno rhywun i hyrwyddo amrywiaeth wrth inni symud ymlaen. Unwaith eto, os ydych yn edrych ar y cynghorwyr sir sydd gennym, byddwch yn gweld nad ydynt yn gynrychioliadol o'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu, ac rwy'n benderfynol o wneud mwy i gynyddu amrywiaeth mewn llywodraeth leol.

Soniasoch am y diwygiadau y mae fy nghydweithiwr Jeff Cuthbert wedi'u cyhoeddi ynglŷn â Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), a fydd yn rhoi Byrddau Gwasanaethau Lleol ar sylfaen statudol. Rwy'n meddwl y bydd yn gwneud iddynt ganolbwyntio'n well, a bod yn fwy cyson ac atebol. Rwy'n meddwl bod ganddynt swyddogaeth hanfodol o ran dod â sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus lleol at ei gilydd, ond rwy'n cydnabod bod lle i wella ymhellach, ac mae hynny'n rhywbeth y byddwn yn ei wneud.

Soniasoch am y costau, ac rwy'n defnyddio costau'r CLILC, oherwydd credaf eu bod yn fwy na thebyg yn fwy eithafol, efallai, na'r hyn oedd fy argraff gyntaf. Fodd bynnag, roeddwn yn dweud, hyd yn oed os ydym yn edrych ar £400 miliwn, sef y costau uchaf, byddwn yn dal i gael cyfnod ad-dalu o bedair blynedd ar y mwyaf. Fodd bynnag, fel y dywedais, nid wyf yn credu bod hyn yn ymwneud ag arian; mae'n ymwneud â sicrhau bod gennym y gwasanaethau cryfach a chynaliadwy hynny wrth symud ymlaen.

You asked about the funding of new authorities and, obviously, they will be funded in much the same way as they are now. They get the revenue support grant from the Welsh Government, they have non-domestic rates and they have the council tax. I believe that Welsh Government funding will be allocated to new authorities on that distribution formula, which you will be aware is kept on a rolling programme of review. We will be looking at formulating that in consultation with the partnership council arrangements, and I think, again, that it is important that it is developed in consultation with local government, as happens now.

On council tax, I do not think that there is any reason to believe that the overall council tax requirement should increase as a consequence of mergers. I think that, at the moment, there is a current imbalance of council tax levels, and I do not think that that is something that we should be seeking to preserve. If you look at a band D property, for instance, in Pembrokeshire, you will see that it is £1,005, but it is £1,591 in Blaenau Gwent. I think that we should not be encouraging the preservation of that. I think that the commission recognised that there could be local effects on council tax levels, but, at the moment, it would be unhelpful to speculate on effects on particular areas. However, the current funding arrangements take account of a wide range of indicators, and they fluctuate from year to year, but we will need to look at the formula for funding local government.

In relation to Powys, the Minister for Health and Social Services and I are looking at that, and, obviously, we need to look at that as quickly as we can and come forward with some proposals, because if they want to voluntarily merge, there is no reason why they should not be offered the same incentives as other merging authorities. So, that is something that we need to look at.

In relation to the Local Democracy and Boundary Commission for Wales, I said in the committee that it would look at it and I think that I said that also in my oral statement.

Gofynasoch am gyllid yr awdurdodau newydd ac, yn amlwg, byddant yn cael eu hariannu yn yr un modd ag y maent yn awr. Maent yn cael y grant cynnal refeniw gan Lywodraeth Cymru, mae ganddynt drethi annomestig ac mae ganddynt y dreth gyngor. Credaf y bydd cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddyrannu i awdurdodau newydd ar y fformiwla dosbarthu, y byddwch yn ymwybodol sy'n cael ei gadw ar raglen dreigl o adolygu. Byddwn yn edrych ar lunio hynny mewn ymgynghoriad â'r trefniadau cyngor partneriaeth, ac rwy'n meddwl, unwaith eto, ei bod yn bwysig ei fod yn cael ei ddatblygu mewn ymgynghoriad â llywodraeth leol, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.

Ar y dreth gyngor, nid wyf yn credu bod unrhyw reswm i gredu y dylai gofyniad cyffredinol y dreth gyngor gynyddu o ganlyniad i uno. Credaf, ar hyn o bryd, bod anghydbwysedd presennol o ran lefelau'r dreth gyngor, ac nid wyf yn credu bod hynny'n rhywbeth y dylem fod yn ceisio ei gadw. Os ydych yn edrych ar eiddo band D, er enghraifft, yn Sir Benfro, byddwch yn gweld ei fod yn £1,005, ond mae'n £1,591 ym Mlaenau Gwent. Rwy'n credu na ddylem fod yn annog cadw hynny. Rwy'n meddwl bod y comisiwn yn cydnabod y gallai fod effeithiau lleol ar lefelau'r dreth gyngor, ond, ar hyn o bryd, ni fyddai'n ddefnyddiol i ddyfalu ynghylch effeithiau ar ardaloedd penodol. Fodd bynnag, mae'r trefniadau ariannu presennol yn ystyried ystod eang o ddangosyddion, ac maent yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, ond bydd angen i ni edrych ar y fformiwla ar gyfer ariannu llywodraeth leol.

O ran Powys, mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau yn edrych ar hynny, ac, yn amlwg, mae angen inni edrych ar hynny cyn gynted ag y gallwn a dod ymlaen gyda rhai cynigion, oherwydd os ydynt yn dymuno uno yn wirfoddol, nid oes unrhyw reswm pam na ddylent gael cynnig yr un cymhellion ag awdurdodau eraill sy'n uno. Felly, mae hynny'n rhywbeth y mae angen inni edrych arno.

O ran Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, dywedais yn y pwyllgor y byddai'n edrych arno ac rwy'n meddwl fy mod wedi dweud hynny hefyd yn fy natganiad llafar.

17:04 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finally, I call Mike Hedges.

Yn olaf, galwaf ar Mike Hedges.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:04 **Mike Hedges** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

First of all, may I welcome the statement from the Minister today? I still believe that the committee system was better than the cabinet scrutiny system for local government, which was itself a return to the pre-1973 parliamentary committee that some of the older Members here may remember. However, first, may I urge the Minister to do something that does not need legislation, namely to allow pre-decision scrutiny? The previous Minister told local authorities that they could not engage in that. May I ask the Minister to do that: to tell local authorities that they can engage in that? I think that that would be a great step forward.

Yn gyntaf oll, a gaf fi groesawu'r datganiad gan y Gweinidog heddiw? Rwy'n dal i gredu bod y system bwyllgorau yn well na'r system graffu cabinet ar gyfer llywodraeth leol, a oedd ynddo'i hun yn dychwelyd at y pwyllgor seneddol cyn 1973 y mae rhai o'r Aelodau hyn yma yn ei gofio efallai. Fodd bynnag, yn gyntaf, a gaf fi annog y Gweinidog i wneud rhywbeth nad yw angen deddfwriaeth, sef caniatáu craffu cyn gwneud penderfyniadau? Dywedodd y Gweinidog blaenorol wrth awdurdodau lleol na allent ymgysylltu â hynny. A gaf fi ofyn i'r Gweinidog wneud hynny: dweud wrth awdurdodau lleol y cânt ymgysylltu â hynny? Rwy'n meddwl y byddai hynny'n gam mawr ymlaen.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Something that we all agree on is that scrutiny has not worked very well up until now in local government. I speak as somebody who once chaired a scrutiny committee that did not work very well. I have previously called for a research facility in local government in order to support scrutiny. Will the Minister support that and urge local authorities to start providing that for local authorities? If they do not, we will just have councillors, in the main, asking officers which questions to ask, and for it to be the same officers they will be asking the questions to the next day. I do not think that many people would give a difficult question to someone who is about to ask them that question.

I remember when there were more than 150 key performance indicators. I think that it then went up to 187. I think that there is a role for key performance indicators. Can I urge the Minister to set a small number of key performance indicators in these key areas? My colleague, and her colleague, Leighton Andrews's banding system may not have been widely supported by everyone, but I very much welcomed it. It set a key performance indicator for schools, and they could see how they were doing. That sort of key performance indicator in local government does work.

Why is it that the proposed merger of Powys Teaching Local Health Board and Powys County Council cannot be expedited? Both come under the Welsh Government, but the make-up of the health board is purely in the hands of the Minister for health. I am sure that the Minister for health, if he so desired, could make the members of Powys council, or the executive of Powys council, the board of Powys Teaching Local Health Board. So, I think that that may well give an opportunity to take that one forward.

Finally, we talked about payback. I was really interested in the answer that you gave to Peter Black. Can I say that, from the answer that you gave—and perhaps you can confirm this—you were talking about a payback over four years? That will mean that there will be an actuarial reduction for people who take early pensions—so that will not actually be costing anything over future years—and there will be no ability for people to access their pensions early without that actuarial reduction.

Rhywbeth yr ydym i gyd yn cytuno arno yw nad yw craffu wedi gweithio'n dda iawn hyd yn hyn mewn llywodraeth leol. Rwy'n siarad fel rhywun a gadeiriodd bwyllgor craffu unwaith nad oedd yn gweithio'n dda iawn. Rwyf wedi galw o'r blaen am gyfleuster ymchwil mewn llywodraeth leol er mwyn cefnogi craffu. A fydd y Gweinidog yn cefnogi hynny ac yn annog awdurdodau lleol i ddechrau darparu hynny ar gyfer awdurdodau lleol? Os nad ydynt yn gwneud hynny, y cyfan a fydd gennym yw cynghorwyr, ar y cyfan, yn gofyn i swyddogion pa gwestiynau i'w gofyn, ac i'r un swyddogion y byddant yn gofyn y cwestiynau y diwrnod wedyn. Nid wyf yn meddwl y byddai llawer o bobl yn rhoi cwestiwn anodd i rywun sydd ar fin gofyn y cwestiwn hwnnw iddynt.

Rwy'n cofio pan oedd mwy na 150 o ddangosyddion perfformiad allweddol. Rwy'n credu ei fod wedi mynd i fyny wedyn i 187. Rwy'n credu bod gan ddangosyddion perfformiad allweddol swyddogaeth. A allaf annog y Gweinidog i bennu nifer fach o ddangosyddion perfformiad allweddol yn y meysydd allweddol? Efallai nad oedd system fandio fy nghydweithiwr, a'i chydweithiwr hi, Leighton Andrews wedi cael ei chefnogi'n eang gan bawb, ond roeddwn i'n ei chroesawu'n fawr iawn. Roedd yn gosod dangosydd perfformiad allweddol ar gyfer ysgolion, a gallent weld sut yr oeddent yn gwneud. Mae'r math hwnnw o ddangosydd perfformiad allweddol mewn llywodraeth leol yn gweithio.

Pam na ellir hwyluso'r cynnig i uno Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys a Chyngor Sir Powys? Mae'r ddau yn dod o dan Lywodraeth Cymru, ond mae cyfansoddiad y bwrdd iechyd yn nwylo'r Gweinidog iechyd yn unig. Rwy'n siŵr y gallai'r Gweinidog iechyd, pe byddai'n dymuno hynny, sicrhau mai aelodau cyngor Powys, neu weithrediaeth cyngor Powys, yw Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys. Felly, rwy'n meddwl y gallai hynny roi'r cyfle i ddatblygu hynny.

Yn olaf, buom yn siarad am ad-dalu. Roedd gen i ddi-ddordeb gwirioneddol yn yr ateb a roesoch i Peter Black. A gaf i ddweud, o'r ateb a roesoch—ac efallai y gallwch gadarnhau hyn—eich bod yn sôn am ad-dalu dros bedair blynedd? Bydd hynny'n golygu y bydd gostyngiad actiwaraid ar gyfer pobl sy'n cymryd pensiynau cynnar—fel na fydd mewn gwirionedd yn costio unrhyw beth dros flynyddoedd y dyfodol—ac ni fydd unrhyw allu i bobl i gael mynediad at eu pensiynau yn gynnar heb y gostyngiad actiwaraid hwnnw.

17:07

Lesley Griffiths [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank Mike Hedges for those questions. In relation to pre-decision scrutiny, that is not something that I have sought to change. You will be aware, as you said, that Carl Sargeant had made a decision on it. It is not something that I have looked at. However, I do think that scrutiny is incredibly important. I have put a huge amount of emphasis on scrutiny since I have had this portfolio. I mentioned the scrutiny development fund, and I have highlighted—. Swansea council is one local authority that I think is very good on scrutiny. However, again, scrutiny is very patchy across local authorities, and I want to see that sharing of best practice. Perhaps a research facility is something that we could look at over the coming months.

Diolch i Mike Hedges am y cwestiynau yna. O ran craffu cyn gwneud penderfyniad, nid yw hynny'n rhywbeth yr wyf wedi ceisio ei newid. Byddwch yn ymwybodol, fel y dywedasoch, fod Carl Sargeant wedi gwneud penderfyniad arno. Nid yw'n rhywbeth yr wyf wedi edrych arno. Fodd bynnag, rwy'n credu bod craffu yn hynod o bwysig. Rwyf wedi rhoi llawer iawn o bwyslais ar graffu ers i mi gael y portffolio hwn. Soniais am y gronfa datblygu craffu, ac rwyf wedi tynnu sylw at—. Mae Cyngor Abertawe yn un awdurdod lleol rwy'n meddwl sy'n dda iawn ar graffu. Fodd bynnag, eto, mae craffu yn anghyson iawn ar draws awdurdodau lleol, ac rwyf am weld y rhannu hwnnw o arfer gorau. Efallai fod cyfleuster ymchwil yn rhywbeth y gallem edrych arno dros y misoedd nesaf.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I think that performance reporting arrangements have grown over time. I think that a more focused approach is required, but sometimes even the best performance information on its own does not increase performance. Again, I think that the commission recognised the importance of the Government setting out its strategic outcomes and how then that progress should be assessed.

I think that the future generations Bill will also provide a framework for achieving clarity of purpose for the longer term, and will be a first step towards delivering improvements. I want to see local authorities taking more or fuller responsibility, if you like, for their own performance. I want to see those scrutiny committees challenging their authorities on how they are performing.

In relation to Powys Teaching Local Health Board, Powys County Council and the proposal that you came up with, I do not think that the Minister for Health and Social Services does have those powers. I certainly did not when I was Minister for health, so I do not think that the current Minister for Health and Social Services has. However, we need to look at it because, obviously, that is a different type of merger to the other ones that are being proposed.

When I mentioned costs before, and the figures that I referred to, I was just saying that the WLGA has given its figures as a way of it being a bit of a barrier, if you like. I was trying to suggest to Peter Black that, really, what I was saying was that even its merger costs suggestion of between £200 million and £400 million, with current annual savings of between £92 million and £100 million, suggests a payback period of between two and four years. However, we will be working to assess and refine those estimates because I think that that is very important. What we need to do, really, is to publish a draft regulatory impact assessment, which will accompany the draft Bill that we intend to publish in October 2015.

Rwy'n meddwl bod trefniadau adrodd ar berfformiad wedi tyfu dros amser. Rwy'n meddwl bod angen dull mwy penodol, ond weithiau nid yw hyd yn oed y wybodaeth perfformiad gorau ar ei phen ei hun yn cynyddu perfformiad. Unwaith eto, rwy'n credu bod y comisiwn yn cydnabod pwysigrwydd y Llywodraeth yn nodi ei chanlyniadau strategol a sut felly y dyliid asesu'r cynnydd hwnnw.

Credaf y bydd y Bil cenedlaethau'r dyfodol hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer cyflawni eglurder pwrpas ar gyfer y tymor hwy, a bydd yn gam cyntaf tuag at gyflwyno gwelliannau. Rwyf am weld awdurdodau lleol yn cymryd mwy o gyfrifoldeb neu gyfrifoldeb lawnach, os dymunwch, dros eu perfformiad eu hunain. Rwyf eisiau gweld y pwyllgorau craffu hynny'n herio eu hawdurdodau ar sut y maent yn perfformio.

O ran Bwrdd Addysgu Iechyd Lleol Powys, Cyngor Sir Powys a'r cynnig a gafwyd gennyh, nid wyf yn credu bod gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y pwerau hynny. Yn sicr, nid oeddent gennyf fi pan oeddwn i'n Weiniidog Iechyd, felly nid wyf yn credu eu bod gan y Gweinidog presennol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Fodd bynnag, mae angen inni edrych arno oherwydd, yn amlwg, mae hynny'n wahanol fath o uno i'r rhai eraill sy'n cael eu cynnig.

Pan soniais am gostau o'r blaen, a'r ffigurau y cyfeiriais atynt, dim ond dweud oeddwn i bod CLILC wedi rhoi ei ffigurau fel modd o fod yn dipyn o rwystr, os dymunwch chi. Roeddwn yn ceisio awgrymu i Peter Black, mewn gwirionedd, mai'r hyn yr oeddwn yn ei ddweud oedd bod hyd yn oed ei awgrym costau uno o rhwng £200 miliwn a £400 miliwn, gydag arbedion blynyddol cyfredol o rhwng £92 miliwn a £100 miliwn, yn awgrymu cyfnod ad-dalu o rhwng dwy a phedair blynedd. Fodd bynnag, byddwn yn gweithio i asesu a mireinio'r amcangyfrifon hynny oherwydd credaf fod hynny'n bwysig iawn. Beth sydd angen ei wneud, mewn gwirionedd, yw cyhoeddi asesiad effaith rheoleiddiol drafft, a fydd yn cyd-fynd â'r Bil drafft yr ydym yn bwriadu ei gyhoeddi ym mis Hydref 2015.

17:09

Datganiad: Y Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Galwaf Edwina Hart, Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth.

Statement: The Rural Development Programme 2014-2020

Bywgraffiad Biography

I call Edwina Hart, Minister for Economy, Science and Transport.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

Negotiations on the overall shape of the common agricultural policy are now complete. The CAP budget allocation for the next seven years has been made. The consultation on the new rural development programme has concluded and the programme is ready for submission to the European Commission. The next RDP is very important. We secured a fair distribution for Wales of the UK allocation of European funding; an increase of 7.8% compared with the period 2007-13. We also took the decision to transfer 15%, the maximum permissible, from the pillar 1 budget to pillar 2, to increase the level of targeted investment that can be made. With Welsh Government co-finance at over £400 million, well above the minimum level required by regulations, this will give a total projected budget of £953 million.

We have three key aims for this RDP: the modernisation and improved competitiveness of our farming sector; improved management and use of our natural resources; and developing local economies in rural areas to increase opportunity, strengthen resilience and tackle rural poverty. The proposals cover four broad areas, the first of which focuses on people. To secure the maximum possible benefit from this RDP, we need to invest in people, building skills, knowledge and confidence through effective training and advice. The knowledge transfer, information and advisory services will focus on professionalism, efficiency, resilience and developing markets and new income streams.

The second area is capital investment, where a new sustainable production grant will give capital support for farm modernisation, production and resource efficiencies to improve economic and environmental performance. An expanded young entrant support scheme will be within the RDP, and we will build on the existing processing and marketing grant scheme to expand support for processing to the agricultural, forestry and food sectors.

The third area covers land-based measures. Under Glastir, the advanced scheme will remain the primary mechanism for targeted improvements to our natural environment. The entry level will support new applicants. There will be a single scheme for common land and new and enhanced provision for part-farm approaches to agri-environment schemes. These measures will sit alongside an organic scheme, work to address woodland creation, and management and support for plant disease threats currently faced by woodland managers.

The fourth and final area is local economic development. There is an opportunity to encourage further jobs and growth in our rural areas. Poverty also continues to be an issue for many in rural areas and is therefore a cross-cutting theme across the RDP.

Mae trafodaethau ar ffurf gyffredinol y polisi amaethyddol cyffredin bellach yn gyflawn. Mae dyraniad y gyllideb PAC ar gyfer y saith mlynedd nesaf wedi ei wneud. Mae'r ymgynghoriad ar y rhaglen datblygu gwledig newydd wedi dod i ben ac mae'r rhaglen yn barod i'w chyflwyno i'r Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig nesaf yn bwysig iawn. Sicrhawyd dosbarthiad teg i Gymru o ddyraniad y DU o gyllid Ewropeaidd; cynnydd o 7.8% o'i gymharu â'r cyfnod 2007-13. Rydym hefyd wedi cymryd y penderfyniad i drosglwyddo 15%, yr uchafswm a ganiateir, o gyllideb colofn 1 i golofn 2, i gynyddu lefel y buddsoddiad wedi'i dargedu y ceir ei wneud. Gyda chyd-ariannu gan Lywodraeth Cymru ar dros £400 miliwn, llawer yn uwch na'r lefel isaf sy'n ofynnol gan reoliadau, bydd hyn yn rhoi cyfanswm cyllideb ragamcanol o £953 miliwn.

Mae gennym dri nod allweddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig hwn: moderneiddio a gwell cystadleurwydd o ran ein sector ffermio; gwell rheolaeth a defnydd o'n hadnoddau naturiol; a datblygu economïau lleol mewn ardaloedd gwledig i gynyddu cyfle, cryfhau gwytnwch a mynd i'r afael â thlodi gwledig. Mae'r cynigion yn cwmpasu pedwar maes eang, y cyntaf yn canolbwyntio ar bobl. Er mwyn sicrhau'r budd mwyaf posibl o'r cynllun datblygu gwledig hwn, mae angen i ni fuddsoddi mewn pobl, gan ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder drwy hyfforddiant a chynghor effeithiol. Bydd y gwasanaethau trosglwyddo gwybodaeth, hysbysrwydd a chynghori yn canolbwyntio ar broffesiynoldeb, effeithlonrwydd, gwytnwch a datblygu marchnadoedd a ffyrddiau incwm newydd.

Yr ail faes yw buddsoddiad cyfalaf, lle bydd grant cynhyrchu cynaliadwy newydd yn rhoi cymorth cyfalaf ar gyfer moderneiddio ffermydd, cynhyrchu ac adnoddau effeithlonrwydd i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol. Bydd cynllun cefnogi newydd-ddyfodiaid wedi'i ehangu o fewn y Cynllun Datblygu Gwledig, a byddwn yn adeiladu ar y cynllun grant prosesu a marchnata presennol i ehangu cefnogaeth ar gyfer prosesu i'r sectorau amaethyddol, coedwigaeth a bwyd.

Mae'r trydydd maes yn cynnwys mesurau sy'n seiliedig ar y tir. O dan Glastir, bydd y cynllun uwch yn parhau i fod y prif ddull ar gyfer gwelliannau penodol i'n hamgylchedd naturiol. Bydd y lefel mynediad yn cefnogi ymgeiswyr newydd. Bydd un cynllun ar gyfer tir comin a darpariaeth newydd a gwell ar gyfer ymagweddau fferm-rannol i gynlluniau amaeth-amgylcheddol. Bydd y mesurau hyn yn eistedd ochr yn ochr â chynllun organig, yn gweithio i fynd i'r afael â chreu coetiroedd, a rheolaeth a chefnogaeth i fgythiadau defyddau planhigion a wynebwr ar hyn o bryd gan reolwyr coetiroedd.

Y pedwerydd maes a'r olaf yw datblygiad economaidd lleol. Ceir cyfle i annog swyddi a thwf pellach yn ein hardaloedd gwledig. Mae tlodi hefyd yn parhau i fod yn problem i lawer mewn ardaloedd gwledig ac felly yn thema drawsbynciol ar draws y Cynllun Datblygu Gwledig.

The LEADER programme is a potential means of piloting different approaches to addressing rural poverty, as it breaks down the barriers to rural development by providing people with the tools to take greater control over their areas, and improve quality of life. It builds capability, capacity and confidence. We will also support community-led local development through the introduction of a new rural communities development fund. This centrally managed fund will be aimed at local action groups and community-based organisations to support local projects that aim to tackle poverty. The balance of the financial package across those four areas remains as outlined in the consultation: £105 million for human capital interventions; £143 million for asset investments; £572 million for land-based measures; and £95 million for LEADER and the rural community development fund.

We will be submitting this RDP to the European Commission in the next two weeks, and negotiations will take place over the detailed proposals and funding allocations. It is possible that the proposals set out here will change in the course of the next few months. I will provide Members with a further update when the outcome of these negotiations with the Commission is known. Meanwhile, work will proceed on the detailed implementation arrangements for the new programme.

17:14

Russell George [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I thank the Minister for making this statement this afternoon. It is unfortunate, given the present circumstances, that you had to be in a position of making this statement today, but I look forward to working with you and the newly appointed Deputy Minister.

I think that there is a general consensus on the overarching outcomes that we would like the RDP to achieve, namely that there is a more productive, profitable and progressive agriculture sector that is not only the backbone of the rural Welsh economy but that it is a sector that contributes to the nation's wider economic growth. I do believe that the decision that has been taken on pillar 1 modulation is very unfortunate and should be a matter of regret for Government, because it undermines achieving those outcomes. However, now that that decision has been made, it is vitally important that the vast majority of money finds its way back into farming businesses and, ultimately, the wider rural economy.

With regard to the submission to the European Union, perhaps you could tell me whether Members will be informed if changes will be made. Will a further written statement follow when the EU is satisfied with the proposals?

The agriculture industry in Wales will also want assurances that the rural development plan funding will not be frittered away on any unnecessary administration and consultancy fees. May I ask what assurances you can give in this regard? What mechanisms do you have, or what mechanisms will you be putting in place, in fairness, with regard to the human and social capital measures to ensure that this will not happen?

Mae'r rhaglen LEADER yn ddull posibl o dreialu dulliau gwahanol o fynd i'r afael â thlodi gwledig, gan ei fod yn cael gwared ar y rhwystrau i ddatblygu gwledig drwy ddarparu'r offer i bobl gymryd mwy o reolaeth dros eu hardaloedd, a gwella ansawdd bywyd. Mae'n adeiladu gallu, capasiti a hyder. Byddwn hefyd yn cefnogi datblygiad lleol a arweinir gan y gymuned trwy gyflwyno cronfa ddatblygu cymunedau gwledig newydd. Bydd y gronfa hon a reolir yn ganolog yn cael ei thargedu at grwpiau gweithredu lleol a sefydliadau wedi'u seilio yn y gymuned i gefnogi prosiectau lleol sydd â'r nod o drechu tlodi. Mae cydbwysedd y pecyn ariannol ar draws y pedwar maes hyn yn parhau i fod fel yr amlinellir yn yr ymgynghoriad: £105 miliwn ar gyfer ymyraethau cyfalaf dynol; £143 miliwn ar gyfer buddsoddiadau asedau; £572 miliwn ar gyfer mesurau sy'n seiliedig ar y tir; a £95 miliwn ar gyfer LEADER a'r gronfa ddatblygu cymunedau gwledig.

Byddwn yn cyflwyno'r Cynllun Datblygu Gwledig hwn i'r Comisiwn Ewropeaidd yn ystod y bythefnos nesaf, a bydd trafodaethau yn digwydd dros y cynigion manwl a dyraniadau cyllid. Mae'n bosibl y bydd y cynigion a nodir yma yn newid yn ystod y misoedd nesaf. Byddaf yn darparu diweddariad pellach i'r Aelodau pan fydd canlyniad y trafodaethau hyn gyda'r Comisiwn yn hysbys. Yn y cyfamser, bydd gwaith yn mynd yn ei flaen ar y trefniadau gweithredu manwl ar gyfer y rhaglen newydd.

Diolchaf i'r Gweinidog am wneud y datganiad hwn y prynhawn yma. Mae'n anffodus, o ystyried yr amgylchiadau presennol, y bu'n rhaid i chi fod mewn sefyllfa o wneud y datganiad hwn heddiw, ond rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda chi a'r Dirprwy Weinidog sydd newydd ei benodi.

Credaf fod consensws cyffredinol ar y canlyniadau cyffredinol y byddem yn hoffi i'r Cynllun Datblygu Gwledig eu cyflawni, sef y bydd sector amaethyddiaeth mwy cynhyrchiol, proffidiol a blaengar sydd nid yn unig yn asgwrn cefn economi wledig Cymru, ond sy'n sector sy'n cyfrannu at dwf economaidd ehangach y genedl. Rwy'n credu bod y penderfyniad sydd wedi'i wneud ar fodiweiddio colofn 1 yn anffodus iawn a dylai fod yn destun difaru i'r Llywodraeth, oherwydd ei fod yn tansellio cyflawni'r canlyniadau hynny. Fodd bynnag, gan fod y penderfyniad hwnnw wedi'i wneud erbyn hyn, mae'n hanfodol bwysig bod y mwyafrif helaeth o arian yn gweithio ei ffordd yn ôl i mewn i fusnesau ffermio ac, yn y pen draw, i'r economi wledig ehangach.

O ran y cyflwyniad i'r Undeb Ewropeaidd, efallai y gallech ddweud wrthyf a fydd yr Aelodau'n cael gwybod os bydd newidiadau'n cael eu gwneud. A fydd datganiad ysgrifenedig pellach yn dilyn pan fydd yr UE yn fodlon ar y cynigion?

Bydd y diwydiant amaeth yng Nghymru hefyd yn dymuno cael sicrwydd na fydd cyllid y cynllun datblygu gwledig yn cael ei wastraffu ar unrhyw ffordd gweinyddu ac ymgynghoriaeth diangen. A gaf fi ofyn pa sicrwydd y gallwch ei roi yn hyn o beth? Pa fecanweithiau sydd gennych, neu pa fecanweithiau y byddwch yn eu rhoi ar waith, a bod yn deg, o ran y mesurau cyfalaf dynol a chymdeithasol i sicrhau na fydd hyn yn digwydd?

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In relation to young farmers, the drive to encourage more young farmers into the industry and ensure that they are equipped to meet the demands of a modernised industry is important. The former Minister stated that he commissioned Malcolm Thomas to do some independent work on this area and that the report would be provided to him by the end of this term. Has that piece of work been concluded? When do you intend to publish that report for Members?

In relation to Glastir, we welcome many of the changes that have taken place. However, there are some concerns about some of the biodiversity aspects of Glastir and whether or not objective outcomes will be achieved with some of the measures. There is a proposal to embed environmental targets in Glastir, which is important given that the Government cites Glastir as the main means of meeting the 2020 targets for halting wildlife decline. I would, therefore, be interested to know, Minister, what proportion of the 2020 biodiversity targets Glastir is expected to deliver. Where will this sit in the nature recovery plan?

The issue of animal health and welfare will be a critical element of the RDP. I think that the plan should provide an opportunity to improve animal health and welfare standards, with a particular focus on disease eradication—something that will have an immediate impact and generate long-term benefit. The National Farmers Union, in its RDP vision, looked at a number of capital funding streams that could assist this process. Have any of these initiatives been incorporated into the new programme?

Strengthening local rural supply chains is important, particularly in the beef industry, which is really suffering at the moment. While it is, of course, right to ensure that the sector is efficient, how will you be using the RDP money to invest in the long-term sustainability of the red meat industry? How will you be developing the industry's capacity in Wales, particularly in terms of abattoir and processing facilities?

I also ask you to expand more on what cost-cutting initiatives you will be examining with the Deputy Minister with regard to poverty measures. Finally, in relation to a dedicated scheme for less-favoured areas, or areas of natural constraint, as they are known, I think that we need to recognise properly the extremely challenging conditions that farmers in upland areas have to face. While there is a provision of additional payments for farmers in ANC areas to recognise the additional cost burden, we still believe that there should be a dedicated scheme, as there is across the majority of member states, which will be sufficient to support and build resilience in upland communities the length and breadth of Wales.

I also ask why the Government has not taken forward the key aspects of the 'Unlocking the Potential of the Uplands' report, which urged the Welsh Government to pursue options for the introduction of a dedicated ANC scheme in Wales.

O ran ffermwyr ifanc, mae'r ymgyrch i annog mwy o ffermwyr ifanc i fynd i mewn i'r diwydiant a sicrhau bod ganddynt y gallu i ddiwallu gofynion diwydiant modern yn bwysig. Dywedodd y cyn Weinidog ei fod wedi comisiynu Malcolm Thomas i wneud rhywfaint o waith annibynnol ar y maes hwn ac y byddai'r adroddiad yn cael ei ddarparu iddo erbyn diwedd y tymor hwn. A yw'r darn hwnnw o waith wedi'i gwblhau? Pryd ydych chi'n bwriadu cyhoeddi'r adroddiad hwnnw i'r Aelodau?

O ran Glastir, rydym yn croesawu llawer o'r newidiadau sydd wedi digwydd. Fodd bynnag, ceir rhai pryderon ynghylch rhai o agweddau bioamrywiaeth Glastir a pha un a fydd canlyniadau amcan yn cael eu cyflawni ai peidio gyda rhai o'r mesurau. Ceir cynnig i ymgorffori targedau amgylcheddol yn Glastir, sydd yn bwysig, o ystyried bod y Llywodraeth yn nodi Glastir fel y brif fodd o gyrraedd targedau 2020 ar gyfer atal dirywiad bywyd gwylt. Byddwn, felly, â diddordeb i wybod, Weinidog, pa gyfran o dargedau bioamrywiaeth 2020 y disgwylir i Glastir ei chyflawni. Pa ran fydd gan hyn yn y cynllun adfer natur?

Bydd mater iechyd a lles anifeiliaid yn elfen hanfodol o'r Cynllun Datblygu Gwledig. Rwy'n meddwl y dylai'r cynllun roi cyfle i wella safonau iechyd a lles anifeiliaid, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddileu clefyd—rhywbeth a fydd yn cael effaith ar unwaith ac yn cynhyrchu budd hirdymor. Edrychodd Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, yn ei gweledigaeth Cynllun Datblygu Gwledig, ar nifer o ffyrddiau cyllid cyfalaf a allai gynorthwyo yn y broses hon. A oes unrhyw un o'r mentrau hyn wedi'u hymgorffori yn y rhaglen newydd?

Mae cryfhau cadwyni cyflenwi gwledig lleol yn bwysig, yn enwedig yn y diwydiant cig eidion, sydd wir yn dioddef ar hyn o bryd. Er ei bod, wrth gwrs, yn iawn i sicrhau bod y sector yn effeithlon, sut y byddwch yn defnyddio'r arian Cynllun Datblygu Gwledig i fuddsoddi yng nghynaliadwyedd hirdymor y diwydiant cig coch? Sut y byddwch chi'n datblygu gallu'r diwydiant yng Nghymru, yn enwedig o ran cyfleusterau lladd-dai a phrosesu?

Rwyf hefyd yn gofyn i chi ymhelaethu mwy ar ba fentrau torri costau y byddwch yn eu harchwilio gyda'r Dirprwy Weinidog o ran mesurau tlodi. Yn olaf, ynglŷn â chynllun penodedig ar gyfer ardaloedd llai ffafriol, neu ardaloedd o gyfyngiadau naturiol, fel y'u gelwir, credaf fod angen i ni gydnabod yn briodol yr amodau heriol iawn y mae'n rhaid i ffermwyr mewn ardaloedd ucheldir eu hwynebu. Er bod darpariaeth o daliadau ychwanegol i ffermwyr mewn ardaloedd AChN i gydnabod y baich costau ychwanegol, rydym yn dal i gredu y dylid cael cynllun penodol, fel y ceir ar draws y rhan fwyaf o'r aelod-wladwriaethau, a fydd yn ddigonol i gynnal ac adeiladu gwytnwch mewn cymunedau ucheldir ar hyd a lled Cymru.

Rwyf hefyd yn gofyn pam nad yw'r Llywodraeth wedi bwrw ymlaen â'r agweddau allweddol ar yr adroddiad 'Datgloi Potensial yr Ucheldir', a oedd yn annog Llywodraeth Cymru i fynd ar drywydd dewisiadau ar gyfer cyflwyno cynllun AChN penodedig yng Nghymru.

Thank you very much for your comments and for your welcome. I think that there is more that unites us on these issues than divides us, in the context of the importance of the rural economy to the Welsh economy and the importance of rural communities and their continuing sustainability. I will be delighted to work—as, I know, will my Deputy Minister—with all colleagues across the Chamber on this meeting, and it is my intention, as the rural development plan moves further forward as we go to Europe to have the discussions, to keep Members updated, either with the official individuals who represent the parties or on a more general basis to the Chamber, because it is important for the Chamber to understand where we are going in terms of the development of the plan.

Pillar 1 transfer was a decision that was taken last December. I note your regret, but we are where we are in terms of the discussion on pillar 1, and that has been dealt with.

In terms of the RDP, I do not intend for any resources to be frittered away anywhere. One of the first things that I will be doing with my Deputy Minister is looking at overheads, costs and administration. It is important that any money that is received goes to the front line, in terms of the budget et cetera, and that will be one of the areas that we will have to keenly look at.

In terms of young farmers, this is an important area. I recall that Glyn Davies, the Member of Parliament, was always keen on young entrants and young farmers schemes, and that was a subject of much discussion in the early years of the Assembly, and I certainly think that it is an important area that we should look at again.

I am not aware from my briefing notes today of the status of Malcolm Thomas's report; I will know, however, by the end of the day. I will be more than happy to ensure that Members are kept apprised of what he might have reported on in those particular areas.

In terms of the issues around the upland scheme, there is a lot of concern about the areas of natural restraints scheme, and I know that some work has been done on it by officials. I have currently got in front of me advice from officials about what I can and cannot do, but in view of the fact that you have raised this matter with me, I will have further discussions with my officials about how we can help, because it is important that we can help in these areas if we are prepared to do so, and to take a positive view of how we can help, particularly as I know that representations have been made across the piece.

Also, I am keen on some of the animal health and welfare issues that arise in this portfolio. We have to always be concerned about these issues, and it is important that we go the extra mile to give confidence to the public in terms of what we are doing for the welfare and health of animals.

Diolch yn fawr iawn am eich sylwadau ac am eich croeso. Rwy'n meddwl bod mwy sy'n ein huno ar y materion hyn na sy'n ein gwahanu, yng nghyd-destun pwysigrwydd yr economi wledig i economi Cymru a phwysigrwydd cymunedau gwledig a'u cynaliadwyedd parhaus. Byddaf yn falch iawn o weithio—fel yr wyf yn gwybod y bydd fy Nirprwy Weinidog—gyda phob cydweithwyr ar draws y Siambr ar y cyfarfod hwn, ac mae'n fwrriad gennyf, wrth i'r cynllun datblygu gwledig symud ymlaen ymhellach wrth i ni fynd i Ewrop i gael trafodaethau, i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau, naill ai gyda'r unigolion swyddogol sy'n cynrychioli'r pleidiau neu ar sail fwy cyffredinol i'r Siambr, oherwydd ei bod yn bwysig i'r Siambr ddeall i ble'r ydym yn mynd o ran datblygiad y cynllun.

Roedd trosglwyddo colofn 1 yn benderfyniad a gymerwyd fis Rhagfyr diwethaf. Rwy'n nodi eich gofid, ond yr ydym lle yr ydym o ran y drafodaeth ar golofn 1, ac ymdriniwyd â hynny.

O ran y Cynllun, nid wyf yn bwriadu i unrhyw adnoddau gael eu gwastraffu mewn unrhyw le. Un o'r pethau cyntaf y byddaf yn ei wneud gyda fy Nirprwy Weinidog yw edrych ar gostau cyffredinol, costau a gweinyddu. Mae'n bwysig bod unrhyw arian a dderbynnir yn mynd i'r rheng flaen, o ran y gyllideb ayb, a bydd hynny'n un o'r meysydd y bydd yn rhaid inni edrych yn ofalus arno.

O ran ffermwyr ifanc, mae hwn yn faes pwysig. Rwy'n cofio bod Glyn Davies, yr Aelod Seneddol, bob amser yn frwd dros gynlluniau newydd-ddyfodiaid a ffermwyr ifanc, ac roedd hynny'n destun llawer o drafod ym mlynnyddoedd cynnar y Cynulliad, ac rwy'n sicr yn credu bod hwn yn faes pwysig y dylem edrych arno eto.

Nid wyf yn ymwybodol o fy nodiadau briffio heddiw o statws adroddiad Malcolm Thomas; byddaf yn gwybod, fodd bynnag, erbyn diwedd y dydd. Byddaf yn fwy na pharod i sicrhau y caiff Aelodau wybod am yr hyn y gallai fod wedi adrodd arno yn y meysydd penodol hynny.

O ran y materion sy'n ymwneud â'r cynllun ucheldir, ceir llawer o bryder am ardaloedd y cynllun cyfyngiadau naturiol, ac rwy'n gwybod bod rhywfaint o waith wedi ei wneud ar hyn gan swyddogion. O fy mlaen ar hyn o bryd mae cyngor gan swyddogion am yr hyn y gallaf ac na allaf ei wneud, ond o ystyried y ffaith eich bod wedi codi'r mater hwn gyda mi, byddaf yn cael trafodaethau pellach gyda fy swyddogion ynghylch sut y gallwn helpu, oherwydd ei bod yn bwysig ein bod yn gallu helpu yn yr ardaloedd hyn os ydym yn barod i wneud hynny, ac i gymryd safbwynt cadarnhaol ar sut y gallwn helpu, yn enwedig gan fy mod yn gwybod bod sylwadau wedi eu gwneud yn gyffredinol.

Hefyd, rwy'n frwdfrydig o ran rhai o'r materion iechyd a lles anifeiliaid sy'n codi yn y portffolio hwn. Mae'n rhaid i ni bob amser bryderu am y materion hyn, ac mae'n bwysig ein bod yn ymdrechu'n galetach i roi hyder i'r cyhoedd o ran yr hyn yr ydym yn ei wneud ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid.

I realise that there are issues around the supply chains and concern about beef prices, and it is important that we look at the processing and marketing grants in the RDP, which I think will help that. We have to recognise that, in the rural economy, we are talking about businesses, supply chains to businesses and outcomes to consumers. That is very much how I see my role as it now comes back under the economy, as those particular issues have to be there.

Also, it is important that we acknowledge that there are cross-cutting issues relating to poverty, which link to many other issues around the rural economy. It is not just about the difficulties of farmers, particularly in upland areas, being able to continue with their businesses; the contribution that they make to the environment is also important. Also, we need to recognise that, if they are there, we have to look at other issues, such as rural bus services and how the economy works in general. The work that I have done in my department on things such as the Teifi local growth zone and the Powys local growth zone will complement the work that will be going on within agriculture and, particularly, in terms of the rural development plan.

I will also comment on some of the other issues that you raised in this discussion. It is important that we look carefully at what we expect at the end of this rural development plan and at where we see ourselves now and, with the implementation of this policy, what real achievements we can have along the way. I would like to reflect very much on day 1, as it were, on what more we can undertake.

Deputy Presiding Officer, today is my first opportunity to respond in a debate of this nature. So, perhaps we could table something early in the next term to update Members on the rural development plan and on plans around the agricultural agenda.

17:24

Llyr Gruffydd [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Rwy'n ategu'r croeso i'r Gweinidog yn ei rôl ychwanegol, efallai, yn hytrach na rôl newydd. Rwyf hefyd yn estyn croeso i'r Dirprwy Weinidog, gan edrych ymlaen at weithio gyda'r ddwy ohonynt i sicrhau ein bod yn cael y maen i'r wal er lles y cymunedau yr ydym ni i gyd yn eu cynrychioli.

Mae Plaid Cymru hefyd wedi beirniadu trosglwyddo 15% o biler 1 i biler 2. Byddwch yn ymwybodol bod incwm o ffermio i lawr 44%. Mae nifer o fusnesau yn dal i drio dygymod ag oblygiadau'r tywydd eithafol yn ddiweddar, ac mae diwygiadau CAP yn dod â rhai newidiadau strwythurol a fydd yn heriol, a dweud y lleiaf—ond, dyna ni. Roeddwn yn teimlo nad nawr oedd yr amser i fynd o fod ar y lefel isaf o drosglwyddiad yn y Deyrnas Unedig i fod ar y lefel uchaf yn yr Undeb Ewropeaidd, oherwydd bod oblygiadau i gystadleurwydd ein ffermwyr yn hynny o beth. Fodd bynnag, gwnaethpwyd y penderfyniad a derbynias, erbyn hyn, efallai ei fod yn rhy hwyr yn y dydd i newid hynny. Felly, mae'r ffocws yn gorfod disgyn yn awr ar sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn y modd gorau posibl.

Rwy'n sylweddoli y ceir materion yn ymwneud â'r cadwyni cyflenwi a phryder am brisiau cig eidion, ac mae'n bwysig ein bod yn edrych ar y grantiau prosesu a marchnata yn y Cynllun Datblygu Gwledig, yr wyf yn credu fydd yn helpu hynny. Mae'n rhaid i ni gydnabod, yn yr economi wledig, ein bod yn sôn am fusnesau, cadwyni cyflenwi i fusnesau a chanlyniadau i ddefnyddwyr. Dyna sut yr wyf yn gweld fy swyddogaeth gan ei bod yn awr yn dod yn ôl o dan yr economi, gan fod yn rhaid i'r materion penodol hynny fod yno.

Hefyd, mae'n bwysig ein bod yn cydnabod bod materion trawsbynciol sy'n ymwneud â thlodi, ac sy'n cysylltu â llawer o faterion eraill yn ymwneud â'r economi wledig. Nid yw hyn yn ymwneud yn unig ag anawsterau ffermwyr, yn enwedig yn ardaloedd yr ucheldir, yn gallu parhau â'u busnesau; mae'r cyfraniad y maent yn ei wneud i'r amgylchedd hefyd yn bwysig. Hefyd, mae angen inni gydnabod, os ydynt yno, mae'n rhaid i ni edrych ar faterion eraill, megis gwasanaethau bws gwledig a sut mae'r economi yn gweithio yn gyffredinol. Bydd y gwaith yr wyf wedi ei wneud yn fy adran i ar bethau fel ardal twf lleol Teifi ac ardal twf lleol Powys yn ategu'r gwaith a fydd yn digwydd o fewn amaethyddiaeth ac, yn enwedig, o ran y cynllun datblygu gwledig.

Byddaf hefyd yn rhoi sylwadau ar rai o'r materion eraill a godwyd gennych yn y drafodaeth hon. Mae'n bwysig ein bod yn edrych yn ofalus ar yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl ar ddiwedd y cynllun datblygu gwledig ac ar ble'r ydym yn gweld ein hunain yn awr ac, wrth roi'r polisi hwn ar waith, pa gyflawniadau gwirioneddol y gallwn eu cael ar hyd y ffordd. Hoffwn fyfyrto ar y diwrnod cyntaf, fel petai, ar yr hyn y gallwn ei wneud.

Ddirprwy Lywydd, heddiw yw fy nghyfle cyntaf i ymateb mewn dadl o'r fath. Felly, efallai y gallem gyflwyno rhywbeth yn gynnar yn y tymor nesaf i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynllun datblygu gwledig ac ar gynlluniau o gwmpas yr agenda amaethyddol.

I endorse the welcome given to the Minister in her additional role, rather than her new role. I also extend a warm welcome to the Deputy Minister, in looking forward to working with both of them to ensure that we do our best for the sake of the communities that we all represent in this place.

Plaid Cymru has also criticised the transfer of 15% from pillar 1 to pillar 2. You will be aware that farm income is down by 44%. A number of businesses are still trying to deal with the impacts of the severe weather recently, and CAP reform will bring some structural changes that will be challenging, to say the least—but, there we are. I felt that now was not the time to go from being at the lowest level of transfer in the United Kingdom to being at the highest level in the European Union, because there are implications for the competitiveness of our farmers in that regard. However, the decision was made and I now accept that it is perhaps too late in the day to change that. Therefore, the focus now has to shift to ensuring that those funds are used in the best possible way.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Ymrwymodd y cyn-Weinidog i sicrhau bod cymaint â phosibl o'r £286 miliwn a gafodd ei gymryd o biler 1 i biler 2, sef y 15%, yn dod yn ôl i ffermwyr drwy biler 2. A ydych yn hyderus bod y cynllun datblygu gwledig fel y caiff ei gyflwyno yn mynd i wireddu hynny? Fel dywedais, mae'r ffocws yn awr ar ddelifro ar y nod o gryfhau'r economi wledig. Rwy'n croesawu ehangu ar y cynllun i gefnogi newydd-ddyfodiaid. Yn sicr, ni fydd byth digon o arian i allu diwallu'r hyn y byddai pawb am ei wneud, ond, yn sicr, mae'n rhaid iddo fod yn un o'r blaenoriaethau wrth edrych i ddyfodol y diwydiant.

Mae rôl ehangach yr RDP hefyd yn bwysig yn fy marn i o ran meithrin diwylliant o fentro a mentergarwch yng nghefnw gwlad. Os ydym yn edrych am ryw fath o gofadail—rhyw fath o 'legacy'—rwy'n meddwl fod yn rhaid inni greu'r 'mindset' bod cyfleoedd allan yno. Rwyf yn grediniol bod pobl yn gweld y cyfleoedd ac yn teimlo bod syniadau y gallant fynd ar eu holau nhw, ond nad ydynt wastad â'r hyder i gymryd y cam hwnnw ac nad oes ganddynt y wybodaeth i wybod sut yn union i fanteisio ac adeiladu ar y posibilïadau hynny. Felly, rwyf yn hyderus ac yn gobeithio'n fawr y bydd yr RDP nesaf yn rhoi cyfle, er enghraifft, i adeiladu ar lwyddiant rhaglenni fel Llwyddo'n Lleol ac eraill sydd wedi gwneud cyfraniad pwysig ond y gallent wneud cyfraniad hyd yn oed yn fwy.

Er mwyn i hynny lwyddo, mae'n rhaid i ddarparwyr y gwasanaethau hynny—ac mae'r grwpiau LEADER hefyd yn chwarae rôl bwysig yn hynny—allu parhau. Felly, gofynnaf ichi, Weinidog, ein sicrhau ni na fydd oedi yn y broses o ganlyniad i newid Gweinidog, ac i roi'r sicrwydd diwyro i'r nifer o gyrff a mudiadau sy'n gofidio bod yr arian yn dod i'r cymunedau hynny o ddechrau'r flwyddyn nesaf ymlaen, oherwydd mae nifer o'r gyrff sydd wedi cysylltu â fi yn poeni nid yn unig am ddyfodol y swyddi, ond am ddyfodol rhai o'r gyrff hyn eu hunain os nad yw'r arian hynny yn dod yn ei flaen yn fuan. Wrth gwrs, mae rhai ohonynt yn gyflogwyr pwysig eu hunain yn rhai o'r ardaloedd gwledig yr ydym yn sôn amdanynt.

Mae creu economi wledig fwy cydnerth yn gofyn am arloesedd a datblygu technegau a thechnolegau newydd. Bydd y rhai ohonom sy'n aelodau o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd a fuodd yn ymwneud â'r ymchwiliad diweddar ar reoli tir yn gynaliadwy, rwy'n siŵr, wedi cael ein hysbrydoli gan y gwaith sy'n digwydd yn Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig yn Aberystwyth. Dyna ichi enghraifft o'r math o arloesedd y mae angen inni ei gefnogi drwy gynlluniau fel hyn yn y dyfodol. Dyma'r math o arloesedd sy'n rhoi Cymru ar flaen y gad yn y cyd-destun hwnnw, wrth gwrs.

Cyfeiriwyd at iechyd a lles anifeiliaid; mae bwriad i ddatblygu 'hub' milfeddygol yn Aberystwyth ac, er mai yn Aberystwyth y byddai hwn, fe fyddai'n gwasanaethu Cymru gyfan. Credaf fod cyfle inni, efallai, drïo trosglwyddo peth o'r un agwedd a'r un arloesedd i'r maes iechyd anifeiliaid hefyd, oherwydd bydd yn gwneud cyfraniad pwysig i sicrhau bod diwydiant mwy cydnerth a chynaliadwy gyda ni. Felly, gofynnaf ichi gadarnhau y bydd y math hynny o 'approach' yn sicr yn cyfrannu at eich gweledigaeth chi o ran sut y gall yr RDP wneud gwahaniaeth.

The former Minister did commit to ensuring that as much as possible of the £286 million that was transferred to pillar 2 from pillar 1, namely the 15%, comes back to farmers through pillar 2. Are you confident that the rural development plan as it currently stands will achieve that objective? As I said, the focus is now on delivering the aim of strengthening the rural economy. I welcome the expansion of the scheme to include new entrants. Certainly, there will never be enough money in the system to meet everyone's aspirations, but certainly it has to be one of the priorities in looking to the future of the industry.

The wider role of the RDP is also important in my opinion when it comes to nurturing a culture of innovation in rural areas. If we are looking for some sort of legacy, I believe that we have to create the mindset that there are opportunities out there. I am convinced that people identify those opportunities and feel that there are ideas that they can pursue, but they do not always have the confidence to take that step or have the information to know exactly how to build on their ideas and concepts. Therefore, I am confident and hope very much that the next RDP will give an opportunity, for example, to build upon the success of programmes such as Llwyddo'n Lleol and others that have made an important contribution but which could contribute even more.

In order for that to succeed, the providers of those services—and the LEADER groups play an important role in this regard—must be able to continue their work. Therefore, I ask you, Minister, to give us an assurance that there will be no delays in the process as a result of the change in Minister, and also to give an unswerving assurance to all of the bodies out there that currently have concerns that the funding will be coming to those communities from the start of next year onwards, because many bodies that have been in touch with me are concerned about the future not only of jobs, but of some of the organisations themselves should that money not be available soon. Some of them are important employers in some of the rural areas that we have heard about today.

Creating a more robust rural economy requires innovation and the development of new techniques and technologies. Those of us who are members of the Environment and Sustainability Committee who were involved in the recent inquiry into sustainable land management will, I am sure, have been inspired by the work that is being done by the Institute of Biological, Environmental and Rural Sciences in Aberystwyth. That is an example of the type of innovation that we need to support through schemes such as this in the future. That is the kind of innovation that puts Wales in the vanguard in that context, of course.

Reference has been made to animal health and wellbeing; there is an intention to develop a veterinary hub in Aberystwyth and, although it would be located in Aberystwyth, it would serve the whole of Wales. I believe that there is an opportunity for us, perhaps, to try to transfer some of that innovation to the field of animal health, too, because it will make an important contribution to ensuring that we have a more robust and sustainable industry. Therefore, I ask you to confirm that that sort of approach will contribute to your vision in terms of how the RDP can make a difference.

Roeddwn hefyd yn mynd i godi'r ffaith nad oes cyfeiriad at gynllun penodol i'r ucheldiroedd, y rhostiroedd ac yn y blaen, sydd yn wynebu heriau neilltuol penodol, ond rwy'n croesawu'r ffaith eich bod yn cydnabod y bydd newidiadau pellach ac y bydd cyhoeddiadau eraill dros y cyfnod nesaf. Felly, edrychaf ymlaen yn fawr iawn at hynny.

I was also going to raise the fact that there was no reference to a specific scheme for the uplands, moorlands, and so on, which are facing substantial, significant challenges, but I welcome the fact that you recognise that there will be further changes and further announcements over the ensuing period. Therefore, I look forward to that very much.

17:29

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much indeed. With reference to there being no specific scheme on the moorlands, it is my intention to discuss this further with officials to see if there is anything we can do within the existing policy and whether it would be possible for us to address that issue. There are some problems about administering the scheme and who would benefit, and so on, but I am very happy to take a fresh look at those particular issues.

There are very important issues regarding land management. The point you made about a veterinary hub is very important. It is certainly a very impressive operation up in Aberystwyth, which I have had the opportunity to visit previously. I am concerned that we should aim to have a veterinary hub in Wales, because we are a nation that requires that type of service. When you look in the round at rural industries and agriculture, we should have those types of facilities in Wales.

I think that farm incomes are a worry for people, because if farming payments are down, how are they able to function? It makes it very difficult to make decisions in farming families, particularly as to whether their children wish to go into the industry. It is always very easy to talk about diversification, but diversification, if you are set in your ways, requires innovation. I think that you alluded to the fact in your contribution that we should be encouraging, through the RDP's various funding streams, what we do with innovation, and the ability for people to have advice on how they can innovate and see how things work. That is very important. However, we have to be mindful as well that we are talking about a business, and that the business has to remain very competitive. Being competitive, in my opinion, does not mean going right to the bottom in terms of things—it is the quality of your produce, the quality of how you farm and the quality of how you do things, which are fundamentally important to some of these issues.

In terms of the RDP, I would love to give you a cast-iron guarantee today that there will be no slippage in any timescales, but I think that I would be falsely putting something on the record, Deputy Presiding Officer, without having fully discussed with the Deputy Minister how we see the development and timescales of the RDP proceeding. We do not want any delays in the process, because you are absolutely correct—LEADER groups and others are anxious to ensure that everything proceeds along the timescale that we have indicated to them. All these groups have a valuable contribution to make to the discussions that we have on the development of the rural economy. However, as I indicated, I will be updating Members when we return from recess.

Diolch yn fawr iawn yn wir. Gan gyfeirio at y ffaith nad oes cynllun penodol ar y rhostiroedd, mae'n fwrriad gennyf i drafod hyn ymhellach gyda swyddogion i weld a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud o fewn y polisi presennol ac a fyddai'n bosibl i ni fynd i'r afael â'r mater hwnnw. Ceir rhai problemau ynghylch gweinyddu'r cynllun a phwy fyddai'n elwa, ac yn y blaen, ond rwy'n hapus iawn i edrych o'r newydd ar y materion penodol hynny.

Ceir materion pwysig iawn ynghylch rheoli tir. Mae'r pwynt a wnaethoch am ganolfan filfeddygol yn bwysig iawn. Mae'r gwaith a wneir yn Aberystwyth yn drawiadol iawn, ac rwyf wedi cael y cyfle i ymweld â'r ganolfan o'r blaen. Rwy'n credu ei bod yn bwysig y dylem fod â'r nod o gael canolfan filfeddygol yng Nghymru, oherwydd ein bod yn genedl sydd angen y math hwnnw o wasanaeth. Pan fyddwch yn edrych yn ar ddiwydiannau gwledig ac amaethyddiaeth yn eu cyfanrwydd, dylem gael y mathau hynny o gyfleusterau yng Nghymru.

Credaf fod incwm ffermydd yn peri pryder i bobl, oherwydd os yw taliadau ffermio i lawr, sut y maent yn gallu gweithredu? Mae'n ei gwneud yn anodd iawn i wneud penderfyniadau mewn teuluoedd sy'n ffermio, yn enwedig ynghylch a yw eu plant yn dymuno mynd i mewn i'r diwydiant. Mae bob amser yn hawdd iawn siarad am arallgyfeirio, ond mae arallgyfeirio, os ydych yn geidwadol iawn o natur, yn gofyn am arloesi. Credaf eich bod wedi cyfeirio at y ffaith yn eich cyfraniad y dylem fod yn annog, drwy ffrydiau cyllid amrywiol y Cynllun Datblygu Gwledig, yr hyn yr ydym yn ei wneud gydag arloesedd, a'r gallu i bobl gael cyngor ar sut y gallant arloesi a gweld sut mae pethau'n gweithio. Mae hynny'n bwysig iawn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni sylweddoli hefyd ein bod yn sôn am fusnes, a bod yn rhaid i'r busnes aros yn gystadleuol iawn. Nid yw bod yn gystadleuol, yn fy marn i, yn golygu mynd i lawr i waelod pethau—ansawdd eich cynnyrch, ansawdd sut yr ydych yn ffermio ac ansawdd sut yr ydych yn gwneud pethau, sy'n sylfaenol bwysig i rai o'r materion hyn.

O ran y Cynllun Datblygu Gwledig, byddwn wrth fy modd yn rhoi sicrwydd pendant i chi heddiw na fydd dim llithro o ran unrhyw amserlenni, ond rwy'n meddwl y byddwn yn rhoi rhywbeth ar gam ar y cofnod, Ddirprwy Lywydd, heb fod wedi trafod yn llawn gyda'r Ddirprwy Weinidog sut yr ydym yn gweld datblygiad ac amserlenni'r Cynllun Datblygu Gwledig yn symud yn eu blaenau. Nid ydym yn dymuno gweld unrhyw oedi yn y broses, oherwydd rydych yn hollol gywir—mae grwpiau LEADER ac eraill yn awyddus i sicrhau bod popeth yn symud ymlaen ar hyd yr amserlen yr ydym wedi'i nodi wrthynt. Mae gan yr holl grwpiau hyn gyfraniad gwerthfawr i'w wneud i'r trafodaethau yr ydym yn eu cael ar ddatblygiad yr economi wledig. Fodd bynnag, fel y dywedais, byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau pan fyddwn yn dychwelyd o'r toriad.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I thank the Minister for her statement today, and also for stepping in at such short notice to deliver it. I would also like to extend my congratulations to the Minister on her enlarged portfolio and, as others have done, to welcome Rebecca Evans to her new responsibilities. Further to this, it is also good to see that John Griffiths has returned to the environment portfolio. I know that he holds those issues dear and has significant experience of the wider issues that will make an important contribution in time to come.

However, in terms of the statement, I am somewhat disappointed that something as important as the RDP has not been shared with AMs in advance of today's statement. I appreciate that today is not, in many ways, a normal day, and that it is no way a reflection on the new Minister, but this plan was hardly written this morning. It requires substantial scrutiny in this Chamber, which will need to take place at an early future time.

In terms of the RDP and specific questions, it is invidious to be asking further detailed questions today of the new Minister. There will be an early opportunity to do so, I hope, at a meeting of the Environment and Sustainability Committee—possibly against the background of the Royal Welsh Show, if the Minister is in a position to attend that fixture. However, from the beginning of this process in 2011, I have placed a significant emphasis on the importance of sustaining the Welsh uplands—an area which remains crucial to the wider face of Welsh agriculture. In doing so, I have been critical, as have other colleagues around the Chamber today, about the decision to unilaterally end the support that was available to the uplands. I am concerned that the current plan does not incorporate a dedicated areas of natural constraint scheme, but I am reassured by the Minister's listening mode today that this area will potentially be addressed.

However, the absence of that scheme currently bears out some of the worst fears that farmers, the length and breadth of Wales, have had in relation to the future of the industry. Indeed, the Minister referred to the difficulties that currently affect farming families across the land in terms of their incomes and their confidence for the future. Minister, in that context, without any data protection issues arising, could you give some indication, as soon as you have that information, as to how many farms will lose out in Wales compared to numbers in England, Scotland and Northern Ireland? I think that that would be helpful to gain a wider understanding.

Rwy'n diolch i'r Gweinidog am ei datganiad heddiw, a hefyd am gamu i mewn ar fyr rybudd o'r fath i'w gyflwyno. Hoffwn hefyd estyn fy llongyfarchiadau i'r Gweinidog ar ei phortffolio estynedig ac, fel y mae eraill wedi'i wneud, i groesawu Rebecca Evans i'w chyfrifoldebau newydd. Yn ogystal â hyn, mae hefyd yn dda gweld bod John Griffiths wedi dychwelyd i'r portffolio amgylchedd. Rwy'n gwybod ei fod yn agos iawn i'r materion hynny a bod ganddo brofiad sylweddol o'r materion ehangach a fydd yn gwneud cyfraniad pwysig yn y dyfodol.

Fodd bynnag, o ran y datganiad, rwyf braidd yn siomedig nad yw rhywbeth mor bwysig â'r Cynllun Datblygu Gwledig wedi cael ei rannu gydag ACau cyn y datganiad heddiw. Rwy'n sylweddoli nad yw heddiw, mewn sawl ffordd, yn ddiwrnod arferol, ac nad yw mewn unrhyw ffordd yn adlewyrchiad ar y Gweinidog newydd, ond digon o waith bod y cynllun hwn wedi ei ysgrifennu y bore yma. Mae'n gofyn am graffu sylweddol yn y Siambr hon, a bydd angen i hynny ddigwydd yn fuan yn y dyfodol.

O ran y Cynllun Datblygu Gwledig a chwestiynau penodol, mae'n annheg i fod yn gofyn cwestiynau manwl pellach heddiw i'r Gweinidog newydd. Bydd cyfle cynnar i wneud hynny, rwy'n gobeithio, mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd—o bosibl yn erbyn cefndir Sioe Frenhinol Cymru, os yw'r Gweinidog mewn sefyllfa i fynd i'r digwyddiad hwnnw. Fodd bynnag, o ddechrau'r broses hon yn 2011, rwyf wedi rhoi pwyslais sylweddol ar bwysigrwydd cynnal ucheldir Cymru—ardal sy'n parhau i fod yn hanfodol i wyneb ehangach amaethyddiaeth Cymru. Wrth wneud hynny, rwyf wedi bod yn feirniadol, fel y mae cydweithwyr eraill o gwmpas y Siambr heddiw, o'r penderfyniad i roi terfyn unochrog ar y gefnogaeth a oedd ar gael i'r ucheldiroedd. Rwy'n pryderu nad yw'r cynllun presennol yn cynnwys cynllun ardaloedd penodol â chyfyngiadau naturiol, ond rwy'n cael fy nghalonogi gan y ffaith fod y Gweinidog yn gwranddo heddiw ac y bydd y maes hwn yn cael sylw o bosibl.

Fodd bynnag, mae absenoldeb y cynllun hwnnw ar hyn o bryd yn ategu rhai o'r ofnau gwaethaf y mae ffermwyr, ar hyd a lled Cymru, wedi'u cael ynglŷn â dyfodol y diwydiant. Yn wir, cyfeiriodd y Gweinidog at yr anawsterau sydd ar hyn o bryd yn effeithio ar deuluoedd ffermio ledled y wlad o ran eu hincwm a'u hyder ar gyfer y dyfodol. Weiniog, yn y cyd-destun hwnnw, heb i unrhyw faterion diogelu data godi, a allech roi rhyw syniad, cyn gynted ag y bydd y wybodaeth gennych, ynghylch faint o ffermydd fydd yn dioddef yng Nghymru o'i gymharu â niferoedd yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon? Credaf y byddai hynny'n ddefnyddiol i gael dealltwriaeth ehangach.

In terms of forestry, which you alluded to in your statement, I would be grateful if you could outline how you will ensure that the woodland creation element of the related Glastir scheme will not impact adversely on priority habitats and species. For example, there is increasing pressure being applied to plant up areas of ffridd that support a diversity of scarce and vulnerable species. The increasing focus on online applications that the previous Minister put great emphasis on is also providing a significant additional burden on our farming families. Naturally, the RDP could potentially provide some assistance here. I know that this is something that, with your wider portfolio, you have been pushing for in the context of broadband roll-out. However, Minister, could you indicate a timescale for any support that could be made available to farmers who face difficulties, particularly with those onerous applications? Given that farms are likely also to be some of the most remote properties, still without full internet access in many cases, will you commit to looking again at the timescale for the roll-out of the fully online application system so as to be confident that it is deliverable without putting farmers and farm businesses under even further pressure at this difficult time?

O ran coedwigaeth, yr oeddech yn cyfeirio ato yn eich datganiad, byddwn yn ddiolchgar pe gallech amlinellu sut y byddwch yn sicrhau na fydd yr elfen greu coetir o'r cynllun Glastir cysylltiedig yn cael effaith andwyol ar gynefinoedd a rhywogaethau â blaenoriaeth. Er enghraifft, mae pwysau cynyddol yn cael ei roi i blannu ardaloedd o ffridd sy'n cynnal amrywiaeth o rywogaethau prin a bregus. Mae'r pwyslais cynyddol ar geisiadau ar-lein y rhoddodd y Gweinidog blaenorol bwyslais mawr arnynt hefyd yn rhoi baich ychwanegol sylweddol ar ein teuluoedd ffermio. Yn naturiol, gallai'r Cynllun Datblygu Gwledig o bosibl ddarparu rhywfaint o gymorth yn hyn o beth. Gwn fod hyn yn rhywbeth, gyda'ch portffolio ehangach, yr ydych wedi bod yn pwysu amdano yng nghyd-destun cyflwyno band eang. Fodd bynnag, Weinidog, a allech chi nodi amserlen ar gyfer unrhyw gymorth a allai fod ar gael i ffermwyr sy'n wynebu anawsterau, yn enwedig gyda'r ceisiadau beichus hynny? O ystyried bod ffermydd hefyd yn debygol o fod yn rhai o'r eiddo mwyaf anghysbell, yn dal heb fynediad llawn i'r rhyngwyd mewn llawer o achosion, a wnewch chi ymrwymo i edrych eto ar yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r system ymgeisio ar-lein lawn er mwyn bod yn hyderus bod modd ei chyflawni heb roi ffermwyr a busnesau fferm o dan bwysau ychwanegol hyd yn oed ar yr adeg anodd hon?

17:36

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Thank you very much for your kind words of welcome. In terms of the online applications and all the issues around that, I will ask my other Deputy Minister, Ken Skates, to look very carefully at the broadband implications and the link with this portfolio, because I think that, if it is not real in terms of the people being able to have the facilities to do it, we will have to look at timescales within this. I am happy to take that on board. In terms of Glastir, the issue of woodlands and the link to the protection of wildlife is quite fundamental; that will be the subject of discussion that I know my colleague John Griffiths will be particularly interested in in the considerations around that area. It is certainly an issue that we will be taking up.

On statistics, I am always hopeful that I can provide statistics that Members ask of me and that I can ensure that they will always be achieved in a proper manner in terms of what statistics are available and what comparisons can be made. We will certainly take that point on board. May I say that, on the RDP, it would have been my intention if I had been responsible to have shared more of these issues perhaps sooner with opposition spokespeople in terms of what they felt about how we were moving in terms of the RDP? That is the nature of how we can hopefully get a consensus as we move forward. I know that my door and Rebecca's door will always be open for discussions with the opposition parties on these particular matters.

Diolch yn fawr iawn am eich geiriau caredig o groeso. O ran y ceisiadau ar-lein a'r holl faterion sy'n ymwneud â hynny, byddaf yn gofyn i fy Nirprwy Weinidog arall, Ken Skates, i edrych yn ofalus iawn ar y goblygiadau band eang a'r cysylltiad â'r portffolio hwn, oherwydd fy mod yn credu, os nad yw'n real o ran bod gan y bobl y gallu i gael y cyfleusterau i wneud hynny, bydd yn rhaid inni edrych ar yr amserlenni yn ymwneud â hyn. Rwy'n fodlon ystyried hynny. O ran Glastir, mae'r mater o goetiroedd a'r cysylltiad ag amddiffyn bywyd gwylt yn eithaf sylfaenol; bydd hynny'n destun trafodaeth yr wyf yn gwybod y bydd gan fy nghyd-Aelod John Griffiths diddordeb arbennig ynddo o ran yr ystyriaethau o amgylch y maes hwnnw. Mae'n sicr yn fater y byddwn yn ei ystyried.

O ran ystadegau, rwyf bob amser yn obeithiol y gallaf roi ystadegau y mae Aelodau'n gofyn i mi amdanynt ac y gallaf sicrhau y byddant bob amser yn cael eu cyflawni mewn modd priodol o ran pa ystadegau sydd ar gael a pha gymariaethau y gellir eu gwneud. Byddwn yn sicr yn ystyried y pwynt hwnnw. A gaf fi ddweud, o ran y Cynllun Datblygu Gwledig, y byddai wedi bod yn fwriad gennyf, pe byddwn wedi bod yn gyfrifol, i rannu mwy o'r materion hyn yn gynharach efallai gyda llefarwyr y gwrthbleidiau o ran yr hyn y maent yn ei deimlo am sut yr ydym yn symud o ran y Cynllun Datblygu Gwledig? Dyna natur sut y gallwn, gobeithio, gael consensws wrth inni symud ymlaen. Rwy'n gwybod y bydd fy nrws a drws Rebecca bob amser ar agor ar gyfer trafodaethau gyda'r gwrthbleidiau ar y materion penodol hyn.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

In terms of upland support measures, obviously, the moorland farms will be prioritised for entry into the Glastir advanced scheme under the next plan, as you are aware. I also think that business advice will be made available in the successor to the Farming Connect scheme under the new RDP, which I also think can help and assist them. However, I might also look at strengthening relationships within my wider portfolio about how business advice can be undertaken. Obviously, there has been an analysis of statistics that does not support an intervention about winners and losers around some of these issues. That is why I indicated that, on the issue of areas of natural constraint, I will have a further look at this in discussion with officials. I am not sure that I am up to speed with some of the issues around that. However, I will certainly come back to Members on those particular issues.

O ran mesurau cymorth yr ucheldir, yn amlwg, bydd ffermydd rhostir yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer mynediad i'r cynllun Glastir uwch o dan y cynllun nesaf, fel y gwyddoch. Rwyf hefyd yn credu y bydd cyngor busnes ar gael yn yr olynedd i'r cynllun Cyswllt Ffermio o dan y Cynllun Datblygu Gwledig newydd, ac rwyf hefyd yn credu y gall hynny eu helpu a'u cynorthwyo. Fodd bynnag, efallai y byddwn hefyd yn edrych ar gryfhau perthnasoedd o fewn fy mhorthffolio ehangach am sut y gellir cynnig cyngor busnes. Yn amlwg, cafwyd dadansoddiad o ystadegau nad yw'n cefnogi ymyrraeth yn ymwneud ag enillwyr a chollwyr ynghylch rhai o'r materion hyn. Dyna pam y nodais, ar y mater o ardaloedd â chyfyngiadau naturiol, y byddaf yn cael golwg pellach ar hyn mewn trafodaethau gyda swyddogion. Nid wyf yn siŵr bod y wybodaeth ddiweddaraf gennyf ar rai o'r materion sy'n ymwneud â hynny. Fodd bynnag, byddaf yn sicr yn dod yn ôl at yr Aelodau ar y materion penodol hynny.

17:38 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Finally, I call Antoinette Sandbach.

Yn olaf, galwaf ar Antoinette Sandbach.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

17:38 **Antoinette Sandbach** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I am grateful, Deputy Presiding Officer. Minister, thank you for your statement and welcome to your new role. I will be brief because I did put in a written response to the consultation, which you will be able to look at.

Rwy'n ddiolchgar, Ddirprwy Lywydd. Weinidog, diolch i chi am eich datganiad a chroeso i'ch swyddogaeth newydd. Byddaf yn gryno oherwydd fy mod wedi rhoi ymateb ysgrifenedig i'r ymgynghoriad, y byddwch yn gallu edrych arno.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

However, there was a particular request to have a one-stop shop that is straightforward, user-friendly, avoids bureaucracy and where it is easy for farmers and others to access all the information. I think that one of the difficulties has been that lots of different bits of advice are provided by different people and there is no one-stop shop. There were also concerns about the local action groups and the delivery in relation to local action groups, and I would particularly like you to look at that again, because it was not clear that they did in fact provide value for money or achieve the aims that they were intended to achieve. If you are going to look at the ANC matter again, because that may involve some rejigging of some funding, I notice that there were increases to the LEADER and rural community development budgets. They were both increased from 5% to 10% and, if you need to take funding, I would urge you to take it out of those budgets. That is not to say that you should not have programmes under them—I welcome the programmes—and I know that there is a minimum 5% funding requirement from the EU.

Fodd bynnag, roedd cais arbennig i gael siop un stop sy'n syml, yn hawdd ei defnyddio, yn osgoi biwrocratiaeth a lle mae'n hawdd i ffermwyr ac eraill gael gafael ar yr holl wybodaeth. Rwy'n meddwl mai un o'r anawsterau yw bod llawer o wahanol ddarnau o gyngor yn cael eu darparu gan wahanol bobl ac nad oes siop un stop ar gael. Roedd pryderon hefyd am y grwpiau gweithredu lleol a'r cyflenwi o ran y grwpiau gweithredu lleol, a byddwn yn hoffi yn arbennig i chi edrych ar hynny eto, oherwydd nid oedd yn glir eu bod mewn gwirionedd yn darparu gwerth am arian neu'n cyflawni'r amcanion y bwriadwyd iddynt eu cyflawni. Os ydych yn mynd i edrych ar y mater AChN eto, oherwydd efallai y bydd hynny'n golygu peth ailwampio ar rywfaint o'r cyllido, rwy'n sylwi bod cynnydd yn y cyllidebau LEADER a datblygu cymunedau gwledig. Maent ill dau wedi'u cynyddu o 5% i 10% ac, os oes angen i chi gymryd cyllid, byddwn yn eich annog i'w gymryd allan o'r cyllidebau hynny. Nid yw hynny'n golygu na ddylech gael rhaglenni oddi tanynt—rwy'n croesawu'r rhaglenni—ac rwy'n gwybod bod yna ofyniad cyllido o 5% o leiaf o'r UE.

Finally, may I welcome the sustainable production grants? Those are very important to allow farming businesses to become efficient and effective. When you are looking at your promotion of the food produce sector and supply chain, please consider distribution issues, which are nearly always raised with me, and also the potential for the new mountain product label to tie in with the ANC scheme, which, I know, is a new scheme; it is a new opportunity and I doubt that the previous Minister will have had much opportunity to have a look at that.

Yn olaf, a gaf i groesawu'r grantiau cynhyrchu cynaliadwy? Mae'r rheini'n bwysig iawn i ganiatáu i fusnesau ffermio i ddod yn effeithiol ac effeithlon. Pan fyddwch yn edrych ar eich hyrwyddo o'r sector cynnyrch bwyd a'r gadwyn gyflenwi, a wnewch chi ystyried materion dosbarthu os gwelwch yn dda, sydd bron bob amser yn cael eu codi gyda mi, a hefyd y potensial ar gyfer label y cynnyrch mynydd newydd i gyd-fynd â'r cynllun AChN, sydd, mi wn, yn gynllun newydd; mae'n gyfle newydd ac rwy'n amau y bydd y Gweinidog blaenorol wedi cael llawer o gyfle i gael golwg ar hynny.

17:41

Edwina Hart [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Thank you for those comments. I am particularly interested in the last point about product labels, because that is quite important. The food sector is very important to Wales, and how we label products and have the image of Wales on them is also very important. I make no promises about the review that I am undertaking on some of these issues. I will just say that I will have a look at it and two fresh pairs of eyes might actually help on that.

Diolch i chi am y sylwadau yna. Mae gennyf ddi-ddordeb arbennig yn y pwynt olaf am labeli cynnyrch, gan fod hynny'n dra phwysig. Mae'r sector bwyd yn bwysig iawn i Gymru, a sut yr ydym yn labelu cynnyrch ac yn rhoi'r ddelwedd o Gymru arnynt yn bwysig iawn hefyd. Nid wyf yn gwneud unrhyw addewidion am yr adolygiad yr wyf yn ei gynnal ar rai o'r materion hyn. Dywedaf yn unig y byddaf yn edrych arno ac efallai y bydd dau bâr o lygaid newydd yn helpu gyda hynny mewn gwirionedd.

I note the point that you made particularly about sustainable production grants and the RDP. I think that these are absolutely essential to increase on-farm investment. Technical performance is also important in this regard. I think that we all sign up to on-farm and farm resource efficiencies, which I think will help, in general.

Nodaf y pwynt a wnaethoch yn arbennig ynghylch grantiau cynhyrchu cynaliadwy a'r Cynllun Datblygu Gwledig. Rwy'n meddwl bod y rhain yn gwbl hanfodol i gynyddu'r buddsoddiad ar y fferm. Mae perfformiad technegol hefyd yn bwysig yn hyn o beth. Credaf ein bod i gyd yn cytuno ag effeithlonrwydd ar y fferm ac o ran adnoddau fferm, yr wyf yn credu y byddant yn helpu, yn gyffredinol.

However, I also take on board very much your point about the one-stop shop. This is an issue that comes from SMEs across the piece, whether they are in farming or not; it is about being able to make one call that is then able to send you everywhere. So, I am very mindful of that from the other elements within my portfolio, because farming is business at the end of the day. You also have to understand, when you cannot give advice, who they should then ask. It is about the melding of those issues, what their accountants do and what they go to Government to ask. It is quite important.

Fodd bynnag, rwyf hefyd yn derbyn yn llwyr eich pwynt am y siop un stop. Mae hwn yn fater sy'n dod o fusnesau bach a chanolog yn gyffredinol, pa un a ydynt yn ymwneud â ffermio ai peidio; mae'n ymwneud â gallu gwneud un galwad sydd wedyn yn gallu eich anfon i bob man. Felly, rwy'n ymwybodol iawn o hynny, o'r elfennau eraill o fewn fy mhortffolio, gan mai busnes yw ffermio yn y pen draw. Mae'n rhaid i chi hefyd ddeall, pan nad ydych yn gallu rhoi cyngor, pwy y dylent ofyn iddyn nhw wedyn. Mae'n ymwneud â chyfuno'r materion hynny, beth mae eu cyfrifwyr yn ei wneud a'r hyn y maent yn mynd at y Llywodraeth i'w ofyn. Mae'n eithaf pwysig.

In terms of the local action groups, I note your point about value for money, but they will have to show what they are able to do on this. You can have our assurance that we will look at all of the issues around value for money to ensure that we have the best value out of the resources that come to us, in terms of having a very good rural development plan up to 2020, which has very positive outcomes for the rural community.

O ran y grwpiau gweithredu lleol, nodaf eich pwynt am werth am arian, ond bydd yn rhaid iddynt ddangos yr hyn y maent yn gallu ei wneud ar hyn. Gallwch gael ein sicrwydd y byddwn yn edrych ar yr holl faterion sy'n ymwneud â gwerth am arian er mwyn sicrhau ein bod yn cael y gwerth gorau o'r adnoddau sy'n dod atom ni, o ran cael cynllun datblygu gwledig da iawn hyd at 2020, sydd â chanlyniadau cadarnhaol iawn ar gyfer y gymuned wledig.

17:42

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Diolch yn fawr, Weinidog.

Thank you very much, Minister.

17:43

**Memorandwm Cydsyniad
Deddfwriaethol ynghylch y Bil
Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd**

**Legislative Consent Motion on the Y
Criminal Justice and Courts Bill**

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I call on the Minister for Housing and Regeneration to move the motion.

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding
Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Galwaf ar y Gweinidog Tai ac Adfywio i gynnig y cynnig.

Cynnig NNDM5549 Carl Sargeant

Motion NNDM5549 Carl Sargeant

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Cyfiawnder Troseddol a'r Llysoedd sy'n cyflwyno gofyniad i gael caniatâd yr Uchel Lys cyn y ceir herio dilysrwydd amrywiol orchmynion, camau, cynlluniau a dogfennau strategol eraill sy'n ymwneud â chynllunio, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions in the Criminal Justice and Courts Bill which introduce a requirement that the leave of the High Court be obtained before a challenge may be brought against the validity of various planning-related orders, actions, plans and other strategic documents, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

17:43 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:43 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no speakers. The question is that the motion be agreed. Does any Member object? There is no objection, therefore the motion is agreed.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Y cwestiwn yw bod y cynnig yn cael ei dderbyn. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:43 **Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Bwyd o Brydain) 2014**

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Economy, Science and Transport to move the motion.

The Public Bodies (Abolition of Food from Britain) Order 2014

Galwaf ar y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i gynig y cynnig.

Cynnig NNDM5550 Alun Davies

Motion NNDM5550 Alun Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, a Rheol Sefydlog 30A.10, i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud Gorchymyn Cyrff Cyhoeddus (Diddymu Bwyd o Brydain) 2014, yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Mai 2014.

To propose that the National Assembly for Wales agrees, in accordance with section 9(6) of the Public Bodies Act 2011, and Standing Order 30A.10, that the Secretary of State makes The Public Bodies (Abolition of Food from Britain) Order 2014, in accordance with the draft laid in Table Office on 9 May 2014.

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:43 **Edwina Hart** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

I would like to begin by expressing my thanks to the Constitutional and Legislative Affairs Committee for considering the statutory instrument consent memorandum on the abolition of Food from Britain. I also thank the committee for its report, which noted that it was content with these matters. I think that it is very important that we understand that, given that Food from Britain ceased operating in 2009, we have no choice as Members but to support this motion.

Hoffwn ddechrau drwy fynegi fy niolch i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am ystyried y memorandwm cydsyniad offeryn statudol ar ddiddymu Bwyd o Brydain. Rwyf hefyd yn diolch i'r pwyllgor am ei adroddiad, a oedd yn nodi ei fod yn fodlon â'r materion hyn. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn deall, o gofio bod Bwyd o Brydain wedi rhoi'r gorau i weithredu yn 2009, nad oes gennyf ddewis fel Aelodau heblaw cefnogi'r cynnig hwn.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:44 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I have no speakers. The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There are no objections, so the motion is agreed.

Nid oes gennyf unrhyw siaradwyr. Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes unrhyw wrthwynebiad, felly mae'r cynnig wedi ei dderbyn.

Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Cynnig Cyfnod 4 o dan Reol Sefydlog 26.47 i Gymeradwyo'r Bil Tai (Cymru)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

[Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call on the Minister for Housing and Regeneration to move the motion.

Cynnig

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47, yn cymeradwyo Bil Tai (Cymru).

Stage 4 Standing Order 26.47 Motion to Approve the Housing (Wales) Bill

Galwaf ar y Gweinidog Tai ac Adfywio i gynnig y cynnig.

Motion

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.47, approves the Housing (Wales) Bill.

Carl Sargeant

[Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration

I move the motion.

Cynigiau y cynnig.

I have the privilege of bringing the Bill before the Chamber today, but it is the culmination of a considerable body of work involving many people. It marks the end of a process that was started by my predecessor, Huw Lewis. It has involved public consultation and extensive engagement with stakeholders. I am grateful for all of the contributions. The Bill has been through several stages; it has been examined by the Constitutional and Legislative Affairs Committee, the Finance Committee and, on more than one occasion, the Communities, Equality and Local Government Committee.

Fi sy'n cael y fraint o ddod â'r Bil gerbron y Siambr heddiw, ond mae'n cynrychioli ddiwedd cryn dipyn o waith sydd wedi cynnwys llawer o bobl. Mae'n nodi diwedd proses a ddechreuwyd gan fy rhagflaenydd, Huw Lewis. Mae wedi cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus ac ymgysylltu helaeth â rhanddeiliaid. Rwy'n ddiolchgar am yr holl gyfraniadau. Mae'r Bil wedi bod drwy nifer o gamau; mae wedi cael ei archwilio gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, y Pwyllgor Cyllid ac, ar fwy nag un achlysur, y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

The latter devoted a considerable amount of time and effort taking evidence from individuals and organisations. It has been a considerable amount of work for everybody and a challenging process, but scrutiny of the Bill has been robust.

Rhododd yr olaf gryn dipyn o amser ac ymdrech i gymryd tystiolaeth gan unigolion a sefydliadau. Mae wedi golygu llawer o waith i bawb ac wedi bod yn broses heriol, ond mae craffu ar y Bil wedi bod yn gadarn.

In addition to you, Deputy Presiding Officer, the Presiding Officer, all Members and particularly those on the communities committee, I want to thank my Cabinet colleagues and also many officials in my department, across the Welsh Government and in the Assembly Commission who have all worked tirelessly during the development and passage of the Bill. I want to put on record my sincere thanks to everyone.

Yn ogystal â chi, Ddirprwy Lywydd, y Llywydd, yr holl Aelodau ac yn enwedig y rhai ar y pwyllgor cymunedau, rwyf am ddiolch i fy nghydweithwyr yn y Cabinet a hefyd llawer o swyddogion yn fy adran, ar draws Llywodraeth Cymru ac yng Nghomisiwn y Cynulliad sydd i gyd wedi gweithio'n ddiffino yn ystod datblygiad a hynt y Bil. Rwyf am gofnodi fy niolch diffuant i bawb.

This Bill is significant. This is not just my view, but that of Shelter Cymru and Gofal, which are very well-placed to know what needs to be done to help meet people's housing needs and to prevent homelessness. Shelter Cymru said recently that,

Mae'r Bil hwn yn arwyddocaol. Nid fy marn i yn unig yw hon, ond barn Shelter Cymru a Gofal, sydd mewn sefyllfa dda iawn i wybod beth sydd angen ei wneud i helpu i ddiwallu anghenion tai pobl ac atal digartrefedd. Dywedodd Shelter Cymru yn ddiweddar,

'Without doubt, the Housing Bill is one of the most important developments for people and homes in Wales for a generation.'

Heb amheuaeth, mae'r Bil Tai yn un o'r datblygiadau pwysicaf ar gyfer pobl a chartrefi yng Nghymru ers cenhedlaeth.

I thank them for their contributions too.

Rwy'n diolch iddynt hwy am eu cyfraniadau hefyd.

Deputy Presiding Officer, I know that we have had many long sessions in this Chamber regarding the Bill, including that of last week, and I thank members of staff and am grateful for the indulgence of Members and for their taking a very strong view on the proposals. Tackling inequality, poverty and social justice are at the heart of this Bill. The issues that we are addressing through the Bill—the private rented sector and homelessness, for example—are not problems unique to Wales, but, unlike England, we are doing something about them here in Wales that is made in Wales. Diolch yn fawr, Deputy Presiding Officer. I commend this today.

Ddirprwy Lywydd, rwy'n gwybod ein bod wedi cael llawer o sesiynau hir yn y Siambr hon ynghylch y Bil, gan gynnwys yr wythnos diwethaf, ac rwy'n diolch i aelodau o staff ac rwy'n ddiolchgar am oddefgarwch Aelodau ac am iddynt gymryd barn gref iawn ar y cynigion. Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, tloedi a chyfiawnder cymdeithasol sydd wrth wraidd y Bil hwn. Nid yw'r materion yr ydym yn ymdrin â nhw drwy'r Bil—y sector rhentu preifat a digartrefedd, er enghraifft—yn broblemau unigryw i Gymru, ond, yn wahanol i Loegr, rydym yn gwneud rhywbeth yn eu cylch yma yng Nghymru sy'n cael ei wneud yng Nghymru. Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n cymeradwyo hyn heddiw.

17:46

Mark Isherwood [Bywgraffiad Biography](#)

I think that my 21 years in the building society sector and my 12 years in the housing association sector taught me the most important lesson that if Government or any other agency is seeking to deliver programmes or legislation, the most important thing is that the sector should work together with the proposer of the legislation. In my experience, that is exactly what happened before devolution in Wales, where Tai Cymru would come to people like me, and colleagues across the sector, and agree ways of making the proposal into something that could work, so that all parties could then implement it together. Regrettably, this Bill failed to achieve that.

Much of the Bill, and its beginning, focuses on regulation and licensing—I do not propose to revisit the arguments of recent weeks. Suffice it to say that much of the sector, particularly those parts of the sector that invest or decide to invest in supply, state that it will not work; it will actually have the reverse impact and will disincentive investment. This in turn will impact, sadly and tragically, on a key element of this in terms of tackling homelessness, which is increasing the supply of private rented sector housing to those who are homeless, to those who are on waiting lists and those who need that extra support.

Also, it fails to recognise the recommendations of the Communities and Culture Committee report some years ago at the end of the last Assembly. It recognised the need to embrace the private rented sector as an option of first choice for social housing. It recommended close working partnership across the sector and it recommended that social letting agencies as social enterprises should be developed with the sector, but instead we are seeing development by Government and local government, regardless of the wish of the wider sector to bring expertise and resources to the table.

It is over a decade since the sector collectively said that we had a housing supply crisis. It is many years since the Homes for All Cymru report, 'Blueprint for Action', said that there was a crisis in Wales. It is not new. The current housing system has been failing for a long time. The consequences for the health and wellbeing of people and the stability of people and communities in Wales are dire.

Credaf fod fy 21 mlynedd yn y sector cymdeithas adeiladu a fy 12 mlynedd yn y sector cymdeithasau tai wedi dysgu i mi y wers bwysicaf sef os yw Llywodraeth neu unrhyw asiantaeth arall yn ceisio cyflwyno rhaglenni neu ddeddfwriaeth, y peth pwysicaf yw y dylai'r sector gydweithio â chynigydd y ddeddfwriaeth. Yn fy mhrofiad i, dyna'n union yr hyn a ddigwyddodd cyn datganoli yng Nghymru, pan fyddai Tai Cymru yn dod at bobl fel fi, a chydweithwyr ar draws y sector, a chytuno ar ffyrdd o wneud y cynnig yn rhywbeth a allai weithio, fel y gallai pob parti wedyn ei weithredu gyda'i gilydd. Yn anffodus, methodd y Bil hwn â chyflawni hynny.

Mae llawer o'r Bil, a'i ddechrau, yn canolbwyntio ar reoleiddio a thrwyddedu—nid wyf yn bwriadu ailystyried dadleuon yr wythnosau diwethaf. Digon yw dweud bod llawer o'r sector, yn enwedig y rhannau hynny o'r sector sy'n buddsoddi neu'n penderfynu buddsoddi mewn cyflenwi, yn datgan na fydd yn gweithio; bydd mewn gwirionedd yn cael yr effaith groes ac ni fydd yn cymell buddsoddiad. Bydd hyn yn ei dro yn effeithio, yn anffodus ac yn drasig iawn, ar elfen allweddol hyn o ran mynd i'r afael â digartrefedd, sef cynyddu cyflenwad tai yn y sector rhentu preifat i'r rheiny sy'n ddigartref, i'r rhai sydd ar restrau aros a'r rhai sydd angen y cymorth ychwanegol hwnnw.

Hefyd, mae'n methu â chydabod argymhellion adroddiad y Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant rai blynyddoedd yn ôl ar ddiwedd y Cynulliad diwethaf. Roedd yn cydnabod yr angen i gofreiddio'r sector rhentu preifat fel opsiwn o ddewis cyntaf ar gyfer tai cymdeithasol. Roedd yn argymhell partneriaeth waith agos ar draws y sector ac roedd yn argymhell y dylai asiantaethau gosod tai cymdeithasol fel mentrau cymdeithasol gael eu datblygu gyda'r sector, ond yn hytrach rydym yn gweld datblygiad gan y Llywodraeth leol, sy'n anwybyddu dymuniad y sector ehangach i ddod ag arbenigedd ac adnoddau at y bwrdd.

Mae dros ddegawd wedi mynd heibio ers i'r sector ddweud ar y cyd bod gennym argyfwng cyflenwad tai. Mae blynyddoedd lawer ers i adroddiad Cartrefi i Bawb Cymru, 'Glasbrint ar gyfer Gweithredu', ddweud bod argyfwng yng Nghymru. Nid yw'n newydd. Mae'r system dai bresennol wedi bod yn methu ers amser maith. Mae'r canlyniadau i iechyd a lles pobl a sefydlogrwydd pobl a chymunedau yng Nghymru yn enbyd.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

Instead, we are having anti-business regulation for all landlords, hitting investment and supply, rather than targeted enforcement against bad and criminal landlords and support for the worst-affected tenants, so they know how to claim, where and to whom to go, knowing that they will be protected if they do so.

As the Let Down in Wales campaign, a coalition campaigning on behalf of private renters, said,

'The Housing (Wales) Bill proposes voluntary regulation and training for landlords, with an "expectation"

that landlords will meet certain basic standards but,

'This is the ONLY thing that is changing for tenants and we refute that there would be any confidence in this system.'

The Residential Landlords Association stated that it supports the aim of raising standards and rooting out bad landlords, but that it does not think that the proposed scheme will achieve these aims. Contrary to the Minister's claim that it had not offered an alternative way of identifying landlords, the briefing paper that it produced most certainly did.

The Country Land and Business Association stated that the adoption of this scheme would thus only serve as additional red tape and bureaucracy, stifling the Welsh economy and jeopardising the supply of much-needed private-rented homes. The National Landlords Association said that what we need in investment terms, to deliver quality homes that people can afford to rent, is a true social venture partnership between the public, private and third sectors that it has been offering for years. It told me that that was not warmly received, despite its willing offer of expertise.

The Bill even fails to acknowledge the true definition of disability and the difference, which was fought for over generations by disability rights campaigners, between mental illness and disability. That is a step backwards and a dangerous error.

It fails, on empty homes, to put the requisite support in. Instead of replicating what happens on the other side of the border, to be seen to do different it has brought in a system that can work, but unfortunately opens the door to local authorities to bring in the big stick too soon.

Yn hytrach, rydym yn cael rheoleiddio gwrth-fusnes ar gyfer pob landlord, yn taro buddsoddi a chyflenwi, yn hytrach na gorfodaeth wedi'u thargedu yn erbyn landlordiaid gwael a throseddol a chefnogaeth i'r tenantiaid yr effeithir arnynt waethaf, fel eu bod yn gwybod sut i wneud cais, i ble ac at bwy i fynd, gan wybod y byddant yn cael eu hamddiffyn os byddant yn gwneud hynny.

Fel y, dywedodd yr ymgyrch Let Down in Wales, cynghrair sy'n ymgyrchu ar ran rhentwyr preifat,

Mae Bil Tai (Cymru) yn cynnig rheoleiddio gwirfoddol a hyfforddiant ar gyfer landlordiaid, gyda "disgwyliad"

y bydd landlordiaid yn bodloni rhai safonau sylfaenol ond,

Dyma'r UNIG beth sy'n newid ar gyfer tenantiaid, ac rydym yn gwadu y byddai unrhyw hyder yn y system hon.

Dywedodd y Gymdeithas Landlordiaid Preswyl ei bod yn cefnogi'r nod o godi safonau a chael gwared ar landlordiaid gwael, ond nad yw'n credu y bydd y cynllun arfaethedig yn cyflawni'r amcanion hyn. Yn groes i honiad y Gweinidog nad oedd wedi cynnig ffordd arall o nodi landlordiaid, roedd y papur briffio a gynhyrchodd yn sicr yn gwneud hynny.

Dywedodd y Gymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad y byddai mabwysiadu'r cynllun hwn felly ond yn gweithredu fel tâp coch a biwrocratiaeth ychwanegol, gan lesteirio economi Cymru a pheryglu cyflenwad o dai rhent preifat mawr ei angen. Dywedodd Cymdeithas Genedlaethol y Landlordiaid mai'r hyn yr ydym ei angen yn nhermau buddsoddi, i ddarparu cartrefi o ansawdd y gall pobl fforddio eu rhentu, yw partneriaeth fenter gymdeithasol wirioneddol rhwng y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector y mae wedi bod yn ei chynnig ers blynnyddoedd. Mae'n dweud wrthyf na chafodd groeso brwd, er gwaethaf ei chynnig parod o arbenigedd.

Mae'r Bil hyd yn oed yn methu â chydabod y gwir ddiffiniad o anabledd a'r gwahaniaeth, y brwydrwyd drosto dros genedlaethau gan ymgyrchwyr hawliau anabledd, rhwng salwch meddwl ac anabledd. Mae hynny'n gam yn ôl ac yn wall peryglus.

Mae'n methu, ar gartrefi gwag, â rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol i mewn. Yn hytrach na dyblygu beth sy'n digwydd ar ochr arall y ffin, er mwyn cael ei weld yn gwneud yn wahanol, mae wedi dod â system a all weithio, ond sydd yn anffodus yn agor y drws i awdurdodau lleol i ddefnyddio ffon fawr yn rhy fuan.

In terms of second homes, we have seen, basically, a wealth tax that will not generate additional supply for people who need affordable homes in their communities. It is crude and clumsy; it is vindictive; it does not protect people with tied accommodation; it does not protect people whose main home may be in Wales; it does not protect even priests in the Church in Wales; and it fails to recognise second-home owners who are already paying full council tax for subsidised local services that they are not there for. If the Minister confirms that protection for vicars and others will be there, I welcome that, but it is not on the face of the Bill.

O ran ail gartrefi, rydym wedi gweld, yn y bôn, treth gyfoeth na fydd yn creu cyflenwad ychwanegol ar gyfer pobl sydd angen tai fforddiadwy yn eu cymunedau. Mae'n amrwd a lletchwith; mae'n faleisus; nid yw'n diogelu pobl sydd â llety clwm; nid yw'n diogelu pobl y gall eu prif gartref fod yng Nghymru; nid yw'n diogelu hyd yn oed offeiriad yn yr Eglwys yng Nghymru; ac mae'n methu â chydabod perchnogion ail gartrefi sydd eisoes yn talu treth gyngor lawn ar gyfer gwasanaethau lleol â chymhorthdal nad ydynt yno ar eu cyfer. Os yw'r Gweinidog yn cadarnhau y bydd amddiffyniad i ficeriaid ac eraill yno, rwy'n croesawu hynny, ond nid yw ar wyneb y Bil.

We do, of course, acknowledge measures—

Rydym yn, wrth gwrs, yn cydnabod mesurau—

17:52

Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

I am keen to preserve the rights of the minority, but you must come to a conclusion now.

Rwy'n awyddus i ddiogelu hawliau'r lleiafrif, ond mae'n rhaid i chi ddod i ben yn awr.

17:52

Mark Isherwood [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Okay. Although we acknowledge measures to tackle homelessness, we cannot support the Bill. A true measure of good business practice is KISS analysis, which means, keep it simple, stupid. Sadly, the Welsh Government, once again, has inverted the 'SS'.

lawn. Er ein bod yn cydnabod mesurau i fynd i'r afael â digartrefedd, ni allwn gefnogi'r Bil. Gwir fesur o arferion busnes da yw dadansoddiad KISS, sy'n golygu, keep it simple, stupid. Yn anffodus, mae Llywodraeth Cymru, unwaith eto, wedi gwrthdroi'r 'SS'.

17:52

Jocelyn Davies [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

[Senedd.tv](#)
[Fideo](#) [Video](#)

Unlike the Tories, Plaid Cymru will be supporting this Bill today. This Bill, I think, has attracted considerable interest, and we have been very fortunate to have significant expertise from our housing sector assisting us. I would like to put my gratitude to the sector on the record. I think that the sector has engaged with us and with the Government in the most positive and productive way, and its contribution has been invaluable.

Yn wahanol i'r Toriaid, bydd Plaid Cymru yn cefnogi'r Bil hwn heddiw. Mae'r Bil hwn, rwy'n credu, wedi denu cryn ddiddordeb, ac rydym wedi bod yn ffodus iawn o gael arbenigedd sylweddol gan ein sector tai i'n cynorthwyo ni. Hoffwn roi fy nioch i'r sector ar y cofnod. Credaf fod y sector wedi ymgysylltu â ni a chyda'r Llywodraeth yn y ffordd fwyaf cadarnhaol a chynhyrchiol, ac mae ei gyfraniad wedi bod yn amhrisiadwy.

I have spent much of the last eight months, since the Bill was introduced, criticising it and criticising the Minister for it. It is something, I think, that he was starting to get rather fond of. However, the White Paper promised a more radical way forward that signalled that the principles of social justice were alive and well and I have been disappointed that the Bill has not lived up to that vision. I have not changed my view on that.

Rwyf wedi treulio llawer o'r wyth mis diwethaf, ers i'r Bil gael ei gyflwyno, yn ei feirniadu ac yn beirniadu'r Gweinidog amdano. Mae'n rhywbeth, rwy'n meddwl, yr oedd yn dechrau mynd braidd yn hoff ohono. Fodd bynnag, roedd y Papur Gwyn yn addo ffordd fwy radical ymlaen sy'n arwydd bod egwyddorion cyfiawnder cymdeithasol yn fyw ac yn iach, ac rwyf wedi fy siomi nad yw'r Bil wedi gwireddu'r weledigaeth honno. Nid wyf wedi newid fy marn ar hynny.

There are many ways that the Bill falls short of the progressive legislation that we were promised, but I feel that I must acknowledge that the Minister has given suggested changes serious consideration and has been open to criticism. I am grateful for that. Some amendments have even been accepted. Others have been replaced by Government amendments that achieve the same aims, and this is hugely positive. However, I hope that the Minister will agree to discuss further with me, perhaps, the issue of mandatory electrical safety checks within the private rented sector, as I think that this is something that could be revisited in the future.

Mae nifer o ffyrdd y mae'r Bil yn brin o fod y ddeddfwriaeth flaengar a addawyd, ond rwy'n teimlo bod rhaid i mi gydnabod fod y Gweinidog wedi rhoi ystyriaeth ddifrifol i newidiadau a awgrymwyd ac wedi bod yn agored i feirniadaeth. Rwy'n ddiolchgar am hynny. Mae rhai gwelliannau wedi cael eu derbyn hyd yn oed. Mae eraill wedi cael eu disodli gan welliannau'r Llywodraeth sy'n cyflawni'r un nodau, ac mae hyn yn hynod gadarnhaol. Fodd bynnag, rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn cytuno i drafod ymhellach gyda mi, efallai, y mater o archwiliadau diogelwch trydanol gorfodol o fewn y sector rhentu preifat, gan fy mod yn credu bod hyn yn rhywbeth y gellid ei ailystyried yn y dyfodol.

Now for something completely different, because most of you know that I missed my Monty Python concert last Tuesday: on homelessness, I am pleased that young people will now be more sympathetically treated, and I am delighted that care leavers will get additional support to help them to maintain their tenancies up to the age of 25. I hope that this will make a huge difference in homelessness prevention, and for a group of people—I think that we would all agree—who can be extremely vulnerable. I think that that was worth staying here for last Tuesday.

We should acknowledge again the efforts of a whole range of outside organisations that helped to promote that as an idea. There are many good things in the Bill. After initial reservations, I have changed my mind on compulsory registration for landlords and letting agents, although there is some room for improvement. I was also interested to read Let Down in Wales's proposals, although it did not suggest that we should have less regulation; in fact, it was the opposite, I thought. It was calling for the proposal of a housing ombudsman to hold landlords and letting agents to account for bad behaviour and poor conditions, and I hope that the Minister will remain open-minded about exploring ways that the Bill can be strengthened further in the future. Acts are often refined and amended over time, and I hope that this suggestion is not dismissed out of hand.

So, the homelessness provisions are a step in the right direction, although I still have serious concerns about some of the detail. The Bill's focus on prevention is highly commendable, and this law will no doubt be subject to additions and repeals over the years to come. I think that we will all welcome the day that intentionality and priority need are banished for good. Sadly, today is not that day, but we certainly will be supporting this Bill.

17:56

Peter Black [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The Welsh Liberal Democrats will also be supporting the Bill, although Mark Isherwood nearly persuaded me the other way—no. [Laughter.]

I join Jocelyn in thanking the housing sector for its contribution to this Bill. Its representatives made an invaluable set of proposals that came to the committee and to individual Members and led to some amendments to the Bill. I think that we also need to thank the Minister for being open-minded enough to listen to those arguments and for accepting amendments to the Bill. The Bill is not exactly as I wanted it, or as Jocelyn wanted it either; there are further amendments that I wanted to see in there, but I think that we have to recognise that it is a different Bill from the one that came before the committee at the beginning, and amendments were accepted to it and changes were made to it as the Minister listened to the arguments and took on board those that he felt able to accommodate. As I said, there were other things that needed to go in there in my view, but, you know, the Bill is getting there and, like Jocelyn, I think that we have a potentially good Bill that can make a big difference in Wales. Certainly, however, we do need to look at further issues for future legislation as well.

Nawr am rywbeth hollol wahanol, gan fod y rhan fwyaf ohonoch yn gwybod fy mod wedi colli fy nghyngedd Monty Python ddydd Mawrth diwethaf: ar ddiartrefedd, rwy'n falch y bydd pobl ifanc bellach yn cael eu trin â mwy o gydymdeimlad, ac rwy'n falch iawn y bydd y rhai sy'n gadael gofal yn cael cymorth ychwanegol i helpu i gynnal eu tenantiaethau hyd at 25 oed. Rwy'n gobeithio y bydd hyn yn gwneud gwahaniaeth enfawr i atal digartrefedd, ac ar gyfer grŵp o bobl—rwy'n meddwl y byddem i gyd yn cytuno—a all fod yn hynod o agored i niwed. Rwy'n meddwl bod hynny yn werth aros yma amdano ddydd Mawrth diwethaf.

Dylem gydnabod eto ymdrechion amrywiaeth eang o sefydliadau allanol a helpodd i hyrwyddo hynny fel syniad. Mae llawer o bethau da yn y Bil. Ar ôl amheuron cychwynnol, rwyf wedi newid fy meddwl ar gofrestru gorffodol i landlordiaid ac asiantau gosod, er bod rhywfaint o le i wella. Roedd gennyf ddiddordeb hefyd mewn darllen cynigion Let Down in Wales, er nad oedd yn awgrymu y dylem gael llai o reoleiddio; i'r gwrthwyneb mewn gwirionedd, yn fy meddwl i. Roedd yn galw am gynnyg o ombwdsmon tai i ddwyn landlordiaid ac asiantau gosod i gyfrif am ymddygiad drwg ac amodau gwael, ac rwy'n gobeithio y bydd y Gweinidog yn parhau i fod yn agored ei feddwl am edrych ar ffyrdd y gellir cryfhau'r Bil ymhellach yn y dyfodol. Mae deddfau yn aml yn cael eu mireinio a'u diwygio dros gyfnod o amser, ac rwy'n gobeithio na fydd yr awgrym hwn yn cael ei ddiystyru yn llwyr.

Felly, mae'r darpariaethau digartrefedd yn gam yn y cyfeiriad cywir, er bod gennyf bryderon difrifol o hyd am rai o'r manylion. Mae pwyslais y Bil ar atal yn glodwif iawn, ac nid oes amheuaeth y bydd y gyfraith hon yn destun ychwanegiadau a diddymiaidau dros y blynyddoedd i ddod. Rwy'n meddwl y byddwn i gyd yn croesawu'r diwrnod pan fydd bwriadoldeb ac angen blaenoriaethol yn cael eu halltudio am byth. Yn anffodus, nid heddiw yw'r diwrnod hwnnw, ond rydym yn sicr yn cefnogi'r Bil hwn.

Bydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru hefyd yn cefnogi'r Bil, er bod Mark Isherwood bron wedi fy mherswadio y ffordd arall—na. [Chwerthin.]

Ymunaf â Jocelyn i ddiolch i'r sector tai am ei gyfraniad i'r Bil hwn. Gwnaeth ei gynrychiolwyr gyfres amhrisiadwy o gynigion a ddaeth i'r pwyllgor ac i Aelodau unigol ac a arweiniodd at rai gwelliannau i'r Bil. Credaf fod angen i ni hefyd ddiolch i'r Gweinidog am fod yn ddigon agored ei feddwl i wrando ar y dadleuon hynny ac am dderbyn gwelliannau i'r Bil. Nid yw'r Bil yn union fel yr oeddwn eisiau iddo fod, na fel yr oedd Jocelyn eisiau iddo fod ychwaith; mae gwelliannau pellach yr oeddwn yn dymuno eu gweld yno, ond rwy'n meddwl bod yn rhaid inni gydnabod ei fod yn Fil gwahanol i'r un a ddaeth gerbron y pwyllgor ar y dechrau, a chafodd gwelliannau eu derbyn iddo a gwnaed newidiadau iddo wrth i'r Gweinidog wrando ar y dadleuon a derbyn y rhai yr oedd yn teimlo y gallai eu cynnwys. Fel y dywedais, roedd pethau eraill yr oedd angen mynd i mewn yna yn fy marn i, ond, wyddoch chi, mae'r Bil yn cyrraedd yno ac, fel Jocelyn, credaf fod gennym Fil a allai fod yn dda ac a all wneud gwahaniaeth mawr yng Nghymru. Yn sicr, fodd bynnag, mae angen inni edrych ar faterion eraill ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol yn ogystal.

Senedd.tv
[Fideo Video](#)

I just want to touch on a few issues in the Bill. In terms of the private rented sector, like Jocelyn, I was not convinced at the beginning. We listened to the evidence in the committee, and that evidence in the committee convinced me, as it did Jocelyn and others, that that was the right way forward. As I said when we were at Stage 3, if you have a compulsory registration and licensing scheme, then those who do not register will be the ones who are the bad landlords, and it is easier to find them that way than if you rely on a voluntary scheme in which some of the good landlords also might not register. It is much easier to root out the bad landlords with a compulsory scheme. I think that, for that reason, I supported it.

The section 41 guidance is going to be absolutely crucial here, and I would be grateful if the Minister could indicate whether we can actually have a pre-scrutiny look at that guidance in the committee. Jocelyn has also already highlighted the issue of electrical safety, which I think is a key issue for me and other members of the committee, as were carbon monoxide detectors. Also, there is the issue of how we can use that guidance to improve the quality of the private rented sector. Some pre-scrutiny by the committee would certainly help to put some input into that as part of that.

Again, I met representatives of the Let Down in Wales campaign and, as Jocelyn said, they do want more regulation, not less. I think that the important issue, however—and this is an issue that you may be able to take up in the next housing Bill—is one that they raised, and that is a compulsory redress scheme for private tenants, in the same way as you have in England and in Scotland. More protection for private tenants would be very helpful, and it is certainly something that we need to look at in future legislation when the next Bill comes before us.

On homelessness, I absolutely agree that prevention is the way forward. The emphasis on prevention in this Bill is absolutely right and certainly the way forward on that. I remain disappointed and concerned about the changes to the priority need for ex-prisoners. I think that, unless you get the rehabilitation side right—and we have not been able to do that so far—that is going to cause more reoffending on the part of that particular group, and we certainly need to look at that. I also think that, in terms of the ability for local authorities to discharge to the private rented sector, we need to look at the sustainability of those tenancies as well. Again, I look to the Minister to monitor that and to take action if that causes a problem.

Finally, in terms of the council tax and second homes, we did support that, but, again, the Minister has indicated that he will consult on guidance and that he will recognise that there are major concerns about the impact on tied homes particularly, and we need to have that matter addressed as part of that guidance.

Rwyf eisiau crybwyll rhywfaint o faterion yn y Bil. O ran y sector rhentu preifat, fel Jocelyn, nid oeddwn yn argyhoeddedig ar y dechrau. Gwrandawsom ar y dystiolaeth yn y pwyllgor, ac fe wnaeth y dystiolaeth honno yn y pwyllgor fy argyhoeddi, fel yr argyhoeddodd Jocelyn ac eraill, mai dyna oedd y ffordd gywir ymlaen. Fel y dywedais pan oeddem yng Nghyfnod 3, os oes gennych gofrestru gorfodol a chynllun trwyddedu, yna y rhai nad ydynt yn cofrestru fydd y rhai sy'n landlordiaid drwg, ac mae'n haws dod o hyd iddynt yn y modd hwnnw yn hytrach na dibynnu ar gynllun gwirfoddol lle gallai rhai o'r landlordiaid da beidio â chofrestru ychwaith. Mae'n llawer haws canfod landlordiaid gwael gyda chynllun gorfodol. Credaf fy mod wedi ei gefnogi, am y rheswm hwnnw, .

Mae arweiniad adran 41 yn mynd i fod yn hollbwysig yma, a byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Gweinidog nodi pa un a allwn mewn gwirionedd gael golwg cyn craffu ar y canllawiau yn y pwyllgor. Mae Jocelyn eisoes hefyd wedi tynnu sylw at y mater o ddiogelwch trydanol, rwy'n meddwl sy'n fater allweddol i mi ac aelodau eraill y pwyllgor, fel yr oedd synwryddion carbon monocsid. Hefyd, ceir y mater o sut y gallwn ddefnyddio'r canllawiau i wella ansawdd y sector rhentu preifat. Byddai rhywfaint o graffu ymlaen llaw gan y pwyllgor yn bendant yn helpu i roi rhywfaint o gyfraniad at hynny yn rhan o hynny.

Unwaith eto, cyfarfûm â chynrychiolwyr o'r ymgyrch Let Down in Wales ac, fel y dywedodd Jocelyn, maent yn dymuno cael mwy o reoleiddio, nid llai. Rwy'n credu mai'r mater pwysig, fodd bynnag—ac mae hyn yn fater y gallech fod yn gallu ei ystyried yn y Bil tai nesaf—yw un a godwyd ganddynt, sef cynllun gwneud iawn gorfodol ar gyfer tenantiaid preifat, yn yr un modd ag sydd gennych yn Lloegr ac yn yr Alban. Byddai mwy o ddiogelwch ar gyfer tenantiaid preifat yn ddefnyddiol iawn, ac mae'n sicr yn rhywbeth y mae angen inni edrych arno mewn deddfwriaeth yn y dyfodol pan ddaw'r Bil nesaf ger ein bron.

Ar ddiartrefedd, rwy'n cytuno'n llwyr mai atal yw'r ffordd ymlaen. Mae'r pwyslais ar atal yn y Bil hwn yn gwbl gywir ac yn sicr y ffordd ymlaen ar hynny. Rwy'n dal yn siomedig ac yn bryderus ynghylch y newidiadau i'r angen blaenoriaethol i gyn-garcharorion. Credaf, oni bai eich bod yn cael yr ochr adsefydlu'n iawn—ac nid ydym wedi gallu gwneud hynny hyd yn hyn—bod hynny'n mynd i achosi mwy o aildroseddu ar ran y grŵp penodol hwnnw, ac yn sicr mae angen inni edrych ar hynny. Credaf hefyd, o ran y gallu i awdurdodau lleol i ryddhau i'r sector rhentu preifat, fod angen inni edrych ar gynaliadwyedd y tenantiaethau hynny yn ogystal. Unwaith eto, rwy'n disgwyl i'r Gweinidog fonitro hynny ac i gymryd camau os yw hynny'n achosi problem.

Yn olaf, o ran y dreth gyngor ac ail gartrefi, rydym yn cefnogi hynny, ond, unwaith eto, mae'r Gweinidog wedi dweud y bydd yn ymgynghori ar ganllawiau ac y bydd yn cydnabod bod pryderon mawr am yr effaith ar gartrefi clwm yn benodol, ac mae angen mynd i'r afael â'r mater hwnnw fel rhan o'r arweiniad hwnnw.

In summary, I think that this is a reasonably good Bill that we can support and vote for today. I think that it will make a difference to the housing sector in Wales, and I think that we can build on it for future legislation.

I grynhoi, rwy'n meddwl bod hwn yn Fil rhesymol o dda y gallwn ei gefnogi a phleidleisio drosto heddiw. Rwy'n credu y bydd yn gwneud gwahaniaeth i'r sector tai yng Nghymru, ac rwy'n credu y gallwn ei ddatblygu ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol.

17:59 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

I call the Minister to reply.

Galwaf ar y Gweinidog i ateb.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

17:59 **Carl Sargeant** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Y Gweinidog Tai ac Adfywio / The Minister for Housing and Regeneration

We have a great housing sector across Wales. I have a fantastic drafting team, some of whom are in the public gallery today. I thank Peter Black and Jocelyn Davies, and their respective parties, for shaping the Bill and supporting its passage.

Mae gennym sector tai gwych ar draws Cymru. Mae gen i dîm drafftio ardderchog, rhai ohonynt yn yr oriel gyhoeddus heddiw. Diolch i Peter Black a Jocelyn Davies a'u pleidiau, am lunio'r Bil a chefnogi ei daith.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

It is with regret that I note that the Conservatives are not able to support protecting the private rented sector and standing up for the rights of tenants and students, as suggested by Shelter Cymru and the National Union of Students in Wales. The Conservatives have failed to support the homelessness provisions that this Bill will change in terms of prevention in order to support the most vulnerable in our communities. Indeed, that is supported by those in the sector, such as Gofal and the Welsh Local Government Association.

Mae'n ddrwg gennyf nodi nad yw'r Ceidwadwyr yn gallu cefnogi amddiffyn y sector rhentu preifat a sefyll dros hawliau tenantiaid a myfyrwyr, fel yr awgrymwyd gan Shelter Cymru ac Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr yng Nghymru. Mae'r Ceidwadwyr wedi methu â chefnogi'r darpariaethau digartrefedd y bydd y Bil hwn yn eu newid o ran atal er mwyn cefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau. Yn wir, mae hynny'n cael ei gefnogi gan y rhai yn y sector, megis Gofal a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Mark Isherwood is unable to support this, along with his colleagues—they are not supporting the exit of local authorities from the housing revenue account subsidy system in order to build new council properties and to create better standards for our communities across Wales. The Conservatives have let Wales down in not supporting this made-in-Wales solution in terms of the first made-in-Wales housing Bill. I commend the motion, Deputy Presiding Officer.

Nid yw Mark Isherwood yn gallu cefnogi hyn, ynghyd â'i gydweithwyr—nid ydynt yn cefnogi ymadawiad awdurdodau lleol o system cymhorthdal y cyfrif refeniw tai er mwyn adeiladu tai cyngor newydd a chreu gwell safonau ar gyfer ein cymunedau ledled Cymru. Mae'r Ceidwadwyr wedi gadael Cymru i lawr drwy beidio â chefnogi'r ateb hwn a wnaed yng Nghymru o ran y Bil tai cyntaf a wnaed yng Nghymru. Rwy'n cymeradwyo'r cynnig, Ddirprwy Lywydd.

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? There is objection. Therefore, I defer voting until voting time.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwrthwynebiad. Felly, gohiriaf y bleidlais tan yr amser pleidleisio.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.

Voting deferred until voting time.

18:01 **Cyfnod Pleidleisio**

Voting Time

Y Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Before I take the vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Cyn i mi gymryd y bleidlais, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes.

[Canlyniad y bleidlais ar y cynnig.](#)

[Result of the vote on the motion.](#)

Derbyniwyd y cynnig: O blaid 41, Yn erbyn 12, Ymatal 0.

Motion agreed: For 41, Against 12, Abstain 0.

18:01 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

That concludes today's business.

Dyna ddiwedd busnes heddiw.

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Daeth y cyfarfod i ben am 18:01.

The meeting ended at 18:01.

